

Cystadleurwydd a Chyflogaeth Rhanbarthol – ESF

Ewrop a Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol



Dwyrain Cymru
Rhaglen Cystadleurwydd a
Chyflogaeth Rhanbarthol

Rhaglen Weithredol
ar gyfer Cronfa
Gymdeithasol Ewrop

2007-2013


UNDEB
EWROPEAIDD
EUROPEAN
UNION



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

Cymru



© Hawlfraint y Goron 2006

Seilir ar wybodaeth a ddarparwyd gan Lovell Johns Cyf. Rhydychen

Cartograffeg : Llywodraeth Cynulliad Cymru : ML/3/06.07/econ init



Wedi ei argraffu ar ddeunydd sy'n cynnwys 75%
o wastraff defnyddwyr a 25% o fwydion ECF/TCF

G/MH/2716/12-07
ISBN 978 0 7504 4437 8

Rhagfyr
CMK-22-03-105

Cysodwyd mewn teip 12pt
© Hawlfraint y Goron 2007

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

Dwyrain Cymru

**Rhaglen Cystadleurwydd a
Chyflogaeth Rhanbarthol**

**Rhaglen Weithredol ar gyfer Cronfa
Gymdeithasol Ewrop**

2007 – 2013

Rhif CCI: 2007UK052PO001

16 Hydref 2007

Cynnwys y Rhaglen Weithredol

<i>Pennod</i>	<i>Tudalen</i>
CRYNODEB GWEITHREDOL	i
1 CYFLWYNIAD	1
2 DADANSODDIAD	3
3 Y STRATEGAETH	61
4 BLAENORIAETHAU	105
5 THEMÂU TRAWSBYNCIOL	131
6 DARPARIAETHAU GWEITHREDU	141
7 DYRANIADAU ARIANNOL	173

Atodiadau¹

Atodiad A	- Adroddiad Ymatebion i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus
Atodiad B	- Dadansoddiad a Matrics Cyfleoedd Cyfartal
Atodiad C	- Matrics Cynladwyedd Amgylcheddol
Atodiad CH	- Adroddiad Gwersi a Ddysgwyd
Atodiad D	- Adroddiad Gwerthuso <i>Ex Ante</i>
Atodiad DD	- Organogram Llywodraeth Cynulliad Cymru
Atodiad E	- Rhestr Ddynodol o Fframweithiau Strategol
Atodiad F	- Cyfrifoldebau'r Cydlynnydd Fframwaith Strategol
Atodiad FF	- Llifoedd a Rheolaethau Ariannol
Atodiad G	- Crynodeb o'r Cynllun Monitro a Gwerthuso
Atodiad NG	- Dangosyddion
Atodiad H	- Adroddiad Gwersi a Ddysgwyd o'r Themâu Trawsbynciol

¹ Mae'r atodiadau ar gael yn electronig ar wefan WEFO: www.wefo.cymru.gov.uk

Rhestr o Ffigurau a Thablau'r Rhaglen Weithredol

Ffigur 1	Map o ardal Rhaglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol Dwyrain Cymru Tudalen	5
Ffigur 2	Dadansoddiad o'r gwahaniaethau GYC y pen ar draws Cymru o'i gymharu â chyfartaledd y DU, cyfartaledd 2001 - 2003.....	7
Ffigur 3	Amrywiaeth pwynt canran rhaniad grŵp oed proffil oed poblogaeth, Dwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd o'i gymharu â chyfartaledd Cymru, 2004.....	10
Ffigur 4	Amrywiaeth pwynt canran rhaniad grŵp oed proffil oed poblogaeth, Cymru o'i gymharu â chyfartaledd yr UE.....	11
Ffigur 5	Dadansoddiad oed o safbwynt newid poblogaeth, 1991 - 2004	12
Ffigur 6	Dadansoddiad awdurdodau lleol o newid poblogaeth, 2001 - 2004	14
Ffigur 7	Cynnydd yn erbyn targedau Lisboa 2005 a 2010	18
Ffigur 8	Graddfeydd cyflogaeth fesul awdurdod lleol.....	21
Ffigur 9	Graddfeydd anweithgarwch economaidd fesul awdurdod lleol	22
Ffigur 10	Graddfeydd anweithgarwch economaidd fesul rheswm a roddwyd, 2004.....	23
Ffigur 11	Nifer sy'n economaidd anweithgar yng Nghymru dros gyfartaledd graddfeydd anweithgarwch y DU fesul grŵp, rhyw a rheswm, 2003.....	25
Ffigur 12	Mynediad ar fws a cherdded i ganolfannau cyflogaeth allweddol ...	27
Ffigur 13	Graddfa cyflogaeth gweithwyr hŷn.....	33
Ffigur 14	Enillion wythnosol gros cyfartalog	34
Ffigur 15	Cymwysterau / sgiliau a osodwyd	39
Ffigur 16	Graddfeydd anweithgarwch economaidd fesul cymhwyster uchaf, 2004 (canran o'r boblogaeth oed gweithio).....	42
Ffigur 17	Swyddi'r gweithlu sifil.....	47
Ffigur 18	Mynegai amddifadiad lluosog cyffredinol.....	51
Ffigur 19	Mynediad at wasanaethau.....	53
Ffigur 20	Amddifadiad amgylcheddol corfforol.....	55

Ffigur 21	Cyswllt rhwng Rhaglenni Gweithredol, CSG a Chanllawiau Integredig.....	69
Ffigur 22	Cyswllt rhwng amcanion CSG ac ESF ac ERDF Rhanbarthol – Blaenoriaethau Cystadleurwydd a Chyflogaeth	70
Ffigur 23	Map ardaloedd Cynllun Gofodol Cymru.....	77
Ffigur 24	Map Polisi Cymru.....	79
Ffigur 25	Map Strategaethau Allweddol.....	80
Ffigur 26	Strwythurau cydweithredu a gweithredu Cynllun Gofodol Cymru ..	148
Ffigur 27	Strwythur Pwyllgorau arfaethedig	150
Ffigur 28	Gosod meini prawf dethol a blaenoriaeth	154
Ffigur 29	Cymhwyso meini prawf dethol a blaenoriaeth	155
Ffigur 30	Arwyddion ffitiad cymhwyster a fframwaith	156
Tabl 1	Cyfraniad y ffactorau sy'n esbonio gwahaniaethau GYC y pen, canran o'r bwlch cyfan	8
Tabl 2	Poblogaeth fesul grŵp oed, 2004	9
Tabl 3	Newid poblogaeth ers 1981	11
Tabl 4	Cydrannau newid poblogaeth, 2001 - 2004	13
Tabl 5	Dadansoddiad ardal cyfartaledd blynyddol tueddiadau mudo net, 2002 - 04	15
Tabl 6	Crynodeb marchnad lafur, cymhariaeth UE25 (canran).....	17
Tabl 7	Crynodeb marchnad lafur	20
Tabl 8	Canran yr oedolion sy'n riportio salwch / cyflyrau dethol	24
Tabl 9	Crynodeb marchnad lafur, gwahaniaethu fesul anabledd ac ethnigrwydd (canran)	30
Tabl 10	Graddfeydd cyflogaeth fesul rhyw ac oed.....	32
Tabl 11	Graddfeydd cyflogaeth fesul cymhwyster uchaf, Cymru	37
Tabl 12	Lefelau cymwysterau uchaf sydd gan unigolion o oed gweithio, canran o'r boblogaeth oed gweithio	40

Tabl 13	Lefelau cymwysterau uchaf sydd gan unigolion o oed gweithio, fesul rhyw, canran o'r boblogaeth oed gweithio, 2004	41
Tabl 14	Cyrhaeddiad disgyblion ym mlwyddyn olaf addysg orfodol (canran) canlyniadau arfaethedig 2005/06	43
Tabl 15	Cyrhaeddiad disgyblion 17 mlwydd oed ar ddechrau blwyddyn academiaidd 2005 / 06	44
Tabl 16	Cyfranogiad mewn dysgu gydol oes, 2004	45
Tabl 17	Cyflogaeth mewn diwydiannau technoleg uwch a chanol uwch a gwasanaethau gwybodaeth dwys, canran o'r holl gyflogaeth	48
Tabl 18	Risg o fod mewn grwpiau incwm isel ar ôl costau tai, canran (cyfartaledd 3 blynedd dreigl 2002 / 03 – 2004 / 05).....	49
Tabl 19	Nifer a chanran LSOA o fewn pob awdurdod lleol sydd ymysg y mwyaf difreintiedig (10%, 20%, 30% neu 50%) yng Nghymru.....	52
Tabl 20	SWOT Dwyrain Cymru	56
Tabl 21	Heriau Dwyrain Cymru sy'n destun Rhaglenni Gweithredol ERDF ac ESF	64
Tabl 22	Canllawiau Strategaethau Cymunedol sy'n destun Rhaglenni Gweithredol ERDF ac ESF	68
Tabl 23	Blaenoriaeth 1 – Cyfraniad y flaenoriaeth i flaenoriaethau polisi'r UE a'r DU	83
Tabl 24	Blaenoriaeth 2 – Cyfraniad y flaenoriaeth i flaenoriaethau polisi'r UE a'r DU	84
Tabl 25	Dangosyddion Tracio Lefel Rhaglen.....	94
Tabl 26	Dangosyddion lefel rhaglen	95
Tabl 27	Ymatebion Ymgynghoriad Cyhoeddus fesul Sector.....	102
Tabl 28	Blaenoriaeth 1 – Dangosyddion a thargedau.....	111
Tabl 29	Blaenoriaeth 2 – Dangosyddion a thargedau.....	122
Tabl 30	Aelodaeth gynrychiolaidd o'r PMC fesul sefydliad sector	150
Tabl 31	Rhaglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth ESF Dwyrain Cymru 2007 - 2013 - echelinau blaenoriaeth fesul ffynhonnell gyllid (mewn miliynau o ewros).....	176

Tabl 32	Rhaglen Weithredol Cystadleurwydd a Chyflogaeth ESF Rhanbarthol Dwyrain Cymru 2007 - 2013 – Blwyddyn fesul ffynhonnell ar gyfer y rhaglen (mewn miliynau o ewros).....	177
Tabl 33	Dyraniadau arfaethedig fesul categori ymyriad.....	178

CRYNODEB GWEITHREDOL

Cyflwyniad

Mae cytundeb y Cyngor Ewropeaidd a Senedd Ewropeaidd ar gyllideb yr UE ar gyfer 2007-2013 yn golygu y bydd Dwyrain Cymru'n derbyn cyllid "Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol" - y lefel uchaf ond un o gefnogaeth sydd ar gael dan rownd nesaf rhaglen y Gronfa Strwythurol. Mae hyn yn rhoi cyfle sylweddol i Ddwyrain Cymru adeiladu ar y cynnydd arwyddocaol iawn a wnaed dan raglen Amcan 3 2000-2006 er mwyn cwblhau'r trawsffurfiad o ranbarth sy'n dioddef problemau economaidd hirdymor i economi gref a chynaliadwy.

Bydd y rhanbarth yn derbyn cyfanswm o €136 miliwn i gefnogi rhaglenni Gallu i Gystadlu a Chyflogaeth werth €338 miliwn. Bydd y rhaglen Gallu i Gystadlu a Chyflogaeth ESF yn derbyn cyllid Cymunedol werth €64 miliwn (47% o'r cyfanswm) Pan gyfunir hyn gyda chyllid cyhoeddus a phreifat, bydd y rhaglen yn darparu €158 miliwn i hybu twf a swyddi yn ystod y cyfnod 2007-2013.

Gweledigaeth

Ein gweledigaeth ar gyfer Dwyrain Cymru yw creu economi uwch sgiliau sy'n cael ei gyrru gan wybodaeth, gyda chyflogaeth iawn, gweithlu galluog a hyblyg, a rhanbarth gyda datblygiad economaidd cynaliadwy a blaengar.

Ein huchelgais yw i Ddwyrain Cymru fod yn flaenllaw yn ymgyrch yr UE i fod yn ddylanwad da o safbwynt cynnydd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i weddill y byd. Bydd Dwyrain Cymru'n enghraifft safon byd o ranbarth o 1.01 miliwn o bobl, ar ymyl ddaearyddol Ewrop, ond yn ffynnu mewn marchnadoedd byd cystadleuol ac yn cynnig amgylchedd o safon byd lle gall pobl fyw, gweithio a chwarae.

Dadansoddiad

Mae Dwyrain Cymru'n perfformio'n dda mewn cymhariaeth â gweddill Cymru yn erbyn bron bob un o'r prif ddangosyddion economaidd. Wedi ei gefnogi'n rhannol gan y cylch cyfredol o gronfeydd strwythurol, mae Dwyrain Cymru'n dangos arwyddion gwelliannau amlwg dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r prif Werth Ychwanegol Crynswth y pen ar draws Dwyrain Cymru'n uwch na chyfartaledd Cymru, yn cael ei ysgogi gan lwyddiant Caerdydd a de-ddwyrain Cymru. Mae'r farchnad lafur wedi gwella'n gyflym yn y blynyddoedd diwethaf gyda chyflogaeth yn codi, anweithgarwch economaidd yn syrthio ac enillion uwch na chyfartaledd Cymru'n gyffredinol. Mae'r isranbarth hefyd wedi gweld cynnydd mewn poblogaeth, yn tynnu sylw at yr ardal fel lle atyniadol i fyw ac yn ychwanegu at weithlu potensial yr isranbarth.

Mae'r cryfderau hyn yn cynnig cyfleoedd sylweddol ac yn gweithredu fel ysgogiad pwysig i economi Cymru'n gyfan. Bydd yn hanfodol adeiladu ar y cyfraniad mae Dwyrain Cymru'n ei gynnig, trwy well cyfleoedd cyflogaeth, a GYC cymharol uchel, i gefnogi twf i'r dyfodol nid yn unig yn yr isranbarth ond hefyd yng Ngorllewin

Cymru a'r Cymoedd. Bydd cynyddu gwerth ychwanegol a chynhyrhaeth yr isranbarth hefyd yn gwneud llawer i gau'r bwlch rhwng Cymru a'r DU.

Er bod cyflogaeth yn gyffredinol wedi cynyddu'n arwyddocaol yn Nwyrain Cymru, mae llawer i'w wneud o hyd i ostwng gwahaniaethau economaidd o fewn yr isranbarth. Mae mwy na un rhan o bump o boblogaeth oed gweithio'r isranbarth yn parhau'n economaidd anweithgar, gyda grwpiau penodol yn dioddef mwy o anfantais nag eraill o safbwynt mynediad at, a chymryd rhan yn, y farchnad lafur. Mae graddfeydd anweithgarwch economaidd ar gyfer pobl gyda chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar y gallu i weithio ac anabledau, pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), pobl hŷn a phobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn parhau'n uchel. Yn arbennig yn ystod y blynyddoedd diweddar, mae'r holl isranbarth wedi gweld cynnydd arwyddocaol mewn diweithdra ymysg pobl ifanc.

Mae cefnogi twf economaidd yn dibynnu nid yn unig ar sicrhau lefelau uwch o gyflogaeth a gweithgarwch economaidd, ond hefyd ar sicrhau fod gan yr isranbarth weithlu tra medrus. Mae gan yr isranbarth eisoes broffil sgiliau ffafriol gyda chyfran uchel o'r boblogaeth oed gweithio ar begwn uchaf y sbectwm sgiliau. Er hyn, mae gwerth uchaf fesul swydd (y cyfeirir ato fel arfer fel cynhyrchedd) yn is yn Nwyrain Cymru nag ar draws y DU yn gyffredinol. Mae hyn yn cael ei amlygu'n bennaf gan y diffyg cynrychiolaeth o ddiwydiannau sector gwerth ychwanegol uwch o'i gymharu â chyfartaledd y DU. Her allweddol i'r isranbarth yw, trwy gynyddu cynhyrhaeth, sicrhau bod lefel sgiliau'r gweithlu yn cael eu datblygu i fynd i'r afael â'r prinder a'r bylchau mewn sgiliau sydd eu hangen i gefnogi sectorau gwerth ychwanegol uwch.

Prif ffocws y gweithgaredd, fydd yn cael cefnogaeth y Rhaglen ESF Gweithredol, fydd mynd i'r afael â dwy brif her – anweithgarwch economaidd a diweithdra yn y rhanbarth, a chynyddu lefelau sgiliau sylfaenol ynghyd â hyblygrwydd y gweithlu. Bydd y rhaglen yn ychwanegu gwerth i bolisiau cyflogaeth prif lif y DU a anelwyd at gael pobl i mewn i waith, trwy ddefnyddio cronfeydd i ganolbwyntio ar gynnwys a chynorthwyo unigolion i gyrraedd cam lle byddant yn barod i gymryd rhan mewn rhaglenni o'r fath. Bydd hefyd yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â sgiliau isel ar draws y rhanbarth trwy gyllido darpariaeth hyfforddiant sgiliau sylfaenol, cefnogi systemau i helpu i adnabod galw yn y dyfodol, a chydlynu darpariaeth hyfforddiant a chyfleoedd dysgu ynghyd â chefnogi rheolaeth a sgiliau arwain lefel uwch mewn mentrau bach (hyd at 50 gweithiwr).

Bydd y gweithgareddau a gefnogir dan y Rhaglen ESF Gweithredol yn ategu'r Rhaglen Weithredol ERDF Dwyrain Cymru, fydd yn canolbwyntio ar adeiladu sector fusnes mentrus a hyblyg, hyrwyddo arloesi ac Ymchwil a Datblygu, a chynyddu arloesi a hyblygrwydd o safbwynt defnyddio ynni ac adnoddau.

Cyd-destun Polisi

Bydd y rhaglenni Cronfeydd Strwythurol newydd ar gyfer 2007-2013 yn canolbwyntio mwy ar agenda Lisboa a Göteborg ar gyfer twf, swyddi a datblygiad cynladwyedd yn unol â'r *Nghanllawiau Strategol y Gymuned ar gyfer Cydlyniant* a gymeradwywyd gan yr Aelod-Wladwriaethau. Mae amcanion a blaenoriaethau rhaglenni Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol Dwyrain Cymru yn gyson ag

agenda Lisboa a Göteborg, ac wedi'u datblygu yng nghyd-destun *Fframwaith Cyfeirio Strategol Genedlaethol (NSRF)* y *DU* sy'n esbonio sut bydd Cronfeydd Strwythurol yn cyfrannu at *Raglen Gwella Cenedlaethol (NRP)* y *DU* ar gyfer twf a swyddi.

I wneud y mwyaf o effaith y Cronfeydd Strwythurol, bydd y rhaglenni Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol yn cytuno â pholisïau perthnasol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cyflwyno twf cynaliadwy a swyddi. Mae'r rhain yn cynnwys:

- *Cymru: Gwell Gwlad* – agenda polisi strategol ehangach Llywodraeth Cynulliad Cymru;
- *Cymru: Economi yn Ffynnu* – strategaeth datblygu economaidd ar gyfer Cymru;
- *Y Wlad sy'n Dysgu 2: Gweledigaeth ar Waith* – strategaeth dysgu a dysgu gydol oes ar gyfer Cymru;
- *Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth 2005*;
- *Cynllun Gofodol Cymru*;
- *Cynllun Datblygu Cynaliadwy Cymru – Dechrau Byw'n Wahanol*;
- *Y Strategaeth Amgylcheddol ar gyferi Cymru*; a
- *Phrif Ffrydio Cydraddoldeb*.

Strategaeth

Amcan gyffredinol y Rhaglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol ESF yw:

I greu economi uwch sgiliau sy'n cael ei gyrru gan wybodaeth, gyda chyflogaeth lawn, gweithlu galluog a hyblyg, a rhanbarth gyda datblygiad economaidd cynaliadwy a blaengar.

Yr ysgogwyr allweddol ar gyfer cyflawni hyn trwy gyfrwng y rhaglen ESF yw:

- (a) Cynyddu cyflogaeth, yn arbennig trwy fynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd; a
- (b) Gwell lefel sgiliau, ynghyd â systemau ar gyfer datblygu'r gweithlu, i gynorthwyo busnesau i symud yn barhaus i fyny'r gadwyn gwerth, a chynyddu'r gwerth ychwanegol fesul swydd, a thrwy hynny gynyddu cynhyrchaeth ac enillion.

Bydd llwyddiant y Rhaglen yn cael ei asesu trwy olrhain cynnydd yn erbyn ystod o ddangosyddion economaidd a sgiliau sy'n cael eu disgrifio yn *Cymru: Economi yn Ffynnu*, a *Gwlad sy'n Dysgu 2*, yn arbennig lefelau cyflogaeth a GYC, mewn termau absoliwt ac mewn perthynas â rhannau eraill o'r *DU* a'r *UE*. Bydd dangosyddion a thargedau ar gyfer blaenoriaethau unigol hefyd yn cael eu monitro'n agos a byddant yn cael eu grosio i fyny i gynnig targedau ar lefel rhaglen. Bydd y Rhaglen hefyd yn cael ei gwerthuso.

Blaenoriaethau

Gweithredir y rhaglen trwy gyfrwng strwythur wedi'i symleiddio sy'n cynnwys dwy brif flaenoriaeth ynghyd â blaenoriaeth Cymorth Technegol.

Blaenoriaeth 1: Cynyddu cyflogaeth a mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd

Amcan – i gynyddu cyflogaeth a hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol, a mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd.

Blaenoriaeth 2: Gwella lefel sgiliau a hyblygrwydd y gweithlu

Amcan – i wella lefel sgiliau sylfaenol y gweithlu, a gwella systemau ar gyfer datblygu'r gweithlu.

Themâu Trawsbynciol

Bydd y themâu Trawsbynciol o safbwynt Cyfleoedd Cyfartal a Chynladwyedd Amgylcheddol yn cael eu hintegreiddio o fewn y blaenoriaethau hyn. Bydd y Rhaglen hefyd yn cefnogi Gweithredu Blaengar a Cydweithredu Traws Genedlaethol / Rhynggranbarthol. Bydd blaenoriaeth Cymorth Technegol ar wahân (Blaenoriaeth 3) yn sicrhau bod y Rhaglen yn cael ei rheoli'n effeithiol ac yn effeithlon.

Dyraniad Ariannol

Bydd 98% o'r adnoddau Cystadleurwydd a Chyflogaeth ESF Rhanbarthol yn targedu'r categorïau buddsoddi. Dyma fydd y cyfraniad mwyaf at gyflawni amcanion Lisboa ar gyfer twf a swyddi fel y'i diffiniwyd yn Rheoliad Cyffredinol yr UE [1083/2006], Erthygl 8. Disgrifir dyraniadau ariannol manwl fesul Blaenoriaeth ym Mhennod 7 - Dyraniadau Ariannol, o fewn prif ddogfen y Rhaglen Weithredol.

Gweithredu

Datblygwyd y rhaglen mewn partneriaeth a bydd yn cael ei gweithredu mewn partneriaeth. Bydd un Pwyllgor Monitro'r Rhaglen (PMRh) yn goruchwyllo gweithrediad y rhaglenni Cydgyfeirio ynghyd â Chystadleurwydd Rhanbarthol yng Nghymru. Bydd Fframweithiau Strategol yn cryfhau darpariaeth y rhaglen ac yn sicrhau bod prosiectau yn canolbwyntio ar amcanion a thargedau pennawd allweddol. Bydd mwy o bwyslais hefyd ar gydweithio rhanbarthol wrth ddatblygu strategaethau a phrosiectau, yng nghyd-destun *Cynllun Gofodol Cymru*.

PENNOD 1: CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r Rhaglen Gweithredol Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol hon yn cynnwys manylion strategaeth a blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer adfywio economaidd a chymdeithasol yn Nwyrain Cymru rhwng 2007 - 2013, gyda chefnogaeth y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd. Mae'n cael ei chefnogi gan raglen weithredol ar wahân ond gyflenwol Cronfa Datblygiad Rhanbarthol Ewropeaidd (ERDF). Gyda'i gilydd, bydd y rhaglenni hyn yn cael effaith gatalytig trwy ehangu a gwella ymrwymiad cryf Llywodraeth Cynulliad Cymru i agenda diwygio Lisboa (Lisbon) a Göteborg (Gothenburg).

1.2 Datblygwyd y Rhaglenni Gweithredol Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol yng nghyd-destun y *Canllawiau Integredig ar gyfer Twf a Swyddi (2005 – 2008)*, ynghyd â'r *Canllawiau Strategol Cymunedol (2007 – 2013)* oedd yn disgrifio amcanion polisi cydlynid ar lefel UE. Mae'r rhaglenni'n cyflenwi *Fframwaith Cyfeirio Strategol Cenedlaethol y DU*. Bydd yn cyfrannu'n uniongyrchol at roi sylw i'r her a osodir gan y *Rhaglen Ddiwygio Genedlaethol y DU ar gyfer Swyddi a Thwf*, gyda'r nod o gyflwyno twf cynaliadwy hirdymor, cyflogaeth uchel a chymdeithas deg a chynhwysfawr.

1.3 Bydd y Rhaglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth ESF Rhanbarthol yn hyrwyddo aliniad clos rhwng yr UE a pholisïau cenedlaethol ar gyfer swyddi a thwf. Mae'r strategaeth datblygu economaidd ar gyfer Cymru – *Cymru: Economi yn Ffynnu*, yn darparu cyfeiriad strategol tuag at economi sy'n ffynnu er mwyn cyflwyno twf economaidd cryf a chynaliadwy trwy roi cyfleoedd i bawb. Mae'n canolbwyntio'n gryf ar amcanion Lisboa sef gwella twf economaidd a darparu swyddi ychwanegol i bobl yng Nghymru, gan ddatblygu'r blaenoriaethau sydd yn *Cymru: Gwell Gwlad*.

1.4 Mae'r prif fframwaith ar gyfer cyflogaeth a sgiliau yn cael ei ddisgrifio yn *Gwlad sy'n Dysgu 2: Gweledigaeth ar Waith*, ynghyd â *Chynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth 2005*, ac *Ymestyn yn Uwch*. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru am i Gymru fod yn wlad lle mae dysgu gydol oes o ansawdd uchel yn caniatáu talentau, yn ehangu cyfleoedd, yn galluogi cymunedau, ac yn darparu gwell swyddi a sgiliau er mwyn galluogi pobl i ffynnu yn yr economi newydd, a chreu dyfodol cynaliadwy ar gyfer Cymru gyfan. I gyflawni'r weledigaeth, mae'r strategaethau hyn yn cydnabod yr angen i gynyddu lefelai cyflogaeth, yn arbennig trwy fynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd, a gwella lefelau sgiliau'r gweithlu i gefnogi swyddi gwerth ychwanegol uwch, a chyfrannu at ddatblygiad yr economi wybodaeth.

1.5 Mae'r ystyriaethau hyn yn arwain at bwyslais o fewn y Rhaglen Weithredol ESF ar:

- annog pobl ddi-waith ac economaidd anweithgar i ymuno â'r farchnad lafur; a
- gwella lefel sgiliau a hyblygrwydd y gweithlu.

1.6 Mae'r Rhaglen Weithredol Cystadleurwydd a Chyflogaeth ESF Rhanbarthol yn adeiladu ar yr ymgynghoriad eang a wnaed dros y misoedd diwethaf gydag

ystod eang o bartneriaid a rhan-ddeiliaid i bennu cyfeiriad y rhaglenni Cronfa Strwythurol Ewropeaidd newydd.

PENNOD 2: DADANSODDIAD

Crynodeb Gweithredol

2.1 Nod y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd (ESF) yw cryfhau cydlynïad economaidd a chymdeithasol trwy wella cyfleoedd cyflogaeth. Yn benodol, cynlluniwyd y cyllid ESF i gynyddu twf economaidd, trwy hyrwyddo cyflogaeth a hyblygrwydd, a thrwy wella cyfalaf dynol.

2.2 O fewn ystod blaenoriaeth ESF mae'r dadansoddiad hwn yn tynnu sylw at heriau penodol ar gyfer Cymru a'i rhanbarthau. O ystyried hyn, ac yn unol ag amcanion y Gymuned o safbwynt cynhwysiad cymdeithasol, peidio â gwahaniaethu, hyrwyddo cydraddoldeb, addysg a hyfforddiant a chyfrannu mwy at weithredu amcanion a thargedau Cyngorau Ewropeaidd Lisboa a Göteborg, cyflwynir y dadansoddiad yn yr isadrannau canlynol.

- Tueddiadau Demograffig - tynnu sylw at sut mae'r boblogaeth ar draws Cymru wedi newid a'r goblygiadau sydd gan y newidiadau hyn ar y farchnad lafur a rhagolygon economaidd ehangach.
- Mynediad at gyflogaeth a chynhwysiad yn y farchnad lafur – darparu trosolwg o amodau'r farchnad lafur yn cynnwys materion perthnasol i gyfyngiadau a mynediad penodol.
- Cynhwysiad cymdeithasol ar gyfer pobl dan anfantais – disgrifio problemau penodol i bobl dan anfantais yn y farchnad lafur. Mae hyn yn cynnwys dadansoddi, lle bo hynny'n bosib, tueddiadau'r farchnad lafur o safbwynt rhyw, oed, ethnigrwydd a phobl gydag anableddau. Mae'r dadansoddiad dadelfenedig yn dangos os yw grwpiau neilltuol mewn cymdeithas dan anfantais yn y farchnad lafur, ac yn crynhoi rhai o'r rhesymau dros yr anfantais trwy ddefnyddio tystiolaeth empirig os yw ar gael, a chanolbwyntio'n arbennig ar bobl iau.
- Cyfalaf dynol – darparu dadansoddiad o sgiliau poblogaeth Cymru, trwy eu hasesu ar y cyd ag adolygiad o bwysigrwydd sgiliau wrth bennu canlyniadau'r farchnad lafur. Mae'r dadansoddiad yn canolbwyntio ar swyddogaeth addysg yng nghanlyniadau'r farchnad lafur, yn arbennig ar gyfer unigolion o gefndiroedd difreintiedig.
- Amddifadedd – Adolygiad o amddifadedd gofodol yng Nghymru a'r potensial i allu gweinyddol wella ansawdd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Hefyd, mae agweddau amgylcheddol sy'n effeithio ar ansawdd bywyd unigolion hefyd yn cael eu hasesu.

2.3 Mae'r dadansoddiad yn cynnig tystiolaeth ar gyfer ein strategaeth a'r ymyraethau arfaethedig trwy gyfrwng yr ESF. Bydd y rhain yn dwyn ymlaen y canllawiau a'r argymhellion a wnaed dan y *Strategaeth Cyflogaeth Ewropeaidd (EES)* sy'n adlewyrchu amcanion agenda Lisboa i gael cyflogaeth lawn, gwella ansawdd a chynhyrhaeth yn y gweithle a gwella cydlynïad cymdeithasol a thiriogaethol. Mae'r dadansoddiad a gyflwynwyd yn tynnu sylw at y cynnydd a wnaeth Cymru a'i hisranbarthau mewn perthynas â'r nifer o dargedau pennawd a osodwyd yn yr EES, yn cynnwys targedau i gynyddu cyfranogiad i ddysgu gydol oes.


2.4 Mae'r dadansoddiad hefyd yn archwilio'r cryfderau a'r gwendidau sylfaenol ym marchnad lafur Dwyrain Cymru, Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, sy'n sail i'r rhaglen yng nghyd-destun agenda Lisboa a Rhaglen Diwygio Cenedlaethol y DU.

2.5 Mae Cymru'n gorchuddio 2.078 miliwn hectar (tua 20,000km²), gyda phoblogaeth o tua 2.9 miliwn. Mynyddoedd Cymru yw'r arwedd fwyaf amlwg, yn cynnwys mwy na hanner y wlad ac yn hollbwysig yn ymddangosiad y dirwedd. Dynodwyd tua 80% o holl dir Cymru yn Ardaloedd Llai Ffafirol, sy'n cyd-fynd yn agos â'r ardaloedd mynyddig ac ucheldir yng Nghymru. Mae Dwyrain Cymru'n ardal amrywiol lle mae tua 35% o boblogaeth Cymru'n byw. Mae Dwyrain Cymru'n cynnwys yr awdurdodau lleol canlynol:

- Sir y Fflint;
- Wrecsam;
- Powys;
- Sir Fynwy;
- Casnewydd;
- Caerdydd;
- Bro Morgannwg.

2.6 Mae'r ardaloedd cymwys perthnasol i'w gweld ar y map rhanbarth Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol Dwyrain Cymru isod yn Ffigur 1.

Ffigur 1. Map o ardal Rhaglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol Dwyrain Cymru



2.7 Mae'r dadansoddiad a gyflwynir yn y bennod hon yn cynnig trosolwg o farchnad lafur Cymru yn unol â'r *Canllawiau Strategol Cymunedol*, gan ganolbwyntio'n arbennig ar y blaenoriaethau o greu mwy a gwell swyddi ar draws yr Aelod-Wladwriaethau. Yn ogystal ag adolygiad pennawd Cymru gyfan, mae'r dadansoddiad yn tynnu sylw at faterion penodol ar lefel ranbarthol gan bwysleisio themâu cyffredin a gwahaniaethau rhwng yr ardaloedd Rhaglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol a Chydgyfeiriant yng Nghymru, ynghyd â dadansoddi ychwanegol ar lefel leol.

2.8 Mae'r dadansoddiad yn y bennod hon yn defnyddio ystod o ffynonellau data. Ar lefel UE, defnyddiwyd cronfa ddata Eurostat Regio i amlygu data lefel Cymru a rhanbarthau Cymru yng nghyd-destun data a thueddiadau Ewrop gyfan. Defnyddiwyd data o Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol y DU i ddarparu data penodol i'r DU, Cymru a rhanbarthau o Gymru. Ategwyd hyn trwy gyfeirio at ymchwil academiaidd ym maes economeg llafur a cymdeithasol i ddarparu tystiolaeth o'r rhesymau sylfaenol dros dueddiadau ystadegol.

Cyflwyniad

2.9 Mae'r dadansoddiad yn cynnig gwerthusiad manylach o'r strwythur demograffig ac amodau'r farchnad lafur sy'n sail i ddatblygiad y rhaglenni ESF Cystadleurwydd a Chyflogaeth a Chydygyfeirio Rhanbarthol. Mae'n cynnig dadansoddiad o gryfderau a gwendidau Cymru gyfan, gyda dadansoddiad isranbarth ar gyfer Dwyrain Cymru yn ogystal â Gorllewin Cymru a'r Cymoedd.

2.10 Mae perfformiad economaidd pennawd yn arferol yn cael ei fesur trwy gyfrwng Cynnyrch Domestig Crynswth fesul pen o'r boblogaeth². Ar draws Dwyrain Cymru, roedd y CMC y pen 18% yn uwch na chyfartaledd y 25 gwlad sydd yn yr Undeb Ewropeaidd. Yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, mae CMC y pen tua 77% o gyfartaledd y 25 gwlad sydd yn yr Undeb Ewropeaidd.

2.11 Mae pwysigrwydd y strwythur demograffig ac amodau'r farchnad lafur yn cael ei amlygu gan ddadansoddiad o'r bwlch ffyniant rhwng Cymru â'r DU yn gyfan³. Rhwng 2001 a 2003 roedd GYC⁴ y pen ar draws Dwyrain Cymru yn £15,600 o'i gymharu â £12,100 ar draws Cymru, £15,400 ar draws y DU yn gyfan, a £10,100 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd. Dengys dadansoddiad o'r cydrannau sy'n cyfrannu at berfformiad economaidd cyffredinol mai amodau marchnad lafur gwael (cyflogaeth i gymhareb oed gweithio a swyddi i gymhareb cyflogaeth) yw'r rheswm dros tua 35% o'r bwlch cyffredinol mewn GYC y pen yng Nghymru o'i gymharu â chyfartaledd y DU. Mae 10% arall o'r bwlch cyffredinol oherwydd bod gan Gymru boblogaeth ddibynnol ychydig yn uwch⁵.

2.12 Dengys Tabl 2 isod ganlyniadau'r asesiad hwn. Gellir dosbarthu'r amrywiadau GYC y pen cyffredinol yn bennaf yn wahaniaethau o safbwynt:

- canran y boblogaeth sydd o oed gweithio;
- canran y boblogaeth oed gweithio sydd mewn gwaith;
- canran y boblogaeth oed gweithio sy'n gweithio mewn ardal benodol (adlewyrchu patrymau cymudo); a

² Mae cydnabyddiaeth eang nad yw CMC y pen o bosib yn adlewyrchu lles ehangach na ffactorau ansawdd bywyd yn llawn. Ond, mae'n arf defnyddiol i fesur perfformiad economaidd pob cyfnod.

³ Llywodraeth Cynulliad Cymru – *Cymru: Economi yn Ffynnu*:

<http://new.wales.gov.uk/about/departments/dein/publications/wave?lang=cy>

⁴ Cyfrifir GYC fel CMC tynnu treth a chymorthdaliadau anuniongyrchol. Mae data sy'n cymharu Cymru gyda chyfartaledd yr UE ar gael fel CMC y pen yn unig.


⁵ Cyfrifir dibyniaeth berthnasol y boblogaeth yn ôl cymhareb o unigolion oed gweithio yn erbyn poblogaeth gyfan.

- cyfartaledd cynnyrch neu werth ychwanegol fesul swydd⁶.

2.13 Mae cymhareb cyflogaeth ag oed gweithio (y gyfradd gyflogaeth) yn esbonio tua 25% o'r bwlch GYC y pen cyffredinol yng Nghymru o'i gymharu â chyfartaledd y DU. Mae tua 10% yn cael ei esbonio oherwydd bod cymhareb swyddi / gyflogaeth Gymru'n is. Mae hyn yn rhannol o ganlyniad i batrymau cymudo yng Nghymru gydag unigolion sy'n byw yng Nghymru yn gweithio y tu allan i'r wlad. Dengys yr adran oren yn Ffigur 2 bod GYC y pen yng Nghymru'n is na chyfartaledd y DU oherwydd bod canran is o unigolion oed gweithio yng Nghymru nag yn y DU yn gyffredinol. Hynny yw, mae canran uwch o boblogaeth ddibynnol yng Nghymru na chyfartaledd y DU.

2.14 Dengys Ffigur 2 wahaniaethau diddorol rhwng Dwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Mae GYC y pen yn Nwyrain Cymru tua £250 yn uwch na'r DU yn gyffredinol. Er bod gwerth ychwanegol is y gweithiwr yn Nwyrain Cymru, ynghyd â chyfradd gyflogaeth is, mae gwell cymhareb swyddi i gyflogaeth yn fwy na gwneud yn iawn am hyn. Mae GYC y pen yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd tua £5,300 yn is na'r DU yn gyffredinol. Mae gwerth ychwanegol fesul swydd is yn esbonio'r rhan fwyaf o'r bwlch hwn. Mae amodau marchnad lafur (yn arbennig cymhareb cyflogaeth ag oed gweithio is) yn esbonio'r rhan fwyaf o'r bwlch sy'n weddill.

Ffigur 2. Dadansoddiad o'r gwahaniaethau GYC y pen ar draws Cymru o'i gymharu â chyfartaledd y DU, cyfartaledd 2 - 2001



Ffynhonnell: Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i seilio ar ddata ONS

⁶ Yn aml yn cael ei alw'n gynhyrchaeth, er y dangosir yn ddiweddarach yn y ddogfen, gall cyfeirio at wahaniaethau cynhyrchaeth fod yn gamarweiniol, oherwydd nad yw mesurau cynhyrchaeth yn cymryd strwythur diwydiannol yr economi i ystyriaeth.

2.15 Dengys Ffigur 2 bod gwella cyfleoedd cyflogaeth i unigolion yng Nghymru ynghyd â gwneud y mwyaf o botensial poblogaeth Cymru yn ystyriaethau allweddol o safbwynt cau'r bwlch GYC y pen yng Nghymru o'i gymharu â chyfartaledd y DU. O fewn y dadansoddiad hwn mae'n bwysig deall perfformiad gwahanol yr isranbarthau o fewn Cymru, a gwahanol anghenion unigolion, yn arbennig y rhai sydd dan anfantais ar hyn o bryd ac sy'n dioddef tlodi ac amddifadedd.

2.16 Mae Tabl 1 yn cynnig crynodeb o'r data sy'n cefnogi Ffigur 2. Dengys y data'r cyfraniad cyffredinol sydd gan bob ffactor o safbwynt esbonio GYC uwch / is y pen o'r boblogaeth mewn cymhariaeth â chyfartaledd y DU. Mae data Tabl 1 wedi'i dalgrynnu i'r 5% agosaf gan mai amcangyfrif bras sydd yn y dadansoddiad hwn o safbwynt faint mae'r ffactorau'n esbonio'r gwahaniaeth mewn GYC y pen.⁷

Tabl 1: Cyfraniad y ffactorau sy'n esbonio gwahaniaethau GYC y pen, canran o'r bwlch cyfan

	GYC fesul swydd gweithlu	Swyddi i gyflogaeth	Cyflogaeth i oed gweithio	Oed gweithio i boblogaeth
Cymru	-55%	-10%	-25%	-10%
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	-55%	-15%	-20%	-10%
Dwyrain Cymru	-0.5%	+250%	-60%	-70%

Tueddiadau Demograffig

2.17 Dengys Tabl 2 y tueddiadau demograffig allweddol yng Nghymru a phroffil oed cyffredinol poblogaeth Cymru. Yn gyffredinol, mae ychydig llai na thair miliwn o bobl yn byw yng Nghymru yn ôl rhagamcanion poblogaeth 2004.

2.18 Mae tua 35% o boblogaeth Cymru'n byw yn ardal NUTSII⁸ Dwyrain Cymru, gyda'r 65% arall yn byw yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd. Fel y dengys Tabl 2, mae gan Gymru (yn arbennig Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) gyfran uwch o unigolion yn y grwpiau oed hŷn, yn arbennig y grwpiau 60-69 a 70+ o'i gymharu â'r DU yn gyffredinol.

2.19 Yn gyfan, mae tua 60% o boblogaeth Cymru mewn oed gweithio, gyda thua 20% dan 16 mlwydd oed ac 20% mewn oed ymddeol neu hŷn. Mae peth gwahaniaeth o safbwynt isranbarthau Cymru, gyda chyfran ychydig uwch o boblogaeth Dwyrain Cymru mewn oed gweithio na Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (61% o'i gymharu â 59%) a chanran ychydig is o unigolion oed ymddeol neu hŷn (19% o'i gymharu â 21%).

⁷ Mae mwy o fanylion ar ddull y fethodoleg ar gael yn nogfen Llywodraeth Cynulliad Cymru *Cymru: Economi yn Ffynnu*, Strategaeth ar gyfer Datblygiad Economaidd, 2005.

⁸ Nomenclature of Territorial Units for Statistics. Mae mwy o fanylion ar gael a r: http://europa.eu.int/comm/eurostat/ramon/nuts/introduction_regions_en.html


Tabl 2: Poblogaeth fesul grŵp oed, 2004

	Grŵp Oed							Cyfan
	0-14	15-24	25-34	35-44	45-59	60-69	70+	
Miloedd								
Dwyrain Cymru	197	147	133	159	209	105	126	1,077
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	336	238	208	263	378	206	247	1,896
Cymru	533	385	342	422	587	311	373	2,953
Y DU	10,866	7,720	7,937	9,192	11,518	5,716	6,885	59,834
Canran o'r Cyfanswm								
Dwyrain Cymru	18.3	13.7	12.4	14.8	19.4	9.8	11.7	100.0
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	17.9	12.7	11.1	14.0	20.2	11.0	13.2	100.0
Cymru	18.0	13.0	11.6	14.3	19.9	10.5	12.6	100.0
Y DU	18.2	12.9	13.3	15.4	19.2	9.6	11.5	100.0

Ffynhonnell: Amcanion poblogaeth Canol 2004 ONS

2.20 Dengys dadansoddiad isranbarthol bod proffil oed Dwyrain Cymru'n debyg i'r DU, gyda chanran ychydig uwch yn y grŵp oed 15-44. Mae gan Orllewin Cymru a'r Cymoedd fodd bynnag gyfran is o unigolion yn y grwpiau oed iau na 44, a chyfran uwch o unigolion y grwpiau oed dros 45. Dengys Ffigur 3 wahaniaethau ym mhroffil oed Dwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, o'i gymharu â Chymru'n gyffredinol.


Ffigur 3. Amrywiaeth pwynt canran rhaniad grŵp oed proffil oed poblogaeth, Dwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd o'i gymharu â chyfartaledd Cymru, 2004



Ffynhonnell: Amcanion poblogaeth canol blwyddyn, y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol

2.21 Mae Ffigur 4 yn cymharu proffil oed Dwyrain Cymru, Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, Cymru a'r DU, o'i gymharu â chyfartaledd 25 gwlad yr UE. Fel y dengys Ffigur 4, mae gan Gymru a'r DU gyfran gymharol isel o unigolion yn y prif grŵp oed gweithio sef 25-44. Mae hyn yn arbennig o wir am Orllewin Cymru a'r Cymoedd. O'i gymharu â chyfartaledd yr UE25, mae gan Gymru gyfran gymharol uchel o unigolion yn y grwpiau oed hŷn, yn arbennig oed ymddeol a hŷn. Mae gan isranbarthau Cymru, Cymru a'r DU gyfran gymharol uchel o blant o'i gymharu â chyfartaledd yr UE25.

Ffigur 4. Amrywiaeth pwynt canran rhaniad grŵp oed profil oed poblogaeth, Cymru a'r DU o'i gymharu â chyfartaledd yr UE25, 2004



Ffynhonnell: Amcanion poblogaeth canol blwyddyn, y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol ac Eurostat

2.22 Gall patrymau demograffig, a mudo yn arbennig, gynnig mewnwelediad i'r hyn sy'n ddeniadol mewn ardal i unigolion⁹. Dengys Tabl 3 bod poblogaeth Dwyrain Cymru ers 1981 wedi tyfu ar raddfa 1981-1991 (3.8%) a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi tyfu 2.3%, ond ni welwyd twf mewn poblogaeth yn ystod y cyfnod 1991-2001. Yn ystod yr holl gyfnodau a ddangoswyd, roedd twf poblogaeth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn llai na Dwyrain Cymru, a Chymru gyfan o ganlyniad.

Tabl 3: Newid poblogaeth ers 1981

	Lefel (000)				Newid (Canran)			
	1981	1991	2001	2004	1981-1991	1991-2001	1981-2004	1991-2004
Dwyrain Cymru	980	1,017	1,056	1,077	3.8	3.8	9.9	5.9
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1,834	1,856	1,855	1,876	1.2	-0.1	2.3	1.1
Cymru	2,814	2,873	2,910	2,953	2.1	1.3	4.9	2.8

Ffynhonnell: Cyfrifiad, Amcanion Poblogaeth Canol Blwyddyn


⁹ Mae'n rhaid nodi bod patrymau mudo'n ffactor o amrywiol ryngweithiadau, ac nid pa mor gymharol ddeniadol yw ardal.

2.23 Dengys Ffigur 5 isod y newid poblogaeth rhwng 1991 a 2004¹⁰ yn ôl dadansoddiad bras o grwpiau oed. Un o ystyriaethau allweddol y dadansoddiad yw'r cynnydd cymesur yn oed gweithio'r boblogaeth oherwydd bod gan hyn gydberthynas gref â chymhareb ddibyniaeth gyffredinol¹¹ y boblogaeth.

2.24 Gwelodd Dwyrain Cymru gynnydd bach yn y boblogaeth blant, yn wahanol i Gymru gyfan a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn ystod y cyfnod hwn. Roedd cyfartaledd y gostyngiad hwn yn fwy yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd nag ar draws Cymru'n gyffredinol.

2.25 Yn Nwyrain Cymru, gwelwyd y cynnydd mwyaf yn y boblogaeth oed gweithio, oedd yn cynnwys bron 80% o'r twf poblogaeth yn ystod y cyfnod hwn. Yn wahanol i Ddwyrain Cymru a Chymru gyfan, roedd cyfran y cynnydd yn y boblogaeth oed ymddeol a hŷn ar draws Gorllewin Cymru a'r Cymoedd bron cymaint â'r cynnydd yn y boblogaeth oed gweithio. Mae'r tueddiad hwn o ganlyniad i gynnydd cymharol fach yn boblogaeth oed gweithio ar draws Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn hytrach nag oherwydd newid mawr yn y boblogaeth oed ymddeol a hŷn.

Ffigur 5. Dadansoddiad oed o safbwynt newid poblogaeth, 1991 - 2004



Ffynhonnell: Amcanion poblogaeth canol blwyddyn, y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol

¹⁰ Nid oedd data ar gyfer grwpiau oed penodol ar gyfer 1981 ar gael yn y lleoliadau a nodwyd, felly dewiswyd 1991-2004 ar gyfer y detholiad.

¹¹ Mae dibyniaeth gymharol y boblogaeth yn cael ei gyfrifo fesul cymhareb unigolion oed gweithio yn erbyn yr holl boblogaeth.

2.26 Dengys Tabl 4 isod y cydrannau newid poblogaeth ar draws Cymru, Dwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Mae'n dangos fod poblogaeth naturiol Cymru'n gostwng - hynny yw, mae mwy o farwolaethau na genedigaethau. Mae'r tueddiad hwn yn gyffredin ar draws y rhan fwyaf o'r byd datblygedig¹². Y canlyniad yw bod y gyfradd enedigaethau yn is na'r hyn sydd ei hangen i gadw'r boblogaeth yn eithaf cyson. Mae'r ffaith fod y nifer o enedigaethau yn uwch na'r nifer o farwolaethau yn Nwyrain Cymru'n mynd yn erbyn y tueddiad cyffredinol hwn. Roedd y cynnydd hwn yn bennaf yn ardaloedd dinasoedd Caerdydd a Chasnewydd.

Tabl 4: Cydrannau newid poblogaeth, 2001 – 2004

	Y boblogaeth ganol 2001	Genedi gaetha u byw	Marwol aethau	Newid naturiol	Mudo net a newidiad au eraill	Newid cyfan	Y boblogaeth ganol 2004
Dwyrain Cymru	1,056	35	33	2	20	22	1,077
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1,855	58	67	-9	29	21	1,876
Cymru	2,910	93	99	-7	49	42	2,953

Ffynhonnell: y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol
(Efallai na fydd y cyfanswm yn adio oherwydd talgrynnu)

2.27 Mae Adran Actwari'r Llywodraeth yn llunio rhagamcanion poblogaeth. Dengys y rhagamcanion diweddaraf ar gyfer Cymru bod disgwyl mai mewn fudo net fydd yn parhau i ysgogi'r cynnydd mewn poblogaeth ar draws y wlad. Rhwng 2004 a 2024 disgwylir cynnydd o tua 239,000 ym mhoblogaeth Cymru, gyda 234,000 o ganlyniad i fewn fudo net, a'r 5,000 arall oherwydd bod y nifer o enedigaethau yn uwch na'r nifer o farwolaeth, sy'n wahanol i'r duedd ddiweddar a welir yn Nhabl 4. Mae'r nifer o blant 16 mlwydd oed ac iau, a'r nifer o blant dibynnol, yn debygol o syrthio, gyda chynnydd yn y nifer o bensiynwyr dibynnol.

2.28 Yr hyn sy'n cynyddu'r boblogaeth fwyaf ar draws Cymru yw mewn fudo net sydd, gyda newidiadau eraill, yn gwneud yn iawn am y gostyngiad naturiol yn y boblogaeth. O fewn Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, fodd bynnag, bydd all-fudo net yn nodwedd o'r cymoedd uchaf (gyda mewn fudo net a pheth all-fudo¹³) a'r rhan fwyaf o ardaloedd eraill yn profi mewn fudo net.


2.29 Mae dadansoddiad rhanbarthau Cymru i'w weld yn Ffigur 6. Mae'n dangos mai'r unig Awdurdodau Lleol yng Nghymru i brofi all-fudo net oedd Torfaen, Blaenau Gwent a Merthyr Tudful, bob un yng nghymoedd uchaf De Cymru. Gall

¹² Os yw dynes gyffredin yn cael llai na 2 o blant, yna bydd maint y genhedlaeth nesaf yn llai na'r genhedlaeth gyfredol, felly ni fydd yr ail genhedlaeth yn 'cymryd lle' y genhedlaeth flaenorol.

¹³ Diffinnir fel Awdurdodau Lleol: Blaenau Gwent; Merthyr Tudful a Thorfaen.

patrymau mudo fod yn bwysig oherwydd gallant gynnig mewnwelediad i'r hyn sy'n ddeniadol mewn ardal i unigolion¹⁴.

Ffigur 6. Dadansoddiad Awdurdodau Lleol o newid poblogaeth, 2001 - 2004



Ffynhonnell: y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol

2.30 Dengys Tabl 5 fudo net yn ôl grwpiau oed. Dengys y Tabl hwn y bydd Dwyrain Cymru'n enillydd net o safbwynt poblogaeth o fudo ar draws bob grŵp oed yn cynnwys y grŵp 16-24 mlwydd oed, sy'n cael ei esbonio'n rhannol gan y boblogaeth sylweddol o fyfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn enillydd net mewn poblogaeth ar draws pob grŵp oed oni bai am y grŵp 16-24, sy'n cael ei esbonio'n bennaf gan fyfyrwyr yn gadael i fynd i brifysgolion. Mae patrwm Cymru'n debyg iawn i rannau eraill o'r DU, oni bai am Lundain a De Dwyrain Lloegr. Yn gysylltiedig â'r mudo allan net uchod, rhwng 1981 a 2004 gwelwyd cwmp o 11.2% yn y boblogaeth gyffredinol o unigolion 11-25 oed ar draws Cymru gyfan (nid oes data ar gael ar gyfer rhanbarthau Cymru ar gyfer y cyfnod hwn). Rhwng 1991 a 2004, gwelwyd cynnydd o 4.7% yn y boblogaeth o unigolion rhwng 11-25 mlwydd oed ar draws Dwyrain Cymru, ond gwelwyd cwmp o 2.1% yn y grŵp oed hwn ar draws Gorllewin Cymru a'r Cymoedd.

2.31 Mewn fudo net o Loegr yw'r hyn sy'n achosi'r tueddiad net ar draws Dwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Tueddiad diddorol yw'r mudo allan net o Dwyrain Cymru i Orllewin Cymru a'r Cymoedd. Yr hyn sy'n bennaf gyfrifol yw nifer fawr o bobl yn symud o Gaerdydd i ardaloedd Caerffili, Rhondda Cynon Taf a Phen-y-bont. Yn arbennig o bwysig mae'r mewn fudo net o unigolion oed gweithio.

¹⁴ Mae'n rhaid nodi bod patrymau mudo yn ffactor o amrywiol ryngweithiadau, ac nid pa mor gymharol ddeniadol yw ardal.

Awgryma tystiolaeth¹⁵ bod unigolion mewn gwaith gyda sgiliau uwch yn fwy parod i symud.¹⁶ Efallai bydd hyn yn awgrymu fod Cymru'n debygol o elwa'n economaidd o unigolion oed gweithio yn mewnffudo. Dengys tystiolaeth ddiweddar o gronfa ddata Mosaic Experian¹⁷ fod gan Gymru gynrychiolaeth uchel o weithwyr gyrfa proffesiynol yn mewnffudo i leoliadau deniadol, gyda chysylltiadau cryf rhwng pa mor ddeniadol yw lleoliad o safbwynt cyfleoedd cyflogaeth a hefyd ffactorau ansawdd bywyd.

Tabl 5: Dadansoddiad ardal cyfartaledd blynyddol tueddiadau mudo net, 2002-2004

Grŵp oed	Dwyrain Cymru i Orllewin Cymru a'r Cymoedd	Lloegr i Orllewin Cymru a'r Cymoedd	Mewnffudo net i Orllewin Cymru a'r Cymoedd	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd i Ddwyrain Cymru	Lloegr i Ddwyrain Cymru	Mewnffudo net i Ddwyrain Cymru	Mudo net Cymru
0-15	360	2,240	2,590	-360	1,030	672	3,262
16-24	-670	-820	-1,490	670	430	1,099	-391
25-44	530	2,350	2,880	-530	1,450	920	3,800
45-64	490	4,020	4,520	-490	1,380	887	5,407
65+	170	1,010	1,170	-170	360	194	1,364
Pob Oed	880	8,800	9,670	-880	4,650	3,772	13,442

Ffynhonnell: y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol

2.32 O fewn Cymru mae'r symudiad net mwyaf rhwng De Ddwyrain Cymru a'r Cymoedd gyda llif net blynyddol ar gyfartaledd o 680. Mae'r llif mwyaf ond un rhwng y Cymoedd a De Ddwyrain Cymru¹⁸ gyda symudiad net blynyddol ar gyfartaledd o 600 o bobl yn symud o'r Cymoedd i Dde Ddwyrain Cymru. Mae patrymau mudo o fewn Cymru yn nodweddiadol o'r Gogledd i'r De gyda llif net blynyddol ar gyfartaledd o Ogledd Cymru i'r Canolbarth (40), De Orllewin Cymru (20) a De Ddwyrain Cymru (160) ynghyd â llif net o Ganolbarth Cymru i Dde Orllewin Cymru (170) a De Ddwyrain Cymru (180). Mae all-lif net blynyddol ar gyfartaledd o bobl o'r Cymoedd i'r Canolbarth (70) a Gogledd Cymru (20) ond mewnllif net blynyddol ar gyfartaledd o bobl i Dde Ddwyrain Cymru (680).

¹⁵ Gibbons, S et al, 2005, Is Britain Pulling Apart? Area Disparities in Employment, Education and Crime, Centre for Market and Public Organisation Working Paper 05/120, cyhoeddwyd yn N. Pearce a W. Paxton (gol.) *Social Justice, Building a Fairer Britain*, Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus: <http://www.bris.ac.uk/Depts/CMPO/workingpapers/wp120.pdf>

¹⁶ Mae symudedd cymdeithasol yn mesur faint mae statws cymdeithasol pobl yn newid rhwng cenedlaethau.

¹⁷ Further details are available at: <http://www.business-strategies.co.uk/Products%20and%20services/Micromarketing%20data/Consumer%20segmentation/Mosaic.aspx>

¹⁸ Ni chyhoeddir data lefel awurdod lleol o ganlyniad i'r nifer fach o symudiad net ar y lefel leol hon.

2.33 Mae tystiolaeth¹⁹ bod graddfeydd cyflogaeth ar gyfer gweithwyr sgiliau isel wedi cynyddu mewn ardaloedd lle gwelwyd cynnydd mewn cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth gyda chyflog uchel. Y rhesymwaith sy'n cefnogi hyn yw bod unigolion gyda sgiliau isel yn ennill cyfleoedd cyflogaeth mewn gwaith sector gwasanaethau sy'n cefnogi cwsmeriaid mwy cefnog. Gall newidiadau mewn strwythur cymdeithasol ardal felly gael rôl o safbwynt adfywio economaidd ehangach, a gall patrymau mudo fod yn ffactor pwysig, yn cynnwys mudo o oddi allan i'r DU. Gwnaed cyfanswm o 392,000 o unigolion gais i'r Cynllun Cofrestru Cymru rhwng 1 Mai 2004 a 31 Mawrth 2006. Canran Cymru oedd yr isaf o safbwynt cofrestru yn y DU gyda dim ond 2% wedi cofrestru, oedd gyfystyr ag ychydig mwy na 7,200 cais. Awgryma tystiolaeth gynnar bod gweithwyr sy'n symud i mewn yn parhau i symud at waith. Mae hyn o gymorth gyda llenwi bylchau yn y farchnad lafur, yn arbennig gweinyddu, busnes a rheoli, lletygarwch ac arlwy, amaethyddiaeth, cynhyrchu a bwyd, a phrosesu pysgod a chig. Dengys data o'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol ar gyfer y cyfnod 2002 – 2004, bod mewn fudo net i Gymru o weddill y byd o Ychydig mwy na 5,500 o unigolion²⁰.

Mynediad at gyflogaeth a chynhwysiad yn y farchnad lafur

2.34 Fel y dengys Ffigur 2, roedd amodau marchnad gwael yn esbonio bron 35% o'r bwlch cyffredinol mewn GYC y pen yng Nghymru o'i gymharu â chyfartaledd y DU. Mae'n hanfodol bwysig deall y farchnad lafur yng Nghymru ac, yn arbennig, ddeall y rhwystrau i gyfranogiad ac anghenion y rhai dan anfantais.

2.35 Mae Tabl 6 yn crynhoi'r amodau marchnad lafur diweddaraf (h.y. y data oedd ar gael ar gyfer y flwyddyn ddiweddaraf), gan gymharu Dwyrain Cymru, Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, Cymru, a'r DU ynghyd â'r Undeb Ewropeaidd (UE25). Fel y dengys Tabl 6, mae Dwyrain Cymru, Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, a Chymru gyfan yn perfformio'n dda ar y prif ddangosyddion marchnad lafur o'i gymharu â chyfartaledd UE25, ac wedi gwella'n sylweddol ers 2001. Er y cynnydd sylweddol yn ystod y blynyddoedd diweddar, mae tua 16% o blant Cymru'n byw mewn cartrefi di-waith, o'i gymharu â 15% i'r DU yn gyfan a 10% i UE25.

2.36 Mae'n ddiddorol nodi nad yw cyfradd ddiweithdra is Gorllewin Cymru a'r Cymoedd o'i gymharu â UE25 yn cyd-fynd â gwahaniaeth cyfartal o safbwynt graddfeydd cyflogaeth. Yr esboniad yw bod gweithgaredd economaidd is (neu anweithgarwch economaidd uwch) ar draws Gorllewin Cymru a'r Cymoedd o'i gymharu â UE25. Mae hyn hefyd yn wir o gymharu Dwyrain Cymru gyda'r DU. Mae gan Ddwyrain Cymru gyfradd ddiweithdra llawer is na chyfartaledd y DU, ond mae'r lefel gyflogaeth yn dal yn is na chyfartaledd y DU. Unwaith eto, anweithgarwch economaidd uwch yw'r rheswm dros y gwahaniaeth yn y gyfradd gyflogaeth bennawd. Mae esboniad pellach o hyn yn yr adrannau canlynol.

2.37 Amlygir diweithdra hirdymor yn y Strategaeth Gyflogaeth Ewropeaidd fel pryder neilltuoel. Mae'r gostyngiad mewn diweithdra hirdymor ar draws Cymru a'r rhanbarthau i'w groesawu. Cyflwynodd Llywodraeth y DU fesurau yn ddiweddar

¹⁹ Gibbons, S et al, 2005, Is Britain Pulling Apart? Area Disparities in Employment, Education and Crime, Centre for Market and Public Organisation Working Paper 05/120, cyhoeddwyd yn N. Pearce a W. Paxton (gol.) *Social Justice, Building a Fairer Britain*, Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus.

²⁰ Nid oed data ar gael ar darddiad newnfudwyr i Gymru oherwydd maint bach y sampl.

sy'n cynnwys cyfweiliadau yn canolbwyntio ar waith i gynorthwyo unigolion nad oeddynt mewn cyflogaeth yn ôl i waith²¹. Mae disgwyl i'r mesurau hyn gynorthwyo'r DU a'i hisranbarthau i gwrdd â thargedau a meincnodau'r EES mewn perthynas â chynnig dechrau newydd i unigolion di-waith hirdymor a chynyddu cyfranogiad mewn mesurau marchnad llafur gweithredol.

Tabl 6: Crynodeb marchnad lafur, cymhariaeth EU25 (canran)

	2001	2005	% newid 2001	% newid absoliwt yn ystod 2001
Cyfradd Gyflogaeth (a)				
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	63.1	66.4	3.3	44
Dwyrain Cymru	69.5	71.4	1.9	32
Cymru	65.4	68.3	2.9	76
Y DU	71.4	71.7	0.3	627
EU15	63.9	65.1	1.2	5,838
EU25	62.7	63.7	1.0	6,278
Cyfradd gweithgaredd economaidd (b)				
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	67.4	70.0	2.6	34
Dwyrain Cymru	73.7	74.0	0.3	26
Cymru	69.5	71.5	2.0	60
Y DU	75.2	75.3	0.1	580
EU15	69.1	71.0	1.9	7,860
EU25	68.7	70.1	1.4	7,852
Cyfradd ddiweithdra (c)				
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	6.3	5.1	-1.2	-8
Dwyrain Cymru	5.0	3.5	-1.5	-6
Cymru	5.8	4.5	-1.3	-14
Y DU	5.0	4.7	-0.3	-45
EU15	7.5	8.2	0.7	1,997
EU25	8.6	9.0	0.4	1,648
Cyfradd ddiweithdra hirdymor (ch)				
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	27.2	21.8	-5.4	-4
Dwyrain Cymru	30.7	22.4	-8.0	-4
Cymru	28.4	22.0	-6.4	-8
Y DU	25.3	21.1	-4.2	-70
EU15	..	..	..	..
EU25	..	45.5	..	..

(a) Unigolion cyflogedig yw unigolion rhwng 15 a 64 mlwydd oed wnaeth, yn ystod yr wythnos gyfeirio, (yr wythnos pan gasglwyd y data) weithio o leiaf un awr am dâl neu elw, neu oedd yn absennol o waith o'r fath dros dro. Mae gweithwyr teulu yn gynnwysedig. Graddfa ar gyfer y rhai rhwng 15 a 64 mlwydd oed

²¹ ADARAN GWAITH A PHENSIYNAU, 2006, Bargen Newydd er Lles: Galluogi Pobl i Weithio Ar gael ar: http://www.dwp.gov.uk/welfarereform/empowering_people_to_work.asp

(b) Mae'r boblogaeth economaidd weithredol yn cynnwys unigolion cyflogedig a di-waith. Graddfa ar gyfer y rhai rhwng 15 a 64 mlwydd oed

(c) Mae graddfeydd diweithdra yn cynrychioli unigolion di-waith fel canran o'r boblogaeth economaidd weithredol. Cyfradd ar gyfer y rhai 15 mlwydd oed a hŷn.


(ch) Y rhai a fu'n ddi-waith am o leiaf 12 mis.

.. Data heb fod ar gael.

Ffynhonnell: Eurostat

2.38 Dengys Ffigur 7 y cynnydd a wnaed yng Nghymru tuag at gwrdd â phrif dargedau cyflogaeth Lisboa. Fel y dengys Ffigur 7, sy'n defnyddio data Eurostat ar gyfer 2004, mae Cymru bron yn cwrdd â phrif dargedau cyflogaeth Lisboa ar gyfer 2010 oni bai am raddfa cyflogaeth merched. Mae'r data'n defnyddio diffiniadau Ewropeaidd o safbwynt cyflogaeth ar gyfer ystod oed 15-64. Y gwahaniaeth allweddol rhwng y diffiniad hwn a'r data a gyflwynwyd yng ngweddill y dadansoddiad yw bod diffiniad y DU ar gyfer cyflogaeth yn defnyddio 16-64 ar gyfer dynion ac 16-59 ar gyfer merched. Dylid cymryd gofal wrth gymharu data o Eurostat a data o ffynonellau'r DU²². Mae trafodaeth bellach o faterion marchnad lafur ar gael yn yr adran nesaf.

Ffigur 7. Cynnydd yn erbyn targedau Lisboa 2005 a 2010



Ffynhonnell: Eurostat

2.39 Dengys Tabl 7 ar dudalen 21 yr amodau marchnad lafur diweddaraf ar draws Cymru a'i rhanbarthau yn defnyddio Arolwg Gweithlu'r DU (dylid bod yn

²² Mae trosolwg o fethodoleg Arolwg Llafurlu Ewrop ar gael ar:

http://circa.europa.eu/irc/dsis/employment/info/data/eu_lfs/index.htm

Mae trosolwr o ffynonellau data marchnad lafur y DU ar gael ar:

<http://www.statistics.gov.uk/about/data/guides/LabourMarket/default.asp>

ofalus wrth gymharu Tablau 6 a Thabl 7 oherwydd y gwahanol fethodoleg a chyfnodau o amser²³. Er y gwelliannau diweddar, mae graddfeydd cyflogaeth yng Nghymru'n parhau'n is na'r DU, sy'n adlewyrchu graddfeydd uchel o anweithgarwch economaidd parhaus yn hytrach na graddfeydd uchel o ddiweithdra.

2.40 Er bod cyfradd gyflogaeth Dwyrain Cymru'n uwch na Chymru gyfan, mae'n llawer is na dyhead y DU i gael cyfradd gyflogaeth o 80%²⁴. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn lefelau cyflogaeth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, gyda'r gyfradd gyflogaeth n cynyddu fwy na dwywaith cyfradd twf Dwyrain Cymru. Ers 2001, cynyddodd cyflogaeth yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd tua 40,000²⁵ ac mae'r gyfradd gyflogaeth wedi cynyddu 2.4 pwynt canran i 69.5%. Ond nid yw gyfradd gyflogaeth nominal eto wedi cyrraedd cyfartaledd Cymru.

2.41 Mae diweithdra yng Nghymru wedi syrthio i lefelau hanesyddol isel. Ers 2001, mae cyfradd ddiweithdra Cymru wedi gostwng 0.3 pwynt canran i 5.1%. Yn wahanol i'r duedd ar draws Cymru gyfan, mae'r gyfradd ddiweithdra ar draws Dwyrain Cymru wedi cynyddu, ac mae'r gyfradd ar hyn o bryd ychydig yn is na chyfartaledd Cymru a'r DU. Ar draws Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, mae diweithdra wedi gostwng 0.6 pwynt canran i 5.3%. Er y diweithdra hanesyddol uwch, nid y darlun diweithdra sy'n esbonio'r gyfradd gyflogaeth gymharol isel yng Nghymru; graddfeydd uwch o anweithgarwch economaidd sy'n esbonio'r diffyg mewn graddfeydd cyflogaeth.

2.42 Er y gostyngiadau arwyddocaol mewn anweithgarwch economaidd ar draws Cymru dros y pedair blynedd diwethaf, mae'r gyfradd anweithgarwch economaidd dros dri phwynt canran yn uwch yng Nghymru, a bron bum pwynt canran yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd nag yn y DU yn gyfan. Mae anweithgarwch economaidd yn Nwyrain Cymru wedi syrthio 1.4 pwynt canran ers 2001 i 22.5%, sy'n llawer is na chyfartaledd Cymru. Er yr amodau marchnad lafur cymharol ffafriol ar draws Dwyrain Cymru, mae anweithgarwch economaidd yn parhau'n uwch na chyfartaledd y DU. Gwelwyd y gostyngiad mwyaf mewn anweithgarwch economaidd yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd.

²³ Mae manylion cryno ar fethodoleg Arolwg Llafurlu Ewrop ar gael ar:

http://circa.europa.eu/irc/dsis/employment/info/data/eu_lfs/index.htm

Mae manylion cryno ar fethodoleg Arolwg Llafurlu y DU ar gael ar

<http://www.statistics.gov.uk/statbase/Product.asp?vlnk=1537>

²⁴ ADRAN GWAITH A PHENSIYNAU, 2006, Bargaen Newydd er Lles: Galluogi Pobl i Weithio.

²⁵ Data yn cymharu 12 mis i Fawrth 2005 o 2001 o'r Arolwg Llafurlu Lleol.

Tabl 7: Crynodeb o'r farchnad lafur

		2001	Blwyddyn hyd Fawrth 2006	Newid ers 2001
Cyflogaeth (a)				
Dwyrain Cymru	Lefel (000)	478	495	16
	Cyfradd (%)	(72.6)	(73.7)	(1.1)
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	Lefel (000)	756	796	40
	Cyfradd (%)	(67.0)	(69.5)	(2.4)
Cymru	Lefel (000)	1,234	1,291	56
	Cyfradd (%)	(69.1)	(71.0)	(2.0)
Y DU	Lefel (000)	27,433	28,117	684
	Cyfradd (%)	(74.1)	(74.1)	(0.0)
Diweithdra ILO (b)				
Dwyrain Cymru	Lefel (000)	23	25	2
	Cyfradd (%)	(4.5)	(4.8)	(0.3)
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	Lefel (000)	48	45	-3
	Cyfradd (%)	(6.0)	(5.3)	(-0.6)
Cymru	Lefel (000)	71	70	-1
	Cyfradd (%)	(5.4)	(5.1)	(-0.3)
Y DU	Lefel (000)	1,450	1,483	32
	Cyfradd (%)	(5.0)	(5.0)	(-0.0)
Anweithgarwch Economaidd (c)				
Dwyrain Cymru	Lefel (000)	152	146	-6
	Cyfradd (%)	(23.9)	(22.5)	(-1.4)
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	Lefel (000)	312	293	-20
	Cyfradd (%)	(28.6)	(26.5)	(-2.1)
Cymru	Lefel (000)	464	438	-26
	Cyfradd (%)	(26.9)	(25.0)	(-1.9)
Y DU	Lefel (000)	7,856	7,986	130
	Cyfradd (%)	(21.9)	(21.9)	(-0.0)

(a) Mae'r lefelau ar gyfer rhai 16 mlwydd oed a hŷn, a'r cyfraddau ar gyfer y rhai o oed gweithio (dynion 16-64 a merched 16-59);


(b) Mae'r lefelau a'r cyfraddau ar gyfer rhai 16 mlwydd oed a hŷn. Mae'r gyfradd fel rhan o economaidd weithgar (cyflogaeth ynghyd â di-waith ILO) Mae diffiniad diweithdra'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol (ILO) yn cynnwys y rhai sydd allan o waith ac eisiau swydd, sydd wedi chwilio am swydd yn ystod y pedair wythnos ddiwethaf ac sydd ar gael i ddechrau gweithio yn ystod y pythefnos nesaf; yn ogystal â'r rhai sydd allan o waith, wedi canfod swydd ac sy'n aros i ddechrau yn ystod y pythefnos nesaf.

(c) Mae'r lefelau a'r graddfeydd ar gyfer rhai o eod gweithio (dynion 16-64, merched 16-59).

Ffynhonnell: Arolwg Gweithlu Llafur

2.43 Mae amrywiadau sylweddol o safbwynt perfformiad marchnad lafur yng Nghymru. Dengys Ffigur 8 raddfeydd cyflogaeth ar draws Cymru, gyda'r rhannau tywyll yn dangos graddfeydd cyflogaeth isel a'r rhannau golau yn dangos graddfeydd cyflogaeth uchel. O fewn Dwyrain Cymru, Caerdydd sydd â'r raddfa gyflogaeth isaf a, fel y dengys adrannau diweddarach, pocedi o amddifadedd. Mae'r ardaloedd gyda'r graddfeydd cyflogaeth isaf yn Ne Cymru, yn arbennig Blaenau Gwent, Merthyr Tudful a Nedd Port Talbot.


Ffigur 8. Graddfeydd Cyflogaeth fesul Awdurdod Lleol



Ffynhonnell: Arolwg Marchnad Lafur

2.44 Mae Ffigur 9 isod yn cynnig mwy o brawf o safbwynt dangosyddion marchnad llafur bod tanberfformiad perthynol Cymru wedi'i ganolbwyntio yng nghymoedd De Cymru. Dengys Ffigur 9 raddfeydd anweithgarwch economaidd fesul awdurdod lleol. Dengys y rhannau tywyll raddfeydd anweithgarwch economaidd o fewn awdurdodau lleol. O fewn Dwyrain Cymru, graddfa anweithgarwch economaidd Wrecsam yw'r uchaf gyda graddfeydd anweithgarwch economaidd Siroedd y Fflint, Powys a Threfaldwyn yn is nag 20% o'r boblogaeth Oed Gweithio. Mae cyfradd anweithgarwch economaidd pob un o awdurdodau lleol De Cymru'n uwch na 26% sy'n cymharu â dim ond Sir Gâr y tu allan i gymoedd De Cymru.

Ffigur 9. Graddfeydd Anweithgarwch Economaidd fesul Awdurdod Lleol




Ffynhonnell: Arolwg Gweithlu Llafur

2.45 Her allweddol sy'n wynebu economi Cymru trwy wella cyfleoedd cyflogaeth yw cynnwys unigolion anweithgar yn y farchnad lafur mewn modd cynaliadwy. Fel mae'r dadansoddiad uchod yn ei ddangos, er bod amodau'r farchnad lafur wedi gwella, mae graddfeydd cyflogaeth yng Nghymru'n parhau'n is na chyfartaledd y DU yn gyfan. Gyda graddfeydd diweithdra Cymru yn awr yn unol â chyfartaledd y DU, nid yw diweithdra uwch yn esbonio'r gwahaniaeth. Y gwir yw mai graddfeydd uwch o anweithgarwch economaidd yw'r prif esboniad dros y gwahaniaeth mewn graddfeydd cyflogaeth.

2.46 Gwnaed cynnydd o safbwynt gostwng graddfeydd anweithgarwch economaidd yng Nghymru'n gyffredinol. I wneud mwy o gynnydd yn y maes hwn, mae'n bwysig deall yr achos sy'n sail i anweithgarwch gormodol yng Ngorllewin

Cymru a'r Cymoedd. Y ffactor mwyaf cyffredin mae ymatebwyr yn ei roi, yn arbennig dynion, yw cyflwr iechyd hir dymor wedi ei hunan riportio sy'n cyfyngu ar y gallu i weithio. Fel y dengys Ffigur 10, dyma sy'n gyfrifol am lawer o'r gwahaniaeth mewn anweithgarwch economaidd rhwng Gornllewin Cymru a'r Cymoedd a Chymru, â chyfartaledd y DU. Roedd ymatebion Dwyrain Cymru'n debyg i'r DU yn gyffredinol. Mae lefelau anweithgarwch yn gyson uwch ymysg pobl gyda sgiliau isel.

Ffigur 10. Cyfradd Anweithgarwch Economaidd fesul rheswm a roddwyd, 2004



Ffynhonnell: Arolwg Gweithlu Llafur

2.47 Mae iechyd gwael heb os yn fwy o broblem mewn rhai rhannau o Gymru na'r DU yn gyfan. Mae Tabl 8 yn crynhoi rhai canlyniadau o Arolwg Iechyd Cymru o safbwynt asesiadau iechyd²⁶ hunan riportio ar gyfer unigolion o oed gweithio. Dengys Tabl 9 fod yno yn 2004/05 fwy o bron bob salwch a chyflwr yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd na Dwyrain Cymru a Chymru gyfan o safbwynt unigolion oed gweithio. Mae'r ardaloedd gyda'r crynhoad mwyaf o anabledd sy'n cyfyngu ar y gallu i weithio i'w canfod yn awdurdodau'r Cymoedd ym Mlaenau Gwent, Merthyr Tudful, Caerffili, Rhondda Cynon Taf a Chastell Nedd / Port Talbot²⁷.

²⁶ Yn adlewyrchu dealltwriaeth y bobl eu hunain o'u hiechyd yn hytrach nag asesiad cliniol o'u cyflwr.

²⁷ Y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol (2003) Ffocws ystadegol ar Anabledd a salwch hirdymor yng Nghymru – <http://new.wales.gov.uk/topics/statistics/publications/focus-disability2003/?lang=cy>

Tabl 8: Canran yr oedolion sy'n riportio salwch / cyflyrau dethol ^(a)

Sy'n derbyn triniaeth ar hyn o bryd ar gyfer	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	Dwyrain Cymru	Cymru
Pwysedd gwaed uchel	10	8	10
Unrhyw gyflwr sy'n effeithio ar y galon (ac eithrio pwysedd gwaed uchel)	4	4	4
Asthma	10	8	9
Unrhyw afiechyd anadlol (gan gynnwys asthma)	11	10	11
Unrhyw salwch meddwl	10	8	9
Arthritis	8	6	7
Poen cefn	10	8	10
Diabetes	3	3	3
Salwch hirdymor cyfyngol	21	17	20
Llai na 21 o ddannedd	17	13	16

Ffynhonnell: Arolwg Iechyd Cymru 2003/04

(a) Diffiniad oedolion o waith gweithio yw 16-64 i ddynion ac 16-59 i ferched
Gweler adroddiad Arolwg Iechyd Cymru a gwefan yr arolwg am ddisgrifiad o'r arolwg a diffiniadau llawn


<http://new.wales.gov.uk/topics/statistics/publications/publication-archive/health-survey2003-04/?lang=cv>

2.48 Er bod iechyd gwael wedi'i hunan riportio yn cael ei nodi fel rheswm allweddol i esbonio anweithgarwch economaidd uwch, cynyddodd graddfeydd anweithgarwch economaidd ymysg dynion yn ystod yr 1980au a'r 1990au pan oedd mesurau gwrthrychol (fel y rhai sydd yn Nhabl 8) ar gyfer iechyd yn gwella. Arweiniodd ymchwil helaeth²⁸ yn y maes hwn at gonsensws y gallai cyfran arwyddocaol o'r rhai sydd â chyflyrau iechyd sydd, mae'n debyg, yn cyfyngu ar eu gallu i weithio, yn cynnwys pobl ar fudd-daliadau analluogrwydd, gyda chymorth a chefnogaeth briodol chwarae rhan fwy gweithredol yn y farchnad lafur,

2.49 Dengys Ffigur 11 rai canlyniadau diddorol o anweithgarwch economaidd gorfodol yng Nghymru o'i gymharu â'r DU fesul rhyw, oed a'r rheswm a roed. Dengys Ffigur 11 ar gyfer dynion a merched yn y grwpiau oed uwch mai salwch hirdymor yw'r esboniad dros y rhan fwyaf o anweithgarwch economaidd gormodol yng Nghymru o'i gymharu â'r DU yn gyfan. Mae hyn hefyd yn wir am ddynion a merched yn grŵp oed 35-49, ond mae llai o ferched yn y grŵp oed hwn yng Nghymru yn economaidd anweithgar oherwydd gofalu am gartref neu deulu o'i gymharu â chyfartaledd y DU. Ar gyfer merched yn y grwpiau oed 16-24 a 25-34, gofalu am y cartref â'r teulu sy'n esbonio'r rhan fwyaf o anweithgarwch economaidd gormodol yng Nghymru o'i gymharu â'r DU yn gyfan.

[illegible]

Ffigur 11. Nifer sy'n economaidd anweithgar yng Nghymru dros gyfartaledd graddfeydd anweithgarwch y DU fesul grŵp oed, rhyw a rheswm, 2003



Ffynhonnell: Arolwg Gweithlu Llafur

2.50 Mae'r cynnydd mewn cyflogaeth i ferched yn gyffredinol ar draws Cymru wedi tynnu sylw at y broblem o ofal plant fel rhwystr potensial i gymryd rhan yn y farchnad lafur²⁹. Dengys Ffigyrau 10 ac 11 mai 'gofalu am y cartref a'r teulu' sy'n gyfrifol am gyfran sylweddol o'r rhesymau a roddwyd dros fod yn economaidd anweithgar.

2.51 Dengys ymchwil o'r Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol fod presenoldeb plant dibynnol yn cael effaith ddramatig ar raddfeydd anweithgarwch economaidd ar rieni unigol. Dros y degawd diwethaf, mae mwy o famau unigol yn awr yn economaidd weithgar, er bod y raddfa'n is o hyd na graddfa'r boblogaeth merched oed gweithio gyfan (57%, o'i gymharu â 73%). Hefyd, canfu ymchwil a wnaed gan Sefydliad Joseph Rowntree³⁰ bod y nifer o rieni unigol sy'n gadael y system fudd-daliadau yn sylweddol is yn y wardiau lle mae crynhoad uchel o hawl wyr, sy'n dangos bod rhieni unigol mewn ardaloedd difreintiedig yn wynebu cosb ychwanegol yn y farchnad lafur.

2.52 Dadleuwyd fod y DU wedi dioddef o ddiffyg argaeledd at ofal plant fforddiadwy, sy'n esbonio rhan o'r anweithgarwch economaidd ar draws y DU³¹. Mae Strategaeth Gofal Plant Cymru'n tynnu sylw at nifer o feysydd lle diffygion darpariaeth gofal plant yng Nghymru, yn arbennig dim digon o ddarpariaeth yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru³². Dengys ymchwil³³ fod rhoi cymhorthdal i ofal plant a chynyddu cyfleoedd yn arwain at gynyddu cyflogaeth ar gyfer merched ac, yn arbennig, rhieni unigol; mae'r effaith fodd bynnag yn gryfach lle mae'r

²⁹ Blackaby, D et al. 2003 Identifying Barriers to Economic Inactivity in Wales. Adroddiad i Uned Ymchwil Economaidd Llywodraeth Cynulliad Cymru: <http://new.wales.gov.uk/about/aboutresearch/econoresearch/economicresearch/ercompletedresearch/barrierseconomicactivity?lang=cy>

³⁰ Joseph Rowntree Foundation - <https://www.jrf.org.uk/knowledge/findings/socialpolicy/572.asp>

³¹ Duncan, A and Giles, C. 1996. Should we Subsidise Childcare and if so how? *Fiscal Studies*, Vol 17 pp. 39-61.

³² Mae mwy o fanylion ar gael yn Strategaeth Gofal Plant Cymru – Mae Gofal Plant i Blant, ar gael ar: <http://new.wales.gov.uk/about/strategy/strategypublications/strategypublications/935820/?lang=cy>

³³ Duncan, A et al, 2001. Mothers' Employment and the use of Childcare in the UK, Institute of fiscal Studies WP01/23 and Duncan, A and Giles, C. 1996. Should we Subsidise Childcare and if so how? *Fiscal Studies*, Vol 17 pp. 39-61.

polisiau'n cael eu targedu a lle mae yno brofi modd. Yn ogystal â gofal plant, dengys corff tystiolaeth³⁴ fod presenoldeb aelod hŷn o'r teulu'n lleihau'r gallu i gymryd rhan yn y farchnad lafur.

2.53 Yn ogystal â gofal plant, adnabuwyd nifer o rwystrau eraill sy'n atal y rhai sy'n economaidd anweithgar ar hyn o bryd rhag cymryd rhan mewn cyflogaeth. Mae pwysigrwydd rhwydweithiau, anffurfiol a ffurfiol, ar ffurf mynediad i gludiant cyhoeddus wedi'u hamlygu fel rhwystrau potensial yn arbennig i bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig³⁵. Mae gan hyn oblygiadau amlwg i Gymru o ystyried bod cyfran sylweddol o'r wlad yn wledig.

2.54 Dengys Ffigur 12 isod fynediad at ganolfannau cyflogaeth allweddol yng Nghymru³⁶ ar fws a cherdded. Mae'r ardaloedd coch yn dangos lle'n cymryd mwy nag awr i gyrraedd. Mae'r ardaloedd gyda'r mynediad bws/cerdded gwaethaf at ganolfannau cyflogaeth allweddol yng Nghymru i'w canfod yng Ngorllewin Cymru. Ond mae pocedi mawr gyda mynediad gwael at ganolfannau cyflogaeth i'w cael yng nghymoedd De Cymru. Mae hyn yn achosi pryder, yn arbennig o ystyried y graddfeydd anweithgarwch economaidd cymharol ar draws De Cymru a'r cysylltiad rhwng mynediad at gludiant fel rhwystr i gyflogaeth ar gyfer rhai unigolion sy'n economaidd anweithgar³⁷.

³⁴ Greenhalgh, C. 1980. Participation and hours worked of married women in Great Britain. *Oxford Economics Papers* Vol 32, pp. 296-318

³⁵ Cartmel, F and Furlong, A, 2000. Youth Unemployment in Rural Areas. A Report for the Joseph Rowntree Foundation.

³⁶ Daeth y canolfannau cyflogaeth sydd yn y map hwn o *Gynllun Gofodol Cymru* Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r canolfannau'n cynnwys pob canol tref / dinas gyda mwy na 2000 o swyddi (data 2000), gyda'r lleoliadau tros y ffin yng Nghaer, yr Amwythig, Henffordd a Bryste. *Cynllun Gofodol Cymru*, Tachwedd 2004:

<http://new.wales.gov.uk/about/strategy/spatial/sppublications/walesspatial?lang=cy>

³⁷ Blackaby ac eraill, 2003, Adnabod Rhwystrau i Weithgaredd Economaidd yng Nghymru. Adroddiad i Uned Ymchwil Economaidd Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Cynhwysiad cymdeithasol ar gyfer pobl dan anfantais

2.56 Er bod y prif ddangosyddion marchnad lafur yn dangos cynnydd calonogol yn y blynyddoedd diwethaf, mae Cymru'n parhau i ddioddef o gyfraddau cyflogaeth is ac anweithgarwch economaidd uwch na'r DU. Fel y dengys y dadansoddiad nesaf, mae rhai grwpiau mewn cymdeithas yn gwneud yn well o safbwynt cyfranogiad cyffredinol yn y farchnad lafur.

2.57 Mae Tabl 9 yn dadansoddi'r newid yn y cyfraddau cyflogaeth fesul anabledd ac ethnigrwydd. Dengys Tabl 9 bod cyfraddau cyflogaeth a chyfraddau gweithgaredd economaidd ar gyfer pobl gydag anableddau³⁹ ar draws Dwyrain Cymru, Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Chymru gyfan yn sylweddol is nag ar gyfer pobl heb unrhyw anableddau. Nid yw hyn yn peri syndod o ystyried mai rhan o ddiffiniad Arolwg Gweithlu Llafur o bobl anabl yw pobl gydag anableddau sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio⁴⁰. Mae graddfeydd diweithdra (sy'n mesur y rhai sy'n gallu, yn barod ac sy'n chwilio am gyflogaeth) ar gyfer pobl anabl fodd bynnag yn sylweddol uwch nag ar gyfer y rhai hynny heb anabledd. Yn gyfan gwbl ar draws Cymru, mae 221,000 o unigolion anabl sy'n economaidd anweithgar, ac ychydig dan 13,000 o unigolion anabl sydd wedi cofrestru'n ddi-waith. Dengys ymchwil diweddar⁴¹ fod graddfeydd cyflogaeth ar gyfer unigolion gydag anabledd heb fod yn cyfyngu ar y gallu i weithio bron yn union yr un fath â graddfeydd unigolion heb anabledd. Yr elfen 'cyfyngu ar allu i weithio' sydd felly wrth galon y gwahaniaethau cyflogaeth rhwng unigolion gydag a heb anabledd.

2.58 Dengys Tabl 9 fod unigolion Du ac Ethnig Lleiafrifol (BME) yn gwneud yn waeth o safbwynt canlyniadau marchnad lafur o'i gymharu â'r boblogaeth heb fod yn BME ar draws Cymru gyfan ynghyd â rhanbarthau Cymru. O safbwynt crynhoad cyffredinol, Caerdydd a Chasnewydd sydd â'r gyfradd uchaf o boblogaeth o gefndiroedd BME o holl awdurdodau lleol Cymru, gyda 8% a 5% o'r boblogaeth gyfan Caerdydd a Chasnewydd yn ôl y drefn. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd o 2%⁴² ar draws Cymru. Ond dylid cymryd gofal wrth ddehongli ffigyrau'r boblogaeth BME yng Nghymru oherwydd diffyg maint y sampl. Er enghraifft, ar gyfer Cymru gyfan roedd y gyfradd ddiweithdra dros y cyfnod 2001-04 yn newid yn sylweddol gyda'r gyfradd ddiweithdra yn 2001 yn 7.5% ond yn 14.8% yn 2002. Hefyd, mae newid mewn diweithdra, er yn fawr o safbwynt canrannau, yn fach mewn gwir rifau. Mae'r cynnydd yn y gyfradd ddiweithdra rhwng 2001 a 2004 yn cynrychioli 1,600 yn fwy o unigolion wedi cofrestru'n ddi-waith ar draws Cymru. Yn gyfan gwbl ar draws Cymru, mae 3,000 o unigolion o dras BME wedi cofrestru'n ddi-waith a 14,000 wedi cofrestru'n economaidd anweithgar.

³⁹ Diffinnir anabledd fel anabledd sy'n cyfyngu ar y gallu i weithio neu anabledd Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd neu'r ddau.

⁴⁰ Mae canlyniadau marchnad lafur i unigolion gydag anabledd, ond heb fod yn cyfyngu ar y gallu i weithio yn debyg i ganlyniad unigolion heb fod yn anabl.

⁴¹ JONES. M. K (2005) disability and the labour market: Adolygiad o'r dystiolaeth empirig <http://www.swan.ac.uk/welmerc/pdf%20and%20cv/Disability%20and%20the%20Labour%20Market%20A%20review%20of%20the%20empirical%20evidence-%20DP.pdf>

⁴² Office for National Statistics (2004) A statistical focus on ethnicity in Wales – <http://new.wales.gov.uk/topics/statistics/publications/?lang=cy>

2.59 Mae tystiolaeth ddiweddar⁴³ wedi ymchwilio'r gwahaniaeth yng nghanlyniadau'r farchnad lafur o safbwynt unigolion BME yng Nghymru a Lloegr ynghyd â'r rhesymau dros y gwahaniaethau. Mae tri phrif gasgliad yn ymddangos yn y gwaith hwn. I ddechrau mae unigolion BME yn tueddu i fyw mewn ardaloedd difreintiedig ac felly'n wynebu anfantais yn y farchnad lafur (er nad yw achos hyn yn glir). Yn ail, mae gan unigolion BME gyrhaeddiad addysgol is nag unigolion heb fod yn BME. I gloi, mae tystiolaeth yn awgrymu fod crefydd yn ffynhonnell ychwanegol ar gyfer amrywiaethau yn ymddygiad y farchnad lafur ac ar ôl rheoli ar gyfer nodweddion unigol, mae unigolion gyda rhai credoau crefyddol yn cael canlyniadau marchnad lafur gwael.

⁴³ Clark. K and Drinkwater S. 2005. Dynamics and Diversity: Ethnic Employment Differences in England and Wales, 1991-2001. IZA Discussion Paper No. 1698
<http://www.econ.surrey.ac.uk/staff/sdrinkwater/dp1698.pdf>

Tabl 9: Crynodeb marchnad lafur, gwahaniaethu fesul anabledd (a) ac ethnigrwydd (canran)

	Cyflogaeth		Economaidd Anweithgar		Diweithdra (b)	
	2001	2004	2001	2004	2001	2004
Anabledd						
<i>Dwyrain Cymru</i>						
Pob Unigolyn	72.6	73.9	23.9	22.9	4.7	4.2
Pobl Anabl	44.1	48.0	52.4	49.1	7.2	5.7
Heb fod yn anabl	79.3	80.2	17.1	16.5	4.3	3.9
<i>Gorllewin Cymru a'r Cymoedd</i>						
Pob Unigolyn	67.0	69.6	28.6	26.5	6.1	5.4
Pobl Anabl	33.9	38.2	62.4	58.4	9.9	8.1
Heb fod yn anabl	77.8	79.9	17.6	16.0	5.5	4.9
<i>Cymru</i>						
Pob Unigolyn	69.1	71.2	26.9	25.1	5.1	4.9
Pobl Anabl	37.1	41.3	59.3	55.5	8.9	7.2
Heb fod yn anabl	78.4	80.8	17.4	16.2	5.1	4.5
Ethnigrwydd						
<i>Dwyrain Cymru</i>						
Pob Unigolyn	72.6	73.9	23.9	22.9	4.5	4.1
Poblogaeth BME	52.8	58.4	43.0	34.7	7.1	10.5
(c)						
Y boblogaeth heb fod yn BME	73.3	74.6	23.1	22.4	4.5	3.8
<i>Gorllewin Cymru a'r Cymoedd</i>						
Pob Unigolyn	67.0	69.6	28.6	26.5	6.0	5.2
Poblogaeth BME	62.6	59.0	31.7	32.9	8.2	12.1
(c)						
Y boblogaeth heb fod yn BME	67.1	68.7	28.6	26.4	5.9	5.1
<i>Cymru</i>						
Pob Unigolyn	69.1	71.2	26.9	25.1	5.4	4.8
Poblogaeth BME ³	55.7	58.6	39.7	34.1	7.5	11.1
Y boblogaeth heb fod yn BME	69.3	71.5	26.6	24.9	5.4	4.6

(a) Diffinnir Anabledd fel anabledd sy'n cyfyngu ar y gallu i weithio neu Anabledd Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd neu'r ddau;

(b) Mae graddfeydd diweithdra wedi'u dosbarthu fesul anabledd yn seiliedig ar bobl oed gweithio yn unig oherwydd nad yw'r cwestiwn anabledd yn cael ei ofyn i bobl mewn gwaith, ond sydd dros oed gweithio. Felly bydd y raddfa pob unigolyn yn wahanol i'r graddfeydd diweithdra oed gweithio.

(c) Pawb sy'n BME.

Ffynhonnell: Arolwg Gweithlu Llafur Blynyddol / Arolwg Poblogaeth Blynyddol

2.60 Mae'r bwlch rhwng graddfeydd diweithdra dynion a merched yng Nghymru tua hanner y bwlch ar gyfer y DU gyfan, ac mae cyflogaeth merched wedi tyfu'n gynt na chyflogaeth dynion ar draws Cymru yn ddiweddar. Rhwng 2001 a 2004, cynyddodd graddfa gyflogaeth merched ar draws Cymru 2.9% o'i gymharu â 1.7% i ddynion, ac mae bellach yn 67.8%. Mae'r raddfa gyflogaeth merched wedi cynyddu ym mhob grŵp oed, ond roedd cynnydd sylweddol yn grŵp 35-59 mlwydd oed. Gosodir hyn yn erbyn gostyngiad o 0.4 pwynt canran yn y raddfa gyflogaeth ar gyfer dynion oed gweithio crai⁴⁴ ar draws Cymru rhwng 2001 a 2004 o'i gymharu â chynnydd o 1.7 pwynt canran i ferched. Ar draws Cymru mae cyfanswm o 250,000 o ferched a 188,000 o ddynion yn economaidd anweithgar. Mae trafodaeth o'r achosion yn yr adrannau i ddod.

2.61 Mae pryder hefyd ynghylch y gostyngiad mewn cyflogaeth dynion ifanc (16-24 mlwydd oed) yn Nwyrain Cymru. Dengys data diweddar⁴⁵ (2003-2004) ar draws Cymru gyfan (nid oes data rhanbarthol ar gael) fod y nifer o bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET) wedi cynyddu i 13% o 11% yn 2002-2003. Mae cydnabyddiaeth eang mewn llenyddiaeth economaidd⁴⁶ fod addysg, sgiliau a phrofiadau marchnad lafur yn hanfodol bwysig i oedolion ifanc ar gyfer eu cyfleoedd bywyd i'r dyfodol. Felly gall amser allan o gymryd rhan yn y farchnad lafur achosi problemau yn hwyrach mewn bywyd i'r unigolion hyn. Tynnodd tystiolaeth ddiweddar sylw at bwysigrwydd gwella cyrhaeddiad addysgol, ac atal cyfnodau hir o ddiweithdra pan yn bobl ifanc oherwydd gall hyn leihau maint y lleiafrif o unigolion (yn arbennig dynion) fydd yn treulio rhan fawr o'u bywyd gweithio yn ddi-waith.

⁴⁴ Diffinnir fel rhai 25-34 mlwydd oed.

⁴⁵ Y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol, 2005 SB/80/2005. *Participation of Young People in Education and the Labour Market 2003/04*.

⁴⁶ I gael enghraifft, gweler Gregg, P and Tominey, E, 2001 [The Impact of Youth Unemployment on Adult Unemployment in the NCDS](#) *Economic Journal* vol 111, issue 475, F626-653.

Tabl 10: Graddfeydd cyflogaeth fesul rhyw ac oed


	<i>Dwyrain Cymru</i>		<i>Gorllewin Cymru a'r Cymoedd</i>		<i>Cymru</i>	
	2001	2004	2001	2004	2001	2004
Dynion						
16-24	60.4	58.5	56.6	60.5	58.0	59.7
25-34	87.2	87.8	84.6	83.6	85.6	85.2
35-49	88.1	89.9	82.1	85.8	84.3	87.3
50-64	68.9	71.3	57.8	60.9	61.6	64.5
65+	9.6	8.3	5.8	6.5	7.1	7.1
Oed gweithio	77.3	78.0	70.6	72.9	73.1	74.8
Merched						
16-24	55.1	59.6	51.3	54.8	52.7	56.7
25-34	69.8	72.0	68.8	70.2	69.2	70.9
35-49	75.9	76.7	70.7	74.4	72.7	75.3
50-59	62.8	69.0	56.1	59.6	58.5	62.9
60+	8.9	8.9	6.9	7.8	7.6	8.2
Oed gweithio	67.6	70.5	63.2	66.2	64.9	67.8
Unigolion						
16-24	57.7	59.7	53.9	57.7	55.3	58.2
25-34	78.2	79.5	76.5	76.7	77.1	77.8
35-49	81.8	83.1	76.3	80.0	78.4	81.1
50-64	66.3	70.4	57.1	60.4	60.3	63.9
65+	9.1	8.7	6.5	7.3	7.4	7.8
Oed gweithio	72.6	74.3	67.0	69.6	69.1	71.4

Ffynhonnell: Arolwg Gweithlu Llafur Lleol

2.62 Un o brif dargedau cyflogaeth Lisboa yw cynyddu graddfeydd cyflogaeth gweithwyr hŷn (y rhai rhwng 55 a 64 mlwydd oed) 50% erbyn 2010. Mae Ffigur 13 yn cynnwys crynodeb o'r sefyllfa ddiweddaraf ar gyfer Cymru, Dwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn erbyn y targed hwn. Mae'r gyfradd gyflogaeth ar gyfer gweithwyr hŷn ar draws Cymru ychydig yn is na tharged Lisboa o 50%. Mae'r gyfradd gyflogaeth ar gyfer gweithwyr hŷn ar draws Dwyrain Cymru ychydig yn uwch na tharged Lisboa, ac wedi bod ers 2002. Mae'r gyfradd gyflogaeth ar gyfer gweithwyr hŷn ar draws Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ychydig yn is na tharged Lisboa, ar 45.2%. Bydd cynyddu graddfeydd cyflogaeth gweithwyr hŷn yn gam tuag at y targed o gynyddu cyfartaledd effeithiol oed gadael y farchnad lafur sydd i'w weld yn yr EES⁴⁷.

⁴⁷ Commisiwn Ewrop (2005/600/EC) Penderfyniad y Cyngor ar 12 Gorffennaf 2005 ar ganllawiau ar gyfer polisiau on "Guidelines for the employment policies of the Member States".
http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/site/en/oj/2005/l_205/l_20520050806en00210027.pdf

Ffigur 13. Graddfa Cyflogaeth Gweithwyr Hŷn



Ffynhonnell: Eurostat


2.63 Ar draws Cymru gyfan, roedd tua 50% o'r cynnydd mewn cyflogaeth rhwng 2001 a 2004 mewn cyflogaeth rhan amser. I ddynion, roedd 56% o'r cynnydd mewn cyflogaeth yn rhan amser, a 44% oedd y Ffigur i ferched. Mae'r darlun ar draws Dwyrain Cymru ychydig yn wahanol i ddarlun Cymru gyfan gyda thua un rhan o dri o'r cynnydd cyfan mewn cyflogaeth rhan amser ar gyfer dynion a merched rhwng 2001 a 2003. Yn gyfan, roedd 26% o weithwyr Cymru, sef 334,000 o unigolion, mewn gwaith rhan amser. Mae'r Ffigur i ferched yn 44% (264,000 o unigolion) o'i gymharu ag 11% (70,000 o unigolion) i ddynion. Roedd y gyfran yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd ac yn Nwyrain Cymru yn debyg iawn i gyfartaledd Cymru gyfan.

2.64 Yn ogystal â'r cynnydd mewn lefelau cyflogaeth ar draws Cymru, mae cyflogau cyfartalog hefyd wedi cynyddu. Ers 1999, mae cyflogau cyfartalog yng Nghymru wedi cynyddu 28% mewn termau enwol (13% mewn termau go iawn). Mae'r cynnydd yn debyg ar draws holl ranbarthau Cymru ac yn y DU yn gyfan. Ond cyflogau cyfartalog wythnosol Cymru oedd y trydydd isaf o holl weinyddiaethau datganoledig a ranbarthau'r DU yn 2005. Enillion wythnosol cyfartalog crynswth ar gyfer oedolion mewn gwaith llawn amser yng Nghymru ym mis Ebrill 2005 oedd £455, 88.0% o gyfartaledd y DU yn gyfan⁴⁸. Mae gwahaniaethau clir rhwng ranbarthau Cymru fel y dengys Ffigur 14, gyda chyflogau cyfartalog is ar draws Gorllewin Cymru a'r Cymoedd nag ar draws

⁴⁸ Annual Survey of Hours and Earnings 2005, Y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol:
<http://www.statistics.gov.uk/StatBase/Product.asp?vlnk=14203>

Dwyrain Cymru. O fewn Dwyrain Cymru fodd bynnag, mae cyflogau cyfartalog Powys a Sir Fynwy yn is na Chymru gyfan a'r ail isaf o bob ardal leol yng Nghymru. Sir Gâr, Ceredigion a Sir Benfro sydd a'r cyflogau cyfartalog isaf gyda 93% o gyfartaledd Cymru. Mae strwythurau diwydiannol cymharol yr isranbarthau yn esbonio'r gwahaniaeth yn rhannol.

Ffigur 14. Enillion wythnosol gros cyfartalog (a) (b)



(a) Yn seiliedig ar enillion wythnosol cyfartalog crnswth (yn cynnwys goramser) ar gyfer oedolion llawn amser na wnaeth absenoldeb effeithio ar eu tâl.

(b) Ers arolwg 2004, casglwyd gwybodaeth ychwanegol er mwyn gwella'r ymdriniaeth a thrwy hynny wneud yr arolwg yn fwy cynrychioliadol. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am fusnesau heb gofrestru ar gyfer TAW ac ar gyfer pobl sydd wedi newid swyddi neu ddechrau swyddi newydd rhwng dethol y sampl a chyfnod cyfeirio'r arolwg. Felly mae peth diffyg parhad wrth gymharu data 2005 gyda blynyddoedd cynharach.

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion

2.65 Ynghyd â chynnydd mewn cyflogaeth merched yng Nghymru, mae'r bwlch enillion rhwng dynion a merched yn is yng Nghymru na chyfartaledd y DU, ac mae merched Cymru'n gwneud yn well o'u cymharu â'r DU na dynion Cymru o safbwynt enillion cyfartalog fesul awr⁴⁹. Roedd enillion llawn amser fesul awr (heb gynnwys goramser) merched yng Nghymru (ac ar draws Dwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) ym mis Ebrill 2005 88% o'r Ffigur gyfartal i ddynion. Roedd hyn yn sylweddol uwch na chyfartaledd y DU yn gyfan (82.7%).

⁴⁹ Un ffactor sy'n esbonio'r bwlch cyflog cymharol fach ar sail rhyw yng Nghymru yw'r cyflog cymharol fach ar gyfer dynion yn hytrach na chyflog uwch na'r cyfartaledd i ferched.

2.66 Mae cyfartaledd y gwahaniaeth rhwng enillion dynion a merched ar draws y DU yn fwy nag ar draws yr UE25⁵⁰. Yn 2004, roedd enillion fesul awr gros cyfartalog ar gyfer merched tua 78% o gyfradd gyfartalog dynion, o'i gymharu ag 85% ar draws yr UE25.

2.67 Dengys astudiaeth ddiweddar⁵¹ oedd yn ymchwilio gwahaniaeth tâl ar gyfer dynion a merched ar draws y DU fod gwahaniad y farchnad lafur yn ffactor oedd yn esbonio enillion cymharol ar gyfer dynion a merched oherwydd bod merched yn gyffredinol yn gweithio mewn grŵp cyfyng o alwedigaethau, oedd yn bennaf yn cynnig gwaith rhan amser gyda thâl is na chyfartaledd y DU. Hefyd nid yw cyfraniad economaidd merched yn cael ei ddefnyddio'n llawn. Mae hyn yn arbennig o wir o safbwynt merched mewn cyflogaeth rhan amser gyda 45% o ferched oedd yn gweithio'n rhan amser heb fod yn defnyddio'u holl sgiliau na'u holl gymwysterau yn eu gwaith. Yn ail, mae tystiolaeth gref nad yw merched yn cael eu gwobrwyo'n ddigonol am eu cyfraniad economaidd a bod y bwlch tâl ar sail rhyw, er yn culhau'n gyson dros y degawdau diwethaf, yn parhau.

2.68 Yng Nghymru yn 2004, merched oedd yn llenwi 83% o swyddi mewn galwedigaethau gwasanaeth personél, a 78% o swyddi gweinyddol ac ysgrifenyddol. I'r gwrthwyneb, dynion oedd yn gwneud 93% o swyddi uwch sgiliau ac 84% o swyddi prosesu, offer a pheiriannau. Mae'n parhau'n wir mai dynion sydd yn y mwyafrif o uwch swyddi ym mhob sector bron; er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o athrawon uwchradd yn ferched, ond dynion yw'r rhan fwyaf o benaethiaid uwchradd.

2.69 Dengys ymchwil⁵²: mae 36% o'r bwlch tâl oherwydd gwahaniaeth mewn patrymau gweithio llawn amser (er enghraifft, cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith i ofalu am blant, gan ddychwelyd yn aml i swyddi gyda thâl is, neu ferched yn symud swyddi'n llai aml na dynion, sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at gynyddu cyflog dynion); mae gwahaniad galwedigaethol yn gyfrifol am 18%; mae 38% o ganlyniad i wahaniaeth o safbwynt cymhelliant yn y farchnad lafur, dewis merched dros ddynion ynghyd â gwahaniaethu uniongyrchol; ac 8% oherwydd gwahaniaethau cyfalaf dynol megis cymysgedd cymwysterau is ymysg merched a llai o flynyddoedd o brofiad os ydynt wedi cymryd amser allan ar gyfer cyfrifoldebau gofalu. Gall cyflogwyr, yn rhagddyfalu y bydd merched yn torri ar yrfa, drin merched yn llai ffafriol sy'n golygu bod merched nad ydynt yn torri gyrfa, neu'n cymryd saib byr iawn, yn cael eu cosbi. Mae diffyg tâl cyfatebol am waith cyfatebol yn parhau'n ffactor a chred rhai ymchwilwyr, hyd yn oed ar ôl ystyried pob ffactor

⁵⁰ Y bwlch cyflog ar sail rhyw yw'r gwahaniaeth rhwng enillion cyfartalog crynswth yr awr a delir i ddynion â'r enillion cyfartalog crynswth yr awr a delir i ferched fel canran o enillion cyfartalog crynswth yr awr a delir i ddynion. Seilir y bwlch cyflog ar sail rhyw ar nifer o ffonellau data, yn cynnwys Panel Cartrefi y Gymuned Ewropeaidd (ECHP), Arolwg yr UE o Incwm ac Amodau Byw (EU-SILC) a ffynonellau cenedlaethol. Mae'r boblogaeth darged yn cynnwys pob gweithiwr cyflogedig rhwng 16-64 mlwydd oed sy'n 'gweithio 15+ o oriau bob wythnos'. Mae data lefel DU yn seiliedig ar ddata ar gyfer gweithwyr 16-59/64 mlwydd oed, felly dylid cymryd gofal wrth gymharu data seiliedig ar gymhariaethau UE yn erbyn diffiniadau'r DU.

⁵¹ Women and Work Commission, 2005, Shaping A Fairer Future:

http://www.womenandequalityunit.gov.uk/publications/wwc_shaping_fairer_future06.pdf

⁵² Equal Opportunities Commission research, 'Modelling Gender Pay Gaps':

http://www.equalityhumanrights.com/Documents/EOC/PDF/Research/modelling_gender_pay_gaps_wp_17.pdf

eglwurhaol, bod bwlch o tua 10% yn bodoli o hyd. O ganlyniad, er mai merched yw 47% o weithlu Cymru, mae'r bwlch tâl yn parhau.

Cyfalaf dynol

2.70 Mae twf economaidd hir dymor a chynnydd mewn enillion yn dibynnu llawer ar gynyddu gwerth ychwanegol fesul swydd yn yr economi. Awgryma dadansoddiad⁵³ o'r amrywiadau ar draws Prydain Fawr bod sgiliau'n ffactor bwysig yn lefel cynhyrchaeth. Fel y trafodir yn fanylach isod, mae gan Gymru gyfan (a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn arbennig) broffil sgiliau gwael gyda chyfran uchel o unigolion heb unrhyw gymwysterau ffurfiol o'i gymharu â'r DU yn gyfan. Ar gyfer Cymru nid oes data ar gael ar gyfer rhanbarthau Cymru) mae'r proffil sgiliau gwael yn egluro tua 20% o gynhyrchaeth is Cymru o'i gymharu â chyfartaledd Prydain Fawr. Awgryma tystiolaeth⁵⁴ y byddai cynnydd o 10% yng nghyfran yr unigolion gyda chymwysterau lefel gradd neu well yn cynyddu cynhyrchaeth 1%. Byddai lleihad cymesur yn y gyfran o unigolion heb unrhyw gymwysterau ffurfiol o gwbl yn cynyddu cynhyrchaeth tua 0.7%. Gallai parhau i fuddsoddi er gwella sgiliau'r boblogaeth felly gynorthwyo gyda chynyddu cynhyrchaeth, yn ogystal â lleddfu gwahaniaethau mewn cyfraddau cyflogaeth trwy ostwng anweithgarwch economaidd.

2.71 Mae gwella lefel sgiliau'r gweithlu hefyd yn gysylltiedig â chynyddu cyfraddau gweithgaredd economaidd a gwella cynhyrchaeth. Byddai'r ddau yn cynyddu cyfraddau gwerth ychwanegol gros y pen, fyddai yn ei dro yn effeithio ar lefelau ffyniant unigolion a chymunedau. Dywed Adroddiad Interim ar y Cyd yr UE 2004 bod 'cynnydd o flwyddyn yng nghyfraddiad cyfartalog y boblogaeth yn cynrychioli cynnydd o 5% mewn twf yn y tymor byr, 2.5% yn ychwanegol yn yr hir dymor'⁵⁵.

2.72 Mae consensws eang fod newid cyfansoddiad y galw am lafur yn ganolog wrth ddadansoddi tueddiadau yn y farchnad lafur dros y ddau ddegawd diwethaf. Mae sefyllfa gymharol pobl gyda sgiliau isel yn y farchnad lafur wedi gwaethgu yn y byd datblygedig, ar ffurf tâl gymharol isel ac / neu raddfeydd cyflogaeth is⁵⁶.

2.73 Mae lefelau sgiliau gweithlu Cymru wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf. Er y gostyngiad yn y gyfran o oedolion oed gweithio heb gymwysterau yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, mae lefelau sgiliau yn parhau'n is na rhanbarthau eraill y DU a'r UE yn gyffredinol. Mae graddfeydd cyflogaeth ar gyfer pobl isel eu sgiliau yn tueddu i fod yn uwch mewn mannau gyda llai o bobl. (Yr enghraifft cliraf o hyn yw'r patrwm yn Ne Ddwyrain Lloegr y tu allan i Lundain). Mae newid cyfansoddiad y galw am lafur felly'n cael yr effaith mwyaf negyddol lle mae llawer o lafur ar gael, yn cynnwys rhannau o Gymru. Hefyd, oherwydd ei bod

⁵³ Rice, P and Venables, A, 2004, 'Spatial determinants of productivity analysis for the regions of Great Britain', *CEP Discussion Paper* No.642.

⁵⁴ Ibid.

⁵⁵ Adroddiad interim ar y cyd gan y Cyngor a'r Comisiwn ar weithredu rhaglen waith fanwl i ganlyn amcanion systemau addysg a hyfforddiant yn Ewrop, 3 Mawrth 2004.

⁵⁶ Faggio, G and Nickell, S, 2005. Inactivity Among Prime Age Men in the UK. *CEP Discussion Paper* 673: <http://cep.lse.ac.uk/pubs/download/dp0673.pdf>

llawer anoddach i bobl heb sgiliau na phobl gyda sgiliau symud i ardaloedd lle mae mwy o alw am eu llafur, mae gwahaniaethau gofodol felly'n dyfnhau⁵⁷.

2.74 Mae sgiliau fwyfwy pwysig wrth bennu canlyniadau marchnad lafur. Dengys Tabl 11 raddfa gyflogaeth wedi'i ddadansoddi ar sail y cymhwyster uchaf sydd gan weithwyr. Mae'n dangos, er bod y raddfa gyflogaeth gyffredinol wedi codi, mae'r raddfa gyflogaeth ar gyfer y rhai heb gymhwyster ffurfiol wedi syrthio. Mae'r un patrwm wedi digwydd ar draws Dwyrain Cymru ynghyd â Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Dengys dadansoddiad o'r raddfa gyflogaeth ar sail oed a chymhwyster mai dim ond 30% o unigolion 16-24 mlwydd heb unrhyw gymwysterau oedd mewn cyflogaeth, o'i gymharu â 70% o'r rhai gyda Lefel 4 neu uwch. Mae'r raddfa gyflogaeth ar gyfer pobl ifanc heb unrhyw gymwysterau dros 10 pwynt canran yn is nag ar gyfer unrhyw grŵp oed arall.

2.75 Mae'r duedd o gyflogaeth yn gostwng ar gyfer y rhai gyda lefel sgiliau isel yn gyffredin ar draws yr Undeb Ewropeaidd. O ddefnyddio data Eurostat, syrthiodd cyflogaeth ar gyfer rhai 15 mlwydd oed a hŷn gydag addysg cyn-gynradd, cynradd ac uwchradd is (lefel 0-2 ar ISCED 1997) bron 4,000. Mae hyn yn cymharu â chynnydd o 7,300 ar gyfer y rhai gyda lefel 3-4⁵⁸ ar ISCED 1997 a 7,700 ar gyfer y rhai ar lefel 5-4⁵⁹ ar ISCED 1997 ar draws yr UE. Ond roedd unigolion gyda chymwysterau 0-2 yn cynrychioli 27% o'r holl gyflogaeth ar draws yr UE, o'i gymharu â 10% yn y DU, 13% yng Nghymru, 11% yn Nwyrain Cymru ac 14% yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd.

Tabl 11: Graddfeydd cyflogaeth fesul cymhwyster uchaf, Cymru

Lefel Cymhwyster Uchaf	2001	2004	Newid 2001-04
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd			
Lefel 4 ac uwch	84.1	84.7	0.6
Lefel 1-3	69.7	72.2	2.5
Dim Cymwysterau	45.9	44.5	-1.4
Cyfan	67.0	69.7	2.7
Dwyrain Cymru			
Lefel 4 ac uwch	85.5	86.6	1.1
Lefel 1-3	74.5	74.7	0.2
Dim Cymwysterau	51.4	50.2	-1.2
Cyfan	72.6	74.4	1.8
Cymru			
Lefel 4 ac uwch	84.7	85.5	0.8
Lefel 1-3	71.5	73.1	1.6
Dim Cymwysterau	47.7	46.3	-1.4
Cyfan	69.1	71.4	2.3

Ffynhonnell: Arolwg Gweithlu Llafur

⁵⁷ Ibid.

⁵⁸ Addysg uwchradd uwch ac ôl uwchradd heb fod yn drydyddol.


⁵⁹ Addysg drydyddol.

2.76 Rhan fawr o esboniad y broblem anweithgarwch yw proffil sgiliau poblogaeth Cymru. Awgryma'r dystiolaeth sydd ar gael fod y sefyllfa sgiliau yng Nghymru'n waeth na'r DU yn gyfan, a bod sefyllfa Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn waeth na gweddill Cymru. Dengys Ffigur 15 y set sgiliau cymharol ar gyfer unigolion yng Nghymru mewn cymhariaeth â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru'n gyfan. Mae'r siart wedi ei ddangos fel cyniferydd lleoliad. Mae cyniferydd lleoliad yn mesur crynhoad perthnasol maes newidiol o'i gymharu ag ardal meincnod. Yn Nhabl 12, mae sgôr o 1 yn dangos lle mae crynhoad perthnasol o unigolion gyda lefel sgiliau / cymhwyster penodol yr un fath â chyfartaledd y DU. Mae sgôr is nag 1 yn dangos ardal gyda chrynhoad cymharol isel, a sgôr uwch nag 1 yn dangos ardal gyda chrynhoad cymharol uchel mewn cymhariaeth â chyfartaledd y DU.

2.77 Dengys Ffigur 15 fod proffil Dwyrain Cymru'n debyg i gyfartaledd y DU, ond gyda chrynhoad ychydig uwch o unigolion ar Lefel 4 neu uwch. Mae gan Gymru, a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn arbennig, grynhoed cymharol uchel o unigolion heb gymwysterau, gyda chrynhoad cymharol isel o unigolion ar ben uchaf y sbectwm cymwysterau, sef Lefel 4 neu uwch. Mae dosbarthiad sgiliau isel felly'n cyd-fynd â dosbarthiad anweithgarwch ar draws Cymru, sy'n cadarnhau'r ffaith bod perthynas gref rhwng anweithgarwch a sgiliau. Ar draws Cymru gyfan, mae tua 304,000 o unigolion oed gweithio heb unrhyw gymwysterau ffurfiol. Y Ffigur yn Dwyrain Cymru yw 96,000, a 208,000 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd.

2.78 Mae defnyddio data Eurostat 2005 yn dangos fod gan Dwyrain Cymru, Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, Cymru a'r DU yn gyfan gyfran llawer is o'r boblogaeth gyda chymwysterau lefel cyn-gynradd, cynradd ac uwchradd is. Mae 43% o boblogaeth yr UE (15 mlwydd oed a throsodd) gyda chymhwyster uchaf ar y lefel hon, o'i gymharu â 13% yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, 12% yn Dwyrain Cymru, 14% yng Nghymru ac 11% ar gyfer y DU yn gyfan.

Ffigur 15. Set cymwysterau / sgiliau (DU=1)



Ffynhonnell: Arolwg Gweithlu Llafur

2.79 Dengys Tabl 12 y cymhwyster uchaf sydd gan unigolion ar draws Cymru wedi'u dosbarthu fesul unigolyn gydag a heb anabledd, unigolion o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (BME) ac unigolion heb fod o grwpiau BME. Fel y dengys Tabl 12, mae gan unigolion anabl gyrhaeddiad sgiliau ar lefel is nag unigolion heb anabledd. Mae hyn yn wir ar draws rhanbarthau Cymru ac ar draws Cymru gyfan. Mae'n ddiddorol bod cyfran yr unigolion o grwpiau BME heb unrhyw gymhwyster ffurfiol yn is yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd nac ar gyfer unigolion heb fod o grwpiau BME. Mae hyn yn wahanol i'r hyn a welir ar draws Dwyrain Cymru a Chymru gyfan. Mae cyfran yr unigolion o grwpiau BME gyda chymhwyster lefel 4 ac uwch hefyd yn uwch yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd nac ar gyfer unigolion heb fod o grwpiau BME. Mae hyn eto yn wahanol i'r hyn a welwyd ar draws Dwyrain Cymru a Chymru gyfan.

Tabl 12: Lefelau cymwysterau uchaf sydd gan unigolion o oed gweithio, canran o'r boblogaeth oed gweithio, 2004

		Dim Cymwysterau	Lefel 2 ac uwch	Lefel 3 ac uwch	Lefel 4 ac uwch
Heb fod yn anabl	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	14.3	68.8	43.8	24.0
	Dwyrain Cymru	12.0	71.5	50.2	30.3
	Cymru	13.4	69.8	46.3	26.4
Anabl (a)	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	33.0	49.1	28.7	14.1
	Dwyrain Cymru	26.6	55.5	34.4	20.1
	Cymru	31.0	51.2	30.5	16.0
Poblogaeth BME (b)	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	18.1	61.3	38.8	25.7
	Dwyrain Cymru	24.2	54.6	39.3	28.2
	Cymru	22.1	56.9	39.1	27.4
Heb fod yn boblogaeth BME	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	18.9	63.9	40.1	21.6
	Dwyrain Cymru	14.5	69.0	47.4	28.3
	Cymru	17.3	65.8	42.8	24.0

(a) Diffinnir Anabledd fel anabledd sy'n cyfyngu ar y gallu i weithio neu Anabledd Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd neu'r ddau

(b) Pob un mewn BME

Ffynhonnell: Arolwg Gweithlu Llafur

2.80 Mae lefel cyrhaeddiad sgiliau merched yng Nghymru yn debyg i lefel dynion. Mae dau brif wahaniaeth fodd bynnag. Yn gyntaf, mae gan ferched ar draws Cymru raddfeydd uwch o gyrhaeddiad ar lefel 4 ac uwch. Yn ail, mae cyfran uwch o ferched Cymru gyfan heb unrhyw gymwysterau ffurfiol. Mae'r gwahaniaethau fodd bynnag yn fach ac yn cynrychioli rhwng 0.5 ac 1 pwynt canran. Mae patrwm tebyg ar draws Dwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, gyda chyfran uwch o ferched gyda chymwysterau lefel 4 ac uwch, a chyfran uwch o ferched heb gymwysterau ffurfiol. Mae'r gwahaniaeth yn lefel gyffredinol cyrhaeddiad o safbwynt cymwysterau rhwng dynion a merched ar draws Gorllewin Cymru a'r Cymoedd o'i gymharu â Dwyrain Cymru yn gyffredinol adlewyrchu'r boblogaeth yn gyfan fel y dengys Tabl 13.

Tabl 13: Lefelau cymwysterau uchaf sydd gan unigolion o oed gweithio fesul rhyw, canran o'r boblogaeth oed gweithio, 2004

		Dim Cymwysterau	Lefel 2 ac uwch	Lefel 3 ac uwch	Lefel 4 ac uwch
Dwyrain Cymru	Dynion	14.1	70.6	50.4	27.7
	Merched	15.7	66.1	43.6	28.8
	Cyfan	14.9	68.4	47.1	28.3
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	Dynion	18.2	66.1	43.2	20.9
	Merched	19.7	61.5	36.8	22.4
	Cyfan	18.9	63.9	40.1	21.6
Cymru	Dynion	16.7	67.8	45.9	23.4
	Merched	18.2	63.2	39.3	24.8
	Cyfan	17.4	65.6	42.7	24.1

Ffynhonnell: Arolwg Gweithlu Llafur Lleol Cymru

2.81 Yn ôl yr arolwg diweddaraf o sgiliau sylfaenol oedolion yng Nghymru⁶⁰, amcangyfrifir bod 25% o oedolion Cymru gyda sgiliau llythrennedd lefel mynediad, a 53% gyda sgiliau rhifedd lefel mynediad. O'i gymharu â Lloegr, mae canran uwch o oedolion Cymru gyda sgiliau rhifedd a llythrennedd lefel mynediad, ond mae'r bwlch yn arbennig o amlwg mewn llythrennedd (gweler adroddiad llawn am fanylion). Nid yw'n syndod bob cysylltiad cryf rhwng cyrhaeddiad addysgol a pherfformiad mewn asesiadau llythrennedd a rhifedd. Yn gyffredinol, roedd gan ddynion a merched sgoriau tebyg mewn asesiadau llythrennedd; fodd bynnag, roedd dynion yn perfformio'n well na merched mewn asesiadau rhifedd. Tynnodd y "*Leitch Review of Skills*"⁶¹ diweddar sylw at y pwysigrwydd o wella sgiliau sylfaenol y boblogaeth i wella cyflogadwydd a chynhyrhaeth. Roedd astudiaeth ddiweddar yng Nghymru⁶² hefyd yn tynnu sylw at rôl gwella sgiliau sylfaenol y boblogaeth yng Nghymru fel un o'r prif feysydd i gau'r bwlch sgiliau sy'n bodoli rhwng Cymru a'r DU, a llawer o'r prif wledydd datblygedig.

2.82 Roedd Astudiaeth Maastricht 'Cyflawni nod Lisboa: cyfraniad Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol' yn pwysleisio pwysigrwydd mynd i'r afael â diffygion sgiliau sylfaenol. Roedd yn amcangyfrif erbyn 2010 mai dim ond 15% o'r swyddi fyddai ar gyfer gweithwyr gydag addysg sylfaenol, a bod effaith hyfforddi pobl gyda sgiliau isel mor bwysig i unigolion a busnesau a'r effaith i unigolion gydag addysg uwch, er nad yw llawer o bobl dan anfantais na chyflogwyr yn ymwybodol o hyn⁶³. Bydd mynd i'r afael â sgiliau sylfaenol yn gynnar mewn bywyd felly'n hanfodol bwysig fel bydd economïau modern yn datblygu.

⁶⁰ ASIANTAETH SGILIAU SYLFAENOL CYMRU, 2004, Arolwg Cenedlaethol o Sgiliau Sylfaenol Oedolion yng Nghymru. Ar gael ar: http://www.basic-skills-wales.org/bsastrategy/cy/resources/post_16/the_national_survey_of_adult_basic_skills_in_wales.cfm?frm_searchtext=&lcl_sections=&lcl_ingcode=cy

⁶¹ Prosperity for all in the global economy – World class skills. Leitch review of skills for HM Treasury (2005) http://www.hm-treasury.gov.uk/independent_reviews/leitch_review/review_leitch_index.cfm


⁶² Sloane et al (2007) The long tail of low skills in Wales and the UK – A review of the Evidence

⁶³ The Maastricht study 'Achieving the Lisbon goal: the contribution of VET' (final report to the European Commission) http://ec.europa.eu/education/policies/2010/studies/maastricht_en.pdf

2.83 Mae gostwng y galw am lafur sgiliau is ar draws y byd datblygiedig yn cael ei adlewyrchu mewn graddfeydd diweithdra ac anweithgarwch economaidd ymysg grwpiau gyda gwahanol gymwysterau a set sgiliau. Dengys Ffigur 16 y graddfeydd anweithgarwch economaidd yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, Cymru a'r DU yn ôl lefel uchaf cymwysterau unigolion.

2.84 Dengys hyn fod yno gynnydd sylweddol mewn anweithgarwch economaidd mewn grwpiau heb gymwysterau ffurfiol. Yr uchaf y bo'r lefel cymwysterau / sgiliau (o symud o'r dde i'r chwith ar Ffigur 16), yr isaf yw'r raddfa anweithgarwch economaidd ar gyfer unigolion ym mhob carfan. Mae hyn fwyaf arwyddocaol, fodd bynnag, rhwng dim cymhwyster a Lefel 1, a lle mae crynhoad cymharol uchel o unigolion heb gymhwyster ffurfiol mae canran uwch o unigolion sy'n economaidd anweithgar, fel yn achos Gorllewin Cymru a'r Cymoedd.

Ffigur 16. Graddfeydd anweithgarwch economaidd fesul cymhwyster uchaf, 2004 (canran o'r boblogaeth oed gweithio)



Ffynhonnell: Arolwg Gweithlu Llafur

2.85 Dengys data ar y cymwysterau sydd gan ddisgyblion ym mlwyddyn olaf addysg ffurfiol fod disgyblion yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn tan berfformio yn erbyn cyfartaledd Dwyrain Cymru a Chymru gyfan. Mae canran y disgyblion ar draws Gorllewin Cymru a'r Cymoedd sy'n cyflawni pump neu fwy o raddau TGAU A*-C neu gymhwyster galwedigaethol cyfatebol yn is na chyfartaledd Dwyrain Cymru a Chymru gyfan. Mae disgyblion yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd hefyd yn tan berfformio yn y pynciau craidd (Cymraeg neu Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth). Hefyd mae cyfartaledd sgôr pwyntiau TGAU Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn is na chyfartaledd Dwyrain Cymru a Chymru gyfan, gyda chanran

uwch o ddisgyblion yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn gadael yr ysgol heb unrhyw gymhwyster ffurfiol.

Tabl 14: Cyrhaeddiad disgyblion ym mlwyddyn olaf addysg orfodol (canran) canlyniadau arfaethedig 2005/06

	Canran y disgyblion ym mlwyddyn olaf addysg orfodol a....					
Ysgolion a gynhelir yn	Enillodd bump neu ragor o TGAUau gradd A*-C neu gymhwyster galwedigaet hol cyfatebol	Enillodd bump neu ragor o TGAUau gradd A*-G neu gymhwyster galwedigaet hol cyfatebol	Enillodd un neu ragor o TGAUau gradd A*-G neu gymhwyster galwedigaet hol cyfatebol	Sgôr pwyntiau TGAU/ GNVQ gyfartalog	Heb ennill unrhyw TGAU, GNVQ nac ELQ (a)	Enillodd TGAU gradd A*-C ym mhob un o'r pynciau craidd (b)
Dwyrain Cymru	54.7	87.1	93.5	42.4	3.6	40.8
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	52.0	85.5	93.2	40.1	3.9	37.6
Cymru (c)	53.4	85.9	93.1	41.0	4.1	39.4

Ffynhonnell: y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol

2.86 Yn gysylltiedig â'r dadansoddiad uchod, mae cyfran ychydig is o ddisgyblion Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn parhau gydag addysg bellach ar ôl 16 mlwydd oed o'i gymharu â Dwyrain Cymru a chyfartaledd Cymru gyfan. Yn gyfan, mae 76% o ddisgyblion ar draws Dwyrain Cymru o'i gymharu â 73% yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn parhau yn yr ysgol neu mewn sefydliadau addysg bellach yn dilyn y flwyddyn olaf o addysg orfodol, o'i gymharu â 74% ar draws Cymru.

2.87 Mae lefelau cymwysterau unigolion 16-18 mlwydd oed ar draws Dwyrain Cymru, Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Chymru yn debyg iawn i gyfartaledd y DU. Yn y grŵp oed 19-21, mae dau wahaniaeth amlwg. I ddechrau, mae cyfran uwch o unigolion 19-21 mlwydd oed yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd heb unrhyw gymhwyster ffurfiol o'i gymharu â chyfartaledd Cymru a'r DU (10% yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd ac 8% yng Nghymru a'r DU). Yn ogystal, mae cyfran is o unigolion 19-21 mlwydd oed yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd gyda sgiliau lefel uwch (lefel 3 ac uwch) na Chymru a'r DU (50% yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 52% yng Nghymru a'r DU).

2.88 Dengys Tabl 15 gyflawniad disgyblion a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf 2 Lefel A/AS ar draws Dwyrain Cymru, Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Chymru gyfan. Fel y dengys Tabl 15, mae cyflawniad lefel A/AS ar draws Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn is na chyfartaledd Cymru.

Tabl 15: Cyrhaeddiad disgyblion 17 mlwydd oed ar ddechrau blwyddyn academiaidd 2005 / 06

	Canran y disgyblion a gofrestrodd ar gyfer 2 Lefel U/UA neu ragor neu a enillodd gymhwyster galwedigaethol cyfatebol a ...		
Ysgolion a gynhelir yn	Enillodd 2 Lefel U/UA gradd A-C neu ragor neu a enillodd gymhwyster galwedigaethol cyfatebol	Enillodd 2 Lefel U/UA gradd A-E neu ragor neu gymhwyster galwedigaethol cyfatebol	Sgôr pwyntiau cyfartalog fesul disgybl
Dwyrain Cymru	69.0	94.1	20.7
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	66.2	93.3	19.3
Cymru	68.2	93.8	20.2

Ffynhonnell: y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol

2.89 Canfuwyd mewn amrywiaeth o astudiaethau⁶⁴ ei bod yn bosibl gwella cyfleoedd bywyd plant difreintiedig yn sylweddol trwy gyfrwng ymyriadau blynyddoedd cynnar cyson ac wedi'u hariannu'n dda. Mae'r rhain yn cynnwys rhaglenni dwys sy'n canolbwyntio ar y rhai mwyaf difreintiedig. Mae tystiolaeth hefyd yn dangos bod cefnogaeth barhaus i'r mwyaf difreintiedig gydol eu dyddiau ysgol yn gymorth i godi gobeithion cyflogaeth. Dengys tystiolaeth⁶⁵ o'r Lwfans Cynnal Addysg (EMA) (cymorth ariannol sydd ar gael i blant difreintiedig i aros yn yr ysgol ar ôl 16 mlwydd oed) fod pobl ifanc sydd wedi treulio dwy flynedd mewn addysg ôl-16 yn gyffredinol mewn gwell sefyllfa na'r rhai a ymunodd â'r farchnad lafur ar unwaith ar ôl addysg orfodol. Yn arbennig, mae'r rhai a dreuliodd ddwy flynedd mewn addysg ôl-16 cyn ymuno â'r farchnad lafur yn 18 yn llawer mwy tebygol o fod mewn swyddi rheoli, proffesiynol a swyddi cysylltiedig proffesiynol a thechnegol.

2.90 Dengys tystiolaeth ychwanegol⁶⁶ fod yr EMA yn achosi cynnydd o 6.1 pwynt canran yn y gyfran o rai 16-18 mlwydd oed sydd mewn addysg llawn amser yn 16 ac yn 17 mlwydd oed. Roedd yr effaith yn arbennig o gryf ymysg dynion ifanc (8.6 pwynt canran). Roedd yr effaith fwyaf ar bobl ifanc o grwpiau economaidd-gymdeithasol is, yn arbennig gweithwyr lled grefftus neu ddi-grefft a'r rhai heb fod mewn gwaith. Mae'r EMA hefyd yn cael effaith sylweddol ar bobl ifanc oedd yn cyflawni'n isel neu'n gymedrol ar ddiwedd Blwyddyn 11. Hefyd roedd pobl ifanc

⁶⁴ Am adolygiad o'r dystiolaeth sy'n sail i'r datganiadau yn y paragraff hwn, gweler Cunha, F., Heckman, J., Lochner, L. & Masterov, D. (2005) *Interpreting the evidence on life cycle skill formation*

⁶⁵ Department for Education and Skills (2006) Young people and the labour market: Evidence from the EMA pilots database. <http://www.dfes.gov.uk/research/data/uploadfiles/RW59.pdf>

⁶⁶ Department for Education and skills, 2005, Evaluation of the Education Maintenance Allowance pilots: Young people aged 16 to 19 years final report of the quantitative evaluation <http://www.dfes.gov.uk/research/data/uploadfiles/RR678.pdf>

oedd wedi derbyn EMA yn llai tebygol o fod yn NEET (14.2%) na'r rhai na chafodd gefnogaeth (23.2%).

2.91 Dengys tystiolaeth bellach⁶⁷ fod unigolion yn parhau i dderbyn premiwm cadarnhaol am bob blwyddyn yn yr ysgol, er y cynnydd yng nghyflenwad addysg. Gwelwyd ehangiad mawr yng nghyflenwad llafur cymwys yn y DU. Nid yw'r ehangiad hwn wedi achosi gostyngiad yng nghyfartaledd canlyniad blwyddyn o ysgol yn y DU, sy'n awgrymu fod y galw am gymwysterau yn y DU yn parhau'n ddigon uchel i gyfiawnhau ehangu ymhellach.

2.92 Yn dilyn y newid o safbwynt y galw am lafur yn achosi gostyngiad yn y galw am unigolion gyda lefelau sgiliau isel⁶⁸, mae hyfforddiant gydol oes gwaith unigolion yn fwyfwy pwysig. Dysgu gydol oes yw'r cysyniad 'Nad yw byth yn rhy fuan nac yn rhy hwyr hwyr i ddysgu' ac mae'n cynnwys pob addysg a hyfforddiant ar gyfer unigolion oed gweithio, er bod y dangosyddion arferol yn cynnwys y rhai 25-64 mlwydd oed.

2.93 Dengys Tabl 16 y ganran o oedolion 25-64 mlwydd oed sy'n cymryd rhan mewn dysgu gydol oes. Fel y dengys Tabl 16, mae gan Gymru a'r DU ganran uwch o oedolion 24-65 mlwydd oed mewn addysg gydol oes nag Ewrop. Mae'r canran o oedolion 25-64 mlwydd oed sy'n cymryd rhan mewn dysgu gydol oes ar draws Gorllewin Cymru a'r Cymoedd fymryn yn is na chyfartaledd Cymru gyfan. Ar draws Cymru ac ar draws y rhanbarthau, mae'r canran sy'n cymryd rhan mewn dysgu gydol oes yn uwch na'r targed o 12.5 a osodwyd yn Strategaeth Cyflogaeth Ewrop⁶⁹.

Tabl 16: Cyfranogiad mewn dysgu gydol oes, 2004 (a)

Canran o oedolion 25-64 mewn addysg a hyfforddiant	
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	14.3
Dwyrain Cymru	15.5
Cymru	14.8
Y DU	15.5
UE(15)	9.3
UE(25)	8.6

(a) Mae dangosydd dysgu gydol oes yn cyfeirio at unigolyn 25-64 mlwydd oed sydd wedi ateb eu bod wedi derbyn addysg neu hyfforddiant yn ystod y pedair wythnos cyn yr arolwg (rhifiadur). Mae'r enwadur yn cynnwys cyfanswm poblogaeth yr un grŵp oed, heb eithrio dim atebion i'r cwestiwn 'cymryd rhan mewn addysg a hyfforddiant'.
Ffynhonnell: Eurostat

⁶⁷ Powdthavee, N and Vignols. A 2005. Using rate of return analysis to understand sector skill needs. Centre for the Economics of Education <http://cee.lse.ac.uk/cee%20dps/ceedp70.pdf>

⁶⁸ Faggio, G and Nickell, S, 2005. Inactivity Among Prime Age Men in the UK. *CEP Discussion Paper* 673

⁶⁹ Penderfyniad Cyngor y Comisiwn Ewropeaidd (2005/600/EC) ar 12 Gorffennaf 2005 ar ganllawiau ar gyfer polisiau cyflogaeth yr Aelodau-Wladwriaethau.
http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/site/en/oj/2005/l_205/l_20520050806en00210027.pdf

2.94 Fel y nodwyd uchod, mae sgiliau fwyfwy pwysig wrth bennu canlyniadau marchnad lafur, yn arbennig anweithgarwch economaidd. Ond gall sgiliau marchnad lafur hefyd achosi goblygiadau i gyflogwyr. Nod arolwg Sgiliau Dyfodol Cymru⁷⁰ yw darparu gwybodaeth am fylchau sgiliau ymysg cyflogwyr Cymru. Dengys canlyniadau'r arolwg diwethaf bod 18% o gyflogwyr Cymru'n dweud bod bwch mewn sgiliau yn 2005. Mae'r Ffigur hwn yn debyg i arolygon blynyddoedd blaenorol. Y sgiliau mwyaf cyffredin i fod yn absennol ymysg gweithwyr oedd sgiliau generig, megis datrys problemau, trin cwsmer, cyfathrebu a gweithio mewn tîm.

2.95 Mae dadansoddiad⁷¹ o brinder sgiliau ar sail sector yng Nghymru yn nodi mai'r galwedigaethau gyda'r gyfran uchaf o swyddi anodd eu llenwi oedd Swyddi Crefftswyr, galwedigaethau Proffesiynol Cysylltiedig, a galwedigaethau Elfennol. O'r swyddi anodd eu llenwi, diffyg sgiliau technegol ac ymarferol oedd yn gyfrifol am ychydig mwy na'r hanner.

2.96 Mae tystiolaeth ddiweddar⁷² wedi tynnu sylw at bwysigrwydd sgiliau generig wrth bennu canlyniadau unigolion yn y farchnad lafur, ynghyd â statws cymdeithasol ehangach unigolion. Canfuwyd bod sgiliau generig megis sgiliau cyfathrebu, y gallu i dalu sylw, a sgiliau datrys problemau yn bwysig wrth bennu canlyniadau marchnad lafur, ond yn llai pwysig na chymwysterau ffurfiol.

2.97 Mae gallu TGC hefyd yn bwysig ar gyfer nifer fawr o swyddi yn y DU, ac yn ôl *e-Skills UK*, mae 90% o swyddi newydd yn gofyn am ryw lefel o sgiliau TGC, ac mae ar 400,000 o weithwyr angen gwella eu sgiliau TG i gwrdd â'r galw cynyddol. Mae angen datblygu sgiliau TGC ar draws y gweithlu er mwyn datblygu, gweithredu a chynnal systemau TGC, defnyddio offer swyddfa fodern yn effeithiol, defnyddio ffyrdd newydd o gynnal busnes a phrosesau trefniadol, a sefydlu mentrau newydd.

Strwythur, blaengaredd ac Ymchwil a Datblygu Diwydiannol

2.98 Yn ychwanegol i gyfalaf dynol, mae tystiolaeth ddiweddar⁷³ yn dangos pwysigrwydd strwythur diwydiannol wrth egluro gwahaniaethau rhanbarthol o safbwynt cynhyrhaeth a pherfformiad economaidd cyffredinol. Ar draws Cymru gyfan a'i rhanbarthau, mae cynrychiolaeth gymharol uchel o swyddi gweithlu sifil mewn diwydiannau sy'n dirywio, yn gyffredinol gyda gwerth ychwanegol isel. Er bod gan Ddwyrain Cymru gynrychiolaeth uwch o gyflogaeth mewn gweithgareddau sector gwasanaeth o'i gymharu â chyfartaledd Cymru, mae cynrychiolaeth uchel o hyd mewn amaethyddiaeth a gweithgaredd cynhyrchu, sydd wedi profi dirywiad

⁷⁰ Nod cyffredinol Partneriaeth Sgiliau Dyfodol Cymru yw cynnig gwybodaeth ddibynadwy ar ddiffygion mae cyflogwyr yn ei brofi o safbwynt sgiliau yng Nghymru, fydd o ddefnydd i hysbysu datblygiad polisiau a chynlluniau. Mae'r arolwg yn bellgyrhaeddol ac yn seiliedig ar wybodaeth a gasglwyd gan 6,719 sefydliad ar draws Cymru rhwng misoedd Mawrth a Mai 2005. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar: <http://www.futureskillswales.com/cym/>


⁷¹ Sgiliau Dyfodol Cymru, 2005, Sgiliau Dyfodol Cymru: Arolwg Sgiliau fesul Sector. <http://www.futureskillswales.com/cym/content.php?cID=5&pID=1&zID=100&nID=136>

⁷² Blanden, J et al 2005, Educational Inequality and Intergenerational Mobility in S Machin and A Vignoles (eds) *What Can Education Do?* Centre for the Economics of Education.

⁷³ Rice, P and Venables, A, 2004, 'Spatial determinants of productivity analysis for the regions of Great Britain', *CEP Discussion Paper* No.642.

mewn cyflogaeth dros y blynyddoedd diwethaf. Mae cynrychiolaeth uchel o safbwynt cyflogaeth mewn amaethyddiaeth yn arbennig o amlwg ym Mhowys, lle mae tua 12% o'r holl gyflogaeth o fewn y sector. Mae'r crynhoad cyflogaeth cymharol uchel mewn amaethyddiaeth a'r sectorau cynhyrchu, a chrynhoad cyflogaeth cymharol isel mewn gwasanaethau cyllid a busnes yn hyd yn oed mwy amlwg yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd. Mae Ffigur 17 yn crynhoi dosbarthiad swyddi gweithlu sifil ar draws Cymru a'i rhanbarthau yn ôl grwpiau diwydiannol bras⁷⁴. Awgryma'r dystiolaeth⁷⁵ ei bod yn bwysig nid yn unig i wella cyfleoedd cyflogaeth ond hefyd i wella'r cyfleoedd mewn sectorau gwerth ychwanegol uwch. Bydd gwelliannau o'r fath yn cynorthwyo i wella cynhyrchaeth Cymru a'i ffyniant economaidd cyffredinol.

Ffigur 17. Swyddi gweithlu sifil (DU=1)



Ffynhonnell: y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol

2.99 Mae strwythur diwydiannol Cymru yn gymorth i esbonio safle perthnasol Cymru ar nifer o ddangosyddion pennawd o safbwynt blaengaredd ac Ymchwil a Datblygu. Er enghraifft, mae gwariant Ymchwil a Datblygu cyffredinol fel GYC ar draws Cymru (nid oes gwybodaeth ranbarthol ar gael) yn is na chyfartaledd y DU yn gyfan, ar 1.3% o GYC cyfan. Y prif reswm am y Ffigur isel yw'r gwariant Ymchwil a Datblygu cymharol isel yn y sector busnes yng Nghymru. Mae hyn i'w weld yn bennaf yn strwythur diwydiannol economi Cymru gydag, er enghraifft, cynrychiolaeth gymharol isel o gwmnïau fferyllo, sy'n gwario llawer ar Ymchwil a Datblygu.

⁷⁴ Mae'r siart wedi ei ddangos fel cyniferydd lleoliad. Mae cyniferydd lleoliad yn mesur crynhoad perthnasol maes newidiol o'i gymharu ag ardal meincnod.

⁷⁵ Rice, P and Venables, A, 2004, 'Spatial determinants of productivity analysis for the regions of Great Britain', *CEP Discussion Paper No.642*.

2.100 Mae gan strwythur diwydiannol Cymru oblygiadau o safbwynt dangosyddion marchnad lafur cysylltiedig â blaengaredd ac Ymchwil a Datblygu. Mae'r nifer o ymchwilwyr yn cynnig procsi defnyddiol ar gyfer y nifer o bobl a gyflogir i gynnig gwasanaeth gwerth ychwanegol uchel, ynghyd â swyddogaethau ymchwil a datblygu. Mae gan Orllewin Cymru a'r Cymoedd lai o ymchwilwyr a HEI fesul 10,000 o'r boblogaeth na Chymru gyfan a'r DU yn gyfan. Yn defnyddio data o Arolwg Poblogaeth Flynyddol y DU; mae cyfran is o holl gyflogaeth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd mewn gweithgareddau perthnasol i Ymchwil a datblygu na Chymru gyfan a'r DU yn gyfan. Yn gyfan, mae 2% o'r holl gyflogaeth mewn gweithgareddau cysylltiedig ag Ymchwil a datblygu ar draws Gorllewin Cymru a'r Cymoedd o'i gymharu â 2.3% yng Nghymru a'r DU. Ar draws Dwyrain Cymru, roedd 2.6% o'r holl gyflogaeth mewn gweithgareddau cysylltiedig ag Ymchwil a datblygu.

2.101 Cesglir gwybodaeth am gyflogaeth mewn sectorau technoleg uwch⁷⁶ gan Eurostat. Mae'n dangos canran yr holl gyflogaeth sydd mewn technoleg uwch a chanol uwch, ynghyd â sectorau gwasanaethau gwybodaeth ddwys technoleg uwch. Mae'r set data yn ddefnyddiol oherwydd mae bosib cymharu Gorllewin Cymru a'r Cymoedd gyda chyfartaledd yr UE25. Dengys Tabl 17 y data diweddaraf.

2.102 Fel y dengys Tabl 17, mae'r gyfran gyflogaeth mewn cynhyrchu technoleg uwch a chanol uwch a gwasanaethau gwybodaeth ddwys uwch dechnoleg yn Nwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn is na chyfartaledd y DU ac Ewrop, yn cynrychioli ychydig llai na 10% o holl gyflogaeth y rhanbarth. Rhwng 2001 a 2004, syrthiodd cyflogaeth mewn cynhyrchu technoleg uwch a chanol uwch a gwasanaethau gwybodaeth ddwys uwch dechnoleg yn Nwyrain Cymru fel canran o holl gyflogaeth y rhanbarth. Mae'r Ffigur ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd fodd bynnag yn uwch na Chymru gyfan. Mae hyn yn rhannol oherwydd cynrychiolaeth uchel o gyflogaeth cynhyrchu yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, peth ohono yn yr is-sectorau uwch dechnoleg.

Tabl 17: Cyflogaeth mewn diwydiannau technoleg uwch a chanol uwch a gwasanaethau gwybodaeth dwys uwch dechnoleg, canran o'r holl gyflogaethh

	2001	2004	Newid ers 2001
25 yr EU	10.26	10.18	-0.08
15 yr EU	11.17	10.46	-0.71
Y DU	11.93	10.00	-1.93
Cymru	9.64	9.69	0.05
Dwyrain Cymru	10.04	9.41	-0.63
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	9.38	9.88	0.50

Ffynhonnell: Eurostat

⁷⁶ 'Mae ystadegau ar ddiwydiannau uwch dechnoleg a diwydiannau gwybodaeth ddwys' yn cynnwys data economaidd, gwyddoniaeth, technoleg, blaengaredd a chyflogaeth sy'n disgrifio diwydiannau cynhyrchu a gwasanaethau wedi'u dosbarthu fesul dwysedd technoeol. Mae mwy o fanylion ar:
http://epp.eurostat.ec.eu.int/portal/page?_pageid=0,1136250,0_45572555&_dad=portal&_schema=PORTAL

Amddifadiad

2.103 Mae Tabl 18 yn cynnwys gwybodaeth ar dlodi incwm cymharol⁷⁷ yng Nghymru o'i gymharu â gweinyddiaethau datganoledig a rhanbarthau Prydain Fawr. Yng Nghymru mae 21% o'r holl boblogaeth yn byw mewn cartrefi gyda thlodi incwm cymharol, ychydig mwy na'r cyfan o Brydain Fawr (20%). Mae cyfanswm o 19% o oedolion oed gweithio ac 18% o bensiynwyr yng Nghymru yn byw mewn cartrefi gyda thlodi incwm cymharol, y ddau ychydig mwy na'r cyfan o Brydain Fawr. Roedd y gyfran o blant sy'n byw mewn cartrefi gyda thlodi incwm cymharol fyfyr yn uwch na Phrydain Fawr yn gyfan.

Tabl 18: Risg o fod mewn grwpiau incwm isel ar ôl costau tai, canran (cyfartaledd 3 blynedd dreigl 2002 / 03 – 2004 / 05)

	Holl Bobl	Oedolion oed gweithio	Plant	Pensiynwyr
Gogledd Ddwyrain Lloegr	23	21	32	18
Gogledd Orllewin Lloegr a Glannau Merswy	21	19	29	20
Swydd Efrog a Humber	21	19	29	19
Dwyrain Canolbarth Lloegr	21	19	26	22
Gorllewin Canolbarth Lloegr	23	20	30	22
Dwyrain	18	15	22	21
Llundain	27	24	39	21
De Ddwyrain	17	15	21	18
De Orllewin	19	17	25	18
Yr Alban	20	19	25	18
Cymru	21	19	28	18
Lloegr	21	19	28	20
Prydain Fawr (a)	20	18	27	17

(a) Mae cyfansymiau ar gyfer Prydain Fawr yn dangos 2004/05 yn unig – nid ydynt yn 3 blynedd dreigl.

Ffynhonnell: DWP, *Households Below Average Income 2004/05*

2.104 Mae tystiolaeth ddiweddar⁷⁸ wedi tynnu sylw at ddigwyddiadau sy'n arwain at newidiadau sylweddol yn lefelau incwm unigolion ynghyd â mynd yn dlawd. Un o'r prif ddigwyddiadau yw tor priodas sy'n gyfrifol am tua 40% o dlodi. Mae gan hyn arwyddocâd arbennig i rieni unigol. Mae'n bwysig edrych fodd bynnag ar gyfnodau o dlodi sy'n ailadrodd. Cyfartaledd hyd cyfnod o dlodi yw 3.6 mlynedd ac

⁷⁷ Diffinir tldi fel is na 60 y cant o incwm cartrefi canolrif. Mae'r canlynid yn seiliedig ar 'fesurau ar ôl costau tai' ond mae data ar gael yn yr adroddiad llawn ar sail 'cyn costau tai' ac 'ar ôl costau tai'.

⁷⁸ JENKINS, S (2006) Poverty dynamics, family background and attainment: BHPS evidence. Seminar i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

mae amseroedd hirach mewn tlodi yn gysylltiedig â chael mwy o blant, bod yn rhiant unigol, bod yn hŷn neu fod allan o waith. Mae tystiolaeth yn amlygu pwysigrwydd y farchnad lafur fel llwybr allan o dlodi ar gyfer y rhai mewn oed gweithio, ac mae cadw swydd yn hanfodol er mwyn atal mynd yn dlawd. Mae angen cymorth arbennig ar gyfer grwpiau penodol sydd mewn risg o fynd yn dlawd, yn cynnwys teuluoedd â phlant ac yn arbennig rhieni unigol.

2.105 Mynegai Amddifadiad Lluosog Cymru 2005 (MALIC)⁷⁹ yw'r mesurydd swyddogol ar gyfer amddifadiad mewn ardaloedd bach yng Nghymru. Mae amddifadiad yn gysyniad ehangach na tlodi. Mae tlodi'n golygu bod heb ddigon o arian (neu bethau hanfodol eraill) i fyw. Mae amddifadiad yn cyfeirio at broblemau a achosir gan ddiffyg adnoddau a chyfleoedd cyffredinol (nid arian yn unig). Mae MALIC 2005 yn cynnwys saith gwahanol fath o amddifadiad⁸⁰. Mae crynodeb o'r darlun cyffredinol yn Ffigur 18. O fewn Dwyrain Cymru, mae pocedi difrifol o amddifadiad yn bresennol yn arbennig yn ardaloedd dinasoedd Caerdydd a Chasnewydd. Yn wir, mae'r ardaloedd bach mwyaf difreintiedig yng Nghymru yng Nghaerdydd. Mae Ffigur 18 hefyd yn dangos bod ardaloedd yn y cymoedd uwch lle mae'r crynhoad cymharol uchaf o amddifadiad ar draws Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, a Chymru gyfan⁸¹.

2.106 Dengys Ffigur 18 hefyd rai casgliadau diddorol o safbwynt amddifadiad gwledig a threfol. Er bod cydnabyddiaeth fod amddifadiad gwledig yn broblem yng Nghymru, yn arbennig o safbwynt mynediad (gweler Ffigur 19), mae llawer o'r ardaloedd difreintiedig mewn awdurdodau lleol nodweddiadol wledig eu natur (Sir Benfro, Gwynedd a Cheredigion er enghraifft) yn y canolfannau trefol. Mae'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn Sir Benfro yn yr ardaloedd trefol yn Noc Penfro a Hwlfordd. Yng Ngwynedd, un o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yw Caernarfon, a Chaergybi yn Ynys Môn yw'r ardal fwyaf difreintiedig o fewn yr Awdurdod Lleol⁸².

⁷⁹ Am fwy o wybodaeth, gweler: <http://new.wales.gov.uk/topics/statistics/theme/wimd2005/?lang=cy>


⁸⁰ Incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, tai, mynediad at wasanaethau a'r amgylchedd.

⁸¹ Er bod wardiau dinesig yng Nghaerdydd, Casnewydd a Abertawe hefyd yn dioddef o amddifadiad cymharol uchel.

⁸² Mae dadansoddiad fesul awdurdod lleol pellach hefyd ar gael ar:

<http://new.wales.gov.uk/topics/statistics/theme/wimd2005/results/?lang=cy>

Ffigur 18. Mynegai Amddifadiad Lluosog Cyffredinol



Ffynhonnell: Mynegai Amddifadiad Lluosog Cymru 2005

2.107 Yn gyffredinol, mae 10% o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LAS) mwyaf difreintiedig yng Nghymru gyda thua dwywaith cyfartaledd Cymru o grynhoad unigolion difreintiedig o safbwynt incwm a chyflogaeth. Felly, dyma lle mae'r crynhoad mwyaf o amddifadedd. Ar draws Awdurdodau Lleol Cymru, Merthyr Tudful sydd â'r ganran uchaf o LSOA o fewn y 10% o LSOA mwyaf difreintiedig. Yn gyfan, roedd 36% o LSOA Merthyr Tudful o fewn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Yn y Gogledd Ddwyrain, roedd gan Wrecsam chwe LSOA sydd ymhlith y 7% uchaf o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Ar lefel ward yn Wrecsam, roedd gan Queensway gyfradd uchel o hawlwr budd-dâl diweithdra (5.8%) o'i chymharu â Chymru (2.5%) ym Mai 2006. Mae hyn yn awgrymu bod perthynas agos rhwng bod yn ddiwaith ac amddifadedd ehangach yn yr ardal. Dengys Tabl 19 y nifer a chanran LSOA o fewn pob awdurdod lleol sydd ymysg y mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

2.108 Fel y dengys Tabl 19, yr Awdurdodau Lleol gyda'r crynhoad isaf o amddifadiad yng Nghymru yw Sir Fynwy, Powys a Cheredigion. Mae'r

Awdurdodau Lleol gyda'r crynhoad uchaf o amddifadiad yn cynnwys Merthyr Tudful, Blaenau Gwent, Rhondda Cynon Taf a Nedd Port Talbot. Yn ddiddorol, roedd gan Gaerdydd gyfran uchel o LSOA o fewn y 10% mwyaf difreintiedig, a'r nifer absoliwt uchaf o LSOA o fewn y categori hwn yng Nghymru.


Tabl 19: Nifer a chanran o LSOA o fewn pob awdurdod lleol sydd ymysg y mwyaf difreintiedig (10%, 20%, 30% neu 50%) yng Nghymru

	10%		20%		30%		50%	
Awdurdod Lleol	Nifer	% o'r ALI	Nifer	% o'r ALI	Nifer	% o'r ALI	Nifer	% o'r ALI
Ynys Môn	1	2%	5	11%	9	20%	27	61%
Gwynedd	2	3%	3	4%	5	7%	29	39%
Conwy	3	4%	9	13%	14	20%	29	41%
Sir Ddinbych	5	9%	9	16%	10	17%	23	40%
Sir y Fflint	2	2%	6	7%	14	15%	27	29%
Wrecsam	6	7%	13	15%	22	26%	35	41%
Powys	0	0%	1	1%	4	5%	18	23%
Ceredigion	0	0%	1	2%	2	4%	11	23%
Sir Benfro	2	3%	6	8%	9	13%	29	41%
Sir Gaerfyrddin	7	6%	16	14%	26	23%	65	58%
Abertawe	22	15%	37	25%	48	33%	70	48%
Castell-nedd Port Talbot	17	19%	31	34%	50	55%	66	73%
Pen-y-bont ar Ogwr	10	12%	18	21%	30	35%	50	59%
Bro Morgannwg	2	3%	5	6%	13	17%	23	29%
Caerdydd	33	16%	55	27%	70	34%	91	45%
Rhondda Cynon Taf	29	19%	57	38%	79	52%	114	75%
Merthyr Tudful	13	36%	20	56%	26	72%	31	86%
Caerffili	12	11%	32	29%	49	45%	82	75%
Blaenau Gwent	12	26%	22	47%	33	70%	42	89%
Tor-faen	2	3%	8	13%	23	38%	33	55%
Sir Fynwy	0	0%	0	0%	3	5%	8	14%
Casnewydd	10	11%	26	28%	21	33%	47	50%
Cymru	190	10%	380	20%	570	30%	950	50%

Ffynhonnell: Mynegai Amddifadiad Lluosog Cymru 2005

2.109 Roedd y MALIC hefyd yn cynnig mewnwelediad defnyddion i broblemau perthnasol i fynediad at wasanaethau⁸³. Dengys Ffigur 19 fod y math hwn o amddifadiad wedi'i ganolbwyntio yn ardaloedd gorllewinol Cymru, yn hytrach na'r cymoedd. Mae'r parth mynediad at wasanaethau yn cynnig mewnwelediad i'r amrediad o wasanaethau mewn ardal benodol, yn ogystal â mynediad cysylltiedig at gludiant gan fod y mynegeion yn cael eu mesur ar sail yr amser mae'n ei gymryd i gael mynediad at wasanaeth penodol.

Ffigur 19. Mynediad at wasanaethau



Ffynhonnell: Mynegai Amddifadiad Lluosog Cymru 2005

2.110 Er bod nodweddion unigolion i'w gweld yn y llenyddiaeth academiaidd⁸⁴ fel ffordd bwysig o bennu canlyniadau economaidd, dengys tystiolaeth ynghylch

⁸³ Mae gwasanethau yn cynnwys, mynediad ar siop fwyd, Meddyg Teulu, ysgolion, Deintydd GIG, llyfrgell gyhoeddys a chanolfan hamdden. Am fwy o wybodaeth, gweler: <http://new.wales.gov.uk/topics/statistics/theme/wimd2005/results/?lang=cy>

⁸⁴ Gweler Durlaf, S, 2004. Neighbourhood Effects. *Handbook of Urban and Regional Economics, Volume 4, Economics*, J. V. Henderson and J.-F. Thisse, eds. Mackay, S, 2003 Local Area Characteristics and Individual Behaviour. Social Research Division, Department of Work and Pensions. In-house report 123.


arwyddocâd 'lle' y gall pa mor ddeniadol yw tref neu ranbarth yn gyffredinol gael effaith arwyddocaol ar ganlyniadau economaidd y trigolion⁸⁵. Gall yr amgylchedd felly fod yn bwysig yn er lles economaidd a chymdeithasol, yn ogystal â bod yn dda i'r cyhoedd yn gyffredinol. Gall amgylchedd o ansawdd uchel fod o gymorth i ysgogi twf ac agendau o safbwynt ysfa i gystadlu, ac mae cyfleoedd economaidd i'w cael o wneud y mwyaf o'r sector nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol sy'n tyfu. Bydd cadw a gwella ansawdd yr amgylchedd yn fwyfwy pwysig i'n economi ac i ansawdd bywyd yn oes yr economi gwybodaeth.

2.111 Bwriad parth amgylchedd MALIC 2005 yw modelu ffactorau perthnasol i'r amgylchedd corfforol a allai effeithio ar ansawdd bywyd. Mae'r parth yn cynnwys dangosyddion megis ansawdd aer, allyriadau awyr, mynediad at safleoedd gwaredu gwastraff, pellter oddi wrth ffynonellau diwydiannol dan reolaeth Asiantaeth yr Amgylchedd, a'r perygl o lifogydd.

2.112 Dengys Ffigur 20 fod y prif ardaloedd o amddifadiad amgylcheddol i'w gweld ar draws Caerdydd a Chasnewydd, yn arbennig o amgylch y wardiau canol dinas a'r cyn ardaloedd diwydiannau trwm (Casnewydd yn arbennig).

⁸⁵ Dynamic Small Towns: Identification of Critical Success Factors. Adroddiad i'r Economic Research Advisory Panel 2002.

Ffigur 20. Amddifadiad Amgylchedd Corfforol



Ffynhonnell: Mynegai Amddifadiad Lluosog Cymru 2005

2.113 O frig y 10% LSOA uchaf ar Fynegai Amddifadiad Lluosog Cymru, h.y. y 10% mwyaf difreintiedig, mae'r mwyafrif yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd. Un o'r saith dangosydd craidd ym Mynegai Amddifadiad Lluosog Cymru (2005)⁸⁶ yw mynediad at wasanaethau. Dengys astudiaethau pellach bod ffactorau amddifadedd, megis incwm isel ac anweithgarwch economaidd, hefyd yn atgyfnerthu cyfyngiadau o safbwynt defnyddio gwasanaethau⁸⁷.

Dadansoddiad SWOT

2.114 Mae'r canlynol yn crynhoi tystiolaeth cymdeithasol-economaidd ar ffurf dadansoddiad SWOT (Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau). Mae'r dadansoddiad SWOT hefyd yn tynnu sylw at ardaloedd penodol yng Nghymru sy'n amlwg yn wahanol i weddill y DU, yn ogystal â nodi ardaloedd allweddol lle gallai

⁸⁶ <http://new.wales.gov.uk/topics/statistics/theme/wimd2005/results/?lang=cy>

⁸⁷ Er enghraifft: 'Social Exclusion and Lack of Access to Services - Evidence from the 1999 PSE Survey of Britain', Bramley G. and Ford T., Herriott-Watt University, 2001

ymyriad pwrpasol gael yr effaith mwyaf. Dadansoddwyd y SWOT ar lefel Cymru gyfan i ddangos lle mae gwahaniaethau amlwg rhwng Dwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Fodd bynnag, mae themâu cyffredin yn bresennol yn Nwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd.

Tabl 20: Dadansoddiad SWOT Dwyrain Cymru

Cryfderau	Gwendidau
Uwch GYC y pen na Chymru gyfan, sy'n cael ei egluro gan amodau marchnad lafur ffafriol. -Uwch graddfeydd cyflogaeth ac is anweithgarwch economaidd na Chymru gyfan. -Uwch enillion cyfartalog na Chymru gyfan, yn lled unol â chyfartaledd y DU oni bai am Lundain a De Ddwyrain Lloegr. -Is bwlch tâl rhwng y rhywiau na'r DU yn gyfan. -Cynnydd cyffredinol mewn poblogaeth oherwydd mewn fudo sy'n dangos fod Cymru'n lle deniadol i fyw. -Amgylchedd naturiol o ansawdd eithriadol ym mron pob rhan o Ddwyrain Cymru. -Uwch cyfran o unigolion gyda sgiliau lefel uwch (Lefel 4 neu uwch) na Chymru a'r DU yn gyfan. -Cyfran uwch o unigolion yn ennill graddau TGAU da (A-C) na Chymru gyfan.	-Llai o werth ychwanegol fesul swydd na chyfartaledd y DU, sydd i'w weld yn rhannol trwy gynrychiolaeth cyflogaeth is yn y sector gwasanaethau gwerth ychwanegol a chynrychiolaeth uwch mewn cyflogaeth gwerth ychwanegol is yn y sectorau cynhyrchu ac amaethyddol. -Llai o GYC y pen ar draws Powys o'i gymharu â Chymru gyfan. -Enillion cyfartalog ar draws Powys a Sir Fynwy'r ail isaf yng Nghymru. -Cymhareb ddibyniaeth uwch o'i gymharu â chyfartaledd Ewrop sy'n cael ei esbonio gan gynrychiolaeth uwch o unigolion dros oed gweithio. -Graddfeydd anweithgarwch economaidd uwch na'r DU yn gyfan gyda mwy nag 1 ym mhob 5 o'r boblogaeth oed gweithio yn economaidd anweithgar. -Cyfradd gyflogaeth is na chyfartaledd y DU. -Cyfradd ddiweithdra hirdymor uwch a Chymru a'r DU yn gyfan. - Cyfradd ddiweithdra uwch ymysg grwpiau difreintiedig (unigolion anabl ac unigolion o grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig. -Cyfradd gyflogaeth is i ferched o'i gymharu â chyfradd gyfatebol dynion. -Mynediad gwael at a phroblemau fforddio gofal plant.

Cryfderau	Gwendidau
	-Proffil sgiliau gwael ar gyfer unigolion ag anabledd o'i gymharu â rhai heb anabledd. - Dim ond 30% o unigolion 16-24 mlwydd heb unrhyw gymwysterau oedd mewn cyflogaeth, o'i gymharu â 70% o'r rhai gyda Lefel 4 neu uwch. Mae'r raddfa gyflogaeth ar gyfer pobl ifanc heb unrhyw gymwysterau dros 10 pwynt canran yn is nag ar gyfer unrhyw grŵp oed arall. -Cyfran uwch o ddisgyblion yn gadael addysg orfodol heb gymhwyster ffurfiol nag ar draws Cymru gyfan. -Lefel is o sgiliau sylfaenol ar draws Cymru gyfan o'i gymharu â Lloegr (data ddim ar gael ar gyfer rhanbarthau Cymru). - Cynnydd yn y nifer o bobl ifanc heb fod mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET) -Mwy o bwyslais ar atal cyfnodau hir o ddiweithdra a NEET ar gyfer pobl ifanc o ystyried yr effaith negyddol y gall hyn ei gael ar unigolion. -Cyfran uwch o ferched Cymru gyfan heb unrhyw gymwysterau ffurfiol o'i gymharu â dynion. -Cyfran uwch o ferched yn gweithio mewn cyflogaeth rhan amser. -Dibynnu gormod ar sectorau gwerth ychwanegol is sy'n dirywio, yn arbennig amaethyddiaeth a chynhyrchu. -Gwariant is ar Ymchwil a Datblygu fel canran o GDP na'r DU yn gyfan. -Cyfran is o gyflogaeth mewn diwydiannau technoleg uwch a chanol uwch a gwasanaethau gwybodaeth dwys uwch dechnoleg. -Lefelau uwch o amddifadedd mewn ardaloedd gyda llawer o drigolion o grwpiau BME.

Cyfleoedd	Bygythiadau
- Unigolion oed gweithio yn parhau i fewn fudo ar draws Dwyrain Cymru gan ychwanegu at y gweithlu potensial. -Cyfleoedd i ddefnyddio'r rhwydwaith addysg uwch gyfredol i wella sgiliau'r boblogaeth, -Cyfle i adeiladu ar gryfderau rownd ddiwethaf y Cronfeydd Strwythurol a chynyddu gallu ar gyfer adfywiad cymunedol, cyhoeddus a'r sector preifat. -Cyfleoedd i wella canlyniadau addysgol i blant trwy dargedu ymyriadau'n effeithiol tuag at y rhai mwyaf difreintiedig. -Lle i wella lefelau sgiliau a chynyddu maint a dyfnder y gronfa lafur, -Potensial i adeiladu ar rwydwaith gymunedol gref i gyflawni manteision hirdymor i unigolion.	-Risg uwch o fod mewn grwpiau incwm isel yng Nghymru nag ar draws Prydain Fawr, oni bai am dlodi plant. -Gostyngiad diweddar mewn cyflogaeth ymysg dynion ifanc ar draws Dwyrain Cymru Tystiolaeth yn dangos bod rhyngweithiad cynnar gyda'r farchnad lafur yn hanfodol i gyfleoedd bywyd i'r dyfodol. -Bron 1 ym mhob 5 busnes yn dweud bod bwlch sgiliau yng Nghymru. -Gostyngiad mewn galw am unigolion sgiliau isel yw'r prif achos o anweithgarwch economaidd uwch yng Nghymru. O ganlyniad i gynnydd mewn globaleiddio, disgwylir i'r galw leihau wrth i swyddi sgiliau isel symud i wledydd gyda chyflogau isel. Mae'n bosib felly bydd problemau cymdeithasol yn dyfnhau. -Poblogaeth yn heneiddio, yn arwain at gyfradd gymharol is o unigolion oed gweithio (cymhareb dibyniaeth uchel) a mwy o bwysau ar wasanaethau cyhoeddus (er bod angen deall patrymau mudo yn well gan y gallai hyn lenwi'r bwlch mewn poblogaeth sy'n heneiddio'n naturiol).

Cyfeiriadau

BERTHOUD, R. 2003. Multiple Disadvantages in Employment: A Quantitative Analysis. Adroddiad gan Sefydliad Joseph Rowntree.

BLANDEN, J et al 2005. Educational Inequality and Intergenerational Mobility in S Machin and A Vignoles (eds) *What Can Education Do?* Y Ganolfan Economegau Addysg

CARTMEL, F and FURLONG, A, 2000. Youth Unemployment in Rural Areas. Adroddiad gan Sefydliad Joseph Rowntree.

CLARK, K a DRINKWATER S. 2005. Dynamics and Diversity: Ethnic Employment Differences in England and Wales, 1991-2001. Papur Trafod IZA Rhif 1698
<http://www.econ.surrey.ac.uk/staff/sdrinkwater/dp1698.pdf>

ADRAN GWAITH A PHENSIYNAU, 2006, Effaith y Peilot Cadw ac Adfer Swyddi Ymchwil a wnaed gan y Ganolfan Ymchwil Cymdeithasol Genedlaethol a'r Sefydliad Trefol ar ran yr Adran Gwaith a Phensiynau. Ar gael ar: <http://www.dwp.gov.uk/asd/asd5/rports2005-2006/rrep342.pdf>

DUNCAN, A a GILES, C. 1996. Should we Subsidise Childcare and if so how? *Fiscal Studies*, Cyf 17 tudalennau 39-61.

DUNCAN, A ac eraill, 2001. Mothers' Employment and the use of Childcare in the UK, Y Sefydliad Astudiaethau Ariannol WP01/23.

DURLAUF, S, (2004. Neighbourhood Effects. *Handbook of Urban and Regional Economics, Volume 4, Economics*, J. V. Henderson and J.-F. Thisse, eds.

EUROPEAN COMMISSION, 2005, Common Actions for Growth and Employment: The Community Lisboa Programme, Communication from the Commission to the Council and the European Parliament. COM(2005) 330 final. Ar gael ar:
http://europa.eu.int/growthandjobs/key/index_en.htm

GIBBONS, S et al, 2005, Is Britain Pulling Apart? Area Disparities in Employment, Education and Crime, Centre for Market and Public Organisation Working Paper 05/120, cyhoeddwyd yn N. Pearce and W. Paxton (gol.) *Social Justice, Building a Fairer Britain*, Institute of Public Policy Research. Ar gael ar:
<http://www.bris.ac.uk/Depts/CMPO/workingpapers/wp120.pdf>

GLAESER, E, 2004 Four Challenges for Scotland's Cities. Ar gael ar:
<http://www.fraser.strath.ac.uk/Allander/AllanderPapers.htm>

JONES, M a SLOANE, P, 2003, Low Pay, High Pay and Job Satisfaction in Wales. Ar gael ar: <http://www.swan.ac.uk/welmerc/Research.htm>

MACKAY, S, 2003 Local Area Characteristics and Individual Behaviour. Adain Ymchwil Cymdeithasol, Adran Gwaith a Phensiynau. Adroddiad mewnol 123.

PENNOD 3: Y STRATEGAETH

Cyflwyniad

3.1 Yn y bennod hon, ceir amlinelliad o'r strategaeth ar gyfer y rhaglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth ESF Rhanbarthol. Mae'n trafod y prif heriau sy'n wynebu'r rhanbarth ac yn adolygu'r cynnydd a fu o safbwynt cwrdd â'r heriau hynny, gan gynnwys cefnogaeth y Rhaglen Amcan 3 presennol. Mae'r strategaeth yn nodi'r Blaenoriaethau ar gyfer y rhaglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth Rhanbarthol newydd ac yn egluro sut fydd y blaenoriaethau hynny'n cryfhau'r ysgogiad sylweddol sydd eisoes yn bodoli tuag at dwf economaidd cynaliadwy er mwyn gwella cyflogaeth a pherfformiad economaidd Dwyrain Cymru fel rhanbarth. Lluniwyd hi yng nghyswllt Canllawiau Integredig ar gyfer Twf a Swyddi'r Comisiwn Ewropeaidd⁸⁸ a'r Canllawiau Strategol Cydlynad Cymunedol 2007-2013⁸⁹.

3.2 Mae'r strategaeth yn egluro sut fydd y rhaglen yn cyfrannu tuag at ymateb y DU i agenda swyddi a thwf Lisboa, fel y nodwyd yn y Rhaglen Ddiwygio Genedlaethol⁹⁰ ac yn y Fframwaith Cyfeirio Strategol Cenedlaethol (NSRF)⁹¹. Mae hefyd yn egluro sut y neilltuir €63.597m o gronfeydd yr UE er mwyn amlhau i'r eithaf y potensial ar gyfer twf a swyddi ac i ychwanegu at werth strategaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â chefnogi datblygiad economaidd cynaliadwy. Mae'r bennod hon hefyd yn rhoi cyfiawnhad dros grynhoed thematig, daearyddol ac ariannol y Rhaglen yn unol ag Erthygl 37(3) y Rheoliadau Cyffredinol. Yn olaf, mae'r strategaeth yn nodi'r prif egwyddorion fydd yn ganllaw ar gyfer rhoi'r rhaglen newydd ar waith, gan gynnwys rôl allweddol partneriaid cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Datblygir y rhaglen mewn ffordd fydd yn adlewyrchu'r egwyddorion o bartneriaeth dryloyw, tegwch, cyfleoedd cyfartal a gwerth ychwanegol.

Cronfeydd Strwythurol presennol yr UE 2000–2006

3.3 Mae Dwyrain Cymru wedi cael cymorth ariannol o £94 miliwn (€138 miliwn) gan raglen Amcan 3 Cronfeydd Strwythurol Ewrop ar gyfer 2000-2006. Gyda nawdd cyfatebol gan y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, buddsoddwyd £225 miliwn (€332 miliwn) mewn dros 550 o brosiectau gan wneud gwir wahaniaeth i ddyfodol busnesau, cymunedau ac unigolion ar hyd a lled y rhanbarth. Yn Niweddariadau Gwerthuso Canol Tymor (MTEU) rhaglen Amcan 3 2000–2006⁹², amcangyfrifwyd y byddai hyd at 11,500 o bobl diwaith neu economaidd segur wedi cael gwaith neu wedi symud ymlaen i addysg bellach.

⁸⁸ Canllawiau Integredig ar gyfer Twf a Swyddi'r Comisiwn Ewropeaidd (2005-2008)

http://ec.europa.eu/growthandjobs/pdf/COM2005_141_en.pdf

⁸⁹ Canllawiau Strategol Cydlynad Cymunedol 2007-2013

http://ec.europa.eu/comm/regional_policy/sources/docoffic/2007/osc/050706osc_en.pdf

⁹⁰ Strategaeth Lisboa ar gyfer Swyddi a Thwf: Rhaglen Ddiwygio Genedlaethol y DU, a ddiweddarwyd ym mis Hydref 2006 <http://www.dti.gov.uk/files/file34761.pdf>

⁹¹ Fframwaith Cyfeirio Strategol Cenedlaethol y DU: 2007–2013

<http://www.dti.gov.uk/consultations/page28796.html>

⁹² Mid-term Evaluation Update for Objective 3 Programme 2000–2006, Adroddiad Terfynol, Mis Rhagfyr 2005 gan Old Bell 3 i Lywodraeth Cynulliad Cymru:

<http://www.wefo.wales.gov.uk/default.asp?Lang=cy&action=page&ID=1583>

Mae Cronfeydd Strwythurol wedi cyfrannu'n sylweddol tuag at wella ffyniant economaidd y rhanbarth yn unol ag agendâu diwygio Lisboa a Göteborg.

3.4 Bydd y rhaglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol newydd yn adeiladu ar y llwyddiant hwn ac yn dysgu o brofiad rhaglenni Cronfeydd Strwythurol y gorffennol yng nghyswllt ffocws strategol a gweithredu. Bydd y cam nesaf yn gyrru ymyriadau sy'n bodoli eisoes sydd wedi profi i fod yn llwyddiannus yn eu blaenau tra'n annog a chefnogi dulliau newydd arloesol ar yr un pryd. Nid mwy o'r un peth a dim byd arall fydd y rhaglen ond yn hytrach mwy o'r gorau gyda phwyslais cryf ar gryfhau cystadleurwydd busnesau a gwaith. Defnyddir yr arian sydd ar gael i adeiladu economi fydd yn para a chymunedau fydd yn ffynnu ac yn symbylu twf economaidd cryf a chynaliadwy. Buddsoddir ar sail potensial ar gyfer y dyfodol a'r thema o greu cyfleoedd economaidd tymor hir sy'n hanfodol ar gyfer swyddi a thwf fydd conglfaen neilltuo adnoddau.

3.5 Fel rhan o'r Gwerthusiadau Ex Ante, cynhaliwyd adolygiad o werthusiadau blaenorol Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol 2000-2006 er mwyn canfod y prif gasgliadau a'r gwersi a ddysgwyd. Yn yr adolygiad, nodwyd: er mwyn bod mor effeithiol â phosibl, mae angen i raglenni fod â chysylltiad agos â strategaethau datblygiad economaidd cenedlaethol a rhanbarthol ac â phrif amcanion y sefydliadau oedd yn rhoi'r strategaethau hynny ar waith. Mae hefyd angen i'r rhaglenni fod yn ddigon hyblyg i allu addasu i unrhyw newidiadau yn y cyd-destun cenedlaethol a rhanbarthol ac mewn amgylchiadau economaidd-gymdeithasol. Dylent hefyd ystyried unrhyw ddyblygu neu orgyffwrdd â rhaglenni ariannu eraill sy'n ymddangos yn ystod cyfnod y rhaglen. Mae angen agwedd ragweithiol tuag at adolygu'r rhaglenni er mwyn sicrhau bod unrhyw newidiadau angenrheidiol yn cael eu rhagweld. (Ceir mwy o fanylion ynghylch y prif gasgliadau ac argymhellion ymhellach ymlaen yn y bennod hon ac mae'r adroddiad llawn wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad ar y Gwerthusiad Ex Ante yn Atodiad D).

Heriau strategol allweddol Dwyrain Cymru

3.6 Dengys Pennod 2, y Dadansoddiad, fod Dwyrain Cymru yn perfformio'n dda mewn cymhariaeth â gweddill Cymru yng nghyswllt bron pob un o'r prif ddangosyddion economaidd. Yn rhannol gyda chymorth y rownd gyfredol o gronfeydd strwythurol, mae economi Dwyrain Cymru wedi dangos arwyddion amlwg o gynnydd yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC) pennawd y pen yn Nwyrain Cymru yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru, oherwydd llwyddiant Caerdydd a De ddwyrain Cymru, ac mae'r farchnad waith wedi gwella'n gyflym iawn yn y blynyddoedd diweddar gyda mwy o bobl mewn gwaith, llai o Gweledigaeth ar Waith, a chyfartaledd enillion uwch nag yng Nghymru fel cyfangorff. Mae'r is-ranbarth hefyd wedi gweld cynnydd mewn poblogaeth gan amlygu'r ardal fel lle deniadol i fyw ac ychwanegu at weithlu posibl yr is-ranbarth.

3.7 Mae'r cryfderau hyn yn cynnig cyfleoedd sylweddol ac yn gweithredu fel symbylwyr pwysig ar gyfer economi Cymru gyfan. Mae'n hollbwysig i adeiladu ar gyfraniad Dwyrain Cymru oherwydd y cyfleoedd gwaith gwell a'r GYC cymharol uchel sydd yno, er mwyn atgyfnerthu twf, nid yn unig yr is-ranbarth, ond hefyd Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, yn y dyfodol. Bydd cynyddu gwerth ychwanegol a

chynhyrchiant yr is-ranbarth hefyd o gymorth mawr i gau'r bwllch rhwng Cymru a'r DU.

3.8 Er fod cynnydd sylweddol wedi bod yn y nifer o bobl sydd mewn gwaith yn Nwyrain Cymru, mae llawer i'w wneud eto i gysoni'r anghyfartaledd economaidd a geir yn yr is-ranbarth. Mae dros un rhan o bump o boblogaeth oed gweithio'r is-ranbarth yn economaidd segur o hyd gyda rhai grwpiau arbennig dan fwy o anfantais na grwpiau eraill o safbwynt cael mynediad i'r farchnad waith. Mae cyfradd Gweledigaeth ar Waith pobl gyda chyflyrau iechyd ac anableddau sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio, rhieni unigol, pobl ifanc sy'n cael eu dosbarthu fel rhai heb fod mewn gwaith, addysg na hyfforddiant (NEETs), pobl hŷn a phobl BME, yn parhau i fod yn uchel. Yn arbennig, gwelwyd cynnydd sylweddol mewn pobl ifanc diwaith ar draws yr is-ranbarth yn y blynyddoedd diweddar.

3.9 Nid trwy sicrhau mwy o waith a gweithgaredd economaidd yn unig mae cefnogi twf economaidd ond hefyd trwy ofalu bod gan y rhanbarth weithlu hyfedr. Mae gan yr is-ranbarth broffil sgiliau ffafriol eisoes gyda chyfran uwch o'i boblogaeth oed gweithio ym mhen uchaf y sbectwm sgiliau. Ond er hynny, mae'r gwerth ychwanegol fesul swydd (y cyfeirir ato'n arferol fel cynhyrchiant) yn is yn Nwyrain Cymru nac yn y DU fel cyfangorff. Gellir egluro hyn i raddau helaeth oherwydd fod diwydiannau'r sectorau gwerth ychwanegol uwch nodweddiadol wedi cael eu tangynrychioli yma mewn cymhariaeth â'r cyfartaledd yn y DU. Un o brif heriau'r isranbarth o safbwynt cynyddu cynhyrchiant fydd gofalu bod sgiliau'r gweithlu'n cael eu datblygu er mwyn cau unrhyw fylchau a chywiro urnhyw ddiffygion mewn sgiliau angenrheidiol er mwyn cwrdd â gofynion y sectorau hynny sydd â gwerth ychwanegol uwch.

3.10 Prif ffocws y gweithgareddau fydd yn cael cefnogaeth Rhaglen Weithredol ESF fydd ymateb i'r ddwy brif her a amlygwyd yn y dadansoddiad SWOT sef mynd i'r afael â Gweledigaeth ar Waith a diweithdra yn y rhanbarth a chodi lefel sgiliau a hyblygrwydd y gweithlu yn Nwyrain Cymru. Bydd y rhaglen yn ychwanegu gwerth at bolisiau cyflogaeth prif ffrwd y DU sydd â'r nod o sefydlu pobl mewn gwaith trwy ddefnyddio'r nawdd i ganolbwyntio ar ennyn diddordeb a helpu unigolion gyrraedd sefyllfa lle maent yn barod i ymrwymo i raglenni o'r fath. Bydd hefyd yn canolbwyntio ar daclo sgiliau isel yn y rhanbarth trwy ariannu hyfforddiant sgiliau sylfaenol a chefnogi datblygu gwell sgiliau rheoli ac arwain ymysg rheolwyr a gweithwyr mewn busnesau llai (hyd at 50 o weithwyr), busnesau llai lle mae galw, a chefnogi systemau fydd yn helpu gyda'r gwaith o ganfod galw yn y dyfodol, gan ddarparu cyfleodd hyfforddi a dysgu cyfatebol yn unol â hynny.

Tabl 21: Heriau Dwyrain Cymru mae Rhaglenni Gweithredol y Gronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewropeaidd (ERDF) a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) yn ymateb iddynt

Heriau Dwyrain Cymru	Ymyriad y Rhaglenni
Gwerth ychwanegol fesul swydd Llai o werth ychwanegol fesul swydd oherwydd: - cymysgedd alwedigaethol neu ddiwydiannol anffafriol; - proffil cymwysterau anffafriol yn y gweithlu fel cyfangorff; a - ardaloedd tenau eu poblogaeth yn y rhanbarth nad ydynt yn elwa o effeithiau crynadau.	Bydd Blaenoriaeth 2 ESF yn cefnogi gwaith ymchwil i ganfod yr anghenion o safbwynt sgiliau a systemau ar gyfer cydweddu dysgu a gofynion cyflogwyr; a helpu cyflogwyr i ganfod ag ymateb i anghenion eu sector yn y dyfodol. Bydd Blaenoriaeth 1 ERDF yn helpu busnesau wneud cynnydd o safbwynt y gadwyn gwerth a chefnogi buddsoddi mewn arloesi ac Ymchwil a Datblygu (R & D)
Gwybodaeth ac Arloesi - Gwariant isel mewn R&D, yn enwedig yn y sector busnes	Bydd Blaenoriaeth 2 ESF yn cefnogi datblygu sgiliau rheoli ac arwain mewn gweithluoedd yng nghyswllt Mentrau Bach a Chanolig eu Maint (SMEs). Bydd Blaenoriaeth 1 ERDF yn cefnogi R&D mewn busnes ac yn creu cyfleoedd mewn Addysg Uwch ar gyfer masnacheiddio arloesi.
Menter - Llai o gofrestrïadau TAW nag a geir yn y DU ar gyfartaledd	Bydd Blaenoriaeth 2 ESF yn cefnogi datblygu sgiliau rheoli ac arwain ymhlith gweithluoedd SMEs Bydd Blaenoriaeth 2 ERDF yn hwyluso mynediad at gyllid, gwybodaeth a gwasanaethau ategol er mwyn hybu sefydlu busnesau a thwf mewn busnes, a thrwy ddatblygu clystyrau.
Cludiant ac Isadeiledd Mae nifer o broblemau yn ymwneud â – mynediad at wasanaethau allweddol, yn arbennig felly yn rhannau mwy gwledig ardal y Rhaglen, a - phryder cynyddol ynghylch effaith gynyddol cludiant a thagfeydd ar yr amgylchedd.	Nid oes fawr o le ar gyfer isadeiledd yn ERDF. Bydd hyn yn cael ei ddatrys gan raglenni a pholisïau mewnol. Efallai bod cyfle ar gyfer nifer fechan o fentrau adfywio o fewn Blaenoriaeth 4 ERDF.
Addysg a sgiliau - Cyfran uwch o unigolion gyda sgiliau lefel uwch nag a welir yng Nghymru a'r DU fel cyfangorff. - Cyfran uwch o unigolion yn ennill graddau A*-C mewn arholiadau lefel A nag yng Nghymru gyfan.	Bydd Blaenoriaeth 1 ESF yn ateb y gofynion o safbwynt sgiliau sylfaenol grwpiau penodol ymysg y rhai economaidd segur, gan gynnwys pobl ifanc sydd wedi cael eu dosbarthu fel NEET (heb fod mewn addysg, gwaith na

- Cyfran uwch o ddisgyblion yn gadael addysg orfodol heb unrhyw gymwysterau ffurfiol - Llai o alw am weithwyr efo sgiliau lefel is.	hyfforddiant). Bydd Blaenoriaeth 2 ESF yn cefnogi mentrau i wella'r ddarpariaeth o sgiliau sylfaenol ar gyfer gweithwyr er mwyn gwella eu siawns o gael gwaith a gwell enillion, a rhywfaint o sgiliau rheoli canolig neu uwch mewn busnesau bach, neu lle mae galw am hynny yn y sector perthnasol.
Gwaith - Anweithgarwch economaidd - NEETs – llai o ddynion mewn gwaith yn y grŵp oedran 16-24 - Dirywiad yn parhau yn y sectorau traddodiadol lle mae cyfran fawr o'r gwaith yn Nwyrain Cymru - Cyfran is o unigolion mewn oed gweithio oherwydd poblogaeth sy'n heneiddio	Mae Blaenoriaeth 1 ESF yn canolbwyntio ar daclo anweithgarwch economaidd ac ar helpu rhai grwpiau penodol sydd dan anfantais, gan gynnwys NEETs, i gael mynediad at gyfleoedd gwaith cynaliadwy. Mae Blaenoriaeth 2 ESF yn cefnogi datblygu systemau i ganfod beth yw anghenion cyflogwyr ar hyn o bryd a beth fydd eu hanghenion yn y dyfodol o safbwynt gwella sgiliau eu gweithluoedd. Nod Blaenoriaeth 1 ESF yw cael mwy o bobl hŷn sy'n ddiwaith ac yn economaidd segur mewn gwaith.
Yr Amgylchedd - Amgylchedd naturiol o ansawdd da mewn sawl ardal sy'n ddeniadol i unigolion a buddsoddwyr. - Sawl ardal angen gwella sut mae'n rheoli gwastraff mewn ymateb i ddeddfwriaethau llymchwr yr UE.	Bydd Blaenoriaeth 3 ERDF yn cefnogi amddiffyn a gwarchod yr amgylchedd a bydd cyfle i hyrwyddo'r sector Gwasanaethau a Nwyddau Amgylcheddol ym Mlaenoriaethau 1 a 2 yr ERDF.
Newid yn yr Hinsawdd - Mae angen gostwng gollyngiadau CO₂ Cymru er mwyn cwrdd ag ymrwymadau'r DU dan brotocol Kyoto.	Bydd Blaenoriaeth 3 ERDF yn cefnogi camau i wella effeithlonrwydd ynni a datblygu technolegau adnewyddiadwy ac amgen.
Amddifadiad Cymdeithasol - Podedi o amddifadiad mewn ardaloedd trefol yng Nghaerdydd a Chasnewydd, llawer ohonynt gyda nifer fawr o drigolion o gymunedau BME.	Mae Blaenoriaeth 1 ESF yn cefnogi camau i ymladd anweithgarwch economaidd an fydd yn mynd i'r afael â phroblemau amddifadiad ac yn targedu cymunedau BME. Nod Blaenoriaeth 2 ESF yw helpu gweithwyr gyda phroblemau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio i gael mynediad at waith ac aros mewn gwaith.

	Mae Blaenoriaeth 4 ERDF yn ceisio delio ag amddifadiad trwy wella amgylcheddau trefol diraddedig.
Rhwydweithiau Mewnol Safleoedd ac adeiladau: mae Cymru'n colli cyfleoedd i fuddsoddi mewn buddsoddiadau symudol o ansawdd uchel mewn sectorau fel meddalwedd a gwasanaethau ariannol. Un o'r prif resymau am hyn yw diffyg adeiladau a safleoedd o ansawdd.	Gall Blaenoriaeth 4 ERDF gynnig cefnogaeth benodol ar raddfa fechan i safleoedd ac adeiladau.
Tueddiadau Demograffig Cyfran is o unigolion mewn oed gweithio oherwydd poblogaeth sy'n heneiddio	Bydd Blaenoriaeth 2 ESF yn ceisio helpu gweithwyr hŷn gyda chymwysterau isel i wella eu sgiliau a thrwy hynny, aros mewn gwaith.

Nodau ac Amcanion Rhaglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol ESF

3.11 Pennwyd yr amcanion canlynol ar ôl edrych yn fanwl ar y prif heriau sy'n wynebu Dwyrain Cymru yng nghyswllt sicrhau twf economaidd cynaliadwy. Ceir crynodeb o brif heriau a chyfleoedd y rhanbarth dros y saith mlynedd nesaf yn y dadansoddiad SWOT ac ehangwyd blaenoriaethau'r rhaglen er mwyn ychwanegu gwerth at y polisiau sy'n bodoli eisoes i ymdrin â'r materion hyn. Dylid ystyried y ddwy raglen ESF ac ERDF gyda'i gilydd fel cyfrwng i wireddu'r weledigaeth o Dwyrain Cymru fel rhanbarth fentergar egnïol sydd ar flaen y gad o safbwynt twf cynaliadwy.

3.12 Nod cyffredinol rhaglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol ESF yw:

Gwneud Dwyrain Cymru yn economi uwch sgiliau, seiliedig ar wybodaeth lle mae pawb mewn gwaith, gyda gweithlu medrus, hyblyg a busnesau ymatebol, sydd ar flaen y gad o safbwynt datblygiad cynaliadwy.

3.13 Mae gan rhaglen weithredol ESF ddau amcan, sef:

- cynyddu cyflogaeth, yn arbennig trwy fynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd; a
- gwella lefel sgiliau a hyblygrwydd y gweithlu.

3.14 Amcanion Rhaglen Weithredol ERDF yw:

- hyrwyddo gwybodaeth ac arloesi er mwyn sicrhau twf;
- hybu cystadleurwydd thwf mewn busnes;
- mynd i'r afael â heriau newid mewn hinsawdd; ac
- annog adfywio er mwyn twf.

3.15 Bydd y blaenoriaethau hyn yn gweithredu amcanion Lisboa o wella twf economaidd a chreu swyddi ychwanegol ar gyfer pobl Dwyrain Cymru, gan ategu perthynas gyflenwol rhwng polisiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

Ymateb Polisi

3.16 Mae Rheoliadau'r Cronfeydd Strwythurol yn rhagweld agwedd mwy strategol tuag at raglennu yn 2007-2013, gyda mwy o bwyslais ym mholisi cydlynid yr UE ar agendâu twf, swyddi a datblygiad cynaliadwy Lisboa a Goteborg⁹³. Mae'r Aelod-Wladwriaethau wedi rhoi sêl bendith i nifer o "*Ganllawiau Strategol Cymunedol ar gyfer Cydlynid*"⁹⁴ (CSGs), sy'n cynnig fframwaith ar gyfer rhoi amcanion Lisboa fel y'i diffinnir yn y Canllawiau Integredig ar gyfer Twf a Swyddi ar waith. Nid yw holl elfennau'r fframwaith hwn yn berthnasol i holl ranbarthau'r UE, a rhaid i bob rhanbarth ddethol y cyfuniad mwyaf priodol o fuddsoddiadau er mwyn gweithredu'r agenda twf a swyddi, gan ystyried ei gryfderau a'i wendidau penodol ei hun.

3.17 Mae'r CSGs yn dweud y dylai rhaglenni'r Gronfa Strwythurol ganolbwyntio ar dair brif flaenoriaeth:

- Gwneud rhanbarthau a dinasoedd yr Aelod-Wladwriaethau yn fwy deniadol trwy eu gwneud yn fwy hygyrch, gofalu bod lefel ac ansawdd gwasanaethau yn ddigonol a chadw eu potensial amgylcheddol;
- Annog a hybu arloesi, entrepreneuriaeth a thwf yr economi gwybodaeth trwy ymchwil a blaengarwch, gan gynnwys gwybodaeth a thechnolegau cyfathrebu newydd; a
- Creu mwy o swyddi a swyddi gwell trwy ddenu mwy o bobl i waith, gwella hyblygrwydd gweithwyr a mentrau a buddsoddi mwy mewn cyfalaf ddynol

3.18 Mae tri amcan y CSG yn berthnasol wrth lunio strategaeth Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol Dwyrain Cymru, lle mae angen canolbwyntio buddsoddiadau ar gamau sy'n hyrwyddo cystadleurwydd a chyflogaeth ranbarthol tymor hir, creu swyddi a datblygiad cynaliadwy. Mae'r trydydd canllaw yn arbennig o berthnasol i'r rhaglen weithredol ESF yma.

⁹³ Camau Gweithredu Cyffredin ar gyfer Twf a Chyflogaeth: Rhaglen Lisboa y Gymuned, 20 Gorffennaf 2005 (www.europa.eu.int)

⁹⁴ Canllawiau Strategol y Gymuned ar Gydlyniant Economaidd, Cymdeithasol a Thiriogaethol 2007-2013, Cyngor yr Undeb Ewropeaidd, 18 Awst 2006
http://ec.europa.eu/regional_policy/sources/docoffic/2007/osc/1180706_en.pdf


Tabl 22 – Canllawiau Strategol Cymunedol mae'r rhaglenni ERDF ac ESF yn ymdrin â hwynt.

Canllawiau	Sut mae'r Rhaglenni yn ymdrin â hwynt
1.1 Gwneud Ewrop a'r ranbarthau yn lleoedd mwy deniadol i fuddsoddi a gweithio ynddynt	
1.1.1 Ehangu a gwella rhwydweithiau mewnol yng nghyswllt cludiant	Mae Blaenoriaeth 3 ERDF yn cefnogi atebion cynaliadwy llai i broblemau cludiant.
1.1.2. Cryfhau'r synergedd rhwng gwarchod yr amgylchedd a thwf	Nod Blaenoriaeth 3 ERDF yw gwireddu potensial economaidd amgylchedd naturiol Dwyrain Cymru a bydd cefnogaeth i arloesi yn y sector EGS ar gael dan Blaenoriaeth 1 ERDF Mae rhaglen ESF yn cefnogi cynaliadwyedd amgylcheddol fel thema trawsbynciol.
1.1.3. Mynd i'r afael â defnydd arddwys Ewrop o ffynonellau ynni traddodiadol	Mae Cynaliadwyedd Amgylcheddol yn fater trawsbynciol sy'n cael sylw yn holl raglenni ESF ac ERDF. Bydd Blaenoriaeth 3 ERDF yn annog busnesau i ddefnyddio llai o adnoddau.
1.2. Canllaw: Gwella gwybodaeth ac arloesi er mwyn twf	
1.2.1. Buddsoddi mwy a gwell mewn Ymchwil a Datblygu	Mae Blaenoriaeth 1 ERDF yn hybu economi gwerth uchel trwy feithrin Ymchwil a Datblygu
1.2.2. Hwyluso arloesi a hybu entrepreneuriaeth	Cefnogir arloesi yn y rhanbarth trwy Flaenoriaeth 1 ERDF. Mae Blaenoriaeth 2 ERDF yn hybu twf SME sy'n bodoli eisoes ac SME newydd.
1.2.3. Hybu cymdeithas o wybodaeth i bawb	Mae Rhaglen ERDF yn cefnogi datblygu a defnyddio TCG yn SME y rhanbarth. Bydd rhaglen ESF yn cefnogi mentrau sy'n defnyddio TCG fydd yn hybu hyblygrwydd gweithluoedd ac yn rhoi mynediad at gyfloedd gwaith cynaliadwy.
1.2.4. Gwella mynediad at gyllid	Mae Blaenoriaeth 2 ERDF yn ceisio ymdrin â methiannau yn y farchnad o safbwynt dulliau o gael cefnogaeth ariannol.
1.3. Canllaw: Mwy o swyddi a swyddi gwell	
1.3.1. Denu a chadw mwy o bobl mewn gwaith a diweddarau systemau diogelwch	Mae Blaenoriaeth 1 ESF yn ceisio denu mwy o bobl i waith, a phobl economaidd


cymdeithasol	segur yn arbennig. Mae Blaenoriaeth 2 ESF yn ceisio cadw pobl yn y gweithlu trwy wella eu sgiliau. (Ystyrir diweddarau systemau diogelwch cymdeithasol oddi allan i gwmpas y Rhaglen ESF).
1.3.2. Gwella gallu gweithwyr a mentrau i addasu a gwella hyblygrwydd y farchnad waith	Mae Blaenoriaethau 1 a 2 ESF yn ceisio gwella sgiliau unigolion sydd mewn gwaith, yn ddiwaith, yn economaidd segur a grwpiau sydd dan anfantais er mwyn hyrwyddo hyblygrwydd y farchnad waith.
1.3.3. Mwy o fuddsoddi mewn cyfalaf ddynol trwy addysg a sgiliau gwell	Mae Rhaglen ESF yn ceisio diwallu'r anghenion o safbwynt sgiliau sylfaenol yn y gweithlu cyflogedig, y diwaith a'r economaidd segur, a grwpiau sydd dan anfantais.
1.3.4. Gallu Gweinyddol	Ni fydd y Rhaglenni yn ceisio ymateb i'r canllaw hwn sy'n berthnasol i ranbarthau Cydgyfeiriant.
1.3.5. Helpu i gynnal marchnad waith iach	Mae'r Rhaglen ESF yn ceisio ymdrin â rhwystrau i waith a gwella hyblygrwydd y gweithlu, trwy helpu'r rhai hynny sydd â chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio i gael gwaith cynaliadwy.

3.19 Mae amcanion a blaenoriaethau rhaglenni Cystadleurwydda Chyflogaeth Ranbarthol Dwyrain Cymru yn gyson ag agenda Lisboa, a bydd yn cyfrannu'n uniongyrchol i *Raglen Ddiwygio Genedlaethol y DU* (NRP) sydd yn ei thro yn ymateb i'r Canllawiau Integredig ar gyfer Twf a Swyddi. Mae'r ymateb hwn yn cynnwys polisiau a chmau dan Raglen Cystadleurwydda Chyflogaeth Ranbarthol ESF i gwrdd â'r her o ehangu'r cyfleoedd sydd ar gael i ennill sgiliau a chefnogi hyblygrwydd gweithwyr a mentrau gan wella rhagolygon gwaith y rhai dan fwyaf o anfantais yn y gymuned.

Ffigur 21. Y cyswllt rhwng Rhaglenni Gweithredol, CSG a'r Canllawiau Integredig ar gyfer Twf a Swyddi



Ffigur 22. Y cyswllt rhwng amcanion CSG a Blaenoriaethau Cystadleurwydd Chyflogaeth Ranbarthol ESF ac ERDF



3.20 Eglurir cyfraniad y Cronfeydd Strwythurol i'r rhaglen ddiwygio hon yn *Fframwaith Cyfeirio Strategol Cenedlaethol y DU* (NSRF). Mae'r NSRF yn gweithredu fel fframwaith polisiâu y gellir ei ddefnyddio fel sail ar gyfer paratoi Rhaglenni Gweithredol ar lefel genedlaethol a rhanbarthol. Ynddo ceir ddadansoddiad o gryfderau a gwendidau economaidd y DU a nodir y strategaeth a ddewiswyd ar gyfer y rhaglen cydgyfeirianta'r rhaglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol ym mhob rhan o'r DU. Mae NSRF y DU yn cynnwys pennod ar wahân yn nodi'r strategaeth ar gyfer twf economaidd rhanbarthol yng Nghymru a blaenoriaethau'r Gronfa Strwythurol mewn perthynas â'r rhaglen cydgyfeiriant a'r rhaglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol. Mae Rhaglen Weithredol Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol ESF yn Nwyrain Cymru yn cydreddeg yn agos â'r fframwaith polisi hwn.

3.21 Lluniwyd y rhaglen i wireddu ein gweledigaeth o greu rhanbarth egniïol, cystadleuol sy'n ffynnu gyda gweithlu hyfedr, dyfeisgar sy'n gallu cystadlu ar lefel ryngwladol. Y ddwy brif ffordd i sicrhau llwyddiant yn hyn o beth yw:

- Cynyddu cyflogaeth, yn arbennig trwy fynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd ; a
- Gwella lefel sgiliau gweithwyr a hyblygrwydd y gweithlu.

3.22 Lluniwyd y fframwaith strategol ar gyfer cefnogi datblygiad economaidd o fewn cyd-destun agenda polisi strategol ehangach Llywodraeth Cynulliad Cymru,

sef *Cymru: Gwlad Well*⁹⁵. Yn arbennig, rhaid i unrhyw gamau i hybu datblygiad economaidd ddigwydd ochr yn ochr ag elfennau eraill yr agenda strategol honno – sef gwella ansawdd bywyd pawb trwy ddatblygu cyfiawnder cymdeithasol a gwella'r amgylchedd, iechyd ac addysg, yn unol â *Cynllun Datblygu Cynaliadwy Cymru - Dechrau Byw'n Wahanol*⁹⁶.

3.23 Nodwyd y strategaeth datblygiad economaidd yn *Cymru: Economi Yn Ffynnu*⁹⁷, (W:AVE) sy'n gosod y fframwaith strategol ar gyfer rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewrop yn 2007-2013. Y weledigaeth yw economi ffyniannus, egnïol sy'n cynnig twf economaidd cryf a chynaliadwy trwy roi cyfleoedd i bawb. Amcanion *Cymru: Economi yn Ffynnu* sy'n gyrru agenda Lisboa yn ei blaen yw:

- Mwy o bobl mewn gwaith trwy gefnogi creu swyddi;
- Buddsoddi mewn adfywio cymunedau difreintiedig;
- Helpu busnesau dyfu a chynyddu'r gwerth ychwanegol fesul swydd, allbwn ac enillion drwy:
 - buddsoddi mewn cludiant, rhwydweithiau TGC a rhwydweithiau economaidd eraill ;
 - denu mwy o swyddogaethau gwerth ychwanegol uwch i Gymru a chefnogi busnesau a sectorau sydd â photensial cryf ar gyfer twf;
 - gwella'r sylfaen sgiliau a chynnig mwy o hyfforddiant sydd â galw amdano wedi'i deilwra i anghenion busnesau;
 - helpu busnesau fod yn fwy cystadleuol trwy gefnogi'r pethau sy'n hwyluso twf busnesau: entrepreneuriaeth, arloesi, buddsoddi a masnach; a
- Sicrhau bod pob rhaglen a pholisi economaidd yn cefnogi datblygiad cynaliadwy, yn arbennig trwy hybu ac annog cynhyrchu ynni glân ac effeithlonrwydd adnoddau.

3.24 Mae W:AVE yn defnyddio dull sy'n gweithio trwy sectorau allweddol. Penderfynwyd ar y rhain ar ôl dilyn sawl trywydd. Mae'n nodi deg sector fel sectorau pwysig ar gyfer twf economaidd yn y dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys y sectorau modur, aerofod, amaeth-fwyd, uwch-dechnoleg, fferylleg/biocemeg, gwasanaethau ariannol, diwydiannau creadigol, adeiladu, lletygarwch, hamdden a thwristiaeth, a gofal cymdeithasol. Bydd unrhyw weithredu trwy'r rhaglen ESF yn cyflenwi gweithgareddau'r rhaglen ERDF fydd yn canolbwyntio i ddechrau ar gefnogi busnesau a gweithwyr yn y sectorau allweddol yma. Ailedrychir ar y sectorau cychwynnol hyn yn hwyrach ymlaen yn dilyn dadansoddiad sectoraidd a strwythurol mwy manwl o'r newidiadau yn economi Cymru.

3.25 Ategir a chyflenwir y strategaeth gan bolisiau cyflogaeth y DU sy'n cael eu cyflwyno yn Nwyrain Cymru gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae cynigion yn

⁹⁵ Llywodraeth Cynulliad Cymru: Cymru - Gwlad Well:

http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/40382313/40382/403821211/walesabettercountry_-_w.pdf?lang=cy

⁹⁶ Llywodraeth Cynulliad Cymru: *Cynllun Datblygu Cynaliadwy Cymru*:

<http://new.wales.gov.uk/about/strategy/strategypublications/strategypubs/startlivedifferently/?lang=cy>

⁹⁷ Llywodraeth Cynulliad Cymru Cymru: *Economi sy'n Ffynnu*:

<http://new.wales.gov.uk/about/departments/dein/publications/wave?lang=cy>

Bargen Newydd ar Gyfer Lles: Galluogi Pobl i Weithio⁹⁸, yn canolbwyntio ar fwy o gymorth i fynd i'r afael â Gweledigaeth ar Waith a chynyddu cyflogaeth ymysg y rhai hynny sy'n cael eu hystyried yn draddodiadol i fod bellaf oddi wrth ymuno â'r farchnad waith.

3.26 Ategir a chyflenwir strategaeth *W:AVE* gan *Y Wlad sy'n Dysgu 2: Gweledigaeth Ar Waith*⁹⁹ a *Chynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth 2005*,¹⁰⁰ sy'n gyrru agenda dysgu gydol oes Cymru yn ei blaen ac yn dangos ymrwymiad Cymru i gyflawni amcanion *Strategaeth Gyflogaeth Ewrop*¹⁰¹. Ochr yn ochr â hyn mae strategaethau *Ymestyn Hawliau a Llwybrau Dysgu 14-19*¹⁰² Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymdrin yn benodol â'r gyfran uchel o bobl ifanc 16-18 oed sydd heb unrhyw gymwysterau ac heb fod mewn gwaith, addysg na hyfforddiant.

3.27 Mae *Y Wlad sy'n Dysgu 2: Gweledigaeth Ar Waith*, yn adeiladu ar y strategaeth 10 mlynedd wreiddiol a gyhoeddwyd gan Gynulliad Llywodraeth Cymru yn 2001 oedd â'r nod o weddnewid addysg a hyfforddiant yng Nghymru i greu gwlad lle mae addysg gydol oes o ansawdd uchel yn rhyddhau talent, ehangu cyfleoedd, rhoi grym i gymunedau, cynnig gwell swyddi a sgiliau er mwyn galluogi pobl i ffynnu yn yr economi newydd ac sy'n creu dyfodol cynaliadwy i Gymru. Mae *Y Wlad sy'n Dysgu 2* yn ailddatgan a diweddarau'r weledigaeth hon. Ynddi mae nifer o amcanion a thargedau allweddol fydd yn cyfrannu at agenda Lisboa sydd â'r nod o sicrhau twf economaidd cryfach, parhaus a chreu mwy o swyddi a swyddi gwell. Yr amcanion hynny yw:

- Hybu cynnwys pobl mewn addysg a dysgu;
- Darparu rhaglenni a llwybrau dysgu atyniadol, ysgogol a hyblyg;
- Cymhwyso pobl ifanc i allu ymateb i farchnad waith sy'n newid;
- Ymestyn a chryfhau galluoedd ein gweithlu sy'n dysgu;
- Datblygu sgiliau a gwybodaeth ein gweithlu sy'n dysgu;
- Gwella sgiliau ac ychwanegu gwerth at economi Cymru;
- Gwella'r defnydd o wybodaeth a mwyhau i'r eithaf gyfraniad AU i ddatblygiad economi o wybodaeth; a
- Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i bawb sy'n dysgu.

3.28 Pennwyd nifer o dargedau allweddol hefyd i asesu a meincnodi cynnydd tuag at weledigaeth strategol *Y Wlad sy'n Dysgu 2*. Mae'r rhain yn cynnwys:

⁹⁸ Adroddiad Ymgynghori'r Adran Gwaith a Phensiynau, Mehefin 2006 Bargen Newydd ar gyfer Lles – Galluogi Pobl i Weithio,

http://www.dwp.gov.uk/welfarereform/docs/welfare_reform_response.pdf

⁹⁹ Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru *Y Wlad sy'n Dysgu 2: Gweledigaeth ar Waith*, 2006, <http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/4038232/403829/News/2006/learning-country-via-w.pdf?lang=en>

¹⁰⁰ Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth 2005 Llywodraeth Cynulliad Cymru:

http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/policy_strategy_and_planning/127035/skills_and_employment_action_plan?lang=cy

¹⁰¹ Strategaeth Cyflogaeth Ewrop:

http://ec.europa.eu/comm/employment_social/employment_strategy/index_en.htm

¹⁰² Llywodraeth Cynulliad Cymru: *Ymestyn Hawliau a Llwybrau Dysgu 14-19*:

http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/policy_strategy_and_planning/extending_entitlement/?lang=cy a

http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/policy_strategy_and_planning/learning_pathways/?lang=cy

- Y canran o bobl ifanc 15 oed sy'n llwyddo i gael cymwysterau cyfwerth â graddau A*–C TGAU i gyrraedd 60% erbyn 2010 (carreg filltir 2007, 53%)
- Erbyn 2010, dim un disgybl i adael addysg llawn amseer heb gymhwyster cydnabyddedig;
- Y canran o bobl ifanc 16 – 18 mewn gwaith, addysg neu hyfforddiant i gyrraedd 93% erbyn 2010;
- 95 % o bobl ifanc erbyn iddynt gyrraedd 25 i fod yn barod ar gyfer gwaith tra medrus a/neu addysg bellach/addysg uwch erbyn 2010;
- Erbyn 2010, cyfraddau cwblhau Prentisiaethau Modern i gynyddu i 40%;
- Y canran o oedolion mewn oed gweithio gyda sgiliau llythrennedd lefel 1 neu uwch i gyrraedd 80% a sgiliau rhifedd lefel 1 neu uwch i fod yn 55% erbyn 2010;
- Y canran o oedolion mewn oed gweithio gyda chymhwyster cyfwerth â lefel 2 neu uwch i fod yn 70%, cyfwerth â lefel 3 neu uwch i fod yn 50% a chyfwerth â lefel 4 neu uwch i fod yn 30% erbyn 2010.

3.29 Ategir a chyflenwir *Y Wlad sy'n Dysgu 2: Gweledigaeth Ar Waith* gan *Gynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth 2005 (SEAP 2005)*, sy'n gyrru agenda addysg gydol oes Cymru yn ei blaen ac sy'n dangos ymrwymiad Cymru i wireddu amcanion Strategaeth Cyflogaeth Ewrop¹⁰³. Mae'r Cynllun Gweithredu yn ategu gwaith Llywodraeth Cynulliad Cymru gyda'i bartneriaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol er mwyn gwneud cynnydd go iawn yng nghyswllt mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu Cymru o safbwynt sgiliau a chyflogaeth. Y weledigaeth yw Cymru lle mae gan bawb y sgiliau, y cymhelliad a'r cyfle i gael swyddi da sy'n gwireddu eu gobeithion a'u galluoedd, a lle mae cyflogwyr yn gweithio gyda'i gweithwyr ac asiantaethau yn y sector cyhoeddus i godi sgiliau i'r lefel uchaf bosib er mwyn cwrdd â gofynion swyddi o ansawdd uchel mewn economi sy'n tyfu. Prif amcanion y cynllun yw:

- Gwell dulliau o ddatblygu'r gweithlu;
- Gofalu bod gan y rhai sy'n ymuno â'r farchnad waith am y tro cyntaf y sgiliau angenrheidiol i gael gwaith;
- Gweithio gyda chyflogwyr a gweithwyr i wella sgiliau; a
- Helpu mwy o bobl i gael gwaith sy'n parhau.

3.30 Yr uchelgais yw codi'r nifer o bobl yn y gweithlu sy'n meddu ar y sgiliau uwch sydd eu hangen ar gyfer twf a ffyniant a phwyso am fwy o gyfleoedd gwaith ar lefelau uchel ar yr un pryd. Penderfynwyd mai Lefel 3 yw'r lefel isaf sydd angen i Gymru geisio ei chyrraedd os am godi ei pherfformiad economaidd i lefel sy'n cyfateb i amcanion *Cymru: Economi yn Ffynnu*. Fodd bynnag, mae prinder sgiliau sylfaenol yn Nwyrain Cymru, ac yng Nghymru yn gyffredinol, ac mae angen ymdrin â hyn fel mater o flaenoriaeth. Mae angen gweithio gam wrth gam i wella llythrennedd a rhifedd sylfaenol, cynyddu'r cyflenwad o bobl sydd â sgiliau rheoli ac arwain lefel ganolog a lefel uwch, ac anelu at gynyddu'r galw am sgiliau lefel uwch drwodd draw ar yr un pryd.

¹⁰³ European Employment Strategy:
http://ec.europa.eu/comm/employment_social/employment_strategy/index_en.htm

3.31 Mae'r Cynllun Gweithredu hefyd yn cefnogi agenda Llywodraeth y DU i helpu mwy o bobl mewn oed gweithio i gael gwaith cynaliadwy trwy geisio datrys yr amryw rwystrau sy'n atal pobl rhag cymryd rhan mewn gwaith. Bydd gweithredu trwy'r rhaglen hon yn ychwanegu at y gwaith a ragwelwyd ac a gynlluniwyd yn *SEAP2005*, ac yn cyfrannu at nod tymor hir Llywodraeth y DU o gynyddu cyfleoedd am waith i bawb a chwrdd â'i darged ymestynnol o gyfradd cyflogaeth o 80%.

3.32 Ar lefel y DU, cyhoeddodd Arglwydd Sandy Leitch adolygiad pwysig o lefel sgiliau ac anghenion y DU ar gyfer y dyfodol ym mis Rhagfyr 2006. Yn ei adroddiad ar sgiliau'r DU "*Prosperity for all in the global economy – World class skills*"¹⁰⁴, ceir nifer o argymhellion ynghylch sut y gellir gyrru ymlaen y weledigaeth o'r DU fel gwlad sy'n arwain y byd o safbwynt sgiliau erbyn 2020. Daeth hwn yn sgîl cyhoeddi papurau Gwyn llywodraeth ganolog y DU, "*Skills: Getting on in business, getting on at work*", a "*21st Century Skills: realising our potential*" yn 2003 a 2005. Mae'r llywodraeth ganolog wedi croesawu adolygiad Leitch, ac wedi derbyn y cynnig o gael Comisiwn Cyflogaeth a Sgiliau newydd fydd yn gyfrifol am y DU i gyd. Cytunwyd y bydd gan Gymru gynrychiolydd ar y corff hwn. Cyhoeddir ymateb ffurfiol Llywodraeth y DU yn Haf 2007 ar ôl yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant.

3.33 Ers datganoli, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi datblygu ei strategaethau sgiliau ac addysg ei hun sydd wedi'i teilwra ar gyfer Cymru ac fe geir amlinelliaid ohonoynt uchod. Mae nifer o'r materion a godwyd gan Arglwydd Leitch eisoes wedi cael eu cydnabod yng Nghymru ac maent yn cael sylw. Felly, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi croesawu'r adroddiad a'r mentrau yng Nghymru sydd wedi cael eu crybwyll yn yr adroddiad e.e. gwasanaethau cynghori gyrfa ar gyfer pob oedran sy'n cysylltu cyngor â chyfleoedd cyflogaeth go iawn. Mae llawer o'r gweithgareddau sy'n cael eu hargymell gan Arglwydd Leitch yn cael eu rhoi ar waith trwy *SEAP 2005*. Y maes penodol fydd angen i Gymru ei gydlyn fydd y Cynghorau Sgiliau Sector sydd â chylch gorchwyl ar lefel y DU er mwyn sicrhau ymdriniaeth Gymreig glir o'r materion a godwyd gan Arglwydd Leitch.

3.34 Mae cwpwl o bolisiâu cyflogaeth allweddol y DU, megis *Galluogi Pobl i Weithio*, yn cael eu rhoi ar waith yng Nghymru gan Canolfan Byd Gwaith, asiantaeth y llywodraeth sy'n cynorthwyo pobl mewn oed gweithio i symud o fudd-daliadau i weithio a helpu cyflogwyr lenwi swyddi. Mae'n rhan o'r Adran Gwaith a Phensiwn (DWP). Prif amcanion yr asiantaeth yw:

- Cynyddu'r nifer o bobl sydd ar gael i weithio drwy hybu gwaith fel y ffurf gorau o les a helpu pobl ddiwaith a phobl economaidd segur i symud ymlaen i waith;
- Gweithio tuag at ganlyniadau cydradd i gwsmeriaid BME;
- Darparu gwasanaeth o ansawdd uchel seiliedig ar alw i gyflogwyr, sy'n cynorthwyo gyda'r gwaith o lenwi swyddi yn sydyn ac yn effeithiol gyda gweithwyr brwdfrydig sydd wedi cael eu paratoi'n dda ar gyfer y gwaith

¹⁰⁴ Adolygiad Leitch o Sgiliau tudalen yng ngwefan Trysorlys EM, http://www.hm-treasury.gov.uk/independent_reviews/leitch_review/review_leitch_index.cfm

- Helpu pobl sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf o safbwynt cael gwaith i gystadlu'n effeithiol yn y farchnad waith a symud ymlaen ac aros mewn gwaith;
- Gwella ansawdd, hygyrchedd a chyflwyniad gwasanaeth yn barhaus i'w holl gwsmeriaid; a
- Gofalu bod pobl sy'n cael buddion oed gwaith yn cyflawni eu cyfrifoldebau a rhoi cymorth a chefnogaeth briodol i'r rhai diwaith ar yr un pryd.

3.35 Mae'n darparu nifer o raglenni gorfodol a gwirfoddol i unigolion dan faner O Fudd-dal i Waith megis y gyfres *Bergen Newydd* o raglenni – *Bergen Newydd ar gyfer Pobl Ifanc; ar gyfer yr Anabl; ar gyfer Rhieni Unigol; ar gyfer partneriaid y diwaith*. Mae hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymruj ar nifer o fentrau, yn enwedig y prosiect *Awyddus i Weithio* dan y rhaglenni Amcan 1 a 3 presennol. Mae hefyd yn gyfrifol am ddarparu cymorth a chefnogaeth, lle y gwneir cais am hynny, i gyflogwyr pan mae eu gweithwyr naill ai mewn perygl o gael eu diswyddo, neu wedi cael rhybudd o hynny. neu wedi cael rhybudd o ddiswyddiad.

3.36 Yng *Nghynllun Gofodol Cymru*¹⁰⁵ ceir fframwaith ar gyfer cydweithrediad yn y dyfodol rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i bartneriaid gyda'r nod o sicrhau twf economaidd cynaliadwy a datblygiad ym mhob rhan o Gymru. Mae'n pennu terfynlin 20 mlynedd ar gyfer datblygu ac ar gyfer cwblhau'r buddsoddiad angenrheidiol ar gyfer datblygiad cynaliadwy cymunedau ar hyd a lled Cymru. Bydd polisiau datblygiad economaidd yn ystyried gwahaniaethau mewn lleoliad a blaenoriaethau lleoliadau sy'n galw am weithredu cydlynedig ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cysylltiadau trawsffiniol a rhynggranbarthol e.e. Gogledd Ddwyrain Cymru a'i gysylltiadau economaidd â Gorllewin Sir Gaer.

3.37 Cydnabyddir na fydd yr un peth yn gweithio ym mhob rhan o Gymru ac y bydd materion sy'n lleol i wahanol ardaloedd yn galw am ymdriniaeth wahanol. Mae Dwyrain Cymru yn cynnwys yr ardaloedd *Cynllun Gofodol* isod:


- **Gogledd Ddwyrain:** Mae siroedd Fflint a Wrecsam wedi'i lleoli yn y Gogledd Ddwyrain, ardal sy'n gallu manteisio ar symbylwyr economaidd ar y naill ochr a'r llall i'r ffin, gan gysoni anghyfartalrwydd a gwella ansawdd ei asedau naturiol a chorfforol.
 - Mewn rhai mannau yn yr ardal ceir prinder sgiliau, gorboblogi ac mae prisiau tai yn codi. Mae llawer o amddifadedd yn rhai o'r cymunedau, yn enwedig ar yr ochr ddwyreiniol, ac mae angen eu hadfywio. Mae gwell hygyrchedd a chodi lefel sgiliau a chyrhaeddiad addysgol yr ardal yn allweddol er mwyn ehangu cyfleoedd i ardaloedd sydd angen eu hadfywio.
- **Canolbarth Cymru:** Bywyd a gwaith o ansawdd uchel mewn aneddiadau llai eu maint wedi'i lleoli mewn amgylchedd gwych sy'n

¹⁰⁵ *Cynllun Gofodol Cymru* Llywodraeth Cynulliad Cymru:
<http://new.wales.gov.uk/about/strategy/spatial/sppublications/walesspatial?lang=cy>

cynnig esiamplau deinamig o ddatblygiad gwledig cynaliadwy ac yn codi pob sector i weithgareddau o werth ychwanegol uwch.

- Ceir sawl anheddiad allweddol ym Mhowys, megis Y Trallwng a'r Drenwydd, gyda thrwch poblogaeth cymharol isel. Yr ardal hon yw'r gorau yng Nghymru o safbwynt cyrhaeddiad addysgol ond mae angen i ysgolion helpu pobl ifanc wneud dewisiadau deallus ynghylch opsiynau academiaidd a galwedigaethol. Mae angen i ddatblygiad economaidd adeiladu ar gryfderau'r rhanbarth a darparu cyfleoedd gwaith ar gyfer y boblogaeth fawr o raddedigion sydd yn y rhanbarth. Mae cysylltiadau GCT da yn allweddol o safbwynt hwyluso datblygiad yn y dyfodol, fel mae creu cysylltiadau gwell gyda'r sector addysgol.
- **De Ddwyrain:** Ardal hyfedr arloesol sy'n cynnig bywyd o ansawdd uchel - rhyngwladol ond eto'n nodweddiadol Gymreig. Gall gystadlu ar lefel ryngwladol trwy gynyddu ei amlygrwydd byd-eang trwy greu cysylltiadau cryfach rhwng y Cymoedd a'r arfordir a chyda'r DU ac Ewrop gan helpu i ehangu ffyniant yr ardal a dod â budd i rannau eraill o Gymru.
 - Mae Sir Fynwy, Casnewydd, Caerdydd a Bro Morgannwg wedi'i lleoli yn y rhanbarth hwn - rhanbarth mwyaf poblog Cymru. Mae cyfoeth o gyfleusterau Addysg Uwch ac Addysg Bellach o ansawdd uchel yn yr ardal ac mae'r sefydliadau hyn yn hollbwysig o safbwynt denu talent a chadw talent yn yr ardal. Serch hynny, mae yma heriau - cyfraddau isel o weithgaredd economaidd, yn arbennig ymysg grwpiau allweddol, lefel isel o sgiliau, iechyd gwael a dieithrwyd cymdeithasol – y mae angen mynd i'r afael â hwynt er mwyn gwella perfformiad economaidd yn barhaol.

Ffigur 23. Ardaloedd Cynllun Gofodol Cymru



3.38 Bydd y *Strategaeth Amgylcheddol Cymru*¹⁰⁶ newydd yn darparu cyfleoedd ar gyfer datblygu'r amgylchedd fwy fyth fel sector economaidd ynddo'i hun sy'n brysur dyfu. Defnyddir hi i sicrhau fod ymyriadau'r Gronfa Strwythurol yn cael eu targedu mewn modd fydd yn sicrhau cynnydd economaidd ac amgylcheddol efo'i gilydd ac yn unol â'r egwyddorion y cytunwyd arnynt yng Nghyngor Göteborg.

3.39 Yn ogystal â'r polisiâu allweddol a nodwyd uchod, bydd rhaglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol ESF yn seiliedig ar nifer o bolisiâu a strategaethau thematig eraill. Trafodir y rhain ym Mhennod 4 - Blaenoriaethau, mewn perthynas â blaenoriaethau'r rhaglen.

3.40 Mae Map Polisi Cymru a'r Map Strategaethau Allweddol isod (Ffigyrau 24 a 25) yn nodi'r prif strategaethau mewn perthynas â phob blaenoriaeth ac yn dangos lleoliad y rhain yn y darlun cyffredinol o bolisiâu.


¹⁰⁶ *Strategaeth Gyflogaeth Cymru* Llywodraeth Cynulliad Cymru:
http://new.wales.gov.uk/about/strategy/strategypublications/environment_strategy/?lang=cy

Ffigur 24. Map Polisi Cymru


Trosodd.

Ffigur 25. Map o Strategaethau Allweddol

Trosodd.



Ffigur 24



Ffigur 25

- **Cyfleoedd Cyfartal** : Deddf Llywodraeth Cymru a Prif-frydio Cydraddoldeb;
- **Cynaliadwyedd Amgylcheddol**: Strategaeth Amgylcheddol; Strategaeth Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang; Cynllun Gweithredu Datblygiad Cynaliadwy

Canolbwyntio Adnoddau

3.41 Mae'r Canllawiau Strategol Cydlyniad Cymunedol yn pwysleisio'r pwysigrwydd o ganolbwyntio adnoddau, yn thematig ac yn ddaearyddol. Y nod yw canolbwyntio ar y buddsoddiadau sydd eu hangen i gynyddu cystadleurwydd tymor hir, creu swyddi a datblygiad cynaliadwy. Mae hyn yn arbennig o bwysig yng nghyswllt y rhaglen newydd sydd ag adnoddau Ewropeaidd cyfyngedig o €63.597 miliwn. Bydd y Rhaglen yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar ymyriadau sy'n cyfrannu at agenda twf a swyddi Lisboa trwy ymdrin â'r prif wendidau a heriau a amlygwyd yn Nwyrain Cymru, tra'n cyflenwi gweithgareddau rhaglen ERDF mewn maesydd fel gwybodaeth ac arloesi er mwyn twf, cystadleurwydd a gwarchod ac adfywio'r amgylchedd ar yr un pryd. Mae hyn yn golygu mwy o fuddsoddi mewn camau i gynyddu cyflogaeth, ymdrin â sefurdod a chodi lefel sgiliau. Gwneir hyn drwy:

- Dargedu 98% o adnoddau Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol ESF ar gategoriâu buddsoddi a nodwyd yn Erthygl 9(3) Rheoliadau Cyffredinol yr UE [1083/2006] fel rhai oedd yn ategu amcanion y Canllawiau ar Dwf a Gwaith (ag eithrio'r Flaenoriaeth Cymorth Technegol). Yng nghyswllt rhaglenni'r ERDF a'r ESF fel ei gilydd, y targed cyfunol fydd 86%, mewn cymhariaeth â'r targed isaf o 75% ar gyfer y ddwy.
- Sicrhau fod y rhaglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol yn cyfrannu at flaenoriaethau perthnasol yn Rhaglen Ddiwygio Genedlaethol y DU;
- Canolbwyntio blaenoriaethau ar bolisiâu a strategaethau allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan gynnwys Cymru: Economi yn Ffynnu, sydd, yn ei thro, yn cydfynd ag agendâu Lisboa a Goteborg, *Y Wlad sy'n Dysgu 2: Gweledigaeth Ar Waith*, sy'n nodi strategaeth addysg a dysgu gydol oes ar gyfer y dyfodol a *SEAP 2005*;
- Defnyddio'r sectorau allweddol a nodwyd yn *W:AVE* i ganolbwyntio adnoddau ar y rhai gyda photensial sylweddol ar gyfer twf;
- Defnyddio fframwaith *Cynllun Gofodol Cymru* i dargedu adnoddau ar ardaloedd o angen a lle mae cyfleoedd;
- Gweithredu'r rhaglenni trwy Fframweithiau Strategol fydd yn sicrhau bod prosiectau'n canolbwyntio ar amcanion allweddol y rhaglenni ac yn cael eu cydlynu'n effeithiol; a
- Meithrin synergeddau gyda pholisiâu eraill y DU a pholisiâu cenedlaethol eraill ar lawr gwlad.

3.42 Mae manylion y dyraniadau ariannol ym Mhennod 7 – Dyraniadau Ariannol, ond, yn fyr, canolbwyntir unrhyw wariant yn unol â bwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynyddu'r ymyriadau cysylltiedig â phobl sy'n cael eu hariannu gan ESF i 47% o'r holl adnoddau. Cafodd y cynnig hwn gefnogaeth eang gan bartneriaid y mhob sector yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus. Mae hyn hefyd yn ymateb i'r argymhelliad a wnaeth Cyngor Ewrop i'r DU ym mis Mawrth 2007 fel rhan o'i adolygiad o gynnydd y DU yng nghyswllt gweithredu'r Rhaglen Ddiwygio Genedlaethol ar gyfer twf a swyddi, bod y DU yn cynyddu sgiliau sylfaenol a chanolradd er mwyn cynyddu cynhyrchiant, a gwella rhagolygon cyflogaeth y rhai sydd dan fwyaf o anfantais.

3.43 Bydd nawdd Blaenoriaeth 1 yn canolbwyntio ar anghenion pobl economaidd segur o safbwynt bod yn barod ar gyfer gwaith, a manteisio ar gyfleoedd cyflogaeth trwy dargedu rhwystrau ac anghenion yr unigolion hynny. Bydd Blaenoriaeth 2 yn canolbwyntio nawdd ar anghenion sgiliau sylfaenol y gweithlu a rhai agweddau ar ddatblygu systemau er mwyn canfod bylchau neu brinder mewn sgiliau a'r anghenion o safbwynt sgiliau yn y dyfodol.

Canolbwynt Daearyddol

3.44 Nid oes bwriad i dargedu'r Rhaglen ESF yn ofodol. Bydd effaith rhaglenni Dwyrain Cymru yn cael ei gryfhau gan y gallu i weithio mewn synergedd gyda strwythur y Fframwaith Strategol, sydd hefyd yn sail i Raglenni Cydgyfeiriant Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Bydd dau Fframwaith Strategol thematig yn rhoi sylw i flaenoriaethau Rhaglen Weithredol Dwyrain Cymru. Fframwaith Strategol Cydlyniad ESF, "Cynyddu cyflogaeth a mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd" fydd yn rhoi sylw i Flaenoriaeth 1. Bydd y Fframwaith Strategol ESF ar gyfer Blaenoriaeth 2 "Gwella lefelau sgiliau a hyblygrwydd y gweithlu" yn benodol i'r Rhaglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol yn hytrach na bod gwahanol Fframweithiau Cydgyfeirio ESP yn cwmpasu'r flaenoriaeth. Mae'r fframweithiau a'r partneriaid blaen arfaethedig i'w gweld yn Atodiad G. Cafodd y dull hwn o weithredu gefnogaeth y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y Rhaglenni Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol.

Fframwaith y Blaenoriaethau

3.45 Yn unol ag agenda'r Comisiwn Ewropeaidd i symleiddio rhaglenni a gweithrediad rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol, bydd y rhaglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol newydd yn cael ei rhoi ar waith trwy strwythur symlach fydd yn cynnwys Rhaglen Weithredol ERDF a Rhaglen Weithredol ESF ar wahân. Bydd gan Rhaglen Weithredol ESF fframwaith o ddwy brif flaenoriaeth fel y nodir isod, (yn ogystal â'r flaenoriaeth Cymorth Technegol). Fel gyda Rhaglenni Gweithredol Cydgyfeiriol ERDF a ESF, ni ymgwymerir ag unrhyw raglen 'lefel mesur'.

Blaenoriaeth 1 ESF: Cynydd cyflogaeth a mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd

3.46 Amcan y flaenoriaeth hon yw creu mwy o gyflogaeth a hybu cynhwysiant cymdeithasola mynd i'r afael â Gweledigaeth ar Waith.

3.47 Bydd y flaenoriaeth yn canolbwyntio ar helpu pobl economaidd segur a phobl diwaith mewn grwpiau dan anfantais i gael gwaith cynaliadwy. Y grwpiau targed allweddol yw pobl gydag anableddau a chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio, pobl ifanc 16-18 oed heb fod mewn gwaith, addysg na hyfforddiant (NEET), unigolion o gymunedau BME, Rhieni Unigol, pobl hŷn, ac ystod eang o grwpiau sy'n wynebu anfantais benodol yn y farchnad lafur.

3.48 Mae'n hanfodol bod pobl o'r grwpiau hyn yn cael gwaith er mwyn cynnal safle economaidd Dwyrain Cymru ar hyn o bryd yn ogystal ag ymdrin â'r problemau cymdeithasol ehangach o dlodi, salwch a chynhwysiad cymdeithasol sy'n poeni rhai cymunedau a rhai grwpiau dan anfantais. Mae tystiolaeth yn

awgrymu bod gwead cymhleth o ffactorau personol yn effeithio ar weithgaredd economaidd ac wrth helpu pobl fod yn fyw gweithgar yn y farchnad waith, mae angen rhoi cefnogaeth gydlynedig barhaus i unigolion er mwyn iddynt oresgyn rhwystrau personol sy'n eu hatal rhag cael gwaith ac aros mewn gwaith.

3.49 Mae'r tabl isod yn dangos sut mae'r flaenoriaeth hon yn cyfrannu at flaenoriaethau polisiâu'r UE a'r DU. Bydd y flaenoriaeth hon yn cyfrannu at gategoriâu 66 a 71 yng nghategoriâu buddsoddi'r Gronfa Strwythurol sydd wedi'i nodi yn Erthygl 9 Rheolaid Cyffredinol [1083/2006] yr UE. Bydd y flaenoriaeth hon yn ymdrin â sgôp y cymorth fel y nodwyd yn adran 1b, Erthygl 3, Rheoliad [1081/2006] ESF.

Tabl 23: Cyfraniad Blaenoriaeth 1 at flaenoriaethau polisi'r UE a'r DU

	Cyfraniad y Flaenoriaeth at Flaenoriaethau Polisi'r UE a'r DU
Canllawiau Integredig ar gyfer Twf a Swyddi	C17: Rhoi polisiâu cylfogaeth sydd â'r nod o wireddu cyflogaeth lawn, gwella ansawdd a chynhyrchiant yn y gwaith, a chryfhau cydlyniad cymdeithasol a tiriogaethol; C18: Hybu agwedd cylch bywyd at waith; C19: Sicrhau bod y farchnad waith yn gynhwysol, gwneud gwaith yn fwy deniadol, a gofalu bod gwaith yn talu yng nghyswllt pobl sy'n chwilio am waith, gan gynnwys pobl dan anfantais, a phobl segur; C21: Hyrwyddo hyblygrwydd gyda sicrwydd cyflogaeth a llai o ymrannu yn y farchnad waith gan roi'r ystyriaeth ddyledus i rôl partneriaid cymdeithasol; GL23: Ehangu a gwella buddsoddiad mewn cyfalaf ddynol
Canllawiau Strategol y Gymuned	C1.3.1: Denu a chadw mwy o bobl mewn gwaith C1.3.3: Mwy o fuddsoddi mewn cyfalaf ddynol trwy well addysg a sgiliau C1.3.5: Helpu i gynnal gweithlu iach
Rhaglen Ddiwygio Genedlaethol y DU	Sgiliau (3.77 – 3.90) Darparu cyfleoedd gwaith i bawb (4.7–4.35) Galluogi pobl i gryfhau eu potensial (4.36 – 4.38)
NSRF y DU	Cynydd cyflogaeth a mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd (278 – 279)

Blaenoriaeth 2 ESF : Gwella lefel sgiliau a hyblygrwydd y gweithlu

3.50 Amcanion y flaenoriaeth hon yw gwella sgiliau'r gweithlu, a chael gwell systemau ar gyfer datblygu'r gweithlu.

3.51 Bydd y flaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar wella sgiliau sylfaenol gweithwyr. Canolbwyntir yn bennaf ar weithwyr sydd â sgiliau is na Lefel 2, yn enwedig y rhai hynny heb sgiliau rhifo, darllen a TGC. Rhoddir sylw arbennig i ymyriadau sy'n helpu merched sy'n gweithio'n rhan amser, gweithwyr hŷn, pobl anabl, a phobl o gymunedau BME. Bydd y flaenoriaeth hon hefyd yn cefnogi

hyfforddiant rheoli ac arwain ar bob lefel i reolwyr a gweithwyr mewn mentrau bach (hyd at 50 o weithwyr). Yn olaf, bydd yn cefnogi ymyriadau sy'n gwella systemau ar gyfer canfod a rhoi sylw i anghenion sgiliau'r gweithlu yn y dyfodol.

3.52 Mae'r tabl isod yn dangos sut mae'r flaenoriaeth hon yn cyfrannu at flaenoriaethau polisi yr UE a'r DU. Bydd y flaenoriaeth hon yn cyfrannu at gategoriâu 72 a 73 yng nghategoriâu buddsoddi'r Gronfa Strwythurol a nodwyd yn Erthygl 9, Rheolaid Cyffredinol [1083/2006] yr UE. Bydd y flaenoriaeth hon yn ymateb i sgôp y cymorth fel y nodwyd yn adran 1a, Erthygl 3, Rheoliad [1081/2006] ESF.

Tabl 24: Cyfraniad Blaenoriaeth 2 at flaenoriaethau polisi'r UE a'r DU

	Cyfraniad y Flaenoriaeth at Flaenoriaethau Polisi'r UE a'r DU
Canllawiau Integredig ar gyfer Twf a Swyddi	C17: Rhoi polisiâu cyflogaeth sydd â'r nod o wireddu cyflogaeth lawn, gwella ansawdd a chynhyrchiant yn y gwaith, a chryfhau cydlynid cymdeithasol a tiriogaethol; C18: Hybu agwedd cylch bywyd at waith; C20: Gwella'r gyfatebiaeth ag anghenion y farchnad waith; C21: Hyrwyddo hyblygrwydd gyda sicrwydd cyflogaeth a llai o ymrannu yn y farchnad waith C23: Ehangu a gwella buddsoddiad mewn cyfalaf ddynol C24: Addasu systemau addysg a hyfforddiant mewn ymateb i ofynion newydd o safbwynt galluoedd.
Canllawiau Strategol y Gymuned	C1.3.2: Gwella gallu gweithwyr a mentrau i addasu a hyblygrwydd y farchnad waith C1.3.3: Mwy o fuddsoddi mewn cyfalaf ddynol ar ffurf gwell addysg a sgiliau
Rhaglen Ddiwygio Genedlaethol y DU	Sgiliau (3.77–3.90) Darparu cyfleoedd gwaith i bawb (4.7 – 4.35) Galluogi pobl i gryfhau eu potensial (4.36–4.38) Tacio anghydraddoldeb rhyw (4.43 – 4.51)
NSRF y DU	Gwella lefel sgiliau a hyblygrwydd y gweithlu (280)

Blaenoriaeth 3 ESF : Cymorth Technegol

3.53 Bydd blaenoriaeth Cymorth Technegol (TA) yn cefnogi rheoli a gweithredu rhaglenni, gan gynnwys cyfathrebiadau a chyhoeddusrwydd, ymchwil a gwerthuso a chamau cryfhau gallu. Ceir amlinellid o'r strategaeth ar gyfer defnyddio Cymorth Technegol ym Mhennod 6 - Rhoi Darpariaeth Ar Waith. Bydd y flaenoriaeth hon yn cyfrannu at gategoriâu 85 ac 86 yng nghategoriâu buddsoddi'r Gronfa Strwythurol a nodwyd yn Erthygl 9 Rheoliad Cyffredinol [1083/2006] yr UE.

Argymhellion Cyflogaeth i'r DU

3.54 Bydd rhaglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol yr ESF yn cyfrannu at gamau a gymerwyd yn Nwyrain Cymru i ymateb i argymhellion a

wnaeth Cyngor Ewrop i'r DU ym mis Mawrth 2007, fel rhan o adolygiad o gynnydd y DU mewn perthynas â gweithredu'r Rhaglen Diwygio Cenedlaethol (NRP) er twf a swyddi. Bydd hefyd yn ategu camau i ymateb i bedwar argymhelliad Cyngor Ewrop i'r DU ynglŷn â chyflogaeth ar 14 Hydref 2004 fel rhan o broses Strategaeth Cyflogaeth Ewrop 2004 (SGE).

3.55 Mae'r SGE bellach yn rhan o gwmpas y Canllawiau Integredig er Twf a Swyddi a phrosesau adrodd a chynllunio Lisboa sy'n gysylltiedig, ond mae'r argymhellion ar gyfer cyflogaeth yn parhau i fodoli ac maent yn berthnasol iawn i anghenion y rhanbarth.

Argymhelliad Cyngor Ewrop (Mawrth 2007) – Mwy o sgiliau sylfaenol a chanolradd, er mwyn cynyddu cynhyrchiant a gwella rhagolygon gwaith y rhai sydd dan fwyaf o anfantais.

3.56 Mae'r NRP yn nodi'r angen i ehangu'r cyfleoedd sydd ar gael i garfannau o'r boblogaeth sydd â chyfraddau gwaith isel a chodi lefel sgiliau'r gweithlu. Gwnaed cynnydd da o safbwynt mynd i'r afael â'r heriau hyn ond, fel y nodwyd yn adolygiad Leitch, mae angen gwneud mwy. Bydd gweithredu dan Flaenoriaeth 1 yr ESF – *Cynyddu cyflogaeth a mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd* yn cefnogi integreiddio grwpiau gwan yn y farchnad waith, gan gynnwys y rhai sy'n hawlio budd-dal analluogrwydd, pobl anabl, grwpiau BME, pobl ifanc sy'n cael eu dosbarthu fel NEET, pobl hŷn a phobl o ardaloedd o amddifadedd. Bydd Blaenoriaeth 2 ESF – *Gwella Lefel Sgiliau a hyblygrwydd y gweithlu* yn canolbwyntio'n benodol ar wella sgiliau sylfaenol yn y gweithlu, a chefnogi sgiliau rheoli ac arwain ar lefel ganolradd ac uwch yng nghyswllt gweithwyr mewn SME.

SGE Argymhelliad 1 - Gwella hyblygrwydd gweithwyr a mentrau a gofalu nad yw'r cynnydd mewn cyflogau yn fwy na'r cynnydd mewn cynhyrchiant.

3.57 Bydd gweithredu i wella sgiliau dan Flaenoriaeth 2 ESF – *Gwella lefel sgiliau a hyblygrwydd y gweithlu* yn helpu i wella lefelau cynhyrchiant a chryfhau gallu mentrau a gweithwyr i wneud pethau newydd ac addasu i ffyrdd newydd o drefnu gwaith a thechnolegau newydd.

SGE Argymhelliad 2 – Sicrhau bod polisïau'r farchnad lafur a'r systemau budd-dal yn atal datsgilio ac yn hybu gwaith o ansawdd, trwy wella'r symbyliadau i weithio a chefnogi integreiddiad a chynnydd pobl segur a diwaith yn y farchnad waith mewn modd cynaliadwy; ymdrin â'r nifer gynyddol o bobl sy'n hawlio budd-dal gwaeledd neu anabledd, a rhoi sylw arbennig i rieni ar eu pennau eu hunain a phobl sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig.

3.58 Bydd Blaenoriaeth 1 ESF – *Cynyddu cyflogaeth a mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd* - yn gwneud cyfraniad pwysig i ymdrin â'r argymhelliad hwn. Ei nod fydd cynyddu cyflogaeth trwy ddod â mwy o bobl ddiwaith ac economaidd segur i waith, gan gynnwys pobl sy'n hawlio budd-dal analluogrwydd, pobl anabl, grwpiau BME, pobl hŷn a phobl o ardaloedd o amddifadedd uchel. Ymdrinnir â rhwystrau i gymryd rhan mewn gwaith ar ffurf cefnogaeth wedi'i theilwra i'r unigolyn er mwyn cynyddu addasrwydd pobl i waith a helpu pobl i ganfod swyddi yn ogystal â gwella sgiliau.

SGE Argymhelliad 3 – Gwella mynediad at, a fforddiadwyedd, gofal plant a gofal dibynyddion eraill, hwyluso mynediad at hyfforddiant ar gyfer merched ar gyflog isel mewn gwaith rhan amser, a chymryd camau brys i fynd i'r afael ag achosion y bwlch rhwng cyflogau dynion a merched.

3.59 Er gwaethaf gwelliannau sylweddol yn ddiweddar yng nghyswllt argaeledd a fforddiadwyedd gofal plant, mae angen gwneud cynnydd pellach yn y naill gyswllt a'r llall os yw bob rhiant am gael y dewis i weithio mewn gwirionedd. Bydd Blaenoriaeth 1 ESF yn cynnwys camau i wella mynediad at gefnogaeth fforddiadwy a phriodol i bobl gyda chyfrifoldebau gofal, a gofal plant yn arbennig. Mae Blaenoriaeth 2 yn nodi merched sy'n gweithio rhan amser fel grŵp targed allweddol sydd angen cefnogaeth o safbwynt datblygu sgiliau sylfaenol megis sgiliau darllen, rhifo neu TGC, neu sgiliau arwain a rheoli fel sy'n briodol, sydd yn ei dro yn cefnogi ymdrechion i fynd i'r afael â'r bwlch rhwng cyflogau dynion a merched.

SGE Argymhelliad 4 – Buddsoddi mwy, mewn modd mwy effeithiol, mewn cyfalaf ddynol a dysgu gydol oes trwy roi strategaethau sgiliau cenedlaethol a rhanbarthol ar waith er mwyn cynnig mwy o symbyliad i ymgymryd â dysgu gydol oes, a thrwy hynny, gwella cynhyrchiant ac ansawdd gwaith; rhoi pwyslais arbennig ar wella llythrennedd a rhifedd y gweithlu, cyfranogiad a chyrhaeddiad pobl ifanc rhwng 16 ac 19 oed, a gweithwyr sgiliau isel, yn arbennig rhai mewn swyddi cyflog isel.

3.60 Dynodwyd bod cynyddu sgiliau'r gweithlu yn allweddol i dwf mewn cynhyrchiant a bydd Blaenoriaeth 2 ESF Gwella lefel sgiliau a hyblygrwydd y gweithlu, yn ymdrin â hyn. Canolbwyntir yn bennaf ar wella llythrennedd a rhifedd sylfaenol, cefnogi gweithwyr mewn busnesau bach sydd angen datblygu eu sgiliau rheoli ac arwain a chefnogi systemau fydd yn datblygu'r gweithlu, gan gynnwys mynd i'r afael â bylchau mewn sgiliau a phrinder sgiliau er mwyn cefnogi'r economi gwybodaeth.

Cynhwysiant Cymdeithasol

3.61 Bydd rhaglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol ESF hefyd yn cymryd camau fydd yn cyflenwi *Cynllun Gweithredu Cenedlaethol y DU ar Gynhwysiant Cymdeithasol* (2006 – 2008) – *Gweithio Gyda'n Gilydd*. Mae'r Cynllun Gweithredu hwn ac Adroddiad Cyfiawnder Cymdeithasol¹⁰⁷ Llywodraeth Cynulliad Cymru yn amlygu'r prif heriau sydd angen mynd i'r afael â hwynt er mwyn mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb. Mae'r rhain yn cynnwys gwella mynediad at gyflogaeth a mynd i'r afael â Gweledigaeth ar Waith, gwella sgiliau, dileu tlodi ymysg plant, gostwng digartrefedd, ymladd anghydraddoldeb iechyd a gwella mynediad at wasanaethau o ansawdd.

3.62 Mae taclo tlodi ac anghydraddoldeb yn amcan hollbwysig i wella ansawdd bywyd, hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol, a sicrhau cydraddoldeb cyfleoedd i bob cymuned yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn llunio ac yn gweithredu nifer o bolisiau a rhaglenni sydd â'r nod o ymladd y tlodi a'r dieithrio mae grwpiau dan anfantais a phobl sy'n byw yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig

¹⁰⁷ Adroddiad Cyfiawnder Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru
<http://new.wales.gov.uk/topics/socialjustice/publications/socjustreport2006?lang=cy>

yn ei wynebu. Mae'r rhain yn cynnwys Cymunedau yn Gyntaf, y fenter Awyddus I Weithio, y Strategaeth Tlodi ymhlith Plant a'r Cynllun Gweithredu a ddeilliodd ohoni, agenda Llwybrau Dysgu 14-19, y Gronfa Anghydraddoldebau Iechyd a Strategaeth Digartrefedd Genedlaethol Cymru. Mae rhaglenni presennol y Gronfa Strwythurol wedi cefnogi camau gweithredu dan nifer o'r mentrau hyn.

3.63 Mae *Cynllun Gweithredu Cynhwysiant Cymdeithasol Cenedlaethol y DU* yn nodi 4 amcan polisi allweddol, y bydd gweithgareddau Rhaglen Weithredol Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol newydd yr ESF yn cynorthwyo gyda hwynt ac yn ychwanegu gwerth:

- Dileu tlodi ymysg plant
- Cynyddu cyfranogiad yn y farchnad waith
- Gwella mynediad at wasanaethau o ansawdd; a
- Taclo anffafiaeth.

3.64 Mae Llywodraeth y DU wedi pennu targed i ddileu tlodi ymysg plant erbyn 2020, a dan Blaenoriaeth 1 – Cynyddu Cyflogaeth a Mynd i'r Afael ag Anweithgarwch Economaidd, bydd Rhaglen Weithredol Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol newydd yr ESF yn helpu pobl ifanc sydd wedi dioddef rhai o sgil-ffeithiau tlodi plant, megis llythrennedd a rhifedd isel, anfodlonrwydd cymdeithasol a diffyg diddordeb mewn addysg, a rhwystrau o safbwynt y rhagolygon ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol, yn helpu i godi pobl ifanc allan o amddifadedd a thorri'r cylch o dlodi.

3.65 Mae Cynllun Gweithredu Cenedlaethol y DU yn nodi'r strategaeth ar gyfer rhoi mwy o help i bobl sydd wedi'i heithrio o'r farchnad waith er mwyn gostwng y nifer o bobl sy'n hawlio budd-daliadau analluogrwydd 1 miliwn mewn degaw', 300,000 yn fwy o rieni ar eu pennau eu hunain mewn gwaith, a chynnydd o 1 miliwn yn y nifer o weithwyr hŷn. Bydd Blaenoriaeth 1 ESF – Cynyddu Cyflogaeth a Mynd i'r Afael ag Anweithgarwch Economaidd, yn cefnogi'r amcanion hyn trwy fynd i'r afael â Gweledigaeth ar Waith trwy annog a chynorthwyo unigolion sydd wedi colli diddordeb yn y farchnad waith i fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth, helpu grwpiau sgiliau isel a grwpiau dan anfantais i oresgyn rhwystrau i gyflogaeth, a chefnogi camau i helpu unigolion gyda chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio fod yn economaidd weithgar.

3.66 Dan Blaenoriaeth 2 – Gwella lefel Sgiliau a hyblygrwydd y gweithlu canolbwyntir ar wella sgiliau'r gweithlu, a sgiliau sylfaenol megis llythrennedd a rhifedd yn arbennig, ac, i raddau cyfyngedig, datblygu sgiliau rheoli ac arwain canolradd ac uwch, yn ogystal â helpu busnesau i addasu i newidiadau yn yr amodau economaidd. Mewn cydnabyddiaeth o'r ffaith y bydd oddeutu hanner oedolion y DU dros 50 oed erbyn 2024, mae cadw a dysgu sgiliau newydd i weithwyr hŷn mewn busnesau a sefydliadau yn gam pwysig tuag at gwrdd ag anghenion sgiliau yn y dyfodol ac addasu i hinsawdd economaidd sy'n newid. Mae'r agwedd hon ar raglen ESF yn cefnogi'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol trwy sicrhau bod pobl yn gallu torri'r cylch o dlodi a chael sicrwydd ariannol trwy gael gwaith, yn ogystal â mynd i'r afael â materion fel gwahaniaethu ar sail oedran.

3.67 Dan Blaenoriaeth 4 – Adfywio ar gyfer Twf Rhaglen Weithredol Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol ERDF bydd ystod o weithgareddau yn

cefnogi amcanion trosfwaol *Cynllun Gweithredu Cenedlaethol y DU*. Bydd yn cefnogi adfywio cymunedau fel rhan o strategaeth adfywio integredig, fydd yn cefnogi gwelliannau corfforol i adeilwaith trefi a phentrefi, a'r amgylchedd naturiol ac adeiledig ehangach, a datblygu dulliau effeithiol o ymgysylltu â cymunedau a rhwydweithiau lleol gyda'r nod o ariannu a gweithredu gweithgareddau adfywio. Er mwyn symud y materion hyn yn eu blaenau, bydd yn datblygu cysylltiadau gyda gweithgareddau sy'n cael eu cefnogi gan rannau eraill o Raglen Weithredol ERDF a dan flaenoriaethau Rhaglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth yr ESF.

3.68 Mae'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol hefyd yn nodi ymrwymiad Llywodraeth y DU i daclo anffafiaeth. Gwnaed cryn gynnydd yn y 30 mlynedd diwethaf ond mae rhai grwpiau mewn mwy o berygl o amddifadiad nac eraill o hyd, yn arbennig pobl anabl a phobl o grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BME). Mae gormod o bobl yn cael eu hatal rhag gwireddu eu potensial yn llawn oherwydd anffafiaeth. Bydd rhaglenni gweithredol yr ESF a'r ERDF yn cefnogi'r amcan hwn trwy ei thema Cyfleoedd Cyfartal trawsbynciol sy'n sicrhau bod pob prosiect yn cynnwys cydnabyddiaeth o'r angen i fynd i'r afael â materion cydraddoldeb.

Agwedd Tuag at Werth Ychwanegol

3.69 Bydd y rhaglen yn adeiladu ar fuddsoddiadau sy'n cael eu cefnogi dan raglenni cyfredol a blaenorol, gan ddysgu o'r gwerthusiad o'u heffaith a'r gwersi a ddysgwyd wrth eu rhoi ar waith. Mae'n amlwg fod Cronfeydd Strwythurol Ewrop yn ychwanegu gwerth at weithrediad rhaglenni a pholisïau cenedlaethol yng Nghymru, yng nghyswllt eu sylwedd a'u prosesau. Bydd y pwyslais hwn ar werth ychwanegol yn cael ei ddwyn ymlaen i gyfnod newydd y rhaglen.

3.70 Yng nghyswllt nodau ac amcanion cyffredinol y rhaglen, bydd y Cronfeydd Strwythurol yn cyflenwi polisïau cenedlaethol ac yn cefnogi cysylltiad agosach â pholisïau'r UE parthed cefnogi datblygiad economaidd. Bydd manteisio i'r eithaf ar y synergeddau hyn yn helpu sicrhau ein bod yn cael y gwerth gorau bosibl o'r rhaglenni newydd. Mae rhaglennu amflunyddol hefyd yn rhoi sail cadarn i weithredu tymor hirach sydd â'r nod o fynd i'r afael â materion anos eu trin neu mwy sylfaenol ac achosi trawsnewid llwyr.

3.71 O safbwynt y buddsoddiad ei hun, bydd y Cronfeydd Strwythurol yn ychwanegu gwerth at y ddarpariaeth bresennol mewn sawl ffordd. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno gwasanaethau cyflogaeth a hyfforddiant newydd, neu ehangu darpariaeth gwasanaethau presennol. Yn ail, mae modd ychwanegu gwerth trwy wella ansawdd y gwasanaethau a'r ddarpariaeth. Yn drydydd, mae cyfle i ddwyn buddsoddiadau a gynlluniwyd ar gyfer rhyw adeg yn y dyfodol ymlaen, er enghraifft, pontio'r bwlch rhwng y rhaglen Awyddus i Weithio, helpu pobl economaidd segur yn ôl i waith, a bwriad Adran Gwaith a Phensiynau'r DU i gyflwyno'r rhaglen *"Llwybrau at Waith"*. Bydd y Cronfeydd Strwythurol hefyd yn ychwanegu gwerth trwy gryfhau'r ffocws ar gyfleoedd cyfartal i bawb, a chynaliadwyedd amgylcheddol trwy roi themau Trawsbynciol ar waith.

3.72 Daw gwerth hefyd o'r Cronfeydd Strwythurol trwy brosesau. Un fantais allweddol yw'r ffaith yr anogir partneriaid ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol i ryngweithio yn yr ymdrech ar y cyd i hyrwyddo twf economaidd. Mae gweithio

mewn partneriaeth o'r fath wedi bod yn un o brif nodweddion cyfnod paratoadol y rhaglen newydd yma a bydd yn cael ei ymestyn i gynnwys partneriaeth ar lefel y Cynllun Gofodol a'r trefniadau ar gyfer Fframweithiau Strategol. Mae'r cronfeydd hefyd yn hyrwyddo egwyddorion tryloywder, tegwch a chyfleodd cyfartal a bydd yr egwyddorion hyn yn parhau i gael eu hadlewyrchu yn y trefniadau ar gyfer rhannu arian. Yn olaf, mae rhaglenni'r Gronfa Strwythurol yn annog arloesi ac yn cynnig llwyfan ar gyfer gweithio gyda rhanbarthau eraill ac ystod eang o sefydliadau er mwyn rhannu arferion gorau. O gofio'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael, bydd y Rhaglen Weithredol hon yn parhau i ddysgu o brofiadau cyrff eraill, prosiectau, rhanbarthau eraill y DU ac aelod-wladwriaethau'r UE ac yn mynd ati i annog prosiectau i fabwysiadu dulliau arloesol o dan bob un o weithgareddau arfaethedig y ddwy flaenoriaeth. Ceir mwy o fanylion ynghylch gwerth ychwanegol ym Mhennod 4 - Blaenoriaethau.

Themâu Trawsbynciol

3.73 Yn ogystal â'r blaenoriaethau a nodir uchod, bydd dwy thema Trawsbynciol neu llorweddol yn cael eu cynnwys ym mhob agwedd ar Raglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol yr ESF yn unol â gofynion Erthyglau 16 ac 17 Rheoliadau Cyffredinol [1083/2006] yr UE. Ymdrinnir â'r strategaeth ar gyfer gweithredu'r ddwy thema drawsbynciol, sef Cyfleodd Cyfartal a Chynaliadwyedd Amgylcheddol, yn llawnach ym Mhennod 5 - Themâu Trawsbynciol ac ym Mhennod 6 - Rhoi'r Darpariaethau Ar Waith.

Cydraddoldeb rhyw a chyfleodd cyfartal i bawb

3.74 Mae'r angen i gydnabod y cyfraniad y gall pob unigolyn ei wneud yn bwysig. Roedd Map Ffyrdd Ewrop ar gyfer Cydraddoldeb rhwng dynion a merched 2006-2010¹⁰⁸, a'r camau a gyflwynwyd gan yr Undeb Ewropeaidd yn 2000, wedi'i llunio i orfodi hawl pobl ym mhobman i gael eu trin yn gyfartal ac i gryfhau parch tuag at hawliau dynol ar hyd a lled yr Undeb Ewropeaidd¹⁰⁹. Mae'r cyfarwyddbau hyn yn dangos bod mwy a mwy o bobl yn cydnabod manteision amrywiaeth nid yn unig i'r economi ond i'r gymdeithas gyfan.

3.75 Bydd Cyfleodd Cyfartal yn cael eu cynnwys fel thema trawsbynciol yn rhaglen Cystadleurwydd yr ESF er mwyn hyrwyddo mynediad cydradd i bawb at y cyfleodd mae'r rhaglen yn eu cynnig. Disgwylir i bob prosiect roi sylw i'r thema o gyfleodd cyfartal a bydd cymorth ar gael i ymyriadau sy'n targedu grwpiau oedd wedi'i heithrio cyn hyn, yn arbennig grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnigl a phobl anabl.

Cynaliadwyedd Amgylcheddol

3.76 Mae'r dystiolaeth gynyddol o newid yn yr hinsawdd a chanlyniadau ehangach hynny yn pwysleisio'r pwysigrwydd o wneud yn siŵr nad yw twf economaidd yn dod ar draul galw cynyddol dibaid ar yr amgylchedd. Byddwn yn gwrthbwysio effeithiau negyddol twf trwy gymryd camau penodol a thrwy

¹⁰⁸ Map Ffyrdd Ewrop ar gyfer Cydraddoldeb rhwng dynion a merched 2006-2010

http://ec.europa.eu/employment_social/emplweb/news/news_en.cfm?id=136

¹⁰⁹ http://ec.europa.eu/employment_social/fundamental_rights/legis/legln_en.htm

integreiddio cynaliadwyedd amgylcheddol fel thema llorweddol trwy'r rhaglen i gyd. Disgwylir i bob prosiect roi sylw i'r thema o gynaliadwyedd amgylcheddol trwy gynnwys cyfleoedd addas i ymdrin â materion amgylcheddol sy'n effeithio'r rhanbarth a'r amgylchedd byd eang ehangach.

3.77 Dangosir y camau fydd yn cael eu cymryd o fewn y blaenoriaethau a'r themâu i hyrwyddo integreiddiad llorweddol amcanion cynaliadwyedd amgylcheddol a chyfleoedd cyfartal y rhaglen mewn dadansoddiad matrices (Atodiadau B a C).

Cyfatebolrwydd rhwng Rhaglenni'r ERDF a'r ESF a pholisïau a chyfryngau ariannu eraill yr UE

ERDF ac ESF

3.78 Lluniwyd Rhaglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol yr ESF i gydfynd â rhaglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol yr ERDF, gan sicrhau bod y blaenoriaethau a bennwyd ar gyfer bob rhaglen yn cyflenwi ac yn ychwanegu gwerth at y naill a'r llall. Mae cysylltiadau agos, yn enwedig ym meysydd cyfleoedd cyflogaeth a sgiliau, lle mae elfennau rhaglen yr ESF yn cefnogi mentrau arloesi, ymchwil a datblygu rhaglen yr ERDF. Hefyd, ym maes adfywio er mwyn twf, bydd cael mwy o bobl mewn gwaith cynaliadwy yn ganolog i les tymor hir unigolion, teuluoedd a chymunedau sy'n ffynnu. Bydd y rhaglenni'n gweithio gyda'i gilydd i gefnogi'r weledigaeth ar y cyd o economi sy'n ffynnu yn Nwyrain Cymru.

3.79 Mae'r rhaglenni Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol yn ceisio cryfhau i'r eithaf y synergedd rhwng ymyriadau'r ESF a'r ERDF. Gallai hyn gynnwys cefnogi amcanion rhaglen yr ESF ar ffurf costau cyfalaf bychan ar gyfer uwchraddio, neu, fel eithriad, darparu cyfleusterau dysgu dan Flaenoriaeth 1 yr ERDF - Gwybodaeth a Arloesi ar gyfer Twf.

3.80 Yn arbennig, defnyddir y darpariaethau yn Erthygl 34 (2) Rheoliad [1083/2006] yr UE, sy'n caniatáu defnyddio hyd at 10% o'r arian sydd ar gael yn y Flaenoriaeth berthnasol i ariannu, mewn modd cyflenwol, camau gweithredu sy'n disgyn o fewn cwmplas cymorth cronfa'r ESF neu'r ERDF. Defnyddir yr adnodd hyblygrwydd i ariannu gweithrediadau sy'n dod dan gwmpas yr ERDF lle bydd cysylltiad uniongyrchol rhwng y gweithrediadau hynny â gweithrediad yr ESF, a lle bydd eu hangen i'w weithredu'n llwyddiannus. Ceir amlinelliad o sut i ddefnyddio'r hyblygrwydd hwn mewn perthynas â phob Blaenoriaeth berthnasol ym Mhennod 4.

EAFRD ac EFF

3.81 Yn unol ag Erthygl 37 (1f) Rheoliad [1083/2006] yr UE, nodir y meini prawf diffinio a'r cyfryngau ar gyfer cydlynw yr ESF a'r ERDF ar y naill law, a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) a Chronfa Pysgodfeydd Ewrop (EFF) ar y llaw arall. Mae hyn yn egluro sut yr aiff Llywodraeth Cynulliad Cymru ati i sicrhau ymochredd a gwerth am arian, tra'n osgoi unrhyw ddyblygu neu ariannu dwywaith.

3.82 Yn gyffredinol, bydd gweithgareddau sy'n cael eu hariannu gan ESF yn ymdrin â materion cefn gwlad yn bennaf fel rhan o weithgaredd rhanbarthol, isranbarthol neu genedlaethol ehangach trwy ddarparu rhaglenni cyflogaeth a sgiliau integredig sy'n cyfrannu at berfformiad economaidd gwell. Bydd rhain yn cynnwys ymyriadau i godi cyfraddau gweithgaredd economaidd mewn ardaloedd gwledig trwy ostwng diweithdra a Gweledigaeth ar Waith a chefnogi datblygu gweithlu medrus a hyblyg.

3.83 Bydd nawdd RDP ac EFF yn canolbwyntio ar gefnogi arallgyfeirio mewn economïau gwledig ar lefel leol ac ar wella ansawdd bywyd mewn ardaloedd cefn gwlad. Mae hyn yn cynnwys ymyriadau ym maes amaethyddiaeth, gan gynnwys cefnogi ffermio arallgyfeiriol arloesol, coedwigaeth a phrosesu bwyd, a datblygu a rheoli pysgodfeydd morol a mewndirol ymarferol a chynaliadwy.

3.84 Bydd gwahaniaethu clir yn y rheolau cymhwyster yn sicrhau diffiniad. Ni fydd unrhyw weithgaredd yn gymwys i gael ei ariannu gan fwy nag un rhaglen. Ni fydd nawdd ESF ar gael ar gyfer ymyriadau sy'n targedu unigolion neu fentrau cysylltiedig ag amaethyddiaeth, coedwigaeth neu bysgodfeydd, neu unigolion neu fentrau sy'n ymwneud â phrosesu cychwynnol unrhyw gynnyrch amaethyddol, coedwigaeth neu bysgodfeydd. Nodir hyn yn glir yn y rheolau cymhwyster a bydd y gofyniad cymhwyster yma'n berthnasol i holl raglenni'r Cronfeydd Strwythurol. Ni fydd ESF yn ariannu gweithgareddau sy'n cefnogi cynlluniau amaeth-fwyd neu brosesu cychwynnol cynnyrch amaethyddol a / neu gynnyrch coedwigaeth. Bydd yr egwyddor hwn yr un mor berthnasol i EFF mewn perthynas â chynnyrch a phrosesu pysgod a physgod cregyn.

3.85 Mae'r RDP yn nodi'r angen i greu cymunedau gwledig gwell gyda gwell mynediad at gyfleoedd economaidd. Mewn achosion lle mae camau cysylltiedig â hyn yn cynnwys ymdrin â bylchau yn y ddarpariaeth o sgiliau a hyfforddiant prif ffrwd, bydd yr egwyddor cyffredinol o ddiffinio yn ôl cymhwyster yn berthnasol o ran bod camau gweithredu'r RDP a'r EFF yn benodol er mwyn diwallu anghenion y sectorau a nodwyd uchod. Er enghraifft, ni fydd darparu hyfforddiant galwedigaethol i ffermwyr, neu, yn achos yr EFF, cefnogi'r sector pysgodfeydd morol a mewndirol, yn gymwys i gael cefnogaeth drwy'r rhaglen ESF.

3.86 Yn yr un modd, bydd hyfforddiant galwedigaethol cysylltiedig â sgiliau ar gyfer gweithwyr ym maes amaethyddiaeth a choedwigaeth yn dod dan Echelin 1 RDP (Cyswllt Ffermio). Byddai rheolaeth amgylcheddol yn dod dan Echelin 2 a byddai sgiliau byw neu sgiliau personol, sylfaenol neu fusnes generig yn cael eu cefnogi gan Echelin 3. Gall ESF gefnogi rhaglenni hyfforddiant seiliedig ar grefft, er enghraifft, sgiliau adeiladu, ond nid yn y meysydd a nodwyd uchod. Mae lle i gyfatebolrwydd rhwng y cyfryngau o safbwynt sut mae'r rhaglenni hyfforddiant a chyflogaeth yn cydweithio, gan gynnwys helpu gyda'r agenda sgiliau heb fod yn rhai galwedigaethol, anghenion ehangach y gymuned, datblygu ffynonellau incwm eraill, creu cyfleoedd ar gyfer aelodau'r teulu, ymdrin ag anghenion cymdeithasol a diwylliannol cyffredinol.

3.87 Mae'r RDP yn nodi'r angen i ddatblygu strategaethau datblygu lleol i sefydlu'r egwyddorion llywodraethol a'r prif feysydd ar gyfer gweithredu a'r union weithgareddau i ymgymryd â hwynt. Bydd y fethodoleg LEADER yn rhan annatod o'r broses hon ac yng nghyswllt Echelin 3 a 4 yr RDP, bydd y strategaethau lleol

hyn yn cael eu trafod gyda'r Grwpiau Ardal Cynllun Gofodol, a gofynnir iddynt eu cymeradwyo. Y Grwpiau Ardal Cynllun Gofodol sy'n gyfrifol am gyfrannu at ddatblygiad y Fframweithiau Strategol thematig ar wahân sy'n darparu'r rhaglen ESF a bydd y broses hon yn canfod unrhyw orgyffwrdd posibl rhwng yr ESF a'r EAFRD neu'r EFF tra'n gofalu ar yr un pryd bod cyfleoedd i ychwanegu gwerth a chyfatebolrwydd rhwng y cronfeydd yn cael eu hamlygu a'u defnyddio i'r eithaf lle bo modd.

3.88 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod yr angen i ystyried y diffinio a'r cyfatebolrwydd a nodwyd uchod wrth roi'r rhaglen ESF ar waith. Gwneir hyn mewn tair ffordd:

- Traws-aelodaeth o'r PMCs mewn perthynas â'r Cronfeydd Strwythurol, yr EAFRD a'r EFF.
- Datganiad penodol yn rheolau cymhwyso'r Cronfeydd Strwythurol nad yw ffermwyr ac eraill sy'n gysylltiedig a phrosesu cychwynnol cynnyrch amaethyddol, pysgodfeydd a choedwigaeth yn gymwys i gael cefnogaeth yr ESF ar gyfer y gweithgareddau hyn; a
- Canllawiau allanol ar gyfer ymgeiswyr dichonol ar gyfer prosiectau wedi'i llunio ar y cyd gan staff sy'n gweithio ar raglenni RDP ac EFF Cymru.

3.89 Er mwyn dileu'r posibilrwydd o ariannu ddwywaith, ac i fanteisio i'r eithaf ar gyfatebolrwydd ar lefel prosiectau, bydd y timau perthnasol yn cysylltu â'i gilydd ar y cam gwneud cais. Fel rhan o broses WEFO, bydd rhaid i ymgeiswyr ddangos sut mae eu prosiect hwy yn cydfynd â'r strategaethau a'r rhaglenni perthnasol. Fel rhan o hyn, bydd swyddogion gwerthuso'r RDP a'r EFF a WEFO yn sicrhau, mewn unrhyw achos lle bo posibilrwydd bod prosiect penodol yn cydfynd â'r meysydd diffinio a chyfatebolrwydd a nodwyd uchod, yr eir ati i ymgynghori â'r swyddogion perthnasol ac y cynhelir gwerthusiad trylwyr.

3.90 Ar ôl iddynt gael sêl bendith, bydd prosiectau'n cael eu monitro'n llym er mwyn sicrhau eu bod yn cadw at amodau'r sêl bendith hwnnw a bydd unrhyw gais dilynol i addasu prosiect yn destun ystyriaeth cyfatebol. Cyflwynir telerau cytbwys ar gyfer prosiectau sy'n cael eu cyflwyno dan yr RDP a'r EFF.

3.91 Bydd cyfryngau a pholisïau Ewropeaidd eraill megis Rhaglen Fframwaith Ymchwil 7¹¹⁰ a Chyflogaeth a Sgiliau, megis y Rhaglen Dysgu Gydol Oes¹¹¹ yn cael eu cyflenwi gan weithgareddau rhaglen yr ESF. Mae'r Rhaglen Dysgu Gydol Oes yn cynnwys pedair rhaglen sectoraidd, sef addysg mewn ysgolion (Comenius), addysg uwch (Erasmus), hyfforddiant galwedigaethol (Leonardo da Vinci) ac addysg i oedolion (Grundtvig), ac fe'i cwblheir gan raglen ardrawslin sy'n canolbwyntio ar gydweithrediad polisïau, ieithoedd, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a lledaenu a defnyddio canlyniadau. Nod y rhaglen Dysgu Gydol Oes newydd yw, trwy addysg gydol oes, cyfrannu at ddatblygiad y Gymuned fel

¹¹⁰ Rhaglen Fframwaith Ymchwil 7 y Comisiwn Ewropeaidd (FP7) ar gyfer 2007–2013 'Building the Europe of Knowledge': http://ec.europa.eu/research/future/index_en.cfm

¹¹¹ Rhaglen Dysgu Gydol Oes yr Undeb Ewropeaidd, http://ec.europa.eu/education/programmes/newprog/index_en.html

cymdeithas o wybodaeth uwch, gyda datblygiad economaidd cynaliadwy, mwy o swyddi gwell a mwy o gydlynid cymdeithasol. Ei nod yw meithrin rhyngweithiad, cydweithrediad a symudedd rhwng systemau addysg a hyfforddiant y Gymuned er mwyn eu datblygu i fod gyda'r gorau yn y byd.

ESF a Datblygiad Cynaliadwy

3.92 Yn unol â Strategaeth Datblygiad Cynaliadwy Cyngor Ewrop a fabwysiadwyd ym Mehefin 2006, bydd nawdd yr UE yn cael ei sianelu a'i ddefnyddio'n y ffordd orau bosibl er mwyn hyrwyddo datblygiad cynaliadwy. Bydd Rhaglen Weithredol Esf yn ceisio cydlynu gweithgareddau i sicrhau cyfatebolrwydd a synergedd rhwng gwahanol ffynonellau ariannu Cymunedol a chyfryngau cydariannu eraill, megis polisiâu Cydlynid, datblygu gwledig, LIFE+, ymchwil a datblygu (R&D), y rhaglen Cystadleurwydd ac Arloesi (CIP) a Chronfa Pysgodfeydd Ewrop (EFF).

Ymchwil a datblygu

3.93 Bydd defnyddio ymchwil, technoleg ac arloesi yn llwyddiannus yn hanfodol i wireddu ein huchelgais o economi cystadleuol sy'n ffynnu. Bydd hwn yn gweithredu fel conglaen ar gyfer sicrhau cynhyrchiant a menter cynyddol a chreu mwy o swyddi a chyfoeth, gan wneud Cymru yn wlad sy'n gallu cystadlu ar lefel y byd. Gyda'r lefel isel o wariant ar R&D ymysg busnesau mewn cymhariaeth â rhannau eraill o'r DU, mae angen annog busnesau i gydweithio er mwyn creu argraff o grynhoad. Anogir addysg uwch, addysg bellach a busnesau i gydweithio er mwyn hybu datblygiad technolegol, trosglwyddiad a masnacheiddio a hwyluso eu mynediad at 7^{fed} Rhaglen Fframwaith Ymchwil yr UE. Nid oes unrhyw arian ESF yn rhaglen Dwyrain Cymru i gefnogi R&D, felly bydd adnoddau cenedlaethol priodol yn ymdrin ag anghenion y sector.

Monitro a Gwerthuso Cynnydd

3.94 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried bod monitro a gwerthuso o ansawdd uchel yn hanfodol os am reoli rhaglenni a gwneud penderfyniadau polisi seiliedig ar dystiolaeth effeithiol. Gwnaeth monitro a gwerthuso gyfraniad pwysig i'r gwaith o reoli Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru yn 2000-2006 ac mae'r gwersi a ddysgwyd yn sgîl monitro a gwerthuso wedi cael eu hystyried wrth ddylunio Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol 2007-2013. Bydd monitro a gwerthuso yn parhau i chwarae rhan allweddol yn y gwaith o sicrhau bod Rhaglenni 2007-2013 o'r ansawdd uchaf posibl ac mor effeithiol â phosibl.

3.95 Seilir dull Llywodraeth Cynulliad Cymru o asesu llwyddiant Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol ar:

- Dilyn y cynnydd â wnaed mewn perthynas â nifer o ddangosyddion economaidd, yn arbennig cyflogaeth, enillion a GYC, mewn termau absoliwt ac mewn cymhariaeth â rhannau eraill o'r DU a'r UE;
- monitro yn erbyn y dangosyddion a bennwyd ar gyfer blaenoriaethau unigol, wedi'i grosio i lefel y rhaglen;
- gwerthusiad ar lefel y rhaglen;
- gwerthusiad ar lefel y fframwaith strategol; a

- gwerthusiad ar lefel prosiectau.

Dangosyddion Olrhain

3.96 Mae'r dangosyddion tracio lefel uchel a nodwyd yn *Cymru: Economi yn Ffynnu a Y Wlad Sy'n Dysgu 2: Gweledigaeth ar Waith* wedi cael eu datblygu i roi darlun eang a chadarn o hanfodion twf economaidd cynaliadwy. Defnyddir y dangosyddion i fonitro cynnydd dros gyfnod o amser yn erbyn y llinellau sylfaen ac i gymharu Cymru â gwledydd a rhanbarthau eraill. Mae llawer o'r dangosyddion tracio yma hefyd ar gael ar lefel NUTS 2 ac felly byddant yn cael eu defnyddio i roi asesiad cytbwys o'r cynnydd yn economi Dwyrain Cymru. Lle nad oes data ar gael ar lefel NUTS 2, dynodwyd dangosyddion addas eraill. Bydd cynnydd hefyd yn cael ei dracio yn erbyn rhai o ddangosyddion Lisboa, ac mae llawer o'r rhain yn gorgyffwrdd â dangosyddion a nodwyd yn *Cymru: Economi yn Ffynnu* ond bod rhai ohonynt wedi'i diffinio ychydig yn wahanol.

3.97 Dylid nodi bod perfformiad yn erbyn y dangosyddion hyn yn dibynnu ar ffactorau eraill megis tueddiadau macro-economaidd a digwyddiadau byd-eang. Serch hynny, mae'r dangosyddion tracio datblygiad economaidd uchel canlynol yn rhoi'r cyd-destun cyffredinol ar gyfer asesu cynnydd yn Nwyrain Cymru. Bydd defnyddio'r dangosyddion tracio yma yn sicrhau bod tueddiadau economaidd ehangach yn cael eu hystyried wrth werthuso'r rhaglenni Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol yng Nghymru.

3.98 Felly, bydd y dangosyddion tracio datblygiad economaidd uchel canlynol yn rhoi'r cyd-destun cyffredinol ar gyfer asesu cynnydd y rhaglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol.

Tabl 25: Dangosyddion Olrhain ar Lefel Rhaglen

	Dangosyddion datblygiad economaidd a'r Farchnad Lafur
Economaidd lefel uchel	GYC y pen ⁱ Incwm gwario aelwydydd y pen ⁱ Cyfradd cyflogaeth ⁱ Enillion cyfartalog ⁱ
Y farchnad lafur	Cyfradd anweithgarwch economaidd Cyfradd diweithdra ⁱ Llif ymfudo
Gwerth ychwanegol fesul swydd	GYC fesul gweithiwr a fesul awr a weithwyd ⁱ
Sgiliau	Cymwysterau'r boblogaeth oedran gweithio ⁱⁱ Cymwysterau pobl ifanc 16-18 mlwydd oed a phobl ifanc 19-21 mlwydd oed ⁱ Cyfran y boblogaeth mewn swyddi proffesiynol, technegol, rheoli a gwyddonol
Cydluniad cymdeithasol	Canran yr oedolion o oedran gweithio mewn cartrefi lle nad oes unrhyw un yn gweithio ⁱⁱⁱ Canran o blant mewn cartrefi lle nad oes neb yn gweithio ⁱⁱⁱ
Cyfleoedd cyfartal	Enillion benywod fel canran o enillion gwrywod ^{iv}

- i Mae'r dangosydd yn debyg i Ddangosydd Strwythurol Lisboa a roddwyd ar y rhestr fer.
- ii Mae'r dangosydd yn cynnwys dangosyddion cymwysterau yn *Y Wlad sy'n Dysgu 2*.
- iii Nid yw'r dangosydd yn *W:AVE*, cynigiwyd dangosydd arall. Nid oes unrhyw ddata ar gael ar hyn o bryd ond disgwylir iddo fod ar gael yn 2007
- iv Nid yw'r dangosydd yn *W:AVE*, cynigiwyd dangosydd arall.

3.99 Ceir data llinell sylfaen yn erbyn y dangosyddion hyn yn Dangosyddion – Atodiad NG.

3.100 Mae holl ddangosyddion a thargedau'r Rhaglen Weithredol hon yn cwmpasu'r Rhaglen i gyd (Arian cymunedol, cyhoeddus cenedlaethol a phreifat cenedlaethol) ac i'w cyflawni erbyn 2015.

Tabl 26: Dangosyddion Lefel Rhaglen

Dangosydd	Targed (2015)
Holl gyfranogion ¹¹²	26,600
Cyfranogion benywaidd ¹¹³	14,190
Cyfranogion economaidd segur ¹¹⁴	11,900
Cyfranogion diwaith ^{115*}	2,100
Cyfranogion mewn gwaith ¹¹⁶	12,600
Cyflogwyr a gafodd gymorth ¹¹⁷	2,800
Cyfranogion yn cychwyn mewn gwaith ¹¹⁸	3,500
Cyfranogion yn ennill cymwysterau ¹¹⁹	9,650
Cyfranogion yn ennill cymhwyster sgiliau sylfaenol ¹²⁰	5,740
Cyfranogion yn ennill cymhwyster Lefel 2 ¹²¹	2,570
Cyfranogion yn ennill cymhwyster Lefel 3 ¹²²	800
Cyfranogion yn ennill cymhwyster Lefel 4 ac uwch ¹²³	540
Cyfranogion yn cychwyn mewn addysg bellach ¹²⁴	4,620

*Mae cyfranogion diwaith yn cynnwys unigolion sydd wedi cael rhybudd ffurfiol o ddiswyddiad

¹¹² Y nifer o unigolion sy'n cymryd rhan yn y Rhaglen

¹¹³ Y nifer o unigolion sy'n ferched sy'n cymryd rhan yn y Rhaglen

¹¹⁴ Y nifer o unigolion sy'n economaidd anweithgar (oni bai am fyfyrwyr) sy'n cymryd rhan yn y Rhaglen

¹¹⁵ Y nifer o unigolion sy'n ddi-waith sy'n cymryd rhan yn y Rhaglen

¹¹⁶ Y nifer o unigolion sydd mewn gwaith sy'n cymryd rhan yn y Rhaglen

¹¹⁷ Y nifer o gyflogwyr sy'n derbyn cymorth trwy gyfrwng y Rhaglen

¹¹⁸ Y nifer o unigolion sy'n cael mynediad at waith ar ôl cymryd rhan yn y Rhaglen

¹¹⁹ Y nifer o unigolion sy'n cael cymhwyster o ganlyniad i gymryd rhan yn y Rhaglen

¹²⁰ Y nifer o unigolion sy'n cael cymhwyster sgiliau sylfaenol o ganlyniad i gymryd rhan yn y Rhaglen

¹²¹ Y nifer o unigolion sy'n cael cymhwyster Lefel 2 o ganlyniad i gymryd rhan yn y Rhaglen

¹²² Y nifer o unigolion sy'n cael cymhwyster Lefel 3 o ganlyniad i gymryd rhan yn y Rhaglen

¹²³ Y nifer o unigolion sy'n cael cymhwyster Lefel 4 neu uwch o ganlyniad i gymryd rhan yn y Rhaglen

¹²⁴ Y nifer a gafodd fynediad i addysg bellach o ganlyniad i gymryd rhan yn y Rhaglen

Gweithrediad Strategol

3.101 Yn ogystal, mae profiad a gwersi a ddysgwyd yn awgrymu bod agwedd fwy strategol tuag at weithrediad yn helpu i sicrhau bod y rhaglenni newydd yn gwneud mwy o gyfraniad fyth at ddatblygiad economaidd cynaliadwy. Mae gwerthusiadau o raglenni 2000-2006 wedi awgrymu bod gormod o brosiectau a'i bod yn anodd mesur cyfraniad rhai o'r rhain o safbwynt cyflawni nodau ac amcanion strategol y rhaglen. Mae llawer i'w ennill trwy ddod â rhaglenni cyflenwol at ei gilydd i yrru rhannau allweddol o'r rhaglen yn eu blaenau.

3.102 Ceir mwy o wybodaeth ynghylch yr agwedd fwy strategol yma tuag at gyflwyno'r rhaglen a'r egwyddorion fydd yn llywio datblygiad y fframweithiau newydd ym Mhennod 6, Gweithredu Darpariaethau.

Y Gymraeg

3.103 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisiau i Gymru fod yn genedl wirioneddol ddwyieithog lle gall pobl ddewis byw eu bywydau trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg neu'r Saesneg neu'r ddwy a lle mae bodolaeth y ddwy iaith yn ffynhonnell weladwy a chlywadwy o falchder a nerth i bawb. Er mwyn cyflawni'r weledigaeth honno, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud ymrwymiad yn iaith Pawb¹²⁵, Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog a'i Gynllun iaith Gymraeg – i brif-ffrydio'r iaith Gymraeg ar draws meysydd polisïau. Bydd gweithrediad y rhaglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol yn adlewyrchu'r ymrwymiad yma.

Prif-ffrydio Mentrau Cymunedol

3.104 Mae Cymru wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth weithredu a thynnu arian o raglen EQUAL Prydain ar gyfer 2000-2006, yn arbennig felly yn yr ail rownd. Yn rownd gyntaf EQUAL (2001-2005), roedd gan Gymru bedair Partneriaeth Ddatblygu ar waith gyda dyraniad o £1.6m o Nawdd o Ewrop. Yn ail rownd EQUAL (2004-2007), mae gan Gymru gyfanswm o 15 Partneriaeth Ddatblygu ar waith ar hyn o bryd gyda dyraniad o £15m o nawdd o Ewrop hyd yma (mae £5m arall ar gael o hyd ar gyfer rhan olaf y rhaglen). Deilliodd nifer o wersi pwysig o brosiectau EQUAL fydd yn cael eu bwydo i mewn i brosiectau dan y rownd newydd, er enghraifft, Meddwl Iach yn y Gwaith, prosiect sy'n ymdrin â'r cysylltiadau rhwng Gweledigaeth ar Waith a iechyd meddwl yn y gweithle.

3.105 Yn ogystal â'r gwersi polisi sydd wedi deillio o EQUAL, mae'r dull o roi rhaglenni ar waith trwy bartneriaethau datblygu wedi bod yn hynod o lwyddiannus o safbwynt ymgorffori dealltwriaeth a phartneriaeth ym mhob agwedd ar y prosiectau. Bydd y rhaglen newydd yn annog gweithio mewn partneriaeth o'r fath trwy gyfrwng Cynllun Gofodol Cymru a Fframweithiau Strategol. Bydd y profiad a ddeilliodd o EQUAL yn cael ei ddwyn ymlaen dan raglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol yr ESF ar ffurf datblygu trefniadau ar gyfer cefnogi gweithredu arloesol a chydweithrediad rhyngwladol.

¹²⁵ *Iaith Pawb* Llywodraeth Cynulliad Cymru:
http://new.wales.gov.uk/topics/welsh_language/iaith_pawb/?lang=cy

Camau Gweithredu gan Bartneriaid Cymdeithasol

3.106 Yn unol ag Erthygl 5, Rheoliad [1081/2006] yr UE, anogir partneriaid cymdeithasol (busnesau ac undebau llafur) i gymryd rhan weithredol yn y gwaith o weithredu rhaglen yr ESF. Bydd hyn yn cynnwys cefnogaeth i weithgaredd sy'n gwella effeithiolrwydd trafodaeth gymdeithasol a gweithgareddau y mae partneriaid cymdeithasol yn ymgymryd â hwynt ar y cyd neu yn eu harwain, yn arbennig o safbwynt hyblygrwydd gweithwyr a mentrau. Bydd gweithgareddau o'r fath ar gael dan Flaenoriaethau 1 a 2 yr ESF, a bydd adnoddau addas, fel y nodir ym Mhennod 4, yn cael eu neilltuo'n benodol i'r diben hwn. Rhagwelir y bydd tua € 0.3 miliwn o ESF yn cael ei ddrynnu trwy'r ddwy Flaenoriaeth. Mae'r gweithgareddau canlynol yn rhoi rhyw syniad o'r gweithgareddau y gellid eu datblygu mewn cysylltiad agos â phartneriaid cymdeithasol:

Blaenoriaeth 1

- Mentrau partneriaeth cymdeithasol sy'n helpu grwpiau dan anfantais i oresgyn rhwystrau i gyflogaeth, gan gynnwys rhaglenni mentora;
- Gwella ymwybyddiaeth ynghylch, a rheoli, anabledd, gan gynnwys trefniadau partneriaeth sy'n rhoi sylw i rwystrau i gyflogaeth cysylltiedig â iechyd; a
- Mentrau partneriaeth cymdeithasol sydd â'r nod o hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn cyflogaeth.

Blaenoriaeth 2

- Mentrau sydd â'r nod o gefnogi cadw gweithwyr hŷn mewn gwaith;
- Meithrin diddordeb cyflogwyr a gweithwyr mewn dysgu, gan gynnwys trwy gyfrwng mentrau sy'n hybu, cydnabod a gwobrwyo arfer da; a
- Gwella ymwybyddiaeth ynghylch, a rheoli, yr amgylchedd.

Strategaeth ar gyfer arloesi a gweithgareddau rhyngwladol

3.107 Bydd yr Awdurdod Rheoli yn hybu ac yn cefnogi gweithredu arloesol a gweithgareddau rhyngwladol trwy ystod o Flaenoriaethau yn y Rhaglen Weithredol, a thrwy hynny, sicrhau bod yr egwyddorion sy'n sail iddynt yn dylanwadu'n gryf ar eu cyflwyniad. Oherwydd y diben prif ffrydio hwn, ni fydd rhaglen benodol ar wahân nag echelin blaenoriaeth yn y Rhaglen Weithredol ar gyfer gweithgareddau arloesol na rhyngwladol.

3.108 Dynodir y sgôp ar gyfer arloesi a gweithgareddau rhyngwladol ar lefel Themau Blaenoriaeth fel rhan o'r gwaith o ddatblygu Fframweithiau Strategol. Bydd hyn yn gofalu bod partneriaethau Fframwaith a'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni yn chwarae rhan gyflawn yn y gwaith o ddethol lle dylid hybu ac annog gweithredu arloesol a gweithgareddau rhyngwladol.

Gweithredu Arloesol

3.109 Mae agenda adolygedig Lisboa yn rhoi pwyslais cryf ar ysgogi gwybodaeth a hybu arloesi. Adlewyrchir hyn yn y Canllawiau Strategol Cymunedol sy'n annog datblygu strategaethau sy'n cynnwys darpariaeth benodol ar gyfer arbrofi er mwyn

symbylu cyfranogion rhanbarthol a lleol i fod yn arloesol, a'r gofynion rheolyddol newydd parthed prif ffrydio gweithredu arloesol. Mae arloesi yn y cyswllt hwn yn ehangach nag 'arloesi technolegol' traddodiadol. Diffinnir ef fel cynhyrchu gwybodaeth newydd a throi'r wybodaeth honno yn gynnyrch, prosesau neu wasnaethau newydd sy'n ymateb i alw gan ddinasyddion. Mae'n cynnwys dyfeisiau cymdeithasol newydd sy'n cefnogi moderneiddio'r economi, yn ogystal â diwygio a gweithredu polisïau cyflogaeth a chynhwysiad cymdeithasol.

3.110 Yn unol ag Erthyglau 3(5) a 7 Rheoliad [1081/2006] yr Esf, bydd y rhaglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol newydd yn hybu arloesi trwy Fframweithiau Strategol cytunedig ac yn cefnogi lledaenu'r casgliadau a rhannu arfer gorau. Wrth wneud hyn, bydd yr Awdurdod Rheoli yn annog gweithredu ar y gwersi a ddysgwyd dan y rhaglen EQUAL. Bydd y Rhaglen yn parhau i ddysgu o brofiadau cyrff a phrosiectau eraill, rhanbarthau eraill y DU ac Aelod-wladwriaethau'r UE, a bydd y gweithgareddau dangosol arfaethedig o fewn pob blaenoriaeth yn cynnig cyfle i brosiectau ddatblygu a chyflwyno cymorth i grwpiau targed, gan ddefnyddio arferion a dulliau arloesol.

3.111 Bydd gwerthuso trylwyr yn un o nodweddion craidd pob prosiect sy'n hybu arloesi a defnyddir canlyniadau'r gwaith arbrofol hwn fel sail i bolisïau a chyflwyniad gyda'r gwersi a ddysgwyd yn bwydo i mewn i weithrediad prif ffrwd rhaglenni a datblygu prosiectau. Llunir strategaeth glir i hybu'r prif ffrydio hyn mewn ymgynghoriad â'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni (PMC) fel rhan o'r trefniadau ar gyfer rhoi holl raglenni'r ESF a'r ERDF ar waith.

3.112 Dynodir y sgôp ar gyfer gweithredu arloesol mewn ymgynghoriad â phartneriaid fel rhan o'r gwaith ar Fframweithiau Strategol a bydd yr Awdurdod Rheoli yn cytuno arnynt (gweler Pennod 6 – Gweithredu'r Ddarpariaeth). Bydd yr adrannau yn y Fframweithiau Strategol sy'n cynnig cyfle ar gyfer Gweithredu Arloesol hefyd yn cynnwys canllawiau ar werthuso a'r posibilrwydd o safbwynt gweithredu prif ffrwd.

3.113 Wrth gynghori noddwyr ar ddatblygu prosiectau sy'n hybu arloesi, bydd yr Awdurdod Rheoli yn cadw'r gwersi a ddysgwyd yn sgîl gweithredu EQUAL mewn cof, gan gynnwys yr angen am gyfranogiad llunwyr polisïau a rhanddeiliaid allweddol a phwysigrwydd gwerthuso trylwyr ac annibynnol.

3.114 Bydd prosiectau gweithredu arloesol yn destun monitro penodol fel rhan o system reoli rhaglenni newydd yr Awdurdod Rheoli (PPIMS) a byddant yn gweithredu yn ôl y rheolau cymhwysedd safonol. Bydd pob prosiect gweithredu arloesol yn destun gwerthusiad allanol.

3.115 Gallai meysydd posibl ar gyfer gweithredu arloesol gynnwys:

- Ffyrdd newydd o ymgysylltu â ac integreiddio grwpiau sydd dan fwyaf o anfantais mewn gwaith cynaliadwy (Blaenoriaeth 1);
- Ffyrdd newydd o helpu cyflogwyr a gweithwyr newydd i ddelio â materion yn ymwneud â iechyd (Blaenoriaeth 1);
- Cefnogi cadw gweithwyr hŷn mewn gwaith (Blaenoriaeth 2); a
- Dulliau arloesol o gyflwyno dysg a ffyrdd o ganfod a mynd i'r afael ag anghenion yng nghyswllt sgiliau (Blaenoriaeth 2);

Cydweithrediad Rhyngwladol a Rhynggranbarthol

3.116 Mae darpariaeth yn y fframwaith rheoleiddio newydd hefyd ar gyfer prif ffrydio cydweithrediad rhyngwladol a rhynggranbarthol. Mae hyn yn cynnig cyfle cyffrous i ychwanegu gwerth at weithrediad rhaglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol yr ESF trwy hwyluso cydweithio gyda rhanbarthau Ewropeaidd eraill mewn meysydd sy'n berthnasol i'r naill a'r llall.

3.117 Er y rhoddir ystyriaeth i brosiectau gyda phartneriaid o bob rhan o'r Undeb Ewropeaidd, rhoddir pwyslais arbennig ar weithgareddau gydag Aelod Wladwriaethau a rhanbarthau y mae gan Llywodraeth Cynulliad Cymru gytundebau cydweithredu ffurfiol â hwynt. Mae'r rhain yn cynnwys Latfia, Llydaw, Catalonia, Upper Silesia a Baden-Württemberg. Hefyd bydd modd adeiladu ar drefniadau cydweithio rhyngwladol llwyddiannus a sefydlwyd dan y fenter EQUAL a chyda rhanbarthau sy'n aelodau o Gymdeithas Awdurdodau Lleol a Rhanbarthol Dysgu Gydol Oes Ewrop (EARLALL), sydd eisoes â phrofiad sylweddol o hwyluso gweithio rhyngwladol ymysg ei aelodau.

3.118 Ymysg y rhwydweithau rhyngwladol a allai agor y drws i bartneriaid ESF posibl ar gyfer Dwyrain Cymru mae Rhwydwaith Ymchwil ac Arloesi Rhanbarthu Ewrop (ERRIN) sy'n canolbwyntio'n benodol ar Ymchwil a Datblygu; y Grŵp e-ddysgu anffurfiol sydd â'r nod o ddatblygu cyfleoedd rhwydweithio strwythuredig ar gyfer ymarferwyr e-ddysgu ar ystod o faterion addysgol, technolegol a pholisi; a BBInet, sef rhwydwaith wybodaeth ar gyfer Addysg a Hyfforddiant sydd wedi'i lleoli ym Mrwsel a sefydlwyd yn ddiweddar i ddod â Siambrau Masnach a Diwydiant sydd â chysylltiadau gydag addysg ac asiantaethau cymdeithasol neu fusnes eraill at ei gilydd i drafod pynciau megis symudedd, entrepreneuriaeth ac addysg i oedolion.

3.119 Yn unol â'r ddarpariaeth yn Erthyglau 3(6) ac 8, Rheoliad [1081/2006] Cronfa Gymdeithasol Ewrop, bydd yr ESF yn cefnogi gweithgareddau rhyngwladol a rhynggranbarthol arloesol o ansawdd uchel ar draws holl flaenoriaethau perthnasol rhaglenni.

3.120 Darperir y rhain yn unol â'r themâu canlynol:

- cynyddu a gwella hyblygrwydd, gan gynnwys, er enghraifft, gweithredu i gefnogi dysgu gydol oes;
- cefnogi integreiddio unigolion sy'n chwilio am waith ac unigolion segur, e.e. gan gynnwys gweithredu i hybu rheoli oedran, diweithdra ymysg yr ifanc (yng nghyswllt Cytundeb leuenctid Ewrop), cydbwysedd bywyd a gwaith ac ymfudwyr;
- cefnogi integreiddiad grwpiau dan anfantais ac ymladd anffafiaeth e.e. gweithredu i gefnogi pobl gydag anableddau, pobl du ac ethnig lleiafrifol (BELI) a phobl gyda chyfrifoldebau gofa; a
- gwella cyfalaf ddynol gan gynnwys e.e. systemau cryfhau gweithredu er mwyn dilysu sgiliau.

3.121 Bydd yr Awdurdod Rheoli yn sefydlu Uned Cydweithrediad Rhyngwladol ar wahân i gefnogi a chydlynu gweithredu dan y rhaglenni hyn. Gwneir trefniadau trwy'r Uned honno i sicrhau nad yw gweithgareddau rhyngwladol sy'n cael

cefnogaeth gan raglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol yr ESF yn gorgyffwrdd rhai sy'n cael eu cefnogi gan raglenni Cymunedol eraill, yn arbennig addysg a hyfforddiant galwedigaethol (VET) ac elfennau addysg i oedolion yn Rhaglen Dysgu Gydol Oes yr UE, sef israglenni Leonardo a Grundtvig, ynghyd â'r prosiectau VET o fewn yr israglen Erasmus, ac elfennau datblygu polisïau a gwybodaeth a lledaeniad yr israglen ardrawslin. Er mwyn datblygu hwn, byddwn yn cydweithio'n glos gydag asiantaethau cenedlaethol y DU sy'n gyfrifol am y rhaglen Dysgu Gydol Oes (Cyngor Prydain ac ECOTEC) i sicrhau na cheir unrhyw ariannu ddwywaith a bod prosiectau yn gyflenwol. Yn ogystal, bydd prosiectau rhyngwladol a rhynggranbarthol sy'n cael eu cefnogi gan yr ESF yn ystyried integreiddio'r gwersi a ddysgwyd yn sgîl Menter Gymunedol EQUAL.

3.122 Mae Cymru yn un o sefydlwyr EARLALL. Mae wedi cymryd rhan mewn nifer o brosiectau ar y cyd gydag aelodau eraill o EARLALL, gan gynnwys prosiect gwreiddiol a awgrymwyd gan y Comisiwn i brofi'r cysyniad o 'godi prisiau' a phrosiect sydd ar y gweill ar hyn o bryd a luniwyd i brofi'r 'dull agored o gydlynu' fel cyfrwng lledaenu.

3.123 Ar hyn o bryd, mae'n gweithio gyda phartneriaid eraill EARLALL i sefydlu cyfres o 'gytundebau symudedd' dwyochrog sy'n hybu symudiad rhydd dysgwyr, ymchwilwyr a gweithwyr rhwng aelod ranbarthau. Rhagwelir y bydd cytundebau o'r fath yn debygol o gynnwys gwaith datblygu ar y cyd pellach mewn meysydd megis:

- e-ddysgu,
- sgiliau ar gyfer entrepreneuriaeth,
- diffinio cymwyseddau galwedigaethol eraill,
- cydnabod credydau tuag at gymwysterau galwedigaethol, ac
- annog rhanbarthau i gynnig lleoliadau profiad gwaith i fyfyrwyr ac ymarferwyr o ranbarthau eraill

3.124 Cyflwynwyd y fenter Rhanbarthau dros Newid Economaidd gan y Comisiwn Ewropeaidd ym mis Tachwedd 2006. Bydd Rhaglen Cydweithrediad Rhyng-ranbarthol 2007-2013 fydd yn cael ei rhoi ar waith ar draws yr UE sy'n cael ei chefnogi dan yr Amcan Cydweithrediad Tiriogaethol yn gyfrwng pwysig ar gyfer rhoi'r fenter hon ar waith. Mae Rhanbarthau dros Newid Economaidd yn cynnig cyfleoedd sylweddol i Ddwyrain Cymru ym maes prif ffrydio gweithredu rhyngwladol ac arloesol, a'i nod yw cyfnewid arfer gorau rhwng rhanbarthau Ewrop.

3.125 Mae'r fenter yn cynnig cyfleoedd i sefydliadau yng Nghymru ymgysylltu â rhanbarthau mewn ardaloedd eraill yn Ewrop mewn perthynas â themâu sy'n cysylltu polisïau'r Undeb Ewropeaidd ag Agenda Lisboa. Mae'n cyflwyno cyfrwng newydd i'r rhanbarthau ar gyfer rhannu a phrofi arfer gorau ar gyfer moderneiddio economaidd a mwy o gystadleurwydd a chyflogaeth ranbarthol, a lledaenu canlyniadau i raglenni Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol prif ffrwd.

3.126 O fewn fframwaith y fenter Rhanbarthau dros Newid Economaidd, mae'r Awdurdod Rheoli yn ymrwymo i:

a) wneud y trefniadau angenrheidiol i groesawu gweithredu arloesol sy'n gysylltiedig â chanlyniadau'r rhwydweithiau mae'r rhanbarthau yn rhan ohonynt i'r broses o raglennu prif ffrwd;

b) caniatáu i gynrychiolydd o'r rhwydweithiau mae'r Rhanbarth yn rhan ohonynt fod yn bresennol (fel sylwedydd) yn y Pwyllgor Monitro Rhaglenni (neu'r pwyllgor rhaglenni), i adrodd yn ôl ar y cynnydd a fu o safbwynt gweithgareddau'r rhwydwaith;

c) rhagweld pwynt yn agenda'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni (neu bwyllgor rhaglenni) o leiaf unwaith y flwyddyn lle gellir nodi gweithgareddau'r rhwydwaith a thrafod awgrymiadau perthnasol ar gyfer y rhaglen prif ffrwd sydd dan sylw; a

d) rhoi gwybod ynghylch gweithrediad y gweithgaredd rhanbarthol sydd wedi'i gynnwys yn y fenter Rhanbarthau dros Newid Economaidd yn yr Adroddiad Blynyddol.

Ymgynghori

3.127 Datblygwyd pennod Cymru o'r NSRF a'r rhaglenni Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol trwy broses o ymgysylltu cynhwysfawr â phartneriaid. Mae hyn wedi cynnwys Grŵp Rhanddeiliaid Allanol sy'n dod â chynrychiolwyr o'r prif sefydliadau partner a phump ffrwd o waith sy'n cynnwys arbenigwyr o'r sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol at ei gilydd¹²⁶. Mae'r ffrydiau gwaith hyn wedi cefnogi datblygu'r Rhaglen Weithredol newydd ac wedi rhoi cyngor ar reoli, gwerthuso a monitro rhaglenni yn y dyfodol ac ar drefniadau archwilio a chydymffurfiad.

3.128 Lanswyd yr ymgynghoriad ar y rhaglenni Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol ar 01 Rhagfyr 2006 am gyfnod o 8 wythnos, gan ddirwyn i ben ar 26 ionawr 2007. Cynhaliwyd dadansoddiad annibynnol o'r ymatebion i'r ymgynghoriad gan CRG Research Ltd a bydd yr adroddiad llawn yn ymddangos ar wefan WEFO¹²⁷ ynghyd â'r ymatebion ffurfiol i'r ymgynghoriad. Cafwyd adborth hefyd o'r tri achlysur ymgynghori a gynhaliwyd gan WEFO. Cafwyd 40 ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad cyhoeddus.

¹²⁶ Ariennir y ffrydiau gwaith Ôl 2006 yn rhannol gan Gymorth Technegol Amcan 1 ERDF ac Amcan 1 ESF

¹²⁷ www.wefo.wales.gov.uk

Tabl 27: Ymatebion i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus fesul Sector

Sector	Nifer o ymatebion
Sector Gwirfoddol a Chymunedol	5
Partneriaethau Datblygu Economaidd / Hyfforddiant	3
Sector Preifat	3
Sefydliadau Addysg Uwch/Addysg Bellach	3
Cymdeithasau Masnach/Proffesiynol	2
Awdurdodau Lleol	10
Asiantaethau'r Llywodraeth	5
Cynulliad Cenedlaethol Cymru	3
Amgylchedd, Diwylliant a Threftadaeth	6
Arall	0

3.129 Y prif bwyntiau a ddaeth i'r amlwg oedd:

- cefnogaeth eang i'r strategaeth, y blaenoriaethau a'r themâu;
- mwy o fanylion ynghylch yr amrywiaeth rhwng yr is-ranbarthau sy'n rhan o Ddwyrain Cymru i'w cynnwys yn yr adran ar Ddadansoddiad;
- barn gymysg o safbwynt lefel y ffocws ar agenda Lisboa, rhai yn gryf o blaid, ond eraill yn pryderu ynghylch llai o ffocws ar rhai meysydd o weithgaredd;
- cefnogaeth i rôl addysg uwch yng nghyswllt datblygu economaidd;
- gwnaed cais am fwy o wybodaeth ynghylch rôl Cynllun Gofodol Cymru a'i ryngweithiad â'r Fframweithiau Strategol arfaethedig;
- cefnogaeth i'r dull Fframweithiau Strategol o weithio yn Nwyrain Cymru – sicrhau cysondeb â'r rhaglenni Cydgyfeiriant;
- pwyslais ar bwysigrwydd cludiant yng nghyswllt mynd i'r afael â phroblemau gyda hygyrchedd;
- y teimlad bod diffyg pwyslais ar gefnogi'r sector twristiaeth; a
- cefnogaeth i un PMC gan gydnabod bod anghenion Dwyrain Cymru yn cael sylw dyledus a theg.

3.130 Ceir manylion y sylwadau i gyd ynghyd â rhestr o'r rhai a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad yn Atodiad A – Adroddiad ar yr Ymatebion i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus.

Crynodeb o Werthusiad Ex Ante Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol yr ESF

3.131 Yn unol ag Erthygl 45, Rheoliad Cyffredinol [1083/2006] yr UE, ymgwymerwyd â Gwerthusiadau Ex Ante mewn perthynas â Rhaglenni Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol (ERDF ac ESF) er mwyn gwneud yn siŵr bod adnoddau'n cael eu neilltuo'n y modd gorau bosib a bod cynlluniau ar gyfer gweithredu'r rhaglen o'r ansawdd gorau bosib. Yn Ebrill 2006, yn dilyn proses o dendro cystadleuol, rhoddodd WEFO y contract o gynnal y gwerthusiadau hyn i DTZ Consulting and Research.

3.132 Daeth y Gwerthusiad Ex Ante o raglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol yr ESF i'r casgliad bod gan y Dadansoddiad ffocws clir ar Ddwyrain

Cymru, bod y dystiolaeth wedi cael ei chyflwyno'n dda a bod y problemau sy'n wynebu Dwyrain Cymru wedi'i dynodi'n glir. Daeth DTZ i'r canlyniad bod y data a ddefnyddiwyd wedi dod o ffynonellau credadwy a chyfoes, bod y casgliadau y daethpwyd iddynt wedi'i seilio ar ddigon o dystiolaeth ac, at ei gilydd, bod y Dadansoddiad yn un cywir, cynhwysfawr a pherthnasol, gan roi sail da ar gyfer pennu blaenoriaethau'r Rhaglen.

3.133 Gwnaeth DTZ nifer o sylwadau ac argymhellion ynglŷn â'r strategaeth er mwyn cryfhau'r rhesymoleg y tu ôl iddi a'r cysondeb ynddi. Roedd y mwyfrif o'r sylwadau yn ymwneud â phriodoldeb ffocws y rhaglen o gofio'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn y Dadansoddiad. Yn ei hanfod, nid oedd y materion y tynnwyd sylw atynt yn y Dadansoddiad yn cyd-fynd â'r Blaenoriaethau oedd wedi cael eu hawgrymu ar gyfer y rhaglen. Roedd DTZ yn argymhell adolygu'r Dadansoddiad ac ailasesu'r rhesymeg y tu ôl i'r Blaenoriaethau.

3.134 Yn sgîl y sylwadau hyn, newidiwyd y Dadansoddiad a Blaenoriaethau'r Rhaglen i ganolbwyntio i'r eithaf ar yr heriau a'r materion oedd yn wynebu Dwyrain Cymru. Aseswyd Blaenoriaethau'r Rhaglen fel rhai oedd â chysondeb mewnol cryf a ac ychydig iawn o anghysondeb rhwng Blaenoriaethau. Daeth DTZ i'r casgliad bod y rhan fwyaf o'r ymyriadau a gynigiwyd wedi hen ennill eu plwyf ac wedi cael rhoi ar waith a'u profi mewn rhaglenni blaenorol, gan ostwng y risg o safbwynt polisi. Fodd bynnag, maent yn awgrymu efallai bod lle i gynnwys polisiau mwy mentrus a allai gael mwy o effaith. Mae DTZ wedi argymhell bod WEFO yn rhoi mwy o ystyriaeth i'r bylchau mewn sgiliau a phrinder sgiliau a goblygiadau hynny o safbwynt ai nod y gweithgareddau yw cryfhau addasrwydd unigolion i waith neu codi'r GYC rhanbarthol.

3.135 Daeth DTZ i'r casgliad bod nodau ac amcanion y Rhaglen, gan mwyaf, yn cydfynd â pholisiau perthnasol eraill ar lefel yr UE, y DU a Chymru. Cafodd y rhaglen hefyd ei hasesu ar ei chysondeb â rhaglenni Cronfeydd Strwythurol eraill yng Nghymru megis Rhaglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol yr ERDF a Rhaglenni Cydgyfeiriant yr ERDF a'r ESF, ac, yn sgîl gwelliannau a wnaed gan WEFO, eu bod yn cydfynd â chynnwys a chyfeiriad y Rhaglenni hyn.

3.136 Yng nghyswllt trefniadau gweithredu, daethpwyd i'r casgliad bod yr argymhellion i gyd bron wedi cael sylw er fod rhai argymhellion (er enghraifft, llunio cofrestr risg uchel, a darparu meini prawf dethol manylach mewn perthynas â phrosiectau) yn cael eu rhoi ar waith oddi allan i'r Rhaglen Weithredol.

3.137 I gloi, mae'r Gwerthusiad Ex Ante wedi dangos lefel uchel o ryngweithio positif a chynhyrchiol rhwng y gwerthuswyr a WEFO. Mae'r mwyafrif helaeth o'r argymhellion a'r awgrymiadau a wnaed gan DTZ wedi cael eu derbyn gan WEFO ac ymgorfforwyd hwynt yn y Rhaglenni Gweithredol drafft. Mae Adroddiad terfynol y Gwerthusiad Ex Ante i'w weld yn Atodiad D.

Datganiad Asesu Amgylcheddol Strategol

3.138 O gofio natur Cronfa Gymdeithasol Ewrop, wrth ganolbwyntio ar weithgareddau amherthnasol yn ymwneud â Datblygu Adnoddau Dynol, nid yw'r Rhaglen Weithredol hon yn pennu'r fframwaith ar gyfer gwethredu sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd, megis prosiectau isadeiledd, yn

arbennig yr un a nodwyd yn Atodiadau I a II i Gyfarwyddeb 85/337/EEC fel y'i newidiwyd.

3.139 Os rhagwelir prosiectau isadeiledd yn hwyrach ymlaen, yn benodol trwy ddefnyddio cymal hyblygrwydd Erthygl 34.2 Rheoliad 1083/2006 y Comisiwn Ewropeaidd, byddem yn ailystyried yr angen am Asesiad Amgylcheddol Strategol. O ganlyniad, mae'r Awdurdod Rheoli yn credu - ac mae'r awdurdodau cenedlaethol wedi cytuno – nad oes angen Asesiad Amgylcheddol Strategol o'r Rhaglen Weithredol hon dan Gyfarwyddeb 2001/42/EC ar hyn o bryd.

3.140 Mae hyn leihau effaith unrhyw benderfyniadau sgrinio a ystyrir i fod yn angenrheidiol yn ôl deddfau cenedlaethol neu gamau eraill i weithredu Cyfarwyddeb 2001/42/EC.

PENNOD 4: BLAENORIAETHAU

BLAENORIAETH 1: CYNyddu CYFLOGAETH A MYND I'R AFAEL AG ANWEITHGARWCH ECONOMAIDD

Amcan

4.1 Codi lefelau cyflogaeth a gweithgaredd economaidd, a sicrhau mwy o gyfranogiad yn y farchnad waith yn rhanbarth Dwyrain Cymru.

Grwpiau Targed

4.2 Bydd y flaenoriaeth hon yn canolbwyntio'n bennaf ar bobl economaidd segur gyda'r nod o'u helpu i gael gwaith cynaliadwy. Bydd tua 85% o'r arian a neilltuwyd ar gyfer y flaenoriaeth hon yn cefnogi ymyriadau mewn perthynas â'r rhai hynny sydd wedi cael eu dynodi fel economaidd segur, gyda'r gweddill yn rhoi cymorth ychwanegol i'r rhai hynny sydd wedi cael eu dosbarthu fel diwaith.

4.3 Y prif grwpiau targed fydd pobl gyda chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio a phobl gydag anableddau; pobl ifanc 16-18 oed sydd wedi cael eu dosbarthu fel NEET (heb fod mewn gwaith, addysg na hyfforddiant); pobl o gymunedau BME, Rhieni Unigol, pobl hŷn, yn arbennig rhai gyda sgiliau isel, ac ystod o grwpiau eraill sy'n wynebu anfantais yn y farchnad lafur.

Rhesymeg

4.4 Mae angen cymryd camau i helpu pobl ddiwaith ac economaidd segur o bob oedran yn Nwyrain Cymru i ymuno â'r gweithlu, ond mae angen arbennig i helpu'r rhai dan anfantais a'r rhai economaidd segur i gael eu traed danyn mewn gwaith. Nid yn unig y bydd cynyddu cyflogaeth yn ategu twf economaidd yn y rhanbarth, ond bydd hefyd yn sail i weithredu ehangach i leddfu'r risg o dlodi a gwaeledd tymor hir, ehangu cynhwysiant cymdeithasola chael gwell canlyniadau economaidd i unigolion, grwpiau dan anfantais a chymunedau. Mae cynyddu maint y gweithlu yn bwysig os yw Dwyrain Cymru am gynnal y twf economaidd a welwyd yno yn y blynyddoedd diwethaf. Yr her i'r rhanbarth o safbwynt cynnal y datblygiad yma, dod yn fwy cystadleuol a chefnogi twf economaidd yng Nghymru yw galluogi mwy o bobl i fanteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael iddynt mewn economi sy'n tyfu.

4.5 Yn achos llawer o bobl, sgiliau isel, cymwysterau gwael neu dim cymwysterau o gwbl, diffyg hunan hyder neu brofiad o waith, yw rhai o'r prif rwystrau maent yn eu wynebu o safbwynt cael swydd. Ond, yn fwy na hyn, mae rhai grwpiau arbennig o bobl economaidd segur a diwaith, megis pobl ifanc sydd wedi cael eu dosbarthu fel NEET, cymunedau BME, pobl anabl neu unigolion gyda chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio, a phobl hŷn, yn wynebu anfanteision penodol sy'n cyfyngu ar eu gallu i ymgysylltu â'r farchnad waith. Bydd angen cymryd camau penodol i fynd i'r afael â'r ystod lawn o ffactorau sy'n cyfrannu at eu hanfantais os am sicrhau eu llwyddiant wrth gael, a chadw, gwaith. Ar yr un pryd, mae crynhoad o rai o'r grwpiau hyn mewn ardaloedd penodol yn creu problemau o dlodi ac amddifadiad yn y gymuned.

4.6 Er bod angen rhoi pwyslais mawr dan y flaenoriaeth hon ar gael mwy o bobl mewn gwaith, rhaid hefyd rhoi sylw i'r angen am eu helpu i aros mewn gwaith. Bydd y fantais o safbwynt cost o gael rhywun mewn swydd yn cael ei cholli os nad yw'r gefnogaeth a'r gofal dilynol iawn ar gael i'r gweithiwr ac i'r cyflogwr. Y tu hwnt i hyn, gall y gost gymdeithasol o rywun yn syrthio'n ôl i ddiweithdra a segurdod tymor hir posibl gael effaith arwyddocaol ar unigolion a chymunedau fel ei gilydd. Yn achos llawer o gyflogwyr, a mentrau bach a chanolig eu maint yn arbennig, mae'r syniad o gyflogi pobl a ddosbarthwyd fel economaidd segur neu ddiwaith tymor hir cynt yn ymddangos, ar gam, yn frith o broblemau. Mae modd ymdrin â chamargraff o'r fath trwy ofalu bod cyngor, arweiniad a gwasanaeth mentora ar gael fel pecyn cymorth a gofal dilynol i'r cyflogwr. Bydd gweithgareddau sydd â'r nod o weithio gyda chyflogwyr i helpu gweithwyr newydd aros mewn gwaith yn allweddol o safbwynt eu hatal rhag llithro nôl i ddiweithdra tymor hir a Gweledigaeth ar Waith.

4.7 Bydd cefnogaeth barhaus i sicrhau cyflogaeth tymor hir yn hanfodol. Nid yn unig mae angen gweithredu i helpu mwy o bobl i waith ond hefyd i'w cefnogi i aros mewn gwaith a rhwystro unrhyw lithro'n ôl i Gweledigaeth ar Waith. Unwaith mae rhywun wedi bod mewn gwaith am 12 mis, mae'r tebygolrwydd y byddant yn aros mewn gwaith yn y tymor hir yn llawer uwch. Mae darparu cefnogaeth barhaus ar ôl cael swydd (gan gynnwys cefnogaeth ariannol) yn yr ychydig wythnosau a misoedd cyntaf yn rhan bwysig o ymyriad unigol integredig.

4.8 Mae gan bartneriaid cymdeithasol ran allweddol i'w chwarae yn y gwaith o gefnogi integreiddiad cynaliadwy mewn gwaith mewn perthynas â'r rhai hynny sydd ymhell ar ôl neu dan anfantais sylweddol yng nghyswllt y farchnad waith. Bydd y rhaglen yn cefnogi camau i gryfhau gallu partneriaid cymdeithasol, trwy hyfforddiant a rhwydweithio, i chwarae rôl bwysicach ar lefel leol yn y cyswllt hwn ac ehangu'r posibilrwydd o fwy o gydweithio gyda phartneriaid allweddol e.e gwasanaethau cyflogi cyhoeddus neu ddarparwyr gofal iechyd sylfaenol. Mae'r cysylltiad rhwng gwaeledd, sgiliau isel a diweithdra a Gweledigaeth ar Waith wedi ei sefydlu. Mae rhaglenni sydd â'r nod o weithio gyda chyflogwyr a chydag unigolion gyda chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio i'w helpu yn ôl i waith, ymdopi â'u cyflyrau a'u hatal rhag llithro'n ôl i ddiweithdra neu segurdod, yn allweddol er mwyn mynd i'r afael â'r broblem o unigolion economaidd segur sydd eisiau, neu fyddai'n gallu, gweithio, ond sy'n digalonni rhag gwneud hynny oherwydd eu hiechyd.

4.9 Gall dibyniaeth ariannol neu ddiwylliannol ar fudd-daliadau segurdod ynghyd â'r grêd y byddant yn colli'r diogelwch ariannol sydd wedi cael ei greu gan y system fudd-daliadau bresennol, atal llawer o unigolion rhag mynd i chwilio am waith. Mae pwysau o du cyd-drigolion mewn cymunedau neu gyfoedion mewn rhai grwpiau oedran arbennig yn arwain at ddibyniaeth oes ar fudd-daliadau a gall hyn esgor ar ddiwylliant o segurdod mewn teuluoedd, cenedlaethau a chymunedau. Mae ymyriadau prif ffrwd, er enghraifft menter Bargaen Newydd Llywodraeth y DU a rhaglenni arbrofol *Llwybrau at Waith* wedi tueddu i dargedu llif unigolion i ddiweithdra a segurdod tymor hir. Mae gweithredu i helpu'r rhai sydd eisoes yn hawlio budd-daliadau, yn enwedig y stoc o unigolion economaidd segur tymor hir, wedi bod yn fwy cyfyngedig.

4.10 Mae datblygiadau diweddar dan y ddarpariaeth Bergen Newydd a Llwybrau at Waith wedi ymestyn y gefnogaeth i'r unigolion hynny sydd wedi bod yn hawlio budd-daliadau ers cwpwl o flynyddoedd, ond er gwaethaf hyn, mae angen mwy o weithredu pendant i ddod â'r segur tymor hir yn ôl i'r farchnad waith. Byddai gweithredu yn y dyfodol yn adeiladu ar lwyddiant prosiectau megis *Yn Awyddus i Weithio*, a ddatblygwyd mewn partneriaeth rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Canolfan Byd Gwaith Cymru yn rhaglenni 2000-2006 trwy ymestyn rhaglenni prif ffrwd i grwpiau sydd dan fwy o anfantais.

4.11 Mae cysylltiadau pwysig hefyd i'w gwneud â chynaliadwyedd amgylcheddol. Mae mwy a mwy o gyfleoedd gwaith yn Nwyrain Cymru mewn sectorau sy'n dibynnu ar amgylchedd naturiol da a byw yn iach, megis twristiaeth a chwaraeon. Gall cryfhau ymwybyddiaeth ynghylch materion ac ystyriaethau amgylcheddol, a hybu ffyrdd o fyw iachach, helpu i baratoi pobl segur ar gyfer gwaith yn y sectorau yma sy'n brysur dyfu, a gwella eu dealltwriaeth o'r ffordd orau iddynt hwy gefnogi arferion amgylcheddol gwell.

Cyd-destun Polisi

Ewropeaidd

4.12 Bydd y flaenoriaeth hon yn ymdrin â'r ddau argymhelliad parthed cyflogaeth a wnaed i'r DU yn 2004 fel rhan o *Strategaeth Cyflogaeth Ewrop*. Mae'r rhain yn galw am weithredu er mwyn:

- Sicrhau bod polisiâu gweithredol y farchnad waith a'r system budd-daliadau yn atal datsgilio ac yn hybu ansawdd mewn gwaith, trwy wella'r cymhelliant i weithio a chefnogi integreiddiad a chynnydd cynaliadwy yn y farchnad waith ar gyfer pobl segur a diwaith; a
- ymdrin â'r nifer gynyddol o bobl sy'n hawlio budd-daliadau gwaeledd neu anabledd a rhoi sylw arbennig i rieni ar eu pennau eu hunain a phobl sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig.

4.13 Mae'r flaenoriaeth hefyd yn adlewyrchu'r strategaethau a'r egwyddorion canlynol sy'n dylanwadu ar ddyluniad a chyflwyniad polisiâu yng Nghymru:

- cyhoeddiad Maastricht ar gryfhau cydweithrediad yn Ewrop ym maes Addysg Galwedigaethol a Hyfforddiant, pan alwodd Gweinidogion Addysg ar y Cronfeydd Strwythurol i gefnogi camau gweithredu sy'n diweddarau sgiliau poblogaeth sy'n heneiddio¹²⁸.
- gweithgareddau ym maes iechyd galwedigaethol a hybu dulliau o fyw iachach yn ymateb i'r amcanion a nodwyd yn *Strategaeth Iechyd a Diogelwch Defnyddwyr* 2005¹²⁹, sy'n pwysleisio'r cyfraniad mae iechyd

¹²⁸ Communiqué Maastricht ar Flaenoriaethau Gwella Cydweithredu Ewropeaidd yn y Dyfodol yn Vocational Education and Training (VET) 14 Rhagfyr 2004:

http://www.bologna-bergen2005.no/Docs/00-Main_doc/041214_Maastricht_com_en.pdf

¹²⁹ Strategaeth Iechyd a Diogelu Defnyddwyr – Healthier, safer, more confident citizens: a Health and Consumer protection Strategy COM (2005) 115:

http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/site/en/com/2005/com2005_0115en01.pdf

yn ei wneud i gynhyrchiant, cyfranogiad mewn gwaith a thwf economaidd, yn arbennig yng nghyswllt gweithlu sy'n heneiddio

- lle bo hynny'n addas, dylai prosiectau sy'n cael eu cefnogi drwy'r ail raglen Gweithredu Cymunedol ym maes iechyd (2007–2013)¹³⁰ geisio synergedd â rhai yr ymgwymerir â hwynt yn y flaenoriaeth hon, yn arbennig gan fod y rhaglen gweithredu iechyd yn rhoi pwyslais mawr ar 'hybu iechyd er mwyn ffyniant ac undod'
- mae'r Papur Gwyrdd '*Promoting healthy diets and physical activity: a European dimension for the prevention of overweight, obesity and chronic diseases*'¹³¹, a ddeilliodd o'r strategaeth (2005) yn amlygu cost ariannol iechyd gwael ac yn nodi bod y gweithlu yn le da i hybu dulliau o fyw iachach; a'r
- pwyslais cryf ar hyrwyddo datblygiad cynaliadwy yn agendâu Lisboa a Göteborg, a'r angen i wella ymwybyddiaeth a sgiliau fydd yn angenrheidiol i ymateb i heriau amgylcheddol yn awr ac yn y dyfodol.

Y DU

4.14 Bydd y flaenoriaeth hon a'i themâu yn ceisio ymdrin ag amcanion a nodau polisiâu canlynol y DU yn ogystal â rhai ar lefel yr UE ac ar lefel genedlaethol yng Nghymru. Llywodraeth y DU, trwy gyfrwng yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros ddatblygu polisiâu cyflogaeth, ac mae'n cefnogi cyflwyniad ystod o gamau sy'n weithredol gan y farchnad waith. Mae'r prif raglenni'n cynnwys y Fargen Newydd sydd, dros y pum mlynedd diwethaf, wedi ymestyn cefnogaeth y tu hwnt i'r rhai sydd wedi cofrestru'n ddiwaith i gynnwys pobl a ddosbarthwyd fel economaidd segur, a'r fenter 'Llwybrau at Waith' sy'n anelu at roi cefnogaeth i bobl sy'n hawlio Budd-dal Analluogrwydd. Bydd angen i'r rhaglen ystyried datblygiadau yn y dyfodol dan Bapur Gwyrdd yr Adran Gwaith a Phensiynau: *Bargen Newydd ar gyfer Lles: Galluogi Pobl i Weithio*¹³².

4.15 O 01 Hydref 2006 ymlaen, bydd y deddfau newydd yn amddiffyn gweithwyr rhag anffafriaeth ar sail oedran, sef Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Oed), yn ei gwneud yn anghyfreithlon i gyflogwyr wahaniaethu yn erbyn gweithwyr, unigolion dan hyfforddiant neu bobl sy'n chwilio am waith oherwydd eu hoedran ac yn sicrhau bod pob gweithiwr, waeth be fo'i oedran, yn cael yr un hawliau o safbwynt hyfforddiant a dyrchafiad. Bydd newidiadau i oedran hawlio pensiwn y wladwriaeth a gyhoeddwyd ym mis Mai 2006 ym mhapur gwyn Llywodraeth y DU *Diogelwch ar ôl Ymddeol*¹³³, hefyd yn annog pobl i weithio am gyfnod hirach.

¹³⁰ Testun cynnig Diwygiedig y Comisiwn yn sefydlu ail Raglen Gweithredu Cymunedol ym maes iechyd a diogelu defnyddwyr (2007–2013) COM (2006) 234:

http://ec.europa.eu/health/ph_overview/Documents/com_20060524_en.pdf

¹³¹ Papur Gwyrdd ar 'Hyrwyddo dietau iach a gweithgarwch corfforol: dimensiwn Ewropeaidd ar gyfer atal clefydau yn gysylltiedig â bod yn rhy drwm, yn ordew a chlefydau cronig' COM (2005) 637:

http://ec.europa.eu/health/ph_determinants/life_style/nutrition/documents/nutrition_gp_en.pdf

¹³² Papur Gwyrdd DWP: Bargen Newydd ar gyfer Lles: Galluogi pobl i Weithio:

http://www.dwp.gov.uk/welfare-reform/docs/A_new_deal_for_welfare-Empowering_people_to_work-Full_Document.pdf

¹³³ Papur Gwyn DWP Sicrwydd mewn Ymddeoliad, Tuag ag system bensiynau newydd, <http://www.dwp.gov.uk/pensionsreform/whitepaper.asp>

4.16 Yn ogystal ag effaith systemau lles a'r newidiadau arfaethedig iddynt ar y flaenoriaeth hon, mae *Strategaeth Iechyd, Gwaith a Lles*¹³⁴ y DU, a gyhoeddwyd gan yr Adran Iechyd, DWP a'r Gweithgor Iechyd a Diogelwch, yn ceisio dod â phawb sydd â rôl i'w chwarae yng nghyswllt iechyd pobl mewn oed gwaith at ei gilydd. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar leddfu'r llif o bobl sy'n llithro allan o waith ac i ddiweithdra oherwydd problemau iechyd a bydd yn arwain ffocws y flaenoriaeth hon ar fynd i'r afael â chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar allu rhywun i weithio a hwyluso ymyriadau iechyd cysylltiedig â gwaith ar ran unigolion sy'n ymuno neu'n ailymuno â'r farchnad waith.

Cenedlaethol

4.17 Helpu mwy o bobl i gael swyddi yw un o'r pedair prif flaenoriaeth yn *Cymru: Gwlad Well*. Mae hyn yn cydnabod fod pobl a'u cymunedau angen cael yr arfau economaidd, sy'n cynnwys gwell mynediad at addysg, hyfforddiant, swyddi a chyfleoedd cyflogaeth gwell i'w galluogi i ddianc o'r trap o dlodi ac oes o amddiffiad.

4.18 Datblygir y dull o weithredu ymhellach yn yr agenda datblygiad economaidd strategol *Cymru: Economi yn Ffynnu*, sy'n canolbwyntio ar sicrhau twf economaidd cryf a chynaliadwy a chyfleoedd i bawb. Mae'r strategaeth hon yn cael ei chyflenwi a'i chefnogi gan *Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth 2005* sy'n datblygu agenda dysgu gydol oes Cymru ac yn dangos ymrwymiad Cymru i gyflawni amcanion *Strategaeth Cyflogaeth Ewrop*.

4.19 Datblygir amcanion polisi'r flaenoriaeth hon ymhellach yn *Y Wlad Sy'n Dysgu 2: Gweledigaeth ar Waith*¹³⁵, sy'n nodi agenda uchelgeisiol ar gyfer addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Hefyd o bwys yw polisiâu Llywodraeth Cynulliad cymru ar gyfer pobl ifanc, *Ymestyn Hawliau a Llwybrau Dysgu 14 -19*.

4.20 Nod agenda *Llwybrau Dysgu 14 -19* yw cynyddu'r gyfran o bobl ifanc sydd â chymwysterau Lefel 2 yn 16 oed, a chymwysterau Lefel 3 yn 19 oed, a gostwng y nifer o bobl ifanc sy'n gadael addysg llawn amser heb gymwysterau ar yr un pryd. Mae gostwng y lefel o bobl ifanc 16-18 oed a ddosbarthwyd fel NEET yn un o'r prif dargedau, fel mae cynyddu'r nifer o bobl ifanc 16 oed sy'n mynd ymlaen i addysg bellach, addysg llawn amser neu addysg seiliedig ar waith. Mewn cysylltiad agos â hyn mae polisi *Ymestyn Hawliau* ar gyfer pobl ifanc 11-25 oed sydd â'r nod o roi'r cyngor, cefnogaeth a'r hyder maent ei angen i bobl ifanc er mwyn iddynt wneud penderfyniadau cytbwys ac chwarae eu rhan yn y gymdeithas.

4.21 O gofio natur trawsbynciol yr ystod o rwystrau sy'n wynebu unigolion wrth iddynt geisio cael ac aros mewn gwaith cynaliadwy, a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhyw, bydd cysylltiadau cryf â nifer o strategaethau eraill allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru, sef *Cynllun Oes – Creu Gwasanaeth*

¹³⁴ DWP, HSE a'r Adran Iechyd, Strategaeth "Iechyd, Gwaith a Lles: Gofalu am ein dyfodol": http://www.dwp.gov.uk/publications/dwp/2005/health_and_wellbeing.pdf

¹³⁵ Y Wlad sy'n Dysgu 2: Gweledigaeth ar Waith, Llywodraeth Cynulliad Cymru, <http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/educationskillsnews/wales-action-on-learning?lang=en>

*lechyd o'r radd flaenaf i Gymru*¹³⁶, *Her lechyd Cymru*¹³⁷, *Lles yng Nghymru*, *Gwell lechyd – Gwell Cymru*, *Y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn*¹³⁸; a *Ar Gyfer Plant y mae Gofal Plant*¹³⁹. Bydd gweithredu hefyd yn cael ei osod mewn cyd-destun gofodol trwy ddefnyddio *Cynllun Gofodol Cymru*.

4.22 Nodir pwysigrwydd gwella ymwybyddiaeth ynghylch materion yn ymwneud â datblygiad cynaliadwy a sgiliau perthnasol yn nogfennau Llywodraeth Cynulliad Cymru - *Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Strategaeth Dinasyddiaeth Fyd-eang*¹⁴⁰. Ei nod yw integreiddio datblygiad cynaliadwy mewn rhaglenni addysg a dysgu ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion. Hefyd, mae canlyniadau a nodwyd yn *Strategaeth Amgylcheddol Cymru* yn ymwneud ag unigolion yn deall a chymryd y cyfrifoldeb am yr effaith maent yn ei gael ar yr amgylchedd a newidiadau mewn ymddygiad sy'n helpu i leddfu effeithiau negyddol. Bydd y nodau a'r canlyniadau hyn yn cael eu hybu trwy integreiddio amcanion cynaliadwyedd amgylcheddol y rhaglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol mewn rhaglenni hyfforddiant ac addysg.

4.23 Ochr yn ochr â strategaethau fydd yn llywio'r thema drawsbynciol o Gynaliadwyedd Amgylcheddol bydd gweithrediad y thema drawsbynciol parthed Cyfleodd Cyfartal yn cael ei llywio gan y gofyniad cyfreithiol yn adran 120 Deddf Llywodraeth Cymru 1998 i sefydlu cydraddoldeb cyfle, a strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru - Prif Ffrydio Cydraddoldeb.

Dangosyddion Lefel Blaenoriaeth

4.24 Efnyddir y dangosyddion canlynol, sy'n berthnasol i'r Flaenoriaeth, i dracio cynnydd y prosiectau a'r Rhaglen. Mae'r dangosyddion allbwn a chanlyniad yn ddangosyddion monitro a bydd gofyn i brosiectau adrodd yn ôl mewn perthynas â hwynt gydol oes y prosiect. Mae'r dangosyddion effaith yn ddangosyddion gwerthuso a dylid eu hystyried yn ystod y gwerthusiad o lefel y prosiect a'r rhaglen.

4.25 Yn ogystal ag adrodd yn ôl yn erbyn y dangosyddion hyn, disgwylir i brosiectau ddarparu gwybodaeth monitro pellach sy'n ategu'r dangosyddion er mwyn cwrdd â gofynion y Comisiwn fel y nodir yn Atodiad XXIII y Rheoliadau Gweithredu a galluogi WEFO i asesu effeithiolrwydd y Rhaglen. Yn unol ag erthygl 66(2) y rheoliadau cyffredinol, bydd yr wybodaeth monitro a gesglir yn hwyluso dadansoddi'r ystadegau yn ôl rhyw a maint ymrwymiad y derbynnydd, lle bo hynny'n briodol.

¹³⁶ Strategaeth lechyd Cynllun Oes

<http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/dhss/reportswelsh/designed-life-w.pdf?lang=en>

¹³⁷ Her lechyd Cymru Llywodraeth Cynulliad Cymru:

<http://new.wales.gov.uk/topics/health/improvement/hcw/?lang=cy>

¹³⁸ Strategaeth Pobl Hŷn Llywodraeth Cynulliad Cymru:

<http://new.wales.gov.uk/about/strategy/strategypublications/strategypubs/935800/?lang=cy>

¹³⁹ Ar gyfer Plant y mae Gofal Plant Llywodraeth Cynulliad Cymru:

http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/4038232/4038211/Guidance_and_Information/childcare-strategy-w.pdf?lang=cy

¹⁴⁰ "Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang yng Nghymru" Llywodraeth Cynulliad Cymru,

http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/policy_strategy_and_planning/458586/?lang=cy

4.26 Dan y cyfleuster hyblygrwydd a ganiateir gan Erthygl 34(2) Rheoliad 1083/2006 y Comisiwn Ewropeaidd, bydd y dangosydd ERDF “Eiddo wedi’i greu neu ei ailwampio” ar gael i fesur gweithgareddau ERDF sydd wedi cael eu hariannu trwy'r Flaenoriaeth hon.

4.27 Rhestrir targedau hefyd yn y tabl isod. Rhaid cyflawni pob targed erbyn 2015. Adroddir yn ôl yn flynyddol ar ddangosyddion effaith sydd angen eu hasesu trwy werthusiad o 2009 ymlaen. Nodir rhain yn Atodiad NG - Dangosyddion.

Tabl 28 – Dangosyddion a Thargedau Blaenoriaeth 1

Dangosydd		Targed (2015)
Allbwn		
Cyfanswm y cyfranogion (Economaidd segur a diwaith)		14,000
<i>Ymyriadau - prif grwpiau:</i>		
	<i>Economaidd segur</i>	85% o'r holl gyfranogion
	<i>Diwaith</i>	15% o'r holl gyfranogion
	<i>Cyfranogion NEET</i>	-
	<i>Cyfranogion BME</i>	12% o'r holl gyfranogion
	<i>Cyfranogion hŷn</i>	35% o'r holl gyfranogion
	<i>Cyfranogion benywaidd</i>	59% o'r holl gyfranogion
	<i>Cyfranogion gyda chyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio</i>	45% o'r holl gyfranogion
	<i>Rhieni Unigol</i>	8% o'r holl gyfranogion
Cyflogwyr a gafodd gymorth		300
Cyfranogion sy'n cael cefnogaeth gyda chyfrifoldebau gofal		-
Prosiectau sy'n defnyddio systemau mesur canlyniadau “meddal”		50% o'r holl brosiectau
Prosiectau sy'n integreiddio datblygiad cynaliadwy i mewn i raglenni codi ymwybyddiaeth, addysg a hyfforddiant		75% o'r holl brosiectau

Dangosydd		Targed (2015)
Canlyniadau		
Cyfranogion yn ennill cymwysterau – Economaidd segur a diwaith		4,200
Ymyriadau - prif grwpiau:		
	<i>Economaidd segur</i>	-
	<i>Diwaith</i>	-
	<i>Cyfranogion NEET</i>	-
	<i>Cyfranogion benywaidd</i>	-
	<i>Cyfranogion BME</i>	-
	<i>Cyfranogion hŷn</i>	-
	<i>Cyfranogion gyda chyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio</i>	-
	<i>Rhieni Unigol</i>	-
	O'r cyfan sy'n cael cymwysterau	
	<i>Lefelau cymhwyster i'w hennill:</i>	
	<i>Sgiliau sylfaenol</i>	55%
	<i>Lefel 2</i>	30%
	<i>Lefel 3</i>	10%
	<i>Lefel 4 ac uwch</i>	5%
[Cyfranogion sy'n dechrau mewn gwaith – Economaidd segur a diwaith		3,500
Ymyriadau - prif grwpiau:		
	<i>Economaidd segur</i>	-
	<i>Diwaith</i>	-
	<i>Cyfranogion NEET</i>	-
	<i>Cyfranogion benywaidd</i>	-
	<i>Cyfranogion BME</i>	-
	<i>Cyfranogion hŷn</i>	-
	<i>Cyfranogion gyda chyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio</i>	-
	<i>Rhieni Unigol</i>	-

Dangosydd	Targed (2015)
Cyfranogion yn mynd i addysg bellach – Economaidd segur a diwaith	4,620
<i>Ymyriadau – grwpiau allweddol:</i>	
<i>Economaidd segur</i>	-
<i>Diwaith</i>	-
<i>Cyfranogion NEET</i>	-
<i>Cyfranogion benywaidd</i>	-
<i>Cyfranogion BME</i>	-
<i>Cyfranogion hŷn</i>	-
<i>Cyfranogion gyda chyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio</i>	-
<i>Rhieni unigol</i>	-
Cyfranogion yn cael canlyniadau positif eraill ¹⁴¹ – Economaidd segur a diwaith	4,620
<i>Ymyriadau – prif grwpiau:</i>	
<i>Economaidd segur</i>	-
<i>Diwaith</i>	-
<i>Cyfranogion NEET</i>	-
<i>Cyfranogion benywaidd</i>	-
<i>Cyfranogion BME</i>	-
<i>Cyfranogion hŷn</i>	-
<i>Cyfranogion gyda chyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio</i>	-
<i>Rhieni unigol</i>	-
Cyflogwyr yn mabwysiadu neu yn gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro	50% o'r holl gyflogwyr
Effeithiau	
Cyfranogion mewn gwaith ers 12 mis	-
<i>Ymyriadau – prif grwpiau:</i>	
<i>Economaidd segur</i>	-
<i>Diwaith</i>	-
<i>Cyfranogion benywaidd</i>	-
<i>Cyfranogion NEET</i>	-
<i>Cyfranogion BME</i>	-
<i>Cyfranogion hŷn</i>	-
<i>Cyfranogion gyda chyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio</i>	-
<i>Rhieni unigol</i>	-
Cyfranogion yn ennill cymwysterau rhannol	-

¹⁴¹ Canlyniadau cadarnhaol yw canlyniadau cyfryngwr sy'n cynnwys cwblhau cyrsiau; dechrau gwaith gwirfoddol; a mynychu cyfweiliad am swydd.

4.28 Yn ychwanegol, disgwylir i brosiectau fesur nifer o ganlyniadau “meddal” mewn perthynas ag unigolion sydd ymhell ar ôl neu dan anfantais yng nghyswllt y farchnad waith. Bydd canlyniadau o'r fath yn cynrychioli cerrig milltir penodol ar lwybr at gyflogaeth sydd wedi'i ddiffinio'n glir.

Strategaeth Weithredol

4.29 Nod y Flaenoriaeth hon yw cynyddu cyflogaeth trwy ddod â mwy o bobl ddiwaith ac economaidd segur i waith. Gwneir hyn drwy ganolbwyntio cefnogaeth ar grwpiau a ddynodwyd fel grwpiau dan anfantais (h.y. unigolion economaidd segur gyda chyflwr iechyd a / neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio, NEETs, pobl hŷn, yn arbenni y rhai gyda sgiliau isel, rhieni unigol, pobl o gymunedau BME, a pheth lle ar gyfer ystod o grwpiau eraill sy'n wynebu anfantais yn y farchnad lafur. Cyflawnir hyn trwy

- helpu pobl gael y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer gwaith cynaliadwy; a
- mynd i'r afael â rhwystrau penodol a wynebwr gan unigolion ym mhob grŵp;

Gweithgareddau dangosol:

- camau gweithredol yn y farchnad waith, gan gynnwys cefnogaeth ymgynghorydd unigol gyda chwilio am waith, gwybodaeth ynghylch cyfleoedd dysgu/hyfforddi; cymhelliad ariannol;
- profiad gwaith a lleoliadau profi gwaith, gan gynnwys profiad a lleoliadau gwirfoddol;
- ffyrdd dyfeisgar o gysylltu â ynghyd ag integreiddio'r grwpiau mwyaf difreintiedig i mewn i gyflogaeth gynaliadwy
- hyfforddiant penodol i sector neu swydd cysylltiedig â'r farchnad waith leol lle mae galw heb ei ateb;
- darparu gwasanaeth estyn allan arbenigol a chefnogaeth i bobl dan anfantais, gan gynnwys pobl BME a phobl anabl;
- hwyluso mynediad at gefnogaeth fforddiadwy ac addas ar gyfer pobl gyda chyfrifoldebau gofal, a gofal plant yn arbennig;
- datblygu a chyflwyno strategaethau ar gyfer ennill ymrwymiad cyflogwyr gan gynnwys ymyriadau sy'n eu hannog i gynnig lleoliadau profiad gwaith;
- gweithgareddau sy'n cefnogi mwy o gydweithio rhwng y sectorau cyflogi ac iechyd, gan gynnwys gwaith gyda meddygon teulu a darparwyr gofal sylfaenol eraill;
- ffyrdd dyfeisgar o gefnogi cyflogwyr a gweithwyr newydd i ddelio â materion perthnasol i iechyd;
- cefnogi mynediad unigolion sydd wedi bod yn segur am gyfnod hir i gyflogaeth a chefnogi eu cyflogwyr trwy gyfrwng mentrau sefydlu a chadw, er mwyn rhwystro cyflogaeth “drws troi”,
- addasu hyfforddiant a rhaglenni sgiliau cysylltiedig â gwaith i gynnwys datblygu cynaliadwy, gan roi sylw i heriau amgylcheddol heddiw ac yfory, yn arbennig newid yn yr hinsawdd.

Partneriaid Cymdeithasol

4.30 Mae darpariaeth yn Erthygl 5 (3) Rheoliad 1081/2006 yr UE ar gyfer neilltuo swm priodol o arian yr ESF i gefnogi gweithgareddau mae partneriaid cymdeithasol yn ymgymryd â hwynt ar y cyd. Dan y Flaenoriaeth hon, bydd oddeutu 0.5% o'r arian a neilltuwyd ar gyfer y flaenoriaeth yn cael ei roi o'r neilltu er mwyn cefnogi gweithredu gyda phartneriaid cymdeithasol. Bydd y gweithgareddau fydd yn cael eu hariannu yn cynnwys rhai sy'n cefnogi ymrwymiad ar ran cyflogwyr a grwpiau gwirfoddol a chymunedol i sicrhau bod unigolion diwaith ac economaidd segur yn gallu symud ymlaen i waith cynaliadwy. Dyma enghreifftiau o weithgareddau o'r fath:

- mentrau sy'n helpu grwpiau dan anfantais i orsgyn rhwystrau i gyflogaeth, yn cynnwys rhaglenni mentora;
- mentrau i wella ymwybyddiaeth a rheolaeth anabledde yn cynnwys trefniadau partneriaeth sy'n rhoi sylw i rwystrau cyflogaeth perthnasol i iechyd;
- mentrau sy'n anelu ar hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn cyflogaeth.

Gwerth Ychwanegol

4.31 Bydd y Flaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar ychwanegu gwerth at raglenni cyflogaeth Llywodraeth y DU trwy ymestyn y ddarpariaeth sydd ar gael trwy'r mentrau Bergen Newydd a Llwybrau at Waith i'r rhai hynny sydd bellaf oddi wrth y farchnad waith a lleiaf abl i fanteisio ar y gweithgareddau a'r ymyriadau gwaith sy'n cael eu cynnig gan raglenni o'r fath.

4.32 Nod yr ymyriadau a'r gefnogaeth sydd ar gael trwy'r rhaglen hon fydd dod â'r unigolion hynny sydd wedi bod yn segur ers cyfnod hir yn nes at y farchnad waith a chynnig dulliau o oresgyn rhwystrau i gyflogaeth sydd wedi gwreiddio'n ddyfnach ynddynt. Gwneir hyn drwy gynyddu'r cymwysterau, ymyriadau a chanlyniadau sydd ar gael a chryfhau ymrwymiad buddiolwyr i'r rhaglenni prif ffrwd a'u cynaliadwyedd tra'n cymryd rhan yn y rhaglenni.

4.33 Bydd y rhaglen yn adeiladu ar y gwaith a wnaed gan raglenni Llywodraeth y DU yn hytrach na'i ddyblygu. Bydd yn ehangu gweithgareddau estyn allan i gymunedau lleol, e.e gweithio, trwy ystod o grwpiau cymunedol a giwrfoddol lleol, i ymgysylltu â grwpiau sydd dan fwy o anfantais; ymestyn maint, dyfnder a hyd ymyriadau ar gyfer cyfranogion e.e. ymyriadau mwy cynhwysfawr parthed ymdopi â cyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar allu pobl i weithio; datblygu dulliau arloesol newydd o ennill a gwella sgiliau cyflogadwyedd ac, fel rhan o lwybr mwy cynlluniedig at waith, cynnig cyfleoedd ehangach ar gyfer gwirfoddoli a chymryd rhan mewn arbrofion lleoliad gwaith a phrofiad gwaith. O gofio'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael, bydd y Rhaglen Weithredol hon yn parhau i ddysgu o brofiadau cyrff eraill, prosiectau, rhanbarthau eraill y DU ac aelod-wladwriaethau'r UE ac yn mynd ati i annog prosiectau i fabwysiadu dulliau arloesol wrth gyflwyno gweithgareddau dangosol arfaethedig y flaenoriaeth hon.

4.34 Bydd mwy o bwyslais hefyd ar fynd i'r afael â rhwystrau cysylltiedig â chyfleoedd cyfartal a phroblemau sy'n wynebu pobl sydd wedi bod yn ddiwaith / economaidd segur am gyfnod hir ar ôl iddynt gael gwaith. Bydd rhai o'r cyfranogion hyn yn dechrau gweithio am y tro cyntaf a bydd y fantais o safbwynt cost o'u cael i waith yn cael ei golli heb y gefnogaeth a'r gofal dilynol iawn ar ffurf cyngor, arweiniad a mentora, o safbwynt y gweithiwr a'r cyflogwr.

Buddiolwyr

4.35 Gall y rhain gynnwys Adarannau Llywodraeth Cynulliad Cymru, Awdurdodau Lleol, gwasanaethau cyflogi cyhoeddus, sefydliadau yn y sector gwirfoddol a chymunedol, sefydliadau hyfforddi, Sefydliadau Addysg Uwch ac Addysg Bellach, sefydliadau yn y sector preifat, mentrau cymdeithasol a phartneriaid cymdeithasol, a sefydliadau yn y sector gofal iechyd sylfaenol.

Cyfleuster Hyblygrwydd

4.36 Mae darpariaeth yn Erthygl 34 (2) Rheoliad 1083/2006 yr UE sy'n caniatáu i'r ESF ariannu ymyriadau sy'n syrthio o fewn cwrdd yr ERDF (a fel arall) cyn belled ag y bo ymyriadau o'r fath yn angenrheidiol ar gyfer gweithrediad llwyddiannus rhyw ymgyrch a bod ganddynt gysylltiad uniongyrchol â'r ymgyrch honno. Er mwyn hybu gweithrediad cydlynedig camau dan y Flaenoriaeth hon, caniateir defnyddio hyd at 10% o gyfraniad yr UE at y Flaenoriaeth i ariannu buddsoddiadau cyfatebol o'r fath. Cyfiawnheir defnyddio'r hyblygrwydd hwn ar lefel prosiectau a bydd yr adnoddau a ddefnyddiwyd felly yn cael eu nodi ar wahân mewn ceisiadau prosiect a bydd unrhyw wariant yn cael ei ddatgan.

4.37 Dyma enghreifftiau o achosion lle y gallai croesariannu dan y Flaenoriaeth hon sicrhau gweithrediad cydlynedig:

- Costau cyfalaf ar raddfa fach ar gyfer uwchraddio neu ddarparu cyfleusterau sy'n uniongyrchol gysylltiedig ag ymyriadau'r ESF sy'n helpu pobl i waith; a
- Costau cyfalaf ar raddfa fach ar gyfer ymyriadau peilot neu bwysig sy'n uniongyrchol gysylltiedig â chynlluniau i helpu pobl i waith.

Grantiau Cyffredinol

4.38 Nid ydym yn rhagweld defnyddio Grantiau Cyffredinol fel y'i diffinnir yn Erthygl 42 Rheoliad 1083/2006 11 Gorffennaf 2006 y Comisiwn Ewropeaidd.

BLAENORIAETH 2: GWELLA LEFEL SGILIAU A HYBLYGRWYDD Y GWEITHLU

Amcan

4.39 I gefnogi cynhyrchiant, hyblygrwydd a chynnydd mewn cyflogaeth trwy fynd i'r afael â sgiliau isel, gwella sgiliau rheolwyr a gweithwyr mewn mentrau bach, a gwella systemau ar gyfer rhagweld ac ymateb i anghenion o safbwynt sgiliau.

Grwpiau Targed

4.40 Bydd y flaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar wella sgiliau sylfaenol gweithwyr. Y prif grŵp targed fydd gweithwyr gyda sgiliau is na Lefel 2, yn enwedig y rhai hynny heb sgiliau rhifedd, llythrennedd a TGC sylfaenol. Rhoddir sylw arbennig i ymyriadau sy'n helpu merched sy'n gweithio rhan amser, gweithwyr hŷn, pobl anabl a phobl o gymunedau BME. Bydd y flaenoriaeth hon hefyd yn cefnogi hyfforddiant rheoli ac arwain hyd lefel ganolradd ac uwch ar gyfer rheolwyr a gweithwyr mewn busnesau bach (hyd at 50 o weithwyr). Yn olaf, bydd yn cefnogi ymyriadau sy'n gwella systemau ar gyfer canfod ac ymdrin ag anghenion sgiliau'r gweithlu yn y dyfodol.

Rhesymeg

4.41 Mae gwell sgiliau yn cryfhau hyblygrwydd y gweithlu a chystadleurwydd economi ac yn helpu i ostwng anghydraddoldebau cymdeithasol. Mae buddsoddi mewn addysg yn fwy perthnasol nag erioed yng nghyswllt economi modern seiliedig ar wybodaeth sy'n newid. Mae newid strwythurol, technolegau newydd a thwf mewn cynhyrchiant yn galw am fuddsoddi parhaus mewn sgiliau. Ar lefel yr unigolyn, mae cael cymwysterau a sgiliau yn un o'r prif ffactorau o safbwynt sicrhau mynediad i gyflogaeth cynaliadwy ac enillion uwch.

4.42 Y farn gyffredin yw bod sefyllfa gweithwyr sgiliau isel yn y farchnad waith wedi gwaethgu ar draws y byd datblygedig yn y degawd neu ddau diwethaf, a gwelir effeithiau hyn yn y cyflog is a/neu'r cyfraddau cyflogaeth is. Er, at ei gilydd, bod lefel sgiliau a chymwysterau Dwyrain Cymru rywfaint yn uwch na gweddill Cymru, mae nifer sylweddol o weithwyr sgiliau isel ar hyd a lled y rhanbarth o hyd. Bydd gweithredu dan y rhaglen yn ceisio adeiladu ar waith sydd ar y gweill eisoes diolch i Strategaeth Sgiliau Sylfaenol Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Geiriau'n Galw, Rhifau'n Cyfri*, i godi lefel sgiliau sylfaenol y gweithlu a gwella'r systemau ar gyfer darparu sgiliau sylfaenol.

4.43 Bydd llwyddiant yn dibynnu i raddau helaeth ar ddatblygu sgiliau'r gweithlu presennol a bydd 80% ohono mewn gwaith o hyd ymhen 10 mlynedd. Mae sgiliau'n hanfodol i lwyddiant busnesau, ond mewn rhai sectorau, neu o safbwynt rhai busnesau, mae prinder ymgeiswyr cymwys. Dengys ymchwil mai'r sectorau sy'n cael y trafferth mwyaf o safbwynt cyflenwad sgiliau yw'r sectorau cynhyrchu, adeiladu, cyfanwerthu/adwerthu a gwestai/arlwy. Y sgiliau prinaf yw datrys problemau, trin cwsmeriaid a sgiliau technegol ac ymarferol eraill megis TGC. Os nad yw cyflogwyr yn rhoi sylw i'w prinder sgiliau, maent yn cyfyngu ar eu twf a'u gallu i addasu. Mae pwysleisio'r effaith bositif y gall hyfforddi rhai grwpiau arbennig

o weithwyr, yn enwedig gweithwyr sgiliau isel, ei gael ar gynhyrchiant yn dod â manteision i'r unigolyn a'r cwmnïau.

4.44 Er gwaethaf y cynnydd a fu yn y blynyddoedd diwethaf, mae anghyfartaledd arwyddocaol o hyd o safbwynt rhyw yng nghyflogaeth Dwyrain Cymru, gyda llai o ferched nac o ddynion yn cael eu cyflogi. Yn nhermau perfformiad economaidd, mae hyn yn golygu yn y lle cyntaf nad yw cyfraniad economaidd merched yn cael ei ddefnyddio'n llawn.

4.45 Mae newid bellach yn un o nodweddion cyson bywyd economaidd. Bydd globaleiddio, technoleg newydd a heneiddio demograffig yn cael effaith gynyddol ar farchnadoedd gwaith ar hyd a lled Ewrop ac mae gweithwyr a busnesau angen help i addasu i'r newidiadau yma. Yn ogystal, mae cyflogaeth a chynhyrchiant uwch, cystadleurwydd, cyflogau ac amodau gwaith gwell yn dibynnu'n uniongyrchol ar allu busnesau a gweithwyr i fod yn arloesol ac addasu i newid. Nid dim ond newid mewn diwydiannau traddodiadol yw ailstrwythuro; mae'n cyffwrdd â phob sector. Yng nghyswllt dyfeisiau technolegol cynyddol a globaleiddio, mae'n rhaid i fusnesau a gweithwyr addasu i ffyrdd newydd o weithio a gallu ymateb i newid yn y galw am nwyddau a gwasanaethau. Bydd newidiadau demograffig yn galw am newid mewn cynllunio gweithluoedd, gyda gweithlu sy'n heneiddio a llai o recriwtiaid ifanc newydd.

4.46 Mae cyflogaeth a chynhyrchiant uwch, cystadleurwydd, cyflogau ac amodau gwaith gwell, yn dibynnu'n uniongyrchol ar allu busnesau a gweithwyr i fod yn arloesol ac addasu i newid, yn arbennig mentrau bach. Er mwyn addasu i amodau sectoraidd neu economaidd sy'n newid, mae busnesau angen rheolwyr medrus sy'n gallu gweld yr angen am newid ac sy'n gallu arwain busnes trwy broses o'r fath.

4.47 Mae Cymru fel gwlad eisoes ar y blaen o safbwynt adnabod anghenion sgiliau trwy ymchwil Sgiliau Dyfodol Cymru ond mae angen gwneud mwy i gryfhau'r gallu i adnabod a deall natur heriau yn y dyfodol, a chyfateb a gwella'r ddarpariaeth addysgol i gwrdd ag anghenion yr economi. Bydd y rhaglen yn ceisio adeiladu ar waith Sgiliau Dyfodol Cymru a'r Cynghorau Sgiliau Sector er mwyn dangos yn gliriach beth fydd y galw yn y dyfodol a llywio cyflwyniad y ddarpariaeth o hyfforddiant a dysgu yn y dyfodol.

4.48 Rhaid i'r gwaith o gryfhau systemau i ddeall pa sgiliau sydd eu hangen ar gyfer cynhyrchiant a thwf economaidd yn y dyfodol barhau. Mae newid bellach yn un o nodweddion parhaus bywyd economaidd ac mae unigolion, cyflogwyr, darparwyr dysg a rhanddeiliaid eraill angen cefnogaeth i ymdopi â chyflymder y newid. Mae sgiliau'n hanfodol i lwyddiant busnesau. Os nad yw cyflogwyr yn rhoi sylw i'w prinder sgiliau, maent yn cyfyngu ar eu twf economaidd a'u gallu i addasu. Mae rhoi pwyslais ar yr effaith bositif y gall hyfforddi rhai grwpiau penodol o weithwyr, yn arbennig gweithwyr sgiliau isel, ei gael ar gynhyrchiant yn dod â manteision i'r unigolyn a busnesau.

4.49 Maes arall sydd angen i'r rhanbarth ei ddatblygu ymhellach yn y cyfnod rhaglennu newydd yw sgiliau amgylcheddol. Bydd gwell ymwybyddiaeth cyffredinol ynghylch yr amgylchedd a sgiliau amgylcheddol gwell yn gynyddol

bwysig yn wyneb mwy a mwy o newid yn yr hinsawdd a'r cyfle i fanteisio ar y cyfleoedd sy'n cael eu cynnig gan yr amgylchedd naturiol. Mae modd gwneud hyn trwy integreiddio egwyddorion datblygiad cynaliadwy mewn rhaglenni addysg a hyfforddiant. Bydd sgiliau sy'n gwella effeithlonrwydd adnoddau yn helpu i ostwng costau allyriannau carbon a thrwy hynny wella cystadleurwydd cyffredinol y rhanbarth.

Cyd-destun Polisi

Ewropeaidd

4.50 Bydd y flaenoriaeth hon yn ymateb i'r argymhelliad ar gyflogaeth a wnaed i'r DU yn 2004 dan Strategaeth Cyflogaeth Ewrop trwy gefnogi gweithredu sy'n

- Gweithredu strategaethau sgiliau cenedlaethol a rhanbarthol sy'n cynnig cymelliadau gwell ar gyfer addysg gydol oes a thrwy hynny gwella cynhyrchiant ac ansawdd mewn gwaith; rhoi pwyslais arbennig ar wella llythrennedd a rhifedd y gweithlu, cyfranogiad a chyrhaeddiad pobl ifanc 16-19 oed a gweithwyr sgiliau isel, yn arbennig rhai mewn swyddi cyflog isel; a
- hwyluso mynediad i, a fforddiadwyedd, gofal plant a gofal ar gyfer dibynyddion eraill, gwella mynediad i hyfforddiant ar gyfer merched sy'n gweithio rhan amser mewn swyddi cyflog isel a chymryd camau brys i fynd i'r afael â phethau sy'n achosi'r bwlch rhwng cyflogau dynion a chyflogau merched¹⁴².

4.51 Mae'r flaenoriaeth hon hefyd yn adlewyrchu'r strategaethau a'r egwyddorion canlynol sy'n effeithio ar ddyluniad a chyflwyniad polisiâu yng Nghymru:

- mae gwella lefel sgiliau yn canolog i agenda Lisboa, Strategaeth Cyflogaeth Ewrop (Canllawiau 23 a 24 yn arbennig), y Canllawiau Integredig ar gyfer Swyddi a Thwf, Addysg a Hyfforddiant 2010¹⁴³;
- Rhaglen Dysgu Gydol Oes 2007–2013, sydd â'r nod o gefnogi cael a datblygu gwybodaeth, cymwysterau a sgiliau i hybu addasrwydd i waith a chyfranogiad yn y farchnad waith Ewropeaidd¹⁴⁴;
- Yn unol â Chanllawiau 18, 19 a 21 Strategaeth Cyflogaeth Ewrop¹⁴⁵, bydd gweithredu dan y thema hon yn annog cadw mwy o bobl mewn gwaith, gan gynnwys trwy wella hyblygrwydd gweithwyr a busnesau;

¹⁴² Argymhelliad y Cyngor dyddiedig 14 Hydref 2004 ar weithredu polisiâu cyflogaeth Aelod-wladwriaethau: http://europa.eu/eur-lex/pri/en/oj/dat/2004/l_326/l_32620041029en00470063.pdf

¹⁴³ Mae Adroddiad Cydweithredu diweddaraf y Cyngor a'r UE dyddiedig 2006 ar y cynnydd a wnaed o dan raglen Addysg a Hyfforddiant 2010, yn pwysleisio bod unigolion yn caffael ac yn diweddarau eu sgiliau trwy gydol eu bywyd gwaith, yn ganolog i sicrhau bod Ewrop yn datblygu'n gymdeithas fwy cystadleuol a deinamig.

¹⁴⁴ Bydd camau gweithredu sy'n darparu hyfforddiant i wella lefelau sgil oedolion yng Nghymru yn helpu'r UE i gyflawni ei nod o sicrhau bod 12% o oedolion yn cyfranogi mewn dysgu gydol oes bob blwyddyn. Yn ôl Dogfen ddiweddaraf Comisiwn yr UE ar Staff yn Gweithio - cynnydd tuag at amcanion Lisboa mewn addysg a hyfforddiant, 16/05/2006, er mwyn cyrraedd y targed mae angen i bedair miliwn arall o oedolion ledled yr UE gyfranogi mewn dysgu gydol oes.

¹⁴⁵ PENDERFYNIAD Y CYNGOR dyddiedig 12 Gorffennaf 2005 ar Ganllawiau ar gyfer polisiâu cyflogaeth Aelod-wladwriaethau (2005/600/EC):

- Mae'r thema o hyblygrwydd hefyd yn ganolog i'r thema o *flexicurity*, un o flaenoriaethau allweddol polisïau Ewrop ar hyn o bryd fel y nodwyd yn Adroddiad Blynnyddol ar Gynnydd 2006 'Moving Up a Gear'¹⁴⁶.
- Cytundeb Rhywedd Ewrop, a fabwysiadwyd gan Benaethiaid Gwladwriaethau a Llywodraethau yng Nghyngor y Gwanwyn 2006¹⁴⁷; a
- European Commission Roadmap for Equality between Women and Men 2006–2010¹⁴⁸, sy'n adeiladu ar brofiad y Strategaeth Fframwaith dros Gydraddoldeb rhwng Dynion a Merched ar gyfer y cyfnod 2001-2005. Mae'n cyfuno lansiio camau gweithredu newydd a chadarnhau gweithgareddau llwyddiannus sy'n bodoli eisoes. Mae'n ategu'r ymdriniaeth ddeuol o gydraddoldeb rhywedd seiliedig ar brif ffyrddio rhywedd (hybu cydraddoldeb rhywedd trwy brif ffyrddio a chamau gweithredu penodol).
- Y pwyslais cryf ar hybu datblygiad cynaliadwy yn agendâu Lisboa a Göteborg, a'r angen i wella ymwybyddiaeth a sgiliau er mwyn ymateb i heriau amgylcheddol yn awr ac yn y dyfodol.

Y DU

4.52 Rhaid i'r addysg sydd ar gael gydweddu'n well ag anghenion cyflogwyr a'r cyfleoedd yn y farchnad waith, gyda phwyslais ar sgiliau a chymwysterau sy'n werthfawr yn economaidd. Cyhoeddwyd adolygiad pwysig o lefel sgiliau'r DU a'r anghenion ar gyfer y dyfodol ym mis Rhagfyr 2006. Cyhoeddodd Arglwydd Sandy Leitch ei adroddiad terfynol ar sgiliau'r DU, "*Prosperity for all in the global economy – World class skills*", sy'n cynnwys nifer o argymhellion ar sut y gellir gyrru'r maen i'r wal o safbwynt y weledigaeth o ddatblygu'r DU fel gwlad sy'n arwain y byd o safbwynt sgiliau erbyn 2020. Mae llywodraeth ganolog y DU wedi croesawu'r adolygiad ac mae'n derbyn y cynnig o gael Comisiwn Cyflogaeth a Sgiliau newydd. Cyhoeddir ymateb ffurfiol Llywodraeth y DU yn Haf 2007, ar ôl yr Adolygiad o Wariant Cynhwysfawr.

4.53 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi croesawu'r adroddiad a cyfeirir at nifer o fentrau yn yr adroddiad e.e. yr Addewid Sgiliau Cyflogwyr i godi lefel llythrennedd a rhifedd gweithwyr, a gwasanaeth cyngor ar yrfa ar gyfer pob oedran sy'n cysylltu cyngor â chyfleoedd go iawn am waith. Mae llawer o'r gweithredu a argymhellwyd gan Arglwydd Leitch yn cael ei roi ar waith trwy'r *Cynllun Gwithredu Sgiliau a Chyflogaeth 2005*. Bydd y rhwydwaith DU-eang o Gyngorau Sgiliau Sector yn chwarae rhan werthfawr yma yng Nghymru trwy weithredu'r agenda hon a defnyddio'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol sy'n darparu cymwysterau seiliedig ar allu wedi'i seilio ar safonau galwedigaethol a luniwyd gan gyflogwyr.

http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/site/en/oj/2005/l_205/l_20520050806en00210027.pdf

¹⁴⁶ 'Time to Move Up A Gear' Adroddiad Cynnydd Blynnyddol y Comisiwn Ewropeaidd ar Dwf a Swyddi 2006, 25 Ionawr 2006: http://ec.europa.eu/growthandjobs/annual-report_en.htm

¹⁴⁷ Casgliadau'r Cyngor Gwanwyn 2006 (Paragraff 40 ac Atodiad II):

http://ue.eu.int/ueDocs/cms_Data/docs/pressData/en/ec/89013.pdf

¹⁴⁸ Map ffyrdd ar gyfer cydraddoldeb rhwng dynion a merched COM (2006) 92: http://ec.europa.eu/employment_social/publications/2006/ke7205596_en.pdf

Cenedlaethol

4.54 Prif nodau *Cymru: Gwlad Well* yw hybu economi amrywiol, gystadleuol, gwerth ychwanegol uchel gyda sgiliau ac addysg o safon uchel, gweithredu i hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol trwy roi modd o helpu eu hunain a chystadlu o safbwynt costau llafur rhatach i bobl a'u cymunedau; mae sgiliau ac arloesi yn hanfodol os yw Cymru am ddianc yn llwyr o'r trap tlodi.

4.55 Mae gweledigaeth *Cymru: Economi yn Ffynnu* o economi egniïol yng Nghymru yn canolbwyntio ar sicrhau twf economaidd cryf a chynaliadwy trwy helpu mwy o bobl i waith a chodi enillion y rhai sydd mewn gwaith.

4.56 Datlbygir amcanion polisi'r flaenoriaeth hon ymhellach yn *Y Wlad Sy'n Dysgu 2: Gweledigaeth Ar Waith* sy'n nodi agenda uchelgeisiol ar gyfer addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae *Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth Cymru 2005* yn nodi agenda fanwl ar gyfer cynyddu'r lefel o waith medrus yng Nghymru, gydag adran ar weithio gyda chyflogwyr a gweithwyr i wella sgiliau. Ochr yn ochr â'r cynllun hwn, mae *Geiriau'n Galw, Rhifau'n Cyfri* sydd â'r nod o wella llythrennedd a rhifedd sylfaenol yng Nghymru.

4.57 Nod Strategaeth Datblygu Rheoli Cymru yw ysbrydoli, symbylu a gyrru newid yn ei flaen o safbwynt cyflwyno, derbyn ac ariannu datblygiad rheoli ac arwain yng Nghymru. Bydd y strategaeth yn ceisio argyhoeddi rheolwyr o'r manteision o ddatblygu eu sgiliau a'u galluedd; canfod, trwy ymchwil, gwir anghenion rheolwry yng Nghymru o safbwynt datblygiad; gofalu bod rheolwyr yn gallu cael hyfforddiant a datblygiad hyblyg o ansawdd uchel; rhannu arfer gorau y DU a'r byd ym maes rheoli gyda holl fusnesau Cymru; a mesur cynnydd yn erbyn meincnodau credadwy¹⁴⁹.

4.58 Mae hybu economi cynaliadwy, arloesol gwerth uchel yng Nghymru hefyd yn rhan annatod o weithrediad Cynllun Gofodol Cymru. Mae'n darparu fframwaith ar gyfer ymdrin ag ystod eang o faterion yn ymwneud â datblygiad, gan gynnwys sgiliau, yn amryw ranbarthau Cymru a bydd yn gweithredu fel canllaw ar gyfer gwaith Llywodraeth Cynulliad Cymru gyda partneriaid.

Dangosyddion Lefel Blaenoriaeth

4.59 Bydd y dangosyddion canlynol, sy'n berthnasol i'r Flaenoriaeth, yn cael eu defnyddio i dracio cynnydd y prosiectau a'r Rhaglen. Mae'r dangosyddion allbwn a chanlyniad yn ddangosyddion monitro y disgwylir i brosiectau adrodd yn ôl yn eu herbyn yn ystod oes y prosiect. Mae'r dangosyddion effaith yn ddangosyddion gwerthuso a dylid eu hystyried adeg gwerthuso lefel y prosiect a'r Rhaglen.

4.60 Yn ogystal ag adrodd yn ôl yn erbyn y dangosyddion hyn, disgwylir i brosiectau ddarparu mwy o wybodaeth monitro sy'n ategu'r dangosyddion er mwyn cwrdd â gofynion y Comisiwn fel y'i nodir yn Atodiad XXII y Rheoliadau Gweithredu ac i alluogi WEFO i asesu effeithiolrwydd y Rhaglen. Yn unol ag Erthygl 66(2) y Rheoliadau Cyffredinol, bydd yr wybodaeth monitro a gesglir yn caniatáu

¹⁴⁹ Cyngor Rheolwyr Cymru.- <http://www.crc-wmc.org.uk/>

dadansoddi'r ystedegau yn ôl rhywedd a maint ymrwymiad y derbynnydd, lle bo hynny'n briodol.

4.61 Dan y cyfleuster hyblygrwydd a ganiateir gan Erthygl 34(2) Rheoliad 1083/2006 yr UE, bydd y dangosydd ERDF "Eiddo wedi'i greu neu wedi'i ailwampio" ar gael i ddangos y gweithgareddau ERDF a ariannwyd trwy'r Flaenoriaeth hon.

4.62 Dangosir targedau yn y tabl isod hefyd. Mae pob targed i'w gyflawni erbyn 2015. O 2009 ymlaen, adroddir yn ôl bob blwyddyn ar ddangosyddion effaith sydd angen eu hasesu trwy werthusiad. Nodir y rhain yn Atodiad NG – Dangosyddion.

Tabl 29 – Dangosyddion a Thargedau Blaenoriaeth 2

Dangosydd	Targed (2015)
Allbwn	
Cyfanswm y cyfranogion (Cyflogedig)	12,600
Cyfranogion sy'n ferched	55% o'r holl gyfranogion
<i>Ymyriadau – grwpiau allweddol:</i>	
<i>Cyfranogion hŷn</i>	30% o'r holl gyfranogion
<i>Cyfranogion BME</i>	-
<i>Cyfranogion gyda chyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio</i>	15% o'r holl gyfranogion
<i>Cyfranogion yn manteisio ar gymwysterau sgiliau sylfaenol</i>	55% o'r holl gyfranogion
<i>Cyfranogion yn manteisio ar hyfforddiant Lefel 2</i>	25% o'r holl gyfranogion
<i>Cyfranogion yn manteisio ar hyfforddiant Lefel 3</i>	10% o'r holl gyfranogion
<i>Cyfranogion yn manteisio ar hyfforddiant Lefel 4 ac uwch</i>	10% o'r holl gyfranogion
<i>Cyfranogion sy'n ferched sy'n gweithio rhan amser</i>	25% o'r holl gyfranogion
Cyflogwyr a gafodd gymorth	2,100
Astudiaethau ymchwil	-
Strategaethau dysgu a datblygiad	-
Prosiectau sy'n cynnig hyfforddiant arbenigol mewn datblygiad cynaliadwy	10% o'r holl brosiectau

Dangosydd	Targed (2015)
Canlyniadau	
Cyfranogion yn ennill cymwysterau - Cyflogedig	5,450
<i>Lefelau cymhwyster a enillwyd:</i>	O'r cyfanswm yn cael cymwysterau
<i>Sgiliau sylfaenol</i>	63% ¹⁵⁰
<i>Merched</i>	-
<i>Cyfranogion hŷn</i>	-
<i>Cyfranogion BME</i>	-
<i>Cyfranogion gyda chyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio</i>	-
<i>Cyfranogion sy'n ferched yn gweithio rhan amser</i>	-
<i>Ar Lefel 2</i>	24% ¹⁵¹
<i>Merched</i>	-
<i>Cyfranogion hŷn</i>	-
<i>Cyfranogion BME</i>	-
<i>Cyfranogion gyda chyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio</i>	-
<i>Cyfranogion sy'n ferched yn gweithio rhan amser</i>	-
<i>Ar Lefel 3</i>	7% ¹⁵²
<i>Merched</i>	-
<i>Cyfranogion hŷn</i>	-
<i>Cyfranogion BME</i>	-
<i>Cyfranogion gyda chyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio</i>	-
<i>Cyfranogion sy'n ferched yn gweithio rhan amser</i>	-
<i>Lefel 4 ac uwch</i>	6% ¹⁵³
<i>Merched</i>	-
<i>Cyfranogion hŷn</i>	-
<i>Cyfranogion BME</i>	-
<i>Cyfranogion gyda chyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio</i>	-
<i>Cyfranogion sy'n ferched yn gweithio rhan amser</i>	-

¹⁵⁰ Mae hyn yn cyfateb a lefel cyrraeddad o 50 y cant ar gyfer y rheini sy'n ceisio am gymhwyster sgiliau sylfaenol

¹⁵¹ Mae hyn yn cyfateb a lefel cyrraeddad o 41 y cant ar gyfer y rheini sy'n ceisio am hyfforddiant lefel 2

¹⁵² Mae hyn yn cyfateb a lefel cyrraeddad o 30 y cant ar gyfer y rheini sy'n ceisio am hyfforddiant lefel 3

¹⁵³ Mae hyn yn cyfateb a lefel cyrraeddad o 25 y cant ar gyfer y rheini sy'n ceisio am hyfforddiant lefel 4 ac uwch

Dangosydd	Targed (2015)
Cyflogwyr sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro	50% o'r holl gyflogwyr

Effeithiau	
Gwaith - Lefel sgiliau	-
Gwaith - Lefel cyflog	-
Cyfranogion sy'n ennill cymwysterau rhannol	-

Strategaeth Weithredol

4.63 Nod y flaenoriaeth hon yw gwella sgiliau sylfaenol yn y gweithlu, gwella sgiliau arwain a rheoli rheolwyr a gweithwyr mewn busnesau bach, a systemau ategol ar gyfer rhagweld ac ymateb i'r anghenion o safbwynt sgiliau:

- Gwella'r ddarpariaeth o sgiliau sylfaenol mewn rhifedd a llythrennedd, datrys problemau a thrin cwsmeriaid trwy ymyriadau targedig gan weithio gyda gweithwyr a chyflogwyr;
- Cefnogi rheolwyr a gweithwyr mewn busnesau bach i ennill sgiliau arwain a rheoli (ar bob lefel);
- Gwella ymchwil i anghenion sgiliau a systemau sy'n matsio dysg ag anghenion cyflogwyr.

Gweithgareddau dangosol

- ymyriadau i hwyluso mynediad gweithwyr at ddarpariaeth sgiliau sylfaenol ac ymarferol (rhifedd a llythrennedd);
- darparu cymwysterau a sgiliau galwedigaethol hyd at Lefel 2 ar gyfer gweithwyr sgiliau isel a gweithwyr heb unrhyw gymwysterau, yn arbennig gweithwyr o'r cymunedau BME e.e. sgiliau TGC, a sgiliau gwaith generig fel gweithio mewn tîm, datrys problemau a sgiliau trin cwsmeriaid;
- dulliau a methodoleg cyflwyno dysgu dyfeisgar ar gyfer adnabod a rhoi sylw i anghenion sgiliau;
- ymyriadau gyda'r nod penodol o fynd i'r afael â rhwystrau i gyfleoedd cyfartal i gwrdd ag anghenion grwpiau sy'n wynebu anfanteision penodol (gan gynnwys pobl BME, pobl anabl, gweithwyr hŷn a merched sy'n gweithio'n rhan amser);
- hyfforddi, mentora a chefnogi dynion a merched mewn galwedigaethau neu sectorau lle mae tangynrychiolaeth o'u rhywedd, er mwyn taclo arwahaniad rhyweddol;
- gwaith ar y cyd i alluogi gweithwyr mudol i ddilysu'r cymwysterau a gafwyd yn eu gwledydd eu hunain er mwyn cynyddu eu mynediad at gyflogaeth lefel uwch a gwneud gwell defnydd o'u sgiliau;
- dulliau newydd o gefnogi gweithwyr hŷn i gymryd rhan mewn dysgu
- cynnig addysg a hyfforddiant i reolwyr a gweithwyr mewn busnesau bach (hyd at 50 o weithwyr) ym maes arwain a rheoli (ar unrhyw lefel, gan gynnwys lefel 4 ac uwch) er mwyn trosglwyddo'r sgiliau sy'n

angenrheidiol ar gyfer datblygiad cynaliadwy busnesau, twf busnesau, arloesi a chynhyrchiant;

- gwella'r sylfaen ymchwil a thystiolaeth ar gyfer anghenion sgiliau yn awr ac yn y dyfodol gan weithio gyda chyflogwyr a Chynghorau Sgiliau Sector i ddatblygu strategaethau i gwrdd â heriau o'r fath; a
- gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i weithwyr, cyflogwyr a darparwyr addysg ar y cyfleoedd dysgu sydd ar gael, a'r galw lle yr amlygwyd bwlch.

Partneriaid Cymdeithasol

4.64 Mae Rheoliad UE [1081/2006] Erthygl 5 (3) yn darparu bod swm priodol o'r ESF yn cael ei ddyrannu i gefnogi gweithgareddau a noddir ar y cyd gan y partneriaid cymdeithasol. Dan y flaenoriaeth hon, neilltuir oddeutu 0.5% o'r dyraniad blaenoriaeth i gefnogi gweithgaredd gyda phartneriaid cymdeithasol. Bydd gweithgareddau a noddir yn cynnwys y rhai hynny sy'n cefnogi cyflogwyr i ddynodi a mynd i'r afael â galw'r dyfodol ar eu gweithlu. Enghraifft o rai o'r gweithgareddau yw:

- mentrau sy'n anelu at hyrwyddo cyflogwyr a gweithwyr i gymryd rhan mewn dysgu, yn cynnwys mentrau sy'n hyrwyddo, adnabod a gwobrwyo arferion da;
- mentrau sy'n anelu at gadw gweithwyr hŷn mewn cyflogaeth; a
- gweithgareddau sy'n anelu ar wella ymwybyddiaeth a rheolaeth amgylcheddol.

Gwerth Ychwanegol

4.65 Bydd adnoddau'r ESF yn ychwanegu gwerth at y strategaethau a'r cyllidebau domestig er mwyn codi lefelau sgiliau yn rhanbarth Dwyrain Cymru fel y gellir ymateb i anghenion newidiol economi a yrrir gan wybodaeth. Fe'i defnyddir i wella darpariaeth - a galluogi gwell cyfranogiad mewn - hyfforddiant sgiliau sylfaenol ac i sicrhau darpariaeth sgiliau canolraddol ac uwch mwy targedig ar gyfer rheolwyr a gweithwyr mewn busnesau llai. Bydd nawdd yr ESF yn caniatáu gwelliannau cyflymach mewn systemau i ddynodi a mynd i'r afael ag anghenion sgiliau'r dyfodol yn yr isranbarth. Bydd hefyd yn cefnogi ymyriadau ychwanegol a mwy targedig i fynd i'r afael â rhwystrau i gyfleoedd cyfartal er mwyn cwrdd ag anghenion y grwpiau hynny sy'n wynebu anfanteision penodol yn y gweithlu (yn cynnwys unigolion o gymunedau Du a Lleiafrifol Ethnig, pobl gydag anableddau, gweithwyr hŷn a merched sy'n gweithio rhan amser). O gofio'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael, bydd y Rhaglen Weithredol hon yn parhau i ddysgu o brofiadau cyrff eraill, prosiectau, rhanbarthau eraill y DU ac aelod-wladwriaethau'r UE ac yn mynd ati i annog prosiectau i fabwysiadu dulliau arloesol wrth gyflwyno gweithgareddau dangosol arfaethedig y flaenoriaeth hon.

Buddiolwyr

4.66 Mae'n bosibl y bydd y rhain yn cynnwys gwasanaethau cyflogi cyhoeddus, adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru, sefydliadau hyfforddi, sefydliadau Addysg

Uwch ac Addysg Bellach, Cyngorau Sgiliau Sector, sefydliadau Llywodraeth Leol a chyrrff anllywodraethol, sefydliadau gwirfoddol a chymunedol.

Cyfleuster Hyblygrwydd

4.67 Mae Rheoliad UE [1083/2006], Erthygl 34 (2), yn darparu ar gyfer i'r ESF ariannu ymyriadau sy'n dod dan gwmpas yr ERDF (ac fel arall), os yw ymyriadau o'r fath yn angenrheidiol i weithredu'n llwyddiannus ac os oes cysylltiad uniongyrchol â'r gweithrediad dan sylw. Er mwyn hyrwyddo gweithrediad cydlynol o'r camau dan y Flaenoriaeth hon, gellir defnyddio uchafswm o 10% o gyfraniad yr UE i'r Flaenoriaeth i ariannu buddsoddiad cyflenwol o'r fath. Bydd cyfiawnhad dros fanteisio ar yr hyblygrwydd hwn yn cael ei ddarparu ar lefel gweithrediad/prosiect a bydd yr adnoddau a ddefnyddir yn y dull hwn yn cael eu dynodi ar wahân pan roddir y prosiectau ar waith ac wrth ddatgan gwariant.

4.68 Mae enghreifftiau o ble gallai traws-ariannu dan y Flaenoriaeth hon hyrwyddo gweithrediad cydlynol yn cynnwys:

- costau cyfalaf ar raddfa fechan cysylltiedig ag offer i wella'r modd y cyflwynir darpariaeth dysgu a gefnogir gan yr ESF a chydraddoldeb o ran mynediad at gyfleoedd dysgu;
- uwchraddio cyfleusterau sydd eisoes yn bodoli ac sy'n angenrheidiol i gefnogi gweithrediad llwyddiannus gweithgaredd a noddur drwy'r ESF; a
- costau cyfalaf bychan i greu ac integreiddio technolegau dysgu yn nyluniad a darpariaeth rhaglenni.

Grantiau Cyffredinol

4.69 Nid ydym yn rhagweld y defnydd o Grantiau Cyffredinol fel y'u diffinnir yn Erthygl 42 o Reoliad (CE) 1083/2006 11 Gorffennaf 2006.

BLAENORIAETH 3: CYMORTH TECHNEGOL

Amcan

4.70 Sicrhau rheolaeth effeithiol ac effeithlon y Rhaglen.

Rhesymeg

4.71 Mae Cymorth Technegol (CT) yn adnodd hanfodol o safbwynt cefnogi darpariaeth effeithiol y Rhaglen. Bydd angen systemau gweinyddol cadarn sy'n adeiladu ar y rhai hynny y gwnaed defnydd ohonynt ar gyfer Rhaglenni blaenorol er mwyn sicrhau fod y Rhaglenni newydd yn rhedeg yn esmwyth ac yn effeithiol. Defnyddir CT ochr yn ochr ag adnoddau Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i bartneriaid a bydd yn canolbwyntio ar gefnogi elfennau allweddol y broses weithredu.

4.72 Gwneir defnydd o Gymorth Technegol i gefnogi datblygiad gallu ar lefel Ardal Cynllun Gofodol er mwyn cynnwys a chydweithio ag amrediad o bartneriaid lleol a rhanddeiliaid i ddatblygu a chefnogi gweithrediad Fframweithiau Strategol perthnasol.

4.73 Mae Rheoliad UE 1083/2006, Erthygl 46, yn caniatáu defnyddio cymorth technegol i ariannu gweithgareddau paratoadol, rheolaethol, monitro, gwerthuso, gwybodaeth a rheoli'r rhaglenni gweithredol yn ogystal â gweithgaredd sy'n angenrheidiol i atgyfnerthu'r gallu gweinyddol i roi'r cronfeydd ar waith.

4.74 Gan adeiladu ar brofiadau 2000 - 2006 mae'r Awdurdod Rheoli'n bwriadu defnyddio CT i wella gweithrediad y rhaglen (cryfhau rheolaeth a chydymffurfriad) ac i wella'i heffeithiolrwydd o ran creu swyddi ac ysgogi twf (datblygu ein gallu i ddarparu er mwyn cynyddu effaith). Er mwyn symud ymlaen yn hyn o beth, mae'r Awdurdod Rheoli yn bwriadu defnyddio CT i ategu amrediad o weithgareddau cymwys yr ymgwymerir â hwy gan sefydliadau partner a'r Awdurdod Rheoli ei hun fel yr amlinellir yn Erthygl 46.

Rheoli

4.75 Bydd y gweithgareddau dangosol isod yn helpu i wella gweithrediad strategol ac yn cryfhau cefnogaeth ar gyfer y rhaglen a'i datblygiad:

Gweithgareddau Dangosol

- annog a hwyluso prosiectau a dulliau cydweithredol a gwella gallu, yn cynnwys cefnogi datblygiad a gweithrediad Fframweithiau Strategol
- atgyfnerthu mecanweithiau cydlynw a chysylltu gyda phartneriaid a hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth;
- cyngor a chefnogaeth ar gyfer prosiectau sy'n cynnwys gweithgaredd yn ymwneud ag arloesiad, cydweithrediad traws-genedlaethol, rhannu arfer da a phrif ffrydio;
- gwella arbenigedd allanol a chyngor technegol
- datblygu ac ychwanegu at systemau TG pwrpasol;

- cyngori a chefnogi prosiectau parthed integreiddiad themâu trawsbynciol; a
- hyfforddiant ar gyfer rheolwyr prosiectau a chefnogaeth i rwydweithiau

Monitro

4.76 Bydd un Pwyllgor Monitro Rhaglenni (PMRh) yn cael ei sefydlu i oruchwylio effeithiolrwydd ac ansawdd y rhaglenni. Ychwanegir gwerth at waith y Pwyllgor drwy welliannau mewn monitro a rheoli'r wybodaeth fydd yn llifo yn sgil y buddsoddiad mewn TG y cyfeiriwyd ato uchod. Gwneir defnydd o gymorth technegol i ategu dyletswyddau'r BMRh a'i is-bwyllgorau, fel y'i diffinnir yn Rheoliadau UE 1083/2006, Erthyglau 65 a 66, ac, yn y rhan fwyaf o achosion, rhennir y costau rhwng y ddwy raglen Cydgyfeiriant a'r ddwy Raglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol ar sail gymesur (h.y. ar sail *pro-rata*).

4.77 Bydd arbenigwyr a benodir i'r PMRh ar sail haeddiant yn cael tâl cydnabyddiaeth yn unol ag arferion safonol Llywodraeth Cynullid Cymru, gyda thaliadau o ffynonellau ariannu domestig yn hytrach nag o'r Cronfeydd Cymorth Technegol neu Strwythurol.

Gweithgareddau Dangosol

- gwariant ar fonitro a chyfarfodydd is-bwyllgorau, yn cynnwys treuliau; ac
- atgyfnerthu agweddau ar swyddogaeth Rheoli Rhaglen WEFO yn sylweddol. Bydd hyn yn cynnwys nifer o swyddogaethau technegol ac arbenigol yn ogystal â chynnig gwell rheolaeth rhaglenni'n fewnol, gwell cefnogaeth reoli i'r PMRh a gwell riportio i'r Comisiwn Ewropeaidd.

Ymchwil a Gwerthuso

4.78 Yn ystod cyfnod rhaglennu 2000-2006 chwaraeodd ymchwil a gwerthuso ran ganolog mewn helpu WEFO i reoli rhaglenni'n effeithiol. Sefydlodd WEFO dîm Ymchwilio, Monitro a Gwerthuso (YMG) arbenigol i ddylunio, gweithredu neu reoli gwerthusiadau ar lefel rhaglen.

4.79 Defnyddir Cymorth Technegol i gwrdd ag anghenion gwerthuso fel y'i pennir yn Rheoliad UE [1083/2006], Erthyglau 47 a 48.

Gweithgareddau Dangosol

- gwerthuso ac ymchwilio ar lefel rhaglen, yn cynnwys ymchwilio i Themâu Trawsbynciol;
- ymchwil a gwerthuso cysylltiedig â Fframweithiau Strategol;
- darpariaeth cyngor ac arweiniad gwerthuso i sefydliadau noddi;
- rhannu canlyniadau ymchwil a gwerthuso a threfnu gweithdai, a

- rheoli ymarferion ymchwilio a gwerthuso, er enghraifft drwy'r Grŵp Gwerthuso Ymgynghorol;

4.80 Mae rhagor o wybodaeth ynghylch y gweithgareddau cynlluniedig hyn ar gael ym Mhennod 6 – Gweithredu Darpariaethau

Gwybodaeth a Chyhoeddusrwydd

4.81 Mae llwyddiant y rhaglen yn dibynnu i raddau helaeth ar ddealltwriaeth eang o'i chynnwys, ei rheoliadau llywodraethol a'i nodau a'i hamcanion ymysg noddwyr a phartneriaid. Rhaid cymryd camau i sicrhau fod noddwyr a gweinyddwyr posibl y rhaglen yn gwybod sut y mae'r rhaglen yn gweithio ac am y cyfloed ariannu sydd ar gael. Mae hefyd yn hanfodol fod buddiannau a chyraeddiadau'r rhaglen yn cael eu cyhoeddi'n eang i dynnu sylw at y gwerth ychwanegol a geir drwy i'r UE weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i bartneriaid

Gweithgareddau Dangosol

- lledaenu gwybodaeth, cyhoeddusrwydd a chyfathrebiadau yn cynnwys canllawiau ar gyfer partneriaid a noddwyr; seminarau/gweithdai;
- datblygu a chynnal gwefan WEFO ;
- mentrau amrywiaeth a hygyrchedd; a
- gweithredu Llinell Gymorth.

Gweithgareddau Rheoli ac Atgyfnerthu Gallu Gweinyddol

4.82 Mae'r Awdurdod Rheoli (ARh) wedi datblygu a gwella ei systemau rheoli drwy gydol cyfnod rhaglenni 2000-06. Dymuna adeiladu ar hyn a bod yn batrwm o ran cronfeydd strwythurol ar draws ei swyddogaethau.

Gweithgareddau Dangosol

- gwell cytundebau archwilio i sicrhau fod y trefniadau hyn, yn cynnwys y rhai a ddisgrifir dan Erthygl 17 o'r Rheoliadau Gweithredu¹⁵⁴ yn gweithio'n effeithiol gan wella ansawdd a chyfraddau amser;
- gwella monitro a riportio anghysonderau; a
- sefydlu uned arweiniad yn yr ARh i ddatblygu a darparu cyngor parhaus a chyson ar gyfer noddwyr a phartneriaid.

¹⁵⁴ Rheoliad Comisiwn (CE) rhif. 1828/2006 8 Rhagfyr 2006 yn pennu rheolau ar gyfer gweithrediad Cronfeydd Strwythurol.

Buddiolwyr

4.83 Bydd y rhain yn cynnwys y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.

PENNOD 5: THEMÂU TRAWSBYNCIOL

5.1 Yn unol ag Erthyglau 16 ac 17 o Reoliad (CE) Rhif 1083/2006 ac Erthygl 6, Rheoliad (CE) Rhif 1081/2006, bydd themâu trawsbynciol cyfloedd cyfartal a chynaliadwyedd amgylcheddol yn cael eu hadeiladu i mewn i raglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol y ESF. Y nod yw adeiladu ar y cynnydd sylweddol a wnaed o ran integreiddio'r themâu trawsbynciol hyn i ddarpariaeth rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 200-2006.

5.2 Mae'r bennod hon yn amlinellu'r rhesymeg a'r cyd-destun polisi presennol ac yn diffinio'r strategaeth weithredol ar gyfer y ddwy thema. Sonnir am y modd y caiff y themâu eu gweithredu, eu monitro a'u gwerthuso ym Mhennod 6, ac mae'r gwersi a ddysgwyd o raglen 2000-2006 wedi'u hamlinellu yn Atodiad H.

CYFLEOEDD CYFARTAL A CHYDRADDOLDEB RHYW I FERCHED A DYNION

Rhesymeg

5.3 Mae'r egwyddor o gyfleoedd cyfartal i bob dinesydd a sicrhau nad oes yr un grŵp yn cael ei gau allan o gymdeithas yn ganolog i bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU, a hynny'n arbennig mewn perthynas â'r farchnad lafur. Mae integreiddiad cyfleoedd cyfartal i'r Cronfeydd Strwythurol yn bwysig nid yn unig am resymau cyfreithiol, ond hefyd oherwydd bod goresgyn anghydraddoldeb rhwng dynion a merched yn cyfrannu tuag at effeithiolrwydd hollgynhwysfawr rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol. Gwneir ymrwymiad i drin cyfleoedd cyfartal fel un o'r ddwy thema drawsbynciol mewn rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yn y DU yn y Fframwaith Cyfeirio Strategol Cenedlaethol (NSRF) 2006.

5.4 Y nod yw hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i bawb yng nghyd-destun y cyfleoedd a gynigir dan y rhaglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol ac atal unrhyw anffafiaeth ar sail rhyw, anabled, tarddid ethnig, crefydd neu gred, oedran, cyfeiriadedd rhywiol a chofio hefyd am natur ddwyieithog llawer o gymunedau'r rhanbarth.

5.5 Bydd hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i bawb yn cyfrannu tuag at amcanion y rhaglen drwy:

- leihau anghyfiawnder a thrwy hynny hyrwyddo cydlynid cymdeithasol gydag ystod eang o fanteision yn cynnwys gwell amgylchedd ar gyfer datblygiad economaidd;
- ceisio sicrhau fod pawb sy'n byw yn Nwyrain Cymru yn cael cyfle i ddefnyddio eu sgiliau a'u galluoedd hyd yr eithaf; a
- codi lefelau GDP y pen a mynd i'r afael â'r anghydbwysedd yng nghyflogau merched a dynion
- Mae'r rhain yn heriau allweddol, ac mae'r dadansoddiadau a gynhwysir ym Mhennod 2 ac Atodiad B yn cefnogi'r dystiolaeth glir a gafwyd yn sgil

mesuriad o anweithgarwch economaidd fod merched, pobl anabl, pobl hŷn a Phobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig dan anfantais.

Cyd-destun Polisi

5.6 Mae ymrwymiad y Gymuned Ewropeaidd i gyfleoedd cyfartal a thriniaeth deg i ddynion a merched yn hir sefydlog a'r nod yw dileu anffafriaeth o bob math drwy sawl offeryn: cyd ddatganiadau, penderfyniadau, cyfarwyddbau a rhaglenni gweithredu. Mae integreiddio cyfleoedd cyfartal i'r Cronfeydd Strwythurol yn cynorthwyo i oresgyn anghydraddoldeb rhwng dynion a merched yn y farchnad lafur.

5.7 Mae'r *Canllawiau Integredig ar gyfer Twf a Swyddi* yn pwysleisio pwysigrwydd cyfleoedd cyfartal a threchu anffafriaeth. Mae cyfathrebiad y Comisiwn Ewropeaidd '*Working Together for Growth and Jobs*'¹⁵⁵ yn nodi y bydd yn anodd cyrraedd amcanion strategol uchelgeisiol Lisboa os caiff grwpiau mawr o boblogaeth y UE eu gwahardd rhag cael swyddi, hyfforddiant a chyfleoedd eraill.

5.8 Yn unol â'r egwyddorion cydraddoldeb yng Nghytundeb Amsterdam, mae ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb cyfle fel y'i pennir yn Adran 120 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998:

'Bydd y Cynulliad yn gwneud y trefniadau priodol gyda'r nod o sicrhau fod ei swyddogaethau yn cael eu harfer gyda'r sylw dyladwy i'r egwyddor y dylai fod cydraddoldeb cyfle i bob unigolyn'.

5.9 Mae'r ymrwymiad i gydraddoldeb cyfle hefyd wedi cael ei atgyfnerthu yn nifer o ddogfennau strategol allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn cynnwys *Cymru: Economi sy'n Ffynnu*. Un o'i bedair blaenoriaeth allweddol yw cynyddu cyflogaeth, cefnogi cread swyddi a helpu unigolion i daclo'r rhwystrau o ran cyfranogiad yn y farchnad lafur a byd gwaith.

5.10 Mae *Cynllun Gofodol Cymru* yn hyrwyddo ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i deilwra'i bolisïau i amrywiol anghenion gwahanol rannau o Gymru ac i wneud cydraddoldeb yn rhan annatod o ddarpariaeth dyfodol cynaliadwy.

5.11 Mae Cynllun Datblygiad Cynaliadwy 2004-2005, cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth 2005, Gwneud Cysylltiadau Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghyd â strategaethau megis Ymestyn Hawliau a Llwybrau Dysgu 14-19, oll yn tynnu sylw at bwysigrwydd cydraddoldeb wrth ddarparu polisïau.

5.12 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i brif ffrydio'r iaith Gymraeg. Mae'r ail Adroddiad Blyneddol ar Iaith Pawb (Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyeithog) a'r Cynllun Iaith Gymraeg¹⁵⁶ yn amlygu'r cynnydd da a wnaed yn ystod 2004-2005, ond yn cydnabod fod angen

¹⁵⁵ COM (2005)24 Working Together for Growth and Jobs

¹⁵⁶ Y Cynllun Iaith Gymraeg:

http://new.wales.gov.uk/topics/welsh_language/WLS-CIG/1249162/?lang=cy

gwneud mwy i sicrhau fod prif ffrydio'r Gymraeg yn digwydd ym mhob prosiect a menter newydd

Y Fframwaith Deddfwriaethol Presennol a Fframwaith y Dyfodol

5.13 Mae amrediad o ddeddfwriaethau sy'n cynnal yr agenda cydraddoldeb¹⁵⁷. Mae hefyd sawl darn newydd o ddeddfwriaeth yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Bydd y Mesur Cydraddoldeb a deddfwriaeth gysylltiedig yn helpu i osod pob agwedd ar gydraddoldeb ar dir gwastad a'i gwneud yn haws i brif ffrydio cydraddoldeb yn ei gyfanrwydd i fusnes y Llywodraeth. Mae'r Mesur yn amlinellu cynlluniau i sefydlu corff newydd yn dwyn yr enw 'Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol' (CCHD). Bydd gan y corff amrediad eang o bwerau i daclo anffafiaeth a rhagfarn, ac i hyrwyddo cydraddoldeb.

5.14 Bydd y CCHD yn dwyn at ei gilydd, mewn un corff, waith y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol (CCH), Comisiwn Hawliau'r Anabl (CHA) a'r Comisiwn Cyfleoedd Cyfartal (CCC). Y bwriad yw sefydlu'r CCHD yn Hydref 2007. Bydd y CCHD hefyd yn gyfrifol am y meysydd cydraddoldeb newydd, sef oedran, crefydd a chred a chyfeiriadedd hiliol a bydd yn gweithio i hyrwyddo Hawliau Dynol.

5.15 Mae'r Mesur Cydraddoldeb hefyd yn cynnwys pwerau newydd i wahardd anffafiaeth ar sail crefydd a chred mewn perthynas â nwyddau a gwasanaethau ac yn creu dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i hyrwyddo cydraddoldeb cyfle rhwng dynion a merched a gwahardd anffafrio ar sail rhyw wrth arfer swyddogaethau cyhoeddus. Bydd y mesur hefyd yn hyrwyddo cyflwyniad rheolau i wahardd anffafiaeth mewn perthynas â nwyddau a gwasanaethau i lesbiaid, hoywon a phobl drawsrywiol.

5.16 Mae'r Adolygiad Cydraddoldeb a'r Adolygiad o Gyfreithiau Anffafiaeth ar y gweill ar hyn o bryd gyda'r bwriad o gyflwyno un Mesur Cydraddoldeb cyn gynted â phosibl.

Amcanion

5.17 Amlinellir isod y pedwar amcan Cyfleoedd Cyfartal trawsbynciol ar gyfer y rhaglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol. Datblygwyd y rhain gyda thystiolaeth o'r Dadansoddiad ym Mhennod 2 ac Atodiad B. Gwelir crynodeb o'r

¹⁵⁷ Deddfau Cydraddoldeb – Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976/Cysylltiadau Hiliol (Deddf Ddiwygio) 2000 <http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2000/20000034.htm>
Deddf yr Iaith Gymraeg 1993: http://www.opsi.gov.uk/acts/acts1993/UKpga_19930038_en_1.htm#con
Deddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw (Ailgyfeirio Rhyw) 1999: <http://www.opsi.gov.uk/si/si1999/19991102.htm>
Deddf Cydnabod Rhyw 2004: <http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2004/20040007.htm>
Deddf Partneriaeth Sifil 2005: http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2004/ukpga_20040033_en_1
Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Cyfeiriadedd Rhywiol) 2003: http://www.opsi.gov.uk/si/si2003/ukxi_20031661_en.pdf
Deddf Cyflog Cyfartal 1970: http://www.opsi.gov.uk/acts/acts1970/PDF/ukpga_19700041_en.pdf
Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1985: <http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2005/20050013.htm>
Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Crefydd a Chred) 2003: http://www.opsi.gov.uk/si/si2003/ukxi_20032828_en.pdf
Y Ddeddf Hawliau Dynol: <http://www.opsi.gov.uk/acts/acts1998/19980042.htm>

gwersi a ddysgwyd o weithrediad y themau trawsbynciol yn Rhaglenni 2000-2006 yn Atodiad H. Gwnaed dadansoddiad hefyd o effaith posibl gweithgareddau a gefnogir ar amcanion cyfleoedd cyfartal y Rhaglen. Mae'r Dadansoddiad a'r Matrics i'w gweld yn Atodiad B.

5.18 Bydd y pedwar amcan cyfle cyfartal isod yn arwain gweithrediad pob un o'r Blaenoriaethau ym Mhennod 4 o fewn cyd-destun y gweithgareddau fydd yn cael eu noddi.

Amcan 1: *Cynyddu'r nifer o unigolion dan sawl anfantais sy'n cael mynediad at swyddi a hunangyflogaeth.*

5.19 Mae creu'r cyfleoedd a'r gefnogaeth iawn ar gyfer unigolion yn hanfodol os ydynt am chwarae rhan weithredol yn y farchnad lafur. Mae angen cymryd camau gweithredu positif - cymysgedd o fesurau mewn sawl achos - drwy ddull aml asiantaeth i sicrhau fod grwpiau penodol yn gallu manteisio ar gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant. Lle bynnag y bo hynny'n bosibl, dylai'r rhai hynny a dargedwyd ar gyfer camau gweithredu positif gael y cyfle i ddylanwadu ar ddyluniad y gweithgareddau arfaethedig. Dylid hefyd sicrhau fod mynediad i'r farchnad lafur, hyfforddiant galwedigaethol ac addysg ar gael i ail-integreiddio dioddefwyr yn sgil Cynllun Gweithredu'r UE ar Fasnachu Pobl¹⁵⁸.

Amcan 2: *Cynyddu'r nifer o ferched, Pobl BME a phobl anabl sy'n cael hyfforddiant a chyflogaeth mewn sectorau cyflogau a sgiliau uwch neu hunan gyflogaeth.*

5.20 Ni ellir gwireddu datblygiadau economaidd cynaliadwy heb sicrhau fod grwpiau a oedd cyn hyn yn cael eu gwahardd yn cael mynediad at hyfforddiant lefel uwch ac yn y pen draw, swyddi lefel uwch. Gellir gwneud hyn yn rhannol drwy sicrhau cydraddoldeb mynediad at fesurau cefnogi busnes, mynediad at nawdd ariannol a chynghor, strategaethau cymodi cartrefi ar ran cyflogwyr, hyfforddiant cydraddoldeb i ddarparwyr ac amgylcheddau corfforol cefnogol sy'n cynnig rhwyddineb mynediad, diogelwch a gofal plant. Os yw aelodau o grwpiau eithriedig am fanteisio'n llawn ar y cynnydd mewn mynediad a gynigir drwy'r rhaglen, bydd yn bwysig i sefydliadau busnes a hyfforddiant ystyried eu hanghenion a chaniatáu iddynt wneud y cyfraniad llawnaf posibl i economi'r rhanbarth.

Amcan 3: *Herio gwahaniad galwedigaethol drwy gynyddu'r nifer o ddynion a merched sy'n hyfforddi neu'n ail-hyfforddi mewn meysydd lle nad ydynt yn draddodiadol wedi cael eu cyflogi, gan ganolbwyntio ar y meysydd hynny lle mae prinder sgiliau.*

5.21 Mae merched yn dal i wynebu gwahaniad llorweddol a fertigol. Bydd ffocws yn cael ei roi ar ymladd ystrydebau rhyw o'r blynyddoedd cynharaf, gan gynnig hyfforddiant ymwybyddiaeth i athrawon a myfyrwyr ac annog merched a dynion ifanc i ystyried llwybrau addysg nad ydynt yn rhai traddodiadol iddynt eu dilyn. Mae hi'r un mor bwysig hyrwyddo mynediad merched i sectorau lle na chawsant eu cyflogi'n draddodiadol ag y mae hi i hyrwyddo presenoldeb dynion mewn sectorau

¹⁵⁸ Cynllun Gweithredu'r UE ar Fasnachu Pobl:
http://www.eu2006.fi/news_and_documents/other_documents/vko47/en_GB/1164354364442/

sy'n draddodiadol yn cyflogi merched. Dylid talu sylw arbennig i hwyluso mynediad merched i feysydd gwyddoniaeth, peirianeg, adeiladwaith, ICT a Rheolaeth.

Amcan 4: Cynyddu niferoedd cyflogwyr a sefydliadau hyfforddi er mwyn datblygu strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth, yn cynnwys systemau monitro a dulliau o fwydo gwelliannau i mewn.

5.22 Mae tystiolaeth a gafwyd ar draws Ewrop yn dangos fod y grwpiau hynny o bobl sydd fwyaf tebygol o ddioddef anffafiaeth yn debygol hefyd o ddioddef y mwyaf o anawsterau wrth geisio mynediad i'r farchnad lafur¹⁵⁹. Bydd datblygiad strwythurau ac arferion cydraddoldeb da yn cynyddu gallu i harneisio a datblygu sgiliau a thalentau'r rhai hynny all ychwanegu at gyfoeth economaidd y rhanbarth. Er enghraifft, dylai cyflogwyr, darparwyr hyfforddiant ac addysg, a chynghorwyr busnes ddatblygu eu strategaethau amrywiaeth a hyfforddiant eu hunain sy'n cydnabod yr angen i ddatblygu dulliau gwaith a darparu hyfforddiant hyblyg, cynnig cefnogaeth gyda dyletswyddau gofal plant â phobl hyn, ac amgylcheddau hygyrch. Bydd hefyd yn bwysig hyrwyddo'r gydnabyddiaeth fod cymodiad gwaith-cartref yr un mor berthnasol i ddynion ag y mae i ferched. Mae monitro strategaethau cyfleoedd cyfartal ac amrywiaeth yn hanfodol, felly hefyd mecanweithiau ffurfiol ar gyfer cynnwys gwelliannau. Bydd trechu rhagfarn ac anffafiaeth yn hyrwyddo cyfranogiad cymdeithasol ehangach, yn arbennig gyflogadwyedd.

Strategaeth Weithredol

5.23 Mae'r Awdurdod Rheoli wedi ymrwymo i sicrhau fod cydraddoldeb rhyw a chyfloed cyfartal yn cael eu hyrwyddo ym mharatoad a gweithrediad ac wrth fonitro a gwerthuso'r Rhaglen Weithredol. Felly hefyd bydd yr Awdurdod Rheoli yn ymdrechu i sicrhau cyfranogiad cytbwys gan ddynion a merched yn rheolaeth a gweithrediad y rhaglen weithredol ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Bydd prif ffrydio rhyw a chydraddoldeb h.y. sicrhau integreiddiad y persbectif rhyw ar bob cam, yn cael ei hyrwyddo ochr yn ochr â chamau penodol ar gyfer merched a grwpiau eraill. Bydd hygyrchedd i bobl anabl yn cael ei ystyried wrth ddiffinio'r gweithredoedd fydd yn cael eu cefnogi gan y Cronfeydd ac ar amrywiol gamau eu gweithrediad.

5.24 Bydd disgwyl i bob prosiect a gefnogir dan y rhaglen gyfrannu tuag yr amcanion cyfleoedd cyfartal perthnasol ac addasu'r dangosyddion cydraddoldeb cyfle perthnasol a bennir yn y tablau dangosydd ym Mhennod 4 mewn perthynas â phob Blaenoriaeth. Bydd gweithgareddau penodol i gefnogi gweithrediad y thema Cyfleoedd Cyfartal yn cynnwys:

- cyngor arbenigol, yn cynnwys asesiadau cyfleoedd cyfartal, ar gael ar y camau cynharaf i sicrhau integreiddiad amcanion cyfleoedd cyfartal i gynlluniau prosiect;
- cyngor arbenigol i brosiectau ar faterion prif ffrydio cyfleoedd cyfartal ar gael yn gynnar ac wrth i wahanol gamau'r broses symud yn eu blaenau;

¹⁵⁹ Comisiwn y Cymunedau Ewropeaidd 1999/564

- arweiniad ar lefelau gweithgaredd ynghyd ag enghreifftiau astudiaethau achos arfer gorau fydd yn cynnig gwybodaeth benodol ar sut y gall noddwyr fynd i'r afael â chyfleoedd cyfartal yn eu cynlluniau prosiect;
- targedau cyfleoedd cyfartal yn cael eu hintegreiddio i flaenoriaethau gan weithredu fel lifer i annog prosiectau i gyfrannu. Gweler Pennod 4 i weld y targedau blaenoriaeth penodol;
- monitro cynnydd yn rheolaidd, gan ganiatáu ymyriad cynnar os bydd angen (gweler Pennod 6);
- adroddiadau yn rhoi diweddariadau i' PRhP a rhanddeiliaid eraill;
- ymglymiad parhaus y Grŵp Themâu Trawsbynciol allanol; and
- WEFO yn annog sefydliadau cydraddoldeb allweddol i chwarae rhan mewn cefnogi rhwydwaith effeithiol o gefnogaeth arbenigol.

CYNALIADWYEDD AMGYLCHEDDOL

Rhesymeg

5.25 Mae cynnwys cynaliadwyedd amgylcheddol yn thema drawsbynciol fydd yn helpu i sicrhau na fydd datblygiad economaidd yn effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd. Bydd hefyd yn hyrwyddo potensial yr amgylchedd fel gyrrwr economaidd. Dynodir hyn yn y Canllawiau Integredig ar gyfer Twf a Swyddi, yn arbennig mewn perthynas â'r defnydd cynaliadwy o adnoddau.

5.26 Mae ansawdd bywyd pobl Cymru yn ogystal ag economi iach yn dibynnu ar amgylchedd iach. Bydd amgylchedd deniadol o ansawdd uchel yn chwarae rhan allweddol mewn cadw pobl yng Nghymru a denu eraill yma i fyw a gweithio. Mae amgylchedd iach hefyd yn cynnal diwydiant twristiaeth Cymru a'i drosiant o £2.3 biliwn, ynghyd â'r 117,000 swydd cyfartaledd amser llawn yng Nghymru sy'n gysylltiedig â'r defnydd, rheolaeth a gwerthfawrogiad o'r amgylchedd naturiol¹⁶⁰. Mae effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol y gyflogaeth hon a swyddi cysylltiedig eraill yn cynhyrchu nwyddau a gwasanaethau gwerth £8.8 biliwn i Gymru bob blwyddyn a 9% o GDP Cymru¹⁶¹. Mae'r amgylchedd yn rhan annatod o iechyd economaidd Cymru.

5.27 Y materion amgylcheddol allweddol sy'n effeithio ar y rhanbarth yw:

- newid mewn hinsawdd sy'n cael ei achosi i raddau helaeth o ganlyniad i losgi tanwydd ffosilaidd yn codi lefelau'r môr ac yn peri cynnydd mewn achosion cysylltiedig â thywydd eithafol;
- seilwaith cludiant cymharol wael a'r ddibyniaeth gyfatebol ar gerbydau preifat;
- dibyniaeth uchel ar danwydd ffosilaidd fel ffynhonnell ynni a lefel isel o ynni adnewyddadwy ;
- lefelau isel o aildddefnyddio ac ailgylchu gwastraff a seilwaith rheoli gwastraff annigonol;
- diffygion dichonol mewn rhai parthau cyflenwi dŵr;

¹⁶⁰ RSPB, Valuing our Environment – The Economic Impact of Wales 2001:

<http://www.rspb.org.uk/ourwork/policy/economicdevelopment/greeneconomy/regionalreports/wales.asp>

¹⁶¹ Ibid.

- llygredd o amaeth, gwaddodiad asid a ffynonellau eraill yn cael ei ledaenu;
- bygythiad i bysgodfeydd o ganlyniad i lygredd ac arferion pysgota anghynaliadwy;
- tirlun o ansawdd uchel er bod diwydiannau hanesyddol yn difwyno rhai ardaloedd;
- ardaloedd helaeth wedi eu dynodi ar gyfer cadwraeth natur, er bod bioamrywiaeth a chynefinoedd dan fygythiad o ganlyniad i amrywiaeth o achosion; ac
- amgylchedd hanesyddol cyfoethog.

Cyd-destun Polisi

5.28 Mae *Cynllun Datblygiad Cynaliadwy* Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn amlinellu cynigion y Cynulliad ar gyfer hyrwyddo datblygiad cynaliadwy ar draws ei holl swyddogaethau.

5.29 Mae *Strategaeth Amgylcheddol Cymru* yn elfen allweddol o ddyletswydd datblygiad cynaliadwy'r Cynulliad. Mae'n pennu sut y cyflawnir yr heriau penodol sy'n gysylltiedig â'r 'gangen' amgylcheddol sy'n ymwneud â datblygiad cynaliadwy (y canghennau eraill yw datblygiad cymdeithasol ac economaidd cynaliadwy) yn cael eu cyflawni.

5.30 Mae rhan allweddol o *Gymru: Economi Egniol* yn ymwneud â sicrhau fod rhaglenni a pholisïau'n cefnogi datblygiad cynaliadwy. Pwysleisir y defnydd effeithiol o adnoddau, ynghyd ag annog yr arloesi a'r datblygiad technolegol sy'n hanfodol o ran siapia dyfodol cynaliadwy.

5.31 Dynodir pwysigrwydd gwella ymwybyddiaeth a sgiliau cysylltiedig â datblygiad cynaliadwy yn *Addysg Datblygiad Cynaliadwy* Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac yn y *Strategaeth Dinasyddiaeth Byd-eang*. Mae'n anelu at integreiddio datblygiad cynaliadwy i addysg plant, pob ifanc ac oedolion. Mae Cynaliadwyedd Amgylcheddol yn un o dri philer datblygiad cynaliadwy. Mae'n briodol bod thema drawsbynciol cynaliadwyedd amgylcheddol yn cael ei hyrwyddo o fewn y cysyniad ehangach o ddatblygiad cynaliadwy mewn addysg, hyfforddiant a phrosiectau sgiliau a gefnogir gan raglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol yr ESF. Mae datblygu ymwybyddiaeth a sgiliau yn hanfodol os yw pobl i ddeall yn iawn beth sydd angen ei wneud i leihau effeithiau amgylcheddol ac i gynnal yr amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

5.32 Mae 6ed Rhaglen Gweithredu Amgylcheddol yr UE 2002-2012 yn pennu'r amcanion a'r blaenoriaethau amgylcheddol sy'n rhan annatod o strategaeth datblygiad cynaliadwy'r Gymuned Ewropeaidd. Yn y rhaglen diffinnir amcanion ar gyfer taclo newid mewn hinsawdd, amddiffyn bioamrywiaeth, hyrwyddo'r amgylchedd ac iechyd, y defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol a rheolaeth gwastraff. Ategir rhaglen weithredu'r UE gan ddeddfwriaeth a chyfarwydddebau Cymunedol sy'n anelu at wella'r amgylchedd.

Amcanion Cynaliadwyedd Amgylcheddol ar gyfer y Rhaglenni Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol

5.33 Mae cyfle amlwg i Raglenni Gweithredol Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol gyfrannu'n arwyddocaol tuag at y canlyniadau a ddynodir yn strategaethau amgylcheddol Cymru ac Ewrop. Gellir gwireddu hyn o fewn fframwaith hollgynhwysfawr agenda Lisboa a Göteborg o ganlyniad i'r cysylltiad clir rhwng amgylchedd iach, lles cymdeithasol ac economi ffyniannus.

5.34 Amlinellir nodau ac amcanion cynaliadwyedd amgylcheddol hollgynhwysfawr y Rhaglenni Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol isod. Mae'r rhain yn cyd-fynd â'r themâu a'r canlyniadau amgylcheddol a ddynodir yn *Strategaeth Amgylcheddol Cymru*. Maent hefyd yn gyson â'r:

- gwersi a ddysgwyd o'r rhaglenni Cronfeydd Strwythurol presennol 2000-2006;
- ymyriadau y bydd y rhaglen yn eu hategu;
- amcanion a ddiffinnir yn 6ed rhaglen Gweithedu Amgylcheddol y Gymuned Ewropeaidd.

5.35 Y nod hollgynhwysfawr yw gwella asedau amgylcheddol Dwyrain Cymru tra'n hyrwyddo defnyddio'r amgylchedd mewn modd cynaliadwy er budd cymdeithasol ac economaidd. Bydd yr amcanion a ddiffinnir isod yn cael eu hyrwyddo mewn dwy ffordd drwy brosiectau a gefnogir gan y ESF. Yn gyntaf drwy i'r prosiect ganolbwyntio ar, neu integreiddio, amcanion cynaliadwyedd amgylcheddol mewn pecynnau addysg a hyfforddiant, ac yn ail, drwy gymryd camau gweithredu uniongyrchol o ran y modd y gweithredir y prosiect i leihau effeithiau uniongyrchol ar yr amgylchedd, e.e. drwy wella effeithiolrwydd adnoddau ac annog cludiant cynaliadwy.

(1) *Lleihau gollyngiadau nwyon tŷ gwydr i helpu i gyfyngu ar y newid yn yr hinsawdd a helpu i ymaddasu i'w effeithiau*

5.36 Dylai rhaglenni hyfforddiant ac addysg godi ymwybyddiaeth o achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd, sut y gellir gostwng allyriadau nwyon tŷ gwydr a sut i addasu i ganlyniadau newidiadau i'r hinsawdd. Gellir anelu hyfforddiant sgiliau arbenigol at faterion newid mewn hinsawdd penodol.

(2) *Hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy*

5.37 Dylid cymryd camau uniongyrchol i hyrwyddo cludiant cynaliadwy drwy fecanweithiau darparu prosiectau sy'n lleihau'r angen i deithio neu'n hyrwyddo dulliau cludiant cynaliadwy. Dylid hyrwyddo effeithiau cludiant ar yr amgylchedd ac iechyd pobl ynghyd ag egwyddorion cludiant cynaliadwy drwy raglenni addysg a hyfforddiant. Gellid dylunio hyfforddiant arbenigol i fynd i'r afael â materion cludiant penodol sy'n anelu at leihau effeithiau megis allyriadau i'r awyr a thagfeydd traffig.

3) *Hyrwyddo defnyddio adnoddau naturiol yn effeithlon*

5.38 Bydd rheolaeth gynaliadwy adnoddau naturiol y rhanbarth er budd cymdeithasol ac economaidd yn cael ei hyrwyddo. Dylai rhaglenni addysg a hyfforddiant hyrwyddo rheolaeth gwastraff cynaliadwy o fewn egwyddorion lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff a gwaredu diogel. Dylid datblygu sgiliau arbenigol i fynd i'r afael â materion effeithiolrwydd adnoddau penodol.

(4) *Hyrwyddo rheoli'r tir, y môr a dyfroedd mewndirol yn gynaliadwy*

5.39 Bydd lefel uchel o amddiffyniad yn cael ei ddarparu ar gyfer ardaloedd cadwraeth dynodedig a rhoddir addewid ffurfiol na fydd safleoedd a amddiffynnir drwy Natura 2000 yn cael eu niweidio gan brosiectau a ariennir dan Raglenni Cystadleuaeth a Chyflogaeth Ranbarthol. Dylid cefnogi hyfforddiant arbenigol i well sgiliau rheolaeth gynaliadwy'r amgylchedd naturiol. Integreiddio'r amcan hwn i raglenni hyfforddiant ac addysg ehangach i helpu pobl i ddeall yr amgylchedd naturiol a sut i reoli'r amgylchedd mewn dull cynaliadwy.

(5) *Gwella ansawdd yr amgylchedd adeiledig a chyfleoedd i gael mynediad i fannau gwyrdd*

5.40 Bydd safonau uchel o berfformiad amgylcheddol mewn safleoedd ac eiddo'n cael ei ategu drwy hyfforddiant sgiliau arbenigol cysylltiedig â dyluniad a rheolaeth adeiladau. Gall addysg a hyfforddiant hefyd helpu unigolion i ddeall sut y gall eu gweithredoedd hwy gyfrannu tuag at effeithiolrwydd ynni a lleihau'r defnydd o ddeunyddiau. Dylid hyrwyddo manteision mynediad i ardaloedd gwyrdd o safbwynt iechyd a chyfleoedd hamdden.

(6) *Lleihau hyd yr eithaf ar y risg o lygredd a pheryglon amgylcheddol eraill a thrwy wneud hynny diogelu iechyd cymunedau a'r amgylchedd*

5.41 Dylid cefnogi'r amcan o leihau'r risg o lygredd a pheryglon amgylcheddol eraill drwy hyfforddiant arbenigol a thrwy wneud unigolion yn ymwybodol o'r camau y gallant eu cymryd i leihau'r risgiau a diogelu iechyd y gymuned.

Strategaeth Weithredol

5.42 Bydd yn rhaid i bob prosiect a gefnogir drwy'r rhaglen gyfrannu at yr amcanion cynaliadwyedd amgylcheddol perthnasol. Bydd y targedau cynaliadwyedd amgylcheddol sydd wedi eu hintegreiddio i'r Blaenoriaethau (Pennod 4) yn lifer cryf o ran annog prosiectau i gyfrannu tuag at yr amcanion cynaliadwyedd amgylcheddol. Bydd gweithgareddau penodol i gefnogi gweithrediad y thema cynaliadwyedd amgylcheddol yn cynnwys:

- cynnig cyngor arbenigol mor gynnar â phosib i sicrhau fod cyfleoedd i gyfrannu tuag at yr amcanion cynaliadwyedd amgylcheddol yn cael eu hintegreiddio i gynlluniau'r prosiect;
- arweiniad ar gael i ddangos i noddwyr prosiectau sut y gallant integreiddio gweithgareddau priodol i gynlluniau'r prosiect. Byddai'r gweithgareddau hyn yn cynnwys integreiddio cynaliadwyedd

amgylcheddol i raglenni sgiliau prif ffrwd a darpariaeth hyfforddiant sgiliau arbenigol wedi ei anelu at hyrwyddo twf economaidd yn y sector amgylcheddol;

- rhoddir cefnogaeth i noddwyr prosiectau gan ymgynghorwyr cynaliadwyedd amgylcheddol Swyddfa Nawdd WEFO a bydd awdurdodau amgylcheddol cymwys (Asiantaeth yr Amgylched a Chomisiwn Cefn Gwlad Cymru) yn cyfrannu tuag at y partneriaethau; a
- monitro dangosyddion cynaliadwyedd amgylcheddol a chyflwyno adroddiadau blynyddol i'r GRhP ar gynnydd a wnaed o ran gwireddu'r amcanion cynaliadwyedd amgylcheddol.

5.43 Gwnaed dadansoddiad o effaith bwriadedig gweithgareddau a gefnogir ar amcanion cynaliadwyedd amgylcheddol y Rhaglen. Cynrychiolir hyn ar ffurf matrices sydd i'w weld yn Atodiad C.

5.44 Mae dangosyddion thema drawsbynciol Cynaliadwyedd Amgylcheddol wedi'u cynnwys gyda thablau'r prif Ddangosyddion a Thargedau, ym mhob un o'r Blaenoriaethau ym Mhennod 4.

PENNOD 6: DARPARIAETHAU GWEITHREDU

Cyflwyniad

6.1 Mae'r bennod hon yn amlinellu'r darpariaethau gweithredu ar gyfer Rhaglen Weithredol Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol ESF. Darperir gwybodaeth yn unol â Rheoliad Cyngor (CE) Rhif 1083/2006 11 Gorffennaf 2006, sy'n pennu'r darpariaethau cyffredinol perthnasol i Gronfa Datblygiad Rhanbarthol Ewrop (ERDF), Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) a'r Gronfa Cydlyniad. Rhoddir rhagor o wybodaeth yn unol â Rheoliad (CE) Rhif 1081/2006 ar y ESF, Rheoliad (CE) Rhif 1080/2006 ar y GDRhE, a Rheoliad (CE) Rhif 1828/2006 yn pennu'r rheolau gweithredu.

6.2 Nid yw'r testun canlynol yn disodli Rheoliadau Cyngor 1083/2006, 1080/2006, 1081/2006 na Rheoliad Comisiwn 1828/2006 ac mewn achosion o ansicrwydd neu wrthdaro, bydd y Rheoliadau Cyngor hyn uwchlaw'r darpariaethau Gweithredu. Bydd y darpariaethau'n cael eu hategu gan unrhyw benderfyniad, rheoliad a chanllaw a fabwysiadir yn unol â Rheoliad Cyngor (CE) Rhif 1083/2006¹⁶².

Dynodi Awdurdodau

6.3 Rheolir y rhaglen yn unol ag egwyddor rheolaeth ariannol gadarn. Mae cyfrifoldebau dros reolaeth y rhaglen gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi cydnabyddiaeth lawn i'r egwyddor hon a'r angen am wahaniad priodol y gwahanol swyddogaethau. Yn arbennig:

- gwahaniad priodol rhwng swyddogaethau'r Awdurdod Rheoli, yr Awdurdod Ardystio a'r Awdurdod Archwilio yn unol ag Erthygl 58 o Rheoliad Cyngor 1083/2006; a
- gwahaniad priodol rhwng y swyddogaethau dilysu a ddynodwyd yn Erthygl 13 o Rheoliad Comisiwn 1828/2006 a Llywodraeth Cynulliad Cymru fel Buddiolwr dan y Rhaglen.

6.4 Trafodir dirprwyaeth cyfrifoldebau i'r Awdurdod Rheoli, yr Awdurdod Ardystio a'r Awdurdod Archwilio yn yr adrannau isod. Mae'r *organogram* yn Atodiad F yn rhoi darlun hollgynhwysfawr o'r cyfrifoldebau allweddol a'r llinellau riportio yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, gyda swyddogaethau'r Awdurdod Rheoli ac Ardystio wedi eu dirprwyo i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a swyddogaeth yr Awdurdod Archwilio i Wasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cynulliad Cymru ac sydd, yn unol ag arfer gorau, yn swyddogaethol annibynnol ar bob un o feysydd gweithredol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

¹⁶² Mae pob erthygl y cyfeirir ati yn berthnasol i Rheoliad Cyngor (CE) Rhif 1083/2006 11 Gorffennaf 2006 – Darpariaethau Cyffredinol par Cronfa Datblygiad Rhanbarthol Ewrop, Cronfa Gymdeithasol Ewrop a'r Gronfa Cydlyniad, oni bai lle dywedir fel arall. O safbwynt sail gyfreithiol, nid yw'r testun hwn yn disodli'r rheoliad uchod.

Awdurdod Rheoli

6.5 Awdurdod Rheoli Rhaglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth ESF Dwyrain Cymru fydd Gweinidogion Cymru. Rhagwelir yr arferir swyddogaethau rheoli'r Awdurdod Rheoli gan staff y Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) dan awdurdod y Gweinidog Cymraeg priodol.

6.6 Mae gwahaniad swyddogaethau clir o fewn WEFO ac mae siart yn dangos trefn y sefydliad i'w weld ar eu gwefan¹⁶³. O fewn deuddeng mis o gymeradwyo'r Rhaglen Weithredol bydd disgrifiad o systemau, trefniadaeth a gweithdrefnau'r Awdurdod Rheoli yn cael eu cynhyrchu yn unol ag Erthygl 71.

6.7 Yn unol ag Erthygl 60 ac egwyddorion rheolaeth ariannol gadarn, bydd yr Awdurdod Rheoli yn gyfrifol am:

- sicrhau fod gweithrediadau yn cael eu dethol ar gyfer nawdd yn unol â'r meini prawf sy'n berthnasol i'r rhaglen weithredol a'u bod yn cydymffurfio â rheolau cymunedol a chenedlaethol perthnasol drwy gydol cyfnod eu gweithrediad;
- sicrhau, i ddibenion dethol a chymeradwyo gweithredoedd dan Erthygl 60 (a), fod buddiolwyr yn cael gwybod am yr amodau penodol sy'n berthnasol i'r cynnyrch neu'r gwasanaethau fydd yn cael eu darparu dan y weithred, y terfyn amser ar gyfer gweithredu, a'r wybodaeth ariannol ac unrhyw wybodaeth arall sydd i'w chadw a'i chyfathrebu. Bydd yn bodloni ei hun fod gan y buddiolwr y gallu i gyflawni'r amodau hyn cyn y gwneir penderfyniad parthed cymeradwyo;
- cynnal gwiriadau dan Erthygl 60(b) o agweddau gweinyddol, ariannol, technegol a chorfforol gweithrediadau, fel sy'n briodol. Bydd gwiriadau'n sicrhau dilysrwydd y gwariant a ddatgenir, fod cynnyrch neu wasanaethau wedi cael eu darparu yn unol â'r penderfyniad cymeradwyo, fod ceisiadau am ad-daliadau ar ran y buddiolwr yn gywir a bod y gweithrediadau a gwariant yn cydymffurfio â rheolau Cymunedol a chenedlaethol. Byddant yn cynnwys gweithdrefnau i osgoi ariannu gwariant ddwywaith gyda chynlluniau Cymunedol neu genedlaethol eraill ac efo cyfnodau rhaglennu eraill. Bydd gwiriadau'n cynnwys y gweithdrefnau canlynol:
 - gwiriadau gweinyddol o bob cais am ad-daliad gan fuddiolwyr;
 - gwiriadau yn y fan a'r lle o weithrediadau unigol.
- sicrhau y cynhelir gwiriadau mewn perthynas â Rhaglen Weithredol yn y fan a'r lle ar sail sampl. Bydd yr Awdurdod Rheoli yn cadw cofnodion yn disgrifio ac yn cyfiawnhau'r dull sampl ac yn dynodi gweithrediadau neu drafodion a ddetholwyd ar gyfer gwiriadau. Bydd yr Awdurdod Rheoli yn pennu maint y sampl er mwyn cael sicrwydd rhesymol o gyfreithlondeb a rheoleidd-dra'r trafodion gwaelodol gan gofio am y lefel o risg a

¹⁶³ Dolen i siartiau sefydliadol:

<http://www.wefo.wales.gov.uk/default.asp?Lang=cy&action=page&ID=84>

ddynodwyd gan yr Awdurdod Rheoli ar gyfer y math o fuddiolwyr a gweithrediadau dan sylw. Bydd yn adolygu'r dull samplo bob blwyddyn;

- sefydlu safonau a gweithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer y gwiriadau a gynhelir a chadw cofnodion o bob gwiriad, gan nodi'r gwaith sy'n cael ei wneud, dyddiad a chanlyniadau'r gwiriadau a'r camau a gymerwyd mewn perthynas ag unrhyw anghysonderau a ddatgelwyd;
- sicrhau gwahaniad digonol swyddogaethau yn unol ag Erthygl 58 (b) ar gyfer trefniadau ar gyfer y gwiriadau, lle mae'r corff a benodwyd fel Awdurdod Rheoli hefyd yn fuddiolwr dan y Rhaglen Weithredol;
- sicrhau bod system gyfrifiadurol i gofnodi a storio cofnodion cyfrifo pob gweithrediad dan y Rhaglen Weithredol ac y cesglir data ar y gweithredu angenrheidiol ar gyfer rheolaeth ariannol, monitro, gwirio, archwilio a gwerthuso;
- sicrhau fod buddiolwyr a chyrff eraill sydd a wnelo a gweithrediad gweithrediadau yn cynnal un ai system gyfrifo ar wahân neu gôd cyfrifo digonol ar gyfer yr holl drafodion perthnasol i'r gweithrediad heb anfanteisio'r rheolau cyfrifo cenedlaethol;
- sicrhau fod gwerthusiadau o'r Rhaglen Weithredol yn cael eu cynnal yn unol ag Erthygl 47;
- sefydlu gweithdrefnau i ofalu fod yr holl ddogfennau perthnasol i wariant ac archwiliadau fydd eu hangen i sicrhau llwybr archwilio digonol yn cael eu cadw yn unol â gofynion Erthygl 90;
- sicrhau fod y llwybrau archwilio yn ddigonol yn unol â'r Rheoliad Gweithredu. I ddibenion Erthygl 60 (f) ystyrir fod llwybr archwilio yn ddigonol ble, i ddibenion y Rhaglen Weithredol, y mae'n cydymffurfio â'r meini prawf canlynol:
 - yn caniatáu cymodi'r symiau cyfanredol a ardystiwyd i'r Comisiwn gyda'r cofnod cyfrifo manwl a'r dogfennau ategol sy'n cael eu dal gan yr Awdurdod Ardystio, yr Awdurdod Rheoli a buddiolwyr mewn perthynas â gweithrediadau a gyd ariennir dan y Rhaglen Weithredol;
 - yn caniatáu gwirio'r taliad cyhoeddus i'r buddiolwr;
 - yn caniatáu gwirio gweithrediad y meini prawf dethol a bennwyd gan y Pwyllgor Monitro Rhaglen ar gyfer y Rhaglen Weithredol;
 - yn cynnwys, ar gyfer pob gweithred, fel sy'n briodol, y manylebau technegol a'r cynllun ariannol, dogfennau'n ymwneud â chymeradwyaeth grantiau a gweithdrefnau caffael cyhoeddus, adroddiadau ar gynnydd ac adroddiadau ar wiriadau ac archwiliadau a gynhaliwyd.
- sicrhau, i ddibenion ardystio fod yr Awdurdod Ardystio yn derbyn yr holl wybodaeth angenrheidiol ynghylch y gweithdrefnau a'r gwiriadau a gynhelir mewn perthynas â gwariant i ddibenion ardystio;

- riportio a monitro gweithdrefnau i ymdrin ag anghysonderau ac i adfer symiau gormodol a dalwyd yn unol ag Erthygl 58, Rheoliad (CE) 1083/2006. Bydd hyn yn sicrhau fod buddiannau ariannol y Cymunedau Ewropeaidd yn cael eu hamddiffyn (Rheoliadau (CE) Rhifau 2988/95 a 2185/96).
- arwain gwaith y Pwyllgor Monitro Rhaglen a darparu'r dogfennau angenrheidiol ar ei gyfer fel y gellir monitro ansawdd gweithrediad y rhaglen weithredol yng ngoleuni amcanion penodol;
- llunio, ac ar ôl cael cymeradwyaeth y Pwyllgor Monitro, cyflwyno'r adroddiadau gweithredu blynyddol a therfynol i'r Comisiwn;
- sicrhau cydymffurfiaid â'r gofynion gwybodaeth a chyhoedduswydd a bennir yn Erthygl 69; a
- rhoi i'r Pwyllgor wybodaeth fydd yn caniatáu iddo werthuso prosiectau mawr.

Awdurdod Ardystio

6.8 Gweinidogion Cymru fydd aelodau Awdurdod Ardystio Rhaglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol Dwyrain Cymru. Rhagwelir mai staff WEFO fydd yn arfer swyddogaethau rheoli'r Awdurdod Ardystio dan awdurdod y Gweinidog priodol

6.9 O fewn WEFO mae gwahaniad swyddogaethol clir. Yn WEFO bydd swyddogaethau'r Awdurdod Rheoli a'r Awdurdod Ardystio ar wahân, gyda rhaniad cyfrifoldebau a threfniadau rheoli clir. Mae siart sefydliadol ar gael ar wefan WEFO¹⁶⁴. O fewn deuddeg mis o gymeradwyaeth y Rhaglen Weithredol bydd disgrifiad o'r systemau, trefniadaeth a gweithdrefnau'r Awdurdod Ardystio'n cael eu cynhyrchu yn unol ag erthygl 71.

6.10 Yn unol ag Erthygl 61 bydd yr Awdurdod Ardystio yn gyfrifol am:

- lunio a chyflwyno datganiadau ardystiedig o wariant a cheisiadau am daliadau i'w cyflwyno i'r Comisiwn;
- ardystio fod:
 - y datganiad cyfrifon yn gywir, yn deillio o systemau cyfrifo dibynadwy ac yn seiliedig ar ddogfennau ategol y gellir eu gwirio;
 - y gwariant a ddatgenir yn cydymffurfio â'r rheolau Cymunedol a chenedlaethol perthnasol a'i fod wedi digwydd mewn perthynas â gweithrediadau a gafodd eu dethol ar gyfer nawdd yn unol â'r meini prawf sy'n berthnasol i'r rhaglen ac sy'n cydymffurfio â rheolau Cymunedol a chenedlaethol;

¹⁶⁴ Dolen i siartiau sefydliadol:

<http://www.wefo.wales.gov.uk/default.asp?Lang=cy&action=page&ID=84>

- i ddibenion ardystio, sicrhau y ceir gwybodaeth ddigonol gan yr Awdurdod Rheoli ynghylch y gweithdrefnau a'r gwiriadau yr ymgwymerwyd â hwy mewn perthynas â gwariant a gynhwyswyd yn y datganiadau o wariant ;
- i ddibenion ardystio, ystyried canlyniadau'r holl archwiliadau yr ymgwymerwyd â hwy gan, neu dan gyfrifoldeb, yr Awdurdod Archwilio.
- cynnal cofnodion cyfrifo cyfrifiadurol o wariant a ddatganwyd i'r Comisiwn;
- cadw cofnod o symiau adferadwy a symiau a dynnwyd yn ôl yn dilyn canslo cyfraniad cyfan, neu ran o gyfraniad, i weithred. Bydd symiau a adferwyd yn cael eu had-dalu i gyllideb gyffredinol yr Undeb Ewropeaidd, cyn cau'r Rhaglen Weithredol drwy eu didynnu o'r datganiad nesaf o wariant;
- anfon datganiad i'r Comisiwn erbyn Mawrth 31 bob blwyddyn o 2008 ymlaen, ar ffurf Atodiad XI o'r Rheoliad Gweithredu, gan ddynodi ar gyfer pob un o echelinau blaenoriaeth y Rhaglen Weithredol:
 - y symiau a dynnwyd o ddatganiadau o wariant a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol yn dilyn canslo'r cyfan neu ran o gyfraniad cyhoeddus tuag at weithred;
 - y symiau adferadwy a ddydynnwyd o'r datganiadau hyn o wariant; a
 - datganiad o'r symiau i'w hadfer ar 31 Rhagfyr y flwyddyn flaenorol, a ddosberthir yn ôl y flwyddyn y cyhoeddwyd y gorchmynion adfer.

Awdurdod Archwilio

6.11 Gweinidogion Cymru fydd aelodau Awdurdod Archwilio Rhaglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol Dwyrain Cymru. Rhagwelir y bydd swyddogaethau goruchwyllo a rheoli'r Awdurdod Archwilio yn cael eu harfer gan staff y Gwasanaeth Archwilio Mewnol (GAM) dan awdurdod y Gweinidog perthnasol.

6.12 Mae'r GAM yn swyddogaethol annibynnol ar WEFO a bydd yn gyfrifol am wirio gweithrediad effeithiol y system goruchwyllo a rheoli. Bydd y GAM yn cynnig barn ar y systemau goruchwyllo a rheoli. Mae staff y GAM yn gweithio i safonau archwilio cenedlaethol cymeradwy ac yn cynnwys yn bennaf archwilwyr neu gyfrifyddion cymwys neu rannol gymwys. O fewn deuddeng mis o gymeradwyo'r Rhaglen Weithredol cynhyrchir disgrifiad o systemau, trefniadaeth a gweithdrefnau'r Awdurdod Archwilio yn unol ag Erthygl 71.

6.13 Yn unol ag Erthygl 62, bydd yr Awdurdod Archwilio yn gyfrifol am:

- sicrhau yr ymgwymerir ag archwiliadau i wirio gweithrediad effeithiol systemau goruchwyllo a rheoli'r Rhaglen Weithredol
- sicrhau yr ymgwymerir ag archwiliadau ar weithrediadau ar sail sampl briodol i wirio gwariant a ddatganwyd
- o fewn naw mis o gymeradwyo'r Rhaglen, cyflwyno i'r Comisiwn strategaeth archwilio'n ymwneud â'r: cyrff fydd yn cynnal yr archwiliadau y cyfeiriwyd

atynt yn y ddau bwynt bwled uchod; y dulliau fydd yn cael eu defnyddio; y dulliau samplu ar gyfer archwiliadau o weithrediadau; a chynllunio arwyddol i sicrhau yr archwilir y prif gyrff a bod archwiliadau'n cael eu lledaenu'n gyfartal ar draws y cyfnod rhaglennu;

- erbyn 31 Rhagfyr bob blwyddyn o 2008 i 2015:
 - cyflwyno adroddiad rheoli blynyddol i'r Comisiwn yn nodi darganfyddiadau'r archwiliadau yr ymgwymerwyd â hwy yn ystod y cyfnod 12 mis blaenorol, yn diweddu ar Fehefin 30ain yn y flwyddyn dan sylw yn unol â strategaeth archwilio'r rhaglen weithredol ac unrhyw ddiffygion a ddarganfuwyd yn systemau goruchwyllo a rheoli'r rhaglen. Bydd yr adroddiad cyntaf i'w gyflwyno erbyn 31 Rhagfyr 2008 yn ymwneud â'r cyfnod o 1 Ionawr 2007 i 30 Mehefin 2008. Bydd gwybodaeth am archwiliadau a gynhelir ar ôl Gorffennaf 1 2015 yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad rheoli terfynol i ategu'r datganiad cloi;
 - rhoi barn, ar sail y rheoliadau a'r archwiliadau a gynhaliwyd dan gyfrifoldeb yr Awdurdod Archwilio, parthed gweithrediad effeithiol neu fel arall y system oruchwyllo a rheoli, er mwyn cynnig sicrwydd rhesymol fod datganiadau o wariant a roddwyd i'r Comisiwn yn gywir a thrwy hynny gynnig sicrwydd rhesymol fod y trafodion gwaelodol yn gyfreithlon ac yn gyson;
 - cyflwyno, lle bo hynny'n berthnasol, ddatganiad ar gyfer cau rhannol yn asesu cyfreithlondeb a rheoleidd-dra'r gwariant perthnasol;
- cyflwyno datganiad cau i'r Comisiwn erbyn 31 Mawrth 2017 fan bellaf yn asesu dilysrwydd y cais am dalu'r balans terfynol, a chyfreithlondeb a rheoleidd-dra'r trafodion gwaelodol yr ymdrinnir â hwy yn y datganiad terfynol o wariant, fydd yn cael ei gefnogi gan adroddiad rheoli terfynol; a
- sicrhau fod gwaith archwilio'n ystyried safonau cenedlaethol derbyniol.

Cyrff Cyfryngol

6.14 Bydd yr Awdurdodau Rheoli ac Ardystio yn ymgymryd â'r holl dasgau a amlinellir yn yr adrannau uchod ac ni chyflogir unrhyw Gyrff Cyfryngol fel y'i disgrifir yn Erthygl 59(2).

Partneriaeth

6.15 Mae atebion cynaliadwy ac effeithiol i'r heriau sy'n wynebu Cymru yn gynyddol ddibynnol ar gyfranogiad uniongyrchol a gweithgar pob rhanddeiliad ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol. Mae'r Awdurdod Rheoli wedi ymrwymo i weithio drwy bartneriaethau a rhwydweithiau o ansawdd da i sicrhau ymrwymiad rhanddeiliaid i agenda diwygio Lisboa er mwyn gwneud popeth bosibl i sicrhau fod adnoddau'n wirioneddol ganolbwyntio ar dwf a swyddi.

6.16 Yn unol ag Adran 11, bydd yr Awdurdod Rheoli yn gweithio mewn cydweithrediad agos â'r Comisiwn a phartneriaid cynrychiolaidd ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol, yn cynnwys cynrychiolwyr yn y cylchoedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Bydd cyswllt partneriaeth hwn yn ymwneud â pharatoi, gweithredu, monitro a gwerthuso'r Rhaglen Weithredol.

(a) Paratoi'r Rhaglen Weithredol

6.17 Datblygwyd pennod Cymru o'r Fframwaith Cyfeirio Strategol Cenedlaethol (NSRF) a'r Rhaglen Weithredol hon mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol ar draws pob sector allweddol, yn cynnwys partneriaid cymdeithasol, cyrff cydraddoldeb, y sector addysg uwch a phellach, asiantaethau'r amgylchedd, awdurdodau lleol, y sector gwirfoddol a chymunedol a'r sectorau cyhoeddus a phreifat. Cafwyd prif fewnbwn y partneriaethau cynrychiolaidd gan y Grŵp Rhanddeiliaid Allanol a sefydlwyd ar ôl 2006. Mae hwn yn fforwm partneriaeth ar sail eang sy'n dwyn cynrychiolwyr yr holl rhanddeiliaid allweddol at ei gilydd.

6.18 Cafwyd mewnbwn arbenigol hefyd drwy bum grŵp gwaith yn cynnwys partneriaid o amrediad eang o sefydliadau yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Yn arbennig cynghorodd grŵp y Rhaglen Weithredol ar baratoad y rhaglen a chyfrannodd at y drafftio; rhoddodd y grŵp Monitro a Gwerthuso gyngor ar ddatblygiad systemau monitro a gwerthuso, yn cynnwys dangosyddion rhaglenni a lefelau blaenoriaeth, a rhoddodd olwg gyffredinol ar y broses werthuso *ex-ante* Ategodd y Grŵp Rheoli Rhaglen ddatblygiad y strategaeth weithredu, yn cynnwys trefniadau ar gyfer fframweithiau strategol. Yn unol ag egwyddor tryloywder, cyhoeddwyd nodiadau cyfarfodydd Grwpiau Rhanddeiliaid Allanol ar ôl 2006 a'r grwpiau gwaith amrywiol ar wefan WEFO.

6.19 Bu ymgynghoriad cyhoeddus parthed y rhaglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol yn ystod Rhagfyr 2006 - Ionawr 2007. Rhoddir rhestr lawn o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy yn Atodiad A. Ceir crynodeb byr o ymatebion yr ymgynghoriad yn y Bennod Strategaeth (Pennod 3) a chafodd dadansoddiad mwy manwl gan CRG Research Ltd ei baratoi a'i gyhoeddi ochr yn ochr ag ymatebion ymgynghoriadau unigol, ar wefan WEFO¹⁶⁵.

(b) Gweithredu'r Rhaglen Weithredol


6.20 Mae ymglymiad gweithgar partneriaid yng ngweithrediad y Rhaglen Weithredol yn un o gonglfeini'r strategaeth weithredu hollgynhwysfawr. Bydd y Pwyllgor Monitro Rhaglen (gw. paragraffau 6.26 - 6.31 a 6.34 - 6.38) yn gweithio gyda'r Awdurdod Rheoli i sicrhau effeithiolrwydd ac ansawdd gweithrediad y Rhaglen Weithredol. Yn unol ag erthygl 11, bydd y Pwyllgor Monitro Rhaglenni'n cael ei benodi gan yr Awdurdod Rheoli a bydd yn cynnwys cynrychiolwyr a phartneriaid arbenigol ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol yn y cylchoedd economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol ac eraill.

6.21 Bydd cynllunio manwl gweithrediadau ar gyfer y Rhaglen yn cael ei ffocysu drwy gyfrwng nifer o 'Fframweithiau Strategol' (gw. paragraffau 6.39 - 6.48).

¹⁶⁵ <http://www.wefo.cymru.gov.uk>

Strategaethau gweithredol yw'r fframweithiau hyn i sicrhau llwyddiant yr amrywiol themâu o fewn y Rhaglen Weithredol. Fe'u defnyddir, ynghyd ag unrhyw feini prawf dethol a blaenoriaethu eraill a sefydlwyd gan y Pwyllgor Monitro Rhaglen yn unol ag Erthygl 65 (a) i arwain yr Awdurdod Rheoli wrth iddo ddethol prosiectau. Bydd yr holl fframweithiau'n ymwneud ag agweddau gofodol darpariaeth.

Ffigur 26. Strwythurau Cydweithredu a Gweithredu Cynllun Gofodol Cymru



6.22 Bydd y Fframweithiau Strategol yn cael eu datblygu a'u gweithredu drwy gyswllt gweithredol gyda phartneriaid sy'n berthnasol i'r themâu y bydd y fframweithiau'n gysylltiedig â hwy. Bydd llawer o'r rhain yn bartneriaethau sydd eisoes yn bodoli ac sy'n hir sefydlog (e.e. Panel Cyngori ar Gyflogaeth Cymru, Grŵp Llywio Sgiliau Dyfodol Cymru, Rhwydwaith Sgiliau i Fusnes ayyb). Bydd angen sefydlu trefniadau newydd pwrpasol ar gyfer rhai fframweithiau. Bydd y trefniadau ar gyfer cyswllt cymunedol yn cynnig dull agored, effeithiol ac effeithlon o gasglu barn rhanddeiliaid ynghylch, a'u mewnbwn i, ddatblygiad a chywreiniad y Fframweithiau Strategol yn y dyfodol. Bydd y fframweithiau hyn hefyd yn hyrwyddo heriau adeiladol go iawn.

6.23 Bydd Fframweithiau Strategol yn cael eu gosod ar ffurf drafft ar wefan WEFO fel y gellir cyflwyno unrhyw sylwadau arnynt cyn eu cytuno. Bydd hyn yn caniatáu i'r ystod ehangaf bosibl o unigolion a sefydliadau ar bob lefel chwarae eu rhan. Bydd y wefan hefyd yn cynnig lle i noddwyr rhagamcannol prosiectau gyhoeddi amlinelliaid byr o'u syniadau gyda'r nod o annog partneriaethau a chydweithredu ar lefel prosiect.

6.24 Bydd yr Awdurdod Rheoli yn sicrhau fod pob Fframwaith Strategol yn cael ei ddatblygu a'i adolygu mewn partneriaeth â'r rhanddeiliaid perthnasol. Bydd trefniadau partneriaeth pob fframwaith angen cytundeb yr Awdurdod Rheoli a bydd y trefniadau hynny'n cael eu disgrifio'n glir yn y dogfennau fframwaith er gwybodaeth yr holl randdeiliaid.


6.25 Yn unol ag Erthygl 5 o Reoliad [1081/2006] yr ESF, bydd yr Awdurdod Rheoli yn hyrwyddo rheolaeth a phartneriaethau da drwy annog cyfranogiad partneriaid cymdeithasol yng ngweithgareddau'r rhaglen ymysg pethau eraill. Mae hyn yn cynnwys clustnodi swm priodol o adnoddau'r ESF ar gyfer gweithredoedd adeiladu gallu fel y'i diffinnir yn Erthygl 5 (3). Bydd yr Awdurdod Rheoli hefyd yn annog cyfranogiad a mynediad sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, yn arbennig mewn prosiectau sy'n hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol, cydraddoldeb rhyw a chyfleoedd cyfartal.

(c) Monitro'r Rhaglen Weithredol

6.26 Yn unol â darpariaethau Erthygl 63, bydd un Pwyllgor Monitro Rhaglen sengl (PMRh) cael ei sefydlu ar gyfer y ddwy raglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol (ERDF ac ESF) a'r ddwy raglen Cydgyfeiriant (ERDF ac ESF) yng Nghymru. Bydd hyn yn helpu i wneud y mwyaf o'r synergeddau rhwng y rhaglenni ac yn hyrwyddo gweithredu cyflenwol ar draws ffiniau'r rhaglenni. Bydd y PMRh yn cefnogi trosglwyddiad effeithiol arfer gorau a gwersi a ddysgwyd ac yn hyrwyddo dull cydlynol Cymru-gyfan o ymateb i faterion megis gwybodaeth a chyhoeddusrwydd, ymchwil a gwerthuso, themau trawsbynciol, cydweithrediad tiriogaethol a hyrwyddo arloesiad. Wrth edrych am integreiddiad o'r fath mae'r Awdurdod Rheoli yn cydnabod y bydd angen trefniadau cadarn i sicrhau fod pob un o'r pedair rhaglen yn cael ei monitro'n effeithiol. Bwriedir sefydlu dau is-bwyllgor sefydlog fydd yn gyfrifol am fonitro a chynghori'r prif BMRh ar berfformiad pob un o'r rhaglenni ERDF ac ESF. Y PMRh llawn ei hun, o fewn y rheolau gweithredu, fydd yn pennu aelodaeth ac yn ymhelaethu parthed y tasgau manwl y bydd yr is-bwyllgorau hyn yn eu cyflawni.

6.27 Yn ei gyfarfod cyntaf bydd y PMRh yn cael ei wahodd i drafod a chytuno ar aelodaeth a swyddogaethau'r ddau bwyllgor sefydlog a phenderfynu ar ba lefel y byddant yn arfer eu cyfrifoldebau yn unol â'r Rheoliadau Ewropeaidd. Yn ystod cyfnod rhaglennu 2007-2013, efallai y bydd y PMRh yn penderfynu sefydlu is-grwpiau eraill, un ai rhai tasg a chydlynu neu rai o natur fwy parhaol. Lle bo hynny'n bosibl efallai y bydd y Pwyllgor yn cynnig i'r Awdurdod Rheoli y dylid penodi grwpiau arbenigol neu randdeiliaid eraill i gynghori is-bwyllgorau o'r fath. Mae'r model arfaethedig i'w weld yn Ffigur 27:

Ffigur 27. Strwythur Arfaethedig y Pwyllgorau



6.28 Bydd y PMRh yn cynnwys 24 Aelod a Chadeirydd. Cynrychiolwyr yr Awdurdod Rheoli fydd Cadeiryddion y PMRh a'i bwyllgorau sefydlog. Bydd y Comisiwn Ewropeaidd, staff WEFO, a lle bo hynny'n briodol, yr EIB a'r EIF yn arfer swyddogaeth ymgynghorol o fewn yn y PMRh a'i bwyllgorau.

6.29 Yn unol â darpariaethau Erthygl 11, bydd y mwyafrif o'r aelodau yn cael eu tynnu o'r prif bartneriaethau rhanbarthol a chyrff statudol, fel a ganlyn:

Tabl 30 – Aelodaeth Gynrychiolaidd o'r PMRh yn ôl Sefydliadau Sector

Sefydliad Sector	Aelodau
Llywodraeth Leol (1 Dwyrain Cymru; 1 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd)	2
Llywodraeth Cynulliad Cymru: Economi a Thrafnidiaeth	1
Llywodraeth Cynulliad Cymru: Addysg, Diwylliant a'r Iaith Gymraeg	1
Llywodraeth Cynulliad Cymru: Cynladwyedd a Datblygu Cefn Gwlad	1
Addysg Uwch	1
Addysg Bellach	1
Canolfan Byd Gwaith	1
Undebau Llafur	1
Sector Preifat – Busnes	1
Sector Gwirfoddol	1
Economi Cymdeithasol	1
Asiantaeth yr Amgylchedd/Cyngor Cefn Gwlad Cymru	1
Comisiwn Hawliau Dynol a Chydraddoldeb	1
Cyfanswm	14

6.30 Bydd gweddill y PMRh yn cael ei ffurfio o 10 arbenigwr a ddewiswyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn dilyn cystadleuaeth agored fydd yn destun archwiliad annibynnol. Bydd yr arbenigwyr hyn yn cyfrannu amrediad o alluoedd, profiadau a chymwysterau i swyddogaethau'r BMRh fydd yn cyfannu priodweddau cynrychiolwyr y partneriaethau. Bydd yr arbenigwyr hyn yn cael tâl yn unol ag arferion safonol Llywodraeth Cynulliad Cymru, gyda thaliadau o ffynonellau nawdd domestig yn hytrach nag o'r Cronfeydd Strwythurol.

6.31 Rydym yn argymhell targed isaf o 40% o gynrychiolaeth o blith merched a 40% o gynrychiolaeth o blith dynion ar BMRh Cymru-gyfan, gyda hyblygrwydd o ran yr 20% sy'n weddill. Rydym yn gobeithio y bydd sefydliadau partner yn cefnogi'r targed hwn. Bydd gweithdrefnau priodol hefyd yn cael eu sefydlu i sicrhau cyflenwoldeb rhwng rhaglenni ESF ac ERDF a'r RDP a'r EFF.

(d) Gwerthusiad o'r Rhaglen Weithredol

6.32 Bydd yr Awdurdod Rheoli yn adeiladu ar arfer da Rhaglen 2006-06 drwy sefydlu Grŵp Gwerthuso Ymgynghorol (GGY). Bydd y GGY yn cael ei gadeirio gan un o uwch swyddogion yr Awdurdod Rheoli. Bydd aelodaeth yn cynnwys arbenigwyr o sefydliadau partner yn cynnwys y Comisiwn Ewropeaidd a rhanddeiliaid eraill. Bydd y grŵp hefyd yn cynnwys arbenigwyr technegol o Swyddfa'r Uwch Ymchwilydd Cymdeithasol, yr Adran Cyngor Economaidd a'r Gyfarwyddiaeth Ystadegol o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru.

6.33 Bydd GGY yn cyngori ac yn cynorthwyo mewn dylunio'r Cynllun Monitro a Gwerthuso; cytuno cynlluniau ymchwil; rheoli ansawdd adroddiadau terfynol a sicrhau fod y darganfyddiadau'r cael eu dosbarthu'n eang. Y GGY fydd yn gyfrifol am benodi arbenigwyr technegol yn ôl yr angen i'w cynorthwyo â'u gwaith.

Dyletswyddau'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni

6.34 Yr Awdurdod Rheoli fydd yn cynnig gwasanaethau ysgrifenyddol i'r PMRh a'i gyfarfodydd. Bydd y PMRh yn llunio ei reolau trefniadaeth ei hun ac yn eu cytuno gyda'r Awdurdod Rheoli. Diffinnir dyletswyddau'r PMRh yn Erthyglau 65 a 66 o Reoliad (CE) 1083/2006.

6.35 Yn unol â Rheoliad UE [1083/2006] Erthygl 63 (2), yn ei gyfarfod cyntaf bydd y PMRh yn llunio ac yn cymeradwyo darpariaethau manwl ar gyfer cyflawniad cywir ac effeithiol y dyletswyddau a neilltuwyd iddo, yn cynnwys amllder ei gyfarfodydd (gyda gofyniad am isafswm o ddau gyfarfod y flwyddyn) ac aelodaeth a swyddogaethau'r ddau is-bwyllgor sefydlog.

6.36 Yn unol â Rheoliad UE [1083/2006] erthygl 65, bydd y PMRh a'i is-bwyllgorau yn bodloni eu hunain fel sy'n briodol ynghylch effeithiolrwydd ac ansawdd gweithrediad y Rhaglen Weithredol. Bydd y tasgau y bydd yn ymgymryd â hwy yn cynnwys:

- y meini prawf ar gyfer dethol y gweithrediadau fydd yn cael eu hariannu ac unrhyw ddiwygiad i'r meini prawf hynny yn unol ag anghenion y rhaglen; a
- trefniadau ar gyfer adolygu cynnydd tuag at gyrraedd amcanion a thargedau penodol y Rhaglen Weithredol ar sail dogfennau a gyflwynwyd gan yr Awdurdod Rheoli.

6.37 I'r diben hwn, ac yn ychwanegol at y swyddogaethau uchod, bydd yn:

- monitro cynnydd tuag at gyrraedd y dangosyddion a'r targedau corfforol ac ariannol a osodwyd ar gyfer y Rhaglen Weithredol ac echelin pob

Blaenoriaeth, ac yn archwilio'r gwerthusiadau y cyfeirir atynt yn Erthygl 48(3).

- ystyried a chymeradwyo'r adroddiadau gweithredu blynyddol a therfynol ar weithrediad y cyfeirir atynt yn Erthygl 67 cyn y cyflwynir yr adroddiadau hyn i'r Comisiwn Ewropeaidd;
- bod yn ymwybodol o'r adroddiadau rheoli blynyddol ac unrhyw sylwadau a wna'r Comisiwn ar ôl archwilio'r adroddiadau hyn neu a wnânt mewn perthynas â'r adroddiadau hyn;
- argymhell i'r Awdurdod Rheoli unrhyw ddiwygiadau i, neu archwiliadau o'r Rhaglenni Gweithredol i'r diben o wella eu rheolaeth, yn cynnwys rheolaeth ariannol;
- ystyried a chymeradwyo unrhyw argymhellion i newid cynnwys y Rhaglenni Gweithredol cymeradwyo.

6.38 Cynorthwyo'r PMRh a'i is-bwyllgorau lle bo hynny'n briodol i arfer ei gyfrifoldebau statudol fel y'i dynodwyd uchod. Bydd yr Awdurdod Rheoli hefyd yn sicrhau fod y Pwyllgor:

- yn derbyn gwybodaeth am bwyllgorau, gwariant ac allbwn (wedi'i gynllunio a'i wireddu) ar gyfer bob thema a blaenoriaethau unigol, ar sail flynyddol o leiaf;
- yn cytuno ar ddefnydd y Fframweithiau Strategol gan yr Awdurdod Rheoli fel rhan o'r meini prawf ar gyfer dethol gweithrediadau. Cynghori ar aliniad Fframweithiau Strategol gyda'r amcanion a'r targedau yn y Rhaglen Weithredol, yn cynnwys unrhyw addasiadau dilynol, cyn eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Rheoli;
- yn ystyried Cynllun Monitro a Gwerthuso'r Awdurdod Rheoli ac unrhyw newidiadau i'r Cynllun hwnnw fel y cyfeiriwyd atynt yn Erthygl 48(1);
- yn cael ei ymgynghori ag ef ar y Strategaeth Gweithredoedd Arloesol; ac
- yn derbyn adroddiadau blynyddol ar gynnydd y Themâu Trawsbynciol.

Trefniadau Gweithredu a Darparu

Cynllunio

6.39 Mae gwerthusiadau o raglenni wedi dangos y gellir gwella effaith hollgynhwysfawr drwy sicrhau dulliau mwy cydlynol o ddelio â gweithgareddau prosiectau ynghyd ag aliniad cryfach â phrif amcanion y rhaglen. Maent hefyd wedi awgrymu fod angen mwy o bwyslais ar gydweithredu isranbarthol a symleiddio strwythur rhaglenni a threfniadau gweithredu. Yn ogystal, yn yr ymgynghoriad parthed rhaglen ôl-2006, roedd cytundeb cyffredin ynghylch yr angen am fabwysiadu dull mwy strategol yn y dyfodol o ran defnydd y Cronfeydd Strategol.

6.40 Bydd yr Awdurdod Rheoli yn hyrwyddo dulliau mwy strategol o weithredu, yn cynnwys drwy gyflwyno **Fframweithiau Strategol**. Bydd y fframweithiau hyn yn Strategaethau Gweithredol fydd yn seilio eu gweithgaredd cychwynnol ar y

blaenoriaethau a'r themâu yn y Rhaglen Weithredol. Byddant yn helpu i sicrhau'r ffocws a'r crynhoad ymdrech fydd ei angen i wneud y defnydd gorau o'r cronfeydd strwythurol; byddant yn annog partneriaethau a chydweithio ac yn helpu i sefydlu cysylltiadau gweithredol a chydlynid rhwng prosiectau.

6.41 Diffinnir Fframwaith Strategol fel:

Cynllun i wireddu diben strategol penodol drwy gyfrwng ymyriadau prosiect sydd wedi'u cysylltu'n strategol.

6.42 Dogfennau cynllunio yn hytrach nag offerynnau ariannol fydd y Fframweithiau. Y prosiectau fydd yr 'arian' o fewn y Rhaglen Weithredol a chyfrifoldeb yr Awdurdod Rheoli fydd dethol prosiectau, blaenoriaethu a chymeradwyo. Llunnir fframweithiau yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Rheoli a byddant yn cael eu defnyddio ganddynt yn y broses o ddethol a blaenoriaethu prosiectau.

6.43 Bydd y Fframweithiau yn cynnig trosolwg strategol ac arweiniad clir ar feysydd yr ymyriadau a'r mathau o brosiectau a threfniadau darpariaeth fydd yn darparu orau ar y Thema a'r Flaenoriaeth berthnasol. Byddant yn dynodi cysylltiadau strategol pwysig o fewn Fframweithiau eraill, a lle mae potensial am 'orgyffyrddiad' byddant yn egluro'n glir, er budd noddwyr arfaethedig, pa fath o brosiect ddylai gael ei ymdrin ag ef dan ba Fframwaith. Byddant hefyd yn dynodi'r cwmpas sydd o fewn eu maes am Weithgaredd Arloesol a Chydweithrediad Trawsgenedlaethol (gw. paragraff 6.53). Gwelir rhestr ddangosol o Fframweithiau Strategol ar gyfer y Rhaglenni Cystadleuaeth a Chyflogaeth Ranbarthol yn Atodiad E.

6.44 Bydd datblygiad Fframweithiau Strategol yn cael ei gydlyn gan Adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru a Grwpiau Ardal Cynllun Gofodol Cymru. Byddant yn sicrhau aliniad da rhwng polisïau'r UE ar gyfer Twf a Swyddi a pholisïau a strategaethau Cenedlaethol perthnasol yn cynnwys Cynllun Gofodol Cymru.


6.45 Bydd Timau Gofodol Ewropeaidd dynodedig (TGE) yn cael eu sefydlu i gefnogi gwaith y Grwpiau Ardal Cynllun Gofodol mewn cydlynu'r Fframweithiau Strategol a yrrir yn ofodol. Byddant hefyd yn cynorthwyo cydlynwyr Fframweithiau Strategol thematig gyda chysylltiadau partneriaeth ar lefel leol ac isranbarthol. Bydd gan gydlynwyr Fframweithiau Strategol hefyd ran i'w chwarae, ochr yn ochr â Thimau Gofodol Ewropeaidd ac eraill sy'n chwarae rhan mewn cefnogi noddwyr arfaethedig, mewn trafod syniadau cynnar gydag ymgeiswyr prosiect posibl a rhoi barn 'diragfarn' iddynt ynghylch eu ffit debygol o fewn y fframwaith. Bydd yr Awdurdod Rheoli yn ceisio barn Cydlynwyr Fframwaith yn ogystal â barn arbenigwyr eraill lle bynnag y bydd hynny'n angenrheidiol wrth ystyried y prosiectau a gyflwynir, ond bydd yr Awdurdod Rheoli yn gwneud penderfyniadau am brosiectau yn annibynnol ar sail deunydd a gyhoeddwyd parthed Fframweithiau a meini prawf dethol a blaenoriaethu cymeradwy eraill y PMRh.

6.46 Wrth gytuno'r Fframweithiau, bydd yr Awdurdod Rheoli yn sicrhau fod y trefniadau partneriaeth a bennir ynddynt yn caniatáu lefel arwyddocaol o 'her' o du'r partneriaid a'r rhanddeiliaid sy'n cymryd rhan yn natblygiad y fframwaith. Wrth


i'r rhaglen symud yn ei blaen, efallai y bydd canlyniadau'r monitro a'r gwerthuso yn amlygu angen am addasu strategaethau'r fframwaith; bydd felly'n angenrheidiol adolygu, addasu a choethi eu cynnwys o dro i dro mewn ymgynghoriad â'r partneriaethau perthnasol. Cydlynwyr Fframweithiau fydd yn gyfrifol o hyd am gydlynu gwaith cynnal y Fframweithiau fydd yn mynd yn ei flaen drwy gydol cyfnod y Rhaglen, a byddant yn parhau i wneud hyn gydag ymglymiad cyson eu partneriaethau. Gwelir cyfrifoldebau Cydlynwyr y Fframweithiau yn Atodiad F.

6.47 Unwaith y bydd y Cydlynnydd a'r Awdurdod Rheoli yn pennu fod Fframwaith yn ffit i'w ddefnyddio, bydd yn cael ei gyflwyno i'r PMRh. Yn amodol ar gyngor y PMRh ar ei aliniad gyda'r Rhaglen Weithredol a'u cytundeb ei fod yn ffit i'w ddefnyddio fel un o'r meini prawf dethol a blaenoriaethu prosiect, bydd y Fframwaith wedyn yn cael ei gytuno gan yr Awdurdod Rheoli. Bydd ffit prosiect o fewn y Fframwaith yn un o'r meini prawf dethol a blaenoriaethu prosiect; bydd meini prawf eraill yn cael eu cymeradwyo gan y PMRh ynghyd â'r meini prawf cymhwyster fydd yn berthnasol i bob prosiect. Mae ffigyrau 28 a 29 yn dangos rôl y PMRh yn y cyswllt hwn a'r modd y bydd yr holl feini prawf yn cael eu rhoi ar waith wrth ddethol a blaenoriaethu prosiectau ar gyfer cymeradwyaeth grant.

Ffigur 28. Gosod meini prawf dethol a blaenoriaethu



Ffigur 29. Cymhwyso meini prawf dethol a blaenoriaethu



6.48 Unwaith y bydd Fframwaith wedi cael ei gytuno gan yr Awdurdod Rheoli, bydd yn cael ei osod ar y wefan ynghyd â'r geiriau 'CYTUNWYD', er gwybodaeth ac arweiniad noddwyr arfaethedig a rhanddeiliaid eraill. Bydd hefyd yn cael ei ddefnyddio gan Swyddogion Datblygu Prosiect yr Awdurdod Rheoli a Rheolwyr Blaenoriaeth wrth iddynt ystyried ceisiadau 'Mynegiant o Ddiddordeb' ac wrth ddethol a blaenoriaethu prosiectau dilynol.

Trefniadau trin, dethol a blaenoriaethu prosiectau

6.49 Bydd yr Awdurdod Rheoli yn sicrhau fod sefydliadau sydd â diddordeb mewn manteisio ar nawdd drwy'r Rhaglen Weithredol yn deall natur y rhaglen a'r llwybr y bydd angen iddynt ei ddilyn er mwyn cael grant. Bydd yr Awdurdod Rheoli yn darparu cyfleuster gwefan ryngweithiol i wella cyswllt gyda rhanddeiliaid a noddwyr arfaethedig ac i alluogi noddwyr i gyflwyno eu cynigion prosiect a'u hawliadau'n electronig.


6.50 Bydd yr Awdurdod Rheoli yn rhedeg llinell gymorth i ymdrin ag ymholiadau gan noddwyr arfaethedig a rhanddeiliaid eraill yn ogystal ag i roi gwybodaeth gychwynnol, cyngor ac arwyddbostio. Bydd hyn yn welliant pwysig i'r trefniadau blaenorol ac yn sicrhau gwasanaeth cwsmer o ansawdd da i noddwyr arfaethedig a rhanddeiliaid eraill.

6.51 Bydd y trefniadau ar gyfer darparu'r Rhaglen Weithredol yn syml. Bydd Fframweithiau Strategol yn cynnig Strategaethau Gweithredol i arwain natur yr ymyriadau, a fydd yn cael eu darparu drwy brosiectau. Bydd yr Awdurdod Rheoli

yn cymeradwyo'r prosiectau hyn yn uniongyrchol ac nid yw'n rhagweld y defnydd o Grantiau Byd-eang fel y'i diffinnir yn Erthygl 42 o Reoliad (CE) [1083/2006].

6.52 Yn ychwanegol at y meini prawf cymhwyster sylfaenol dan reolau a maen prawf 'ffit o fewn y Fframwaith', bydd meini prawf ar gyfer dethol a blaenoriaethu prosiectau, sy'n ymwneud ag elfennau pwysig budd a risg, yn cael eu cymeradwyo gan y PMRh. Mae Ffigur 30 yn dangos y llwybr y bydd noddwr prosiect arfaethedig yn ei ddilyn i sicrhau grant o Gronfa Strwythurol:

Ffigur 30. Arwyddbostio ar gymhwyster a Ffit o fewn y Fframwaith



6.53 Bydd prosiectau gweithredu arloesol a phrosiectau'n cynnig gweithredu traws-genedlaethol neu ryngranbarthol yn cael eu dynodi'n benodol gan yr Awdurdod Rheoli ar gam cyflwyno Mynegiant o Ddiddordeb a bydd noddwyr yn cael cyngor ac arweiniad penodol mewn perthynas â'u gweithrediad, eu gwerthusiad a'u lledaeniad. Bydd yr Awdurdod Rheoli yn monitro'r prosiectau hyn ar wahân ac yn riportio arnynt i'r Pwyllgor Monitro Rhaglen. Bydd rheolau cymhwyster cenedlaethol yn berthnasol i bob prosiect o'r fath. Yn achos pob prosiect a gymeradwywyd, y noddwr fydd yn gyfrifol am ddarparu a gwario yn erbyn y proffil i wireddu'r allbwn a'r canlyniadau a ragwelwyd.

6.54 Os darganfyddir fod prosiect o unrhyw fath wedi mynd yn groes i unrhyw rai o'r amodau a restrir isod ar unrhyw adeg, yna bydd noddwr y prosiect yn gyfrifol am alw'n ôl unrhyw nawdd a gafwyd, a bydd prosiectau sy'n is-contractio'r cyfan neu ran o'u gweithgaredd yn atebol pe darganfyddir fod unrhyw rai o'u hisgontractwyr wedi torri eu cytundebau neu eu bod yn gyfrifol am unrhyw afreoleidd-dra. Bydd gofynion caffael Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â gweithgaredd sy'n cael ei is-contractio yn berthnasol i bob prosiect:

- rheoliadau'r UE;
- y rheolau Cenedlaethol a bennwyd i reoli darpariaeth y Rhaglen Weithredol;
- rheolau Cymorth y Wladwriaeth; neu
- y telerau a'r amodau penodol y mae'r Awdurdod Rheoli yn eu pennu mewn perthynas â'r prosiect yn eu llythyr yn cynnig grant.

6.55 Mae Adran Gwerth Cymru Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi sefydlu dwy wefan bwysig - *PrynwchiGymru*, <http://www.buy4wales.co.uk> a *GwerthwchiGymru*, <http://www.sell2wales.co.uk> – i sicrhau dull eang, agored a thryloyw o ymdrin â chaffael ar gyfer cytundebau sector cyhoeddus. Yn ychwanegol at hysbysebu cyfleoedd tendro, mae safle *GwerthwchiGymru* yn cynnig gwybodaeth, cymorth a chefnogaeth i sefydliadau sy'n dymuno tendro am gytundebau. Yn dilyn trafodaethau gyda *Gwerth Cymru* mae'r Awdurdod Rheoli wedi trefnu bod pob prosiect sy'n cael nawdd UE (waeth i ba sector y mae'r sefydliad noddin perthyn) yn hysbysebu gweithgareddau caffael drwy'r safleoedd hyn. Bydd hyn yn sicrhau mynediad eang, agored a chymorthedig at gyfleoedd i ddarparu prosiectau a gymeradwywyd dan Raglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth yr ESF a phob rhaglen 2007-13 arall. Bydd yr Awdurdod Rheoli'n sicrhau bod contractau cyhoeddus neu gonsesiynau a ddyfernir, ynghylch prosiectau sy'n elwa ar gymorth rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn cydymffurfio â darpariaethau Cyfarwydddebau 2004/17/EC¹⁶⁶, 2004/18/EC¹⁶⁷, Rheoliad (EC) Rhif 1564/2005¹⁶⁸ neu egwyddorion y Cytuniad lle bo'n gymwys.

Gweithredu'r Themâu Trawsbynciol

6.56 Mae'r Themâu Trawsbynciol yn ffurfio rhan annatod o reolaeth y Rhaglen a'r prosiectau. Bydd pob Blaenoriaeth yn y Rhaglen yn defnyddio amcanion y Themâu Trawsbynciol yng nghyd-destun y gweithgareddau fydd yn cael eu noddi. Bydd canllawiau ar lefel gweithgaredd yn cael eu paratoi ynghyd ag enghreifftiau astudio achos arfer gorau fydd yn cynnig gwybodaeth benodol ar sut y gall noddwyr prosiectau fynd i'r afael â chynaliadwyedd amgylcheddol a chyfleoedd cyfartal yn eu cynlluniau prosiect. Mae ymgynghorwyr arbenigol mewn Cynaliadwyedd Amgylcheddol a Chyfleoedd Cyfartal yn gweithio yn WEFO a byddant yn cynnig cefnogaeth i gydlynwyr fframweithiau, noddwyr prosiectau a phartneriaethau. Bydd cyngor arbenigol hefyd ar gael drwy ymglymiad sefydliadau allweddol yn y rhanbarth, yn cynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Un o'r amcanion allweddol fydd cynnig mewnbyn arbenigol ar gam cychwynnol y broses er mwyn manteisio hyd yr eithaf ar gyfleoedd i hyrwyddo'r themâu.

¹⁶⁶ Cyfarwydddeb 2004/17/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 31 Mawrth 2004 ar gydgyssylltu gweithdrefnau caffael endidau sy'n gweithredu yn y sectorau dŵr, ynni, trafnidiaeth a gwasanaethau post, OJ L 134, 30.4.2004

Cyfarwydddeb 2004/18/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 31 Mawrth 2004 ar gydgyssylltu gweithdrefnau ar gyfer dyfarnu contractau gweithiau cyhoeddus, contractau cyflenwadau cyhoeddus a chontractau gwasanaethau cyhoeddus, OJ L 134, 30.4.2004

¹⁶⁸ Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1564/2005 dyddiedig 7 Medi 2005 yn sefydlu ffurflenni safonol ar gyfer cyhoeddi hysbysiadau yn y fframwaith gweithdrefnau caffael cyhoeddus yn unol â Chyfarwydddebau 2004/17/EC a 2004/18/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor (Testun gyda pherthnasedd i'r EEA), OJ L 257, 1.10.2005

6.57 Bydd targedau'r themâu trawsbynciol a osodir ar lefel y gweithgareddau sydd i'w cefnogi gan y Rhaglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth yn yrrwr pwysig o ran annog prosiectau i fynd i'r afael ag amcanion cynaliadwyedd amgylcheddol a chyfleoedd cyfartal y Rhaglen. Ystyrir integreiddiad llorweddol y ddwy thema'n weithgaredd cymwys ar gyfer cymorth nawdd fel y gellir ei osod yn erbyn unrhyw effeithiau negyddol posibl (er enghraifft allanoldeb amgylcheddol negyddol) neu i wneud y mwyaf o gyfleoedd i integreiddio (er enghraifft gweithlu mwy amrywiol). Paratowyd matricesau sy'n dangos y gweithgareddau manwl fydd yn cael eu cefnogi dan y Blaenoriaethau a'r Themâu, i wireddu integreiddiad llorweddol - gweler Atodiadau B ac C.

Cydraddoldeb Rhyw a Chyfleoedd Cyfartal

6.58 Yn unol â Rheoliad UE [1083/2006] Erthygl 16, a Rheoliad UE [1081/2006], Erthygl 6, bydd cydraddoldeb rhyw a chyfleoedd cyfartal ac amddiffyniad pob unigolyn rhag anffafriaeth yn cael eu hyrwyddo wrth baratoi, gweithredu a gwerthuso Rhaglen Weithredol Cystadleurwydd a Chyflogaeth yr ESF.

6.59 Datblygwyd y rhaglen mewn partneriaeth ag ystod eang o randdeiliaid a phartïon â diddordeb, yn cynnwys y cyrff cydraddoldeb statudol a chynrychiadol, drwy Grŵp Rhanddeiliaid Allanol a 5 grŵp gwaith arbenigol seiliedig ar y partneriaethau. Mae Ymgynghorydd Cydraddoldeb WEFO wedi bod yn gynrychiolydd sefydlog ym mhob un o'r 5 grŵp gwaith [Y Rhaglen Weithredol, Rheoli a Gweithredu'r Rhaglen, Gwerthuso a Monitro, Cydweithrediad Tiriogaethol a Rheolaeth a Chydymffurfriad]. Mae hyn wedi helpu i sicrhau fod materion cydraddoldeb wedi bod yn rhan annatod o'r agenda o'r cychwyn yn hytrach na'u bod wedi cael eu bolltio 'mlaen yn ddiweddarach. Mae'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb hefyd wedi cynnig mewnbwn arbenigol i drafodaethau ar y dangosyddion cydraddoldeb arfaethedig ar gyfer y rhaglen newydd.

6.60 Yn ychwanegol at ddigwyddiadau a drefnwyd gan bartneriaid, mae WEFO hefyd wedi cynnal digwyddiadau ymgynghori ar draws Dwyrain Cymru ac mae pob un o'r rhain wedi cynnwys gweithdy yn ymwneud ag integreiddiad cyfleoedd cydraddoldeb rhyw a chyfleoedd cyfartal. Mae'r adborth o'r digwyddiadau hyn a'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol wedi dangos bod cefnogaeth o blaid cadw ac integreiddio cyfleoedd cyfartal i holl agweddau'r rhaglen drwy ei gymhwyso fel thema drawsbynciol.

6.61 Mae'n rhaid i bob gweithrediad a gyd-ariennir gan y Gronfa Strwythurol gydymffurfio, a lle bo hynny'n briodol, gyfrannu at, bolisi a deddfwriaeth Cymunedol ar gydraddoldeb rhyw a chyfleoedd cyfartal. Mae'r Awdurdod Rheoli wedi ymrwymo i sicrhau fod cyfleoedd cydraddoldeb rhyw a chyfleoedd cyfartal yn cael eu hyrwyddo ym mharatoad, gweithrediad a gwerthusiad y Rhaglen Weithredol. Felly hefyd bydd yr Awdurdod Rheoli yn ymdrechu i sicrhau cyfranogiad cytbwys o du dynion a merched yn rheolaeth a gweithrediad y rhaglen weithredol ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Bydd prif ffrydio materion rhyw a chydaddoldeb h.y. gofalu am integreiddiad y persbectif rhyw ar bob cam, yn cael ei hyrwyddo ochr yn ochr â gweithredoedd penodol ar gyfer merched a grwpiau eraill. Bydd rhwyddineb mynediad/hygyrchedd ar gyfer pobl anabl yn cael ei

ystyried wrth ddiffinio'r gweithrediadau sydd i gael cefnogaeth y Cronfeydd ar y gwahanol gamau gweithredu.

6.62 Bydd disgwyl i bob prosiect a gefnogir dan y rhaglen gyfrannu at yr amcanion cyfleoedd cyfartal perthnasol a mabwysiadu'r dangosyddion cydraddoldeb cyfle perthnasol cysylltiedig â phob blaenoriaeth a amlinellir ym Mhennod 4 Bydd gweithgareddau penodol i gefnogi gweithrediad y themâu Cyfleoedd Cyfartal yn cynnwys:

- cyngor arbenigol, yn cynnwys asesiadau cyfle cyfartal, ar gael ar gamau cynharaf y cynllunio i sicrhau bod cyfleoedd cyfartal yn cael eu hintegreiddio mewn cynlluniau prosiect;
- cynnig cyngor arbenigol ar gyfer prosiectau ar faterion cysylltiedig â phrif ffrydio cyfleoedd cyfartal ar gamau cynharaf y broses ac wrth i'r broses symud yn ei blaen;
- arweiniad ar lefel gweithgaredd ynghyd ag enghreifftiau astudio achos arfer gorau fydd yn cynnig gwybodaeth benodol ar sut y gall noddwyr fynd i'r afael â chyfleoedd cydraddoldeb rhyw a chyfleoedd cyfartal yn eu cynlluniau prosiect;
- targedau cyfleoedd cyfartal yn cael eu hintegreiddio i flaenoriaethau gan weithredu fel lifer i annog prosiectau i gyfrannu. Gweler Pennod 4 ar gyfer targedau blaenoriaeth penodol;
- monitro cynnydd yn rheolaidd, gan ganiatáu ymyriadau cynnar os yna angenrheidiol;
- adroddiadau yn rhoi diweddariadau i'r PMRh a rhanddeiliaid eraill;
- cynnwys y Themâu Trawsbynciol allanol yn barhaus; a
- WEFO i annog sefydliadau cydraddoldeb allweddol i gymryd rhan mewn cynnal rhwydwaith effeithiol o gefnogaeth arbenigol.

Cyrff Taliadau

Taliadau gan y Comisiwn

6.63 Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn derbyn taliadau o'r Cronfeydd Strwythurol gan y Comisiwn Ewropeaidd. Bydd taliadau'n cael eu gwneud i'r cyfrif banc enwebedig ac yn cael eu rheoli gan Adran Gyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd WEFO yn cysylltu â'r Adran Gyllid i sicrhau y gellir cyfrif yn gywir am daliadau o'r Cronfeydd Strwythurol gan y Comisiwn Ewropeaidd a bod modd eu dynodi ar wahân.

6.64 Yn fuan ar ôl yr etholiadau ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mai 2007 bydd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru (sy'n cael eu hadnabod ar y cyd fel Llywodraeth Cynulliad

Cymru). Ar y pwynt hwn bydd Adran Gyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru, yn derbyn taliadau gan y Comisiwn.

Taliadau i Fuddiolwyr

6.65 Bydd yr Awdurdod Rheoli yn talu'r buddiolwyr (prosiectau) pan dderbyniant hawliadau dilys yn unol ag Erthygl 80. WEFO fydd yn gyfrifol am wneud taliadau i'r buddiolwyr. Bydd Cangen Taliadau WEFO yn gweithio ar y cyd â Swyddogion Datblygu Prosiectau yn yr Adran Rheoli Prosiectau mewn perthynas â materion monitro prosiect ond y Gangen Taliadau fydd yn llwyr gyfrifol am awdurdodi taliadau, a thrwy hynny sicrhau fod dyletswyddau'r rhai sy'n cymeradwyo a'r rhai sy'n talu yn gwbl ar wahân. Bydd y Gangen ar wahân hefyd i'r Awdurdod Rheoli fydd yn gyfrifol am wneud datganiadau gwariant i'r CE. Mae siart strwythur WEFO i'w weld ar eu gwefan¹⁶⁹.

6.66 Bydd disgwyl i fuddiolwyr gyflwyno hawliadau ar gyfnodau rheolaidd er mwyn riportio gwir wariant a gweithgaredd prosiectau. Bydd y cyfnodau hawlio un ai'n fisol neu'n chwarterol er mwyn galluogi monitro prosiectau'n agos yn erbyn gweithgareddau cymeradwy. Bydd y broses hawliadau yn caniatáu i noddwyr riportio cynnydd yn y prosiectau a darparu cynlluniau gwariant diwygiedig a fydd yn hanfodol o ran monitro ar lefel prosiect a rhaglen i ddibenion N+2.

6.67 Bydd ymgeiswyr fel arfer yn hawlio ar lein drwy'r gronfa ddata System Rheoli Gwybodaeth Rhaglenni a Phrosiectau WEFO y gobeithir ei gyflwyno rhwng 2007 a 2008. Bydd y system yn gyfrwng i wahodd ceisiadau awtomatig am hawliadau ac yn eu dilysu cyn eu cyflwyno. Bydd y system hefyd yn gofalu fod pob maes yn y ffurflen hawlio wedi ei lenwi'n llawn ac yn gwneud y cyfrifiadau angenrheidiol. Bydd hefyd yn dynodi a cheisio eglurhad am unrhyw doriadau goddefiant lle nad yw prosiect yn darparu fel y cymeradwywyd. Bydd hyn nid yn unig yn gwella ansawdd yr hawliadau a gyflwynir ac yn arwain at i hawliadau gael eu dychwelyd, bydd hefyd yn sicrhau monitro prosiectau'n gan dynnu sylw WEFO a buddiolwyr at broblemau cyn gynted ag y maent yn codi. Bydd ffurflenni hawlio papur ar gael i noddwyr nad oes ganddynt fynediad at y cyfleuster ar-lein. Bydd y ffurflenni hyn yn destun yr un gwiriadau dilysu pan fyddant yn cael eu mewnbynnu i System Rheoli Gwybodaeth Rhaglenni a Phrosiectau WEFO gan staff WEFO.

6.68 Bydd y rhan fwyaf o fuddiolwyr yn cael eu hól-dalu (byddant yn hawlio gwariant a dalwyd yn y mis/chwarter blaenorol), yn erbyn y gyfradd ymyriad grant safonol a gymeradwywyd ar gyfer y prosiect. Fodd bynnag, i oresgyn y problemau llif arian y mae sefydliadau gwirfoddol neu breifat dielw'n aml yn eu profi, bydd WEFO yn cynnig yr opsiwn o dalu'r sefydliadau hyn ymlaen llaw. Budd gan fuddiolwyr hefyd yr opsiwn (lle ystyria WEFO hynny'n briodol) i hawlio ar sail angen (h.y. y gwahaniaeth rhwng gwariant ac incwm dros unrhyw gyfnod penodol).

6.69 Bydd pob prosiect yn destun dargadwad grant (10% fel arfer) yn amodol ar gyflwyniad boddhaol hawliad terfynol a thystysgrif archwilio allanol.

¹⁶⁹ <http://www.wefo.cymru.gov.uk>

Cymhwyster Gwariant

6.70 Bydd Awdurdod Rheoli'r Rhaglen Weithredol yn llunio rheolau parthed cymhwyster gwariant yn unol ag Erthygl 56(4). Bydd y rheolau hyn yn ystyried y darpariaethau a'r eithriadau a osodir yn Rheoliad ESF (CE) 1081/2006, Rheoliad Cyffredinol (EC) 1083/2006, Rheoliad Gweithredu (EC) 1828/2006, Rheoliad ERDF (EC) 1083/2006, canllawiau cyfredol (a diweddaedig) a llawlyfrau a gyhoeddir gan yr Awdurdod Rheoli.

6.71 Bydd yr Awdurdod Rheoli yn darparu gwybodaeth i'r Comisiwn ar y rheolau cymhwyster cenedlaethol a sefydlwyd ac sy'n berthnasol i'r Rhaglen Weithredol erbyn dyddiad cyflwyniad y disgrifiad o'r systemau goruchwyllo a rheoli a'r adroddiad ar gydymffurfiaid y systemau fan bellaf, yn unol ag Erthygl 71 (CE) [1083/2006] fan bellaf.

Llog a Gynhyrchir

6.72 Bydd unrhyw log a gynhyrchir gan daliadau o'r Rhaglen Weithredol hon i gronfeydd fel y'i diffinnir yn Erthygl 44 yn cael eu defnyddio yn unol â darpariaethau Erthygl 78(7). Er enghraifft, bydd llog a gynhyrchir o daliadau i offerynnau cynllunio ariannol yn cael eu hail-fuddsoddi er budd mentrau bach a chanolog.

6.73 Yn unol ag Erthygl 83, bydd unrhyw log a gynhyrchir drwy ariannu ymlaen llaw yn cael ei bostio i'r Rhaglen Weithredol berthnasol ac yn cael ei ystyried fel adnodd ar gyfer yr Aelod Wladwriaeth ar ffurf cyfraniad cyhoeddus cenedlaethol, ac yn cael ei ddatgan i'r Comisiwn ar adeg cau'r Rhaglen Weithredol yn derfynol.

Trefniadau Archwilio

6.74 Mae'n ofynnol i noddwyr prosiectau ddarparu tystysgrifau archwilio a wiriwyd yn annibynnol fel rhan o'u rheolaeth prosiect eu hunain ac i gefnogi ceisiadau am daliadau i WEFO. Bydd angen cyflwyno'r tystysgrifau hyn bob 12 mis yn ystod bywyd y prosiect a hefyd ar ddiwedd y prosiect. Bydd yr archwiliadau hyn yn cael eu cynnal gan archwiliwr gyda'r cymwysterau addas nad oes a wnelo ef/hi ddim a'r sefydliad sy'n hawlio'r grant.

6.75 Bydd pob tystysgrif archwilio mewn grym o gyfnod yr archwiliad diwethaf (neu o ddechrau'r prosiect) tan ddyddiad yr hawliad olaf.

6.76 Eir ar drywydd unrhyw broblemau archwilio a bydd penderfyniadau'n cael eu dogfennu'n llawn. Y rhagdybiaeth yw fydd na fydd unrhyw symiau sy'n destun cadarnhad archwilio yn cael eu talu hyd nes y bydd y broblem wedi ei datrys. Os caiff problemau archwilio eu codi bydd WEFO yn ceisio sicrwydd gan noddwyr ac archwilwyr fod unrhyw symiau a wrthodwyd wedi cael eu gwahardd o hawliadau'r dyfodol. Bydd materion cysylltiedig ag archwilio yn cael eu cofnodi ar System Rheoli Gwybodaeth Rhaglenni a Phrosiectau WEFO fel y gellir dynodi a mynd ar drywydd materion cyffredin.

6.77 Mae WEFO yn bwriadu comisiynu cwmni(au) allanol o archwilyr yn uniongyrchol i ymgymryd ag archwiliadau o brosiectau ar gyfer Rhaglen 2007-2013. Bydd hyn yn sicrhau gwell rheolaeth a sicrwydd ac yn caniatáu cysondeb ar draws pob prosiect a chronfa.

Defnydd o'r Ewro

6.78 Yn unol ag Erthygl 81, bydd datganiadau gwariant ardystiedig, ceisiadau am daliadau a gwariant yn yr adroddiadau blyneddol a therfynol yn cael eu dynodi mewn ewro. Bydd y symiau sterling yn cael eu trosi i ewro gan ddefnyddio cyfradd gyfnewid cyfrifo misol y Comisiwn yn ystod y mis pan gofrestrwyd y gwariant yng nghyfrifon yr Awdurdod Ardystio.

Cymorth Gwladwriaethol

6.79 Mae'n rhaid i unrhyw gefnogaeth gyhoeddus dan y rhaglen hon gydymffurfio â'r Rheolau Cymorth Gwladwriaethol gweithdrefnol a materol sy'n berthnasol ar adeg caniatáu'r gefnogaeth gyhoeddus. Yr Aelod Wladwriaeth, ac yn arbennig yr Awdurdod Rheoli ac Ardystio sy'n gyfrifol am gydymffurfiaid gweithrediad pob Cronfa Strwythurol gyda'r rheolau Cymorth Gwladwriaethol.

6.80 Wrth gynllunio ar gyfer y rhaglenni newydd, rhoddir ystyriaeth gynnar i sicrhau fod unrhyw gymorth a ddyfernir wedi cael y gymeradwyaeth angenrheidiol gan y Comisiwn, un ai drwy sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n llawn â chynllun cymeradwy sydd eisoes yn bodoli neu gydag eithriad bloc, neu drwy ddatgan y cymorth ar wahân. Wrth ddatblygu'r Fframweithiau Strategol, bydd angen i sefydliadau blaen ddynodi'r Cymorth Gwladwriaethol perthnasol ar gyfer gweithgareddau a gynlluniwyd, gan sicrhau asesiad trylwyr o faterion yn ymwneud â Nawdd Gwladwriaethol ar y camau datblygu cynnar, a thrwy hynny leihau'r risg o broblemau yn ystod gweithrediad.

6.81 Bydd WEFO, fel yr Awdurdod Rheoli ac Ardystio, yn gweithio'n agos gydag Uned Cymorth Gwladwriaethol y Cynulliad ac efo sefydliadau blaen i fynd i'r afael a materion cysylltiedig â Nawdd Gwladwriaethol a ddynodwyd mewn perthynas â'r Fframweithiau Strategol, gan sicrhau fod y lefel briodol o sicrwydd yn ei le ar gyfer y gweithgareddau amrywiol a gynigiwyd dan y Fframwaith Strategol. Bydd hyn yn ei dro yn rhoi sicrwydd cadarn i WEFO o gydymffurfiaid â gofynion Cymorth Gwladwriaethol. Gan adeiladau ar y profiad a enillwyd yn ystod y rhaglen bresennol, bydd WEFO yn sicrhau fod systemau a gweithdrefnau priodol yn cael eu sefydlu i ddelio gyda materion cysylltiedig â Chymorth Gwladwriaethol. Bydd y rhain yn cynnwys:

- Darparu arweiniad clir ar gyfer partneriaid, ymgeiswyr a staff;
- cefnogaeth ac arweiniad penodol yn ystod camau datblygu prosiectau dan y Fframwaith Strategol;
- methodoleg gadarn ar gyfer asesu Cymorth Gwladwriaethol mewn perthynas â phrosiectau unigol a chynigion a gomisiynwyd; a
- gweithdrefnau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaid â gofynion Cymorth Gwladwriaethol ar y camau riportio a monitro.

6.82 Mewn cydnabyddiaeth o'r diwygiadau i'r rheolau Cymorth Gwladwriaethol sydd ar y gweill bydd WEFO yn cysylltu'n agos ag Uned Cymorth Gwladwriaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau fod unrhyw newidiadau yn cael eu hadeiladu i mewn i ddarpariaeth ymarferol gweithrediadau'r Cronfeydd Strwythurol o fewn y rhaglen.

Gweithdrefn ar Gyfer Llifau Ariannol

6.83 Yr Awdurdod Ardystio fydd yn gwneud yr holl hawliadau am daliadau i'r Comisiwn Ewropeaidd. Bydd hawliadau interim a therfynol yn deillio o ddatganiadau o wariant a gyflwynwyd gan fuddiolwyr. Mae diagram yn dangos y llif ariannol a'r rheolaethau ariannol cysylltiedig i'w weld yn Atodiad FF.

6.84 Bydd yr Awdurdod Rheoli yn cynnal systemau i ddynodi pob derbyniad gan y Comisiwn a thaliadau unigol i fuddiolwyr. Bydd gweithdrefnau yn eu lle i sicrhau y cydymffurfir â rheoliadau UE ar daliadau di-oed. Bydd yr Awdurdod Rheoli yn gyfrifol am sicrhau fod i'r systemau taliadau a ddefnyddir reoliadau ariannol cadarn. Bydd safonau cywirdeb a phriodoldeb cydnaws â'r rhai hynny a ddefnyddir ar gyfer gwariant Llywodraeth y DU yn berthnasol i reolaeth y cronfeydd Cymunedol. Fel y mynna Erthygl 37(1)(g)(iv), cynhelir tryloywder yn symudedd a chylchrediad y llif ariannol drwy ddiffinio'r gweithdrefnau a ddefnyddir. Dyma amlinelliad o sut y bydd y cronfeydd Cymunedol yn llifo:

- yr Awdurdod Rheoli'n mewnbynnu'r hawliad gwariant interim a ddatganwyd gan y buddiolwyr i system gweinyddu grantiau WEFO, sef y System Gwybodaeth Rhaglenni a Phrosiectau;
- yr Awdurdod Ardystio yn cyflwyno ceisiadau am daliadau i'r Comisiwn ar lefel rhaglen;
- y Comisiwn yn gwneud taliadau i gyfrif yr Awdurdod Rheoli;
- yr Awdurdod Rheoli yn ardystio ac yn awdurdodi taliadau i fuddiolwyr ac yn ymgymryd ag unrhyw weithgaredd adfer angenrheidiol;
- yr Awdurdod Rheoli yn gwneud taliadau i'r buddiolwyr drwy ei gyfrif BACS; a
- os bydd y Comisiwn Ewropeaidd yn gwneud cais am ad-daliad, bydd yr Awdurdod Rheoli yn gwneud y taliadau angenrheidiol.

6.85 Bydd yr Awdurdod Rheoli yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am ymchwilio i afreoleidd-dra a gwneud cywiriadau ariannol yn ôl yr angen. O fewn dau fis ar ôl diwedd pob chwarter, bydd yr Awdurdod Rheoli yn rhoi gwybod i'r Comisiwn am unrhyw afreoleidd-dra a fu'n destun dyfarniad gweinyddol sylfaenol neu farnwrol ac mewn perthynas ag unrhyw afreoleidd-dra a riportiwyd eisoes, yn rhoi gwybod am unrhyw newidiadau arwyddocaol.

System Rheoli Gwybodaeth Rhaglenni a Phrosiectau (PPIMS)

6.86 Mae prosiect grantiau WEFO yn datblygu ffyrdd newydd o weithio drwy gyfrwng system integredig seiliedig ar y we er mwyn cydymffurfio'n llawn a gofynion cydymffurfiad y Comisiwn ac i alluogi buddiolwyr i gynnal eu busnes gyda WEFO yn well.

6.87 Enw'r system yw PPIMS (System Rheoli Gwybodaeth Rhaglenni a Phrosiectau) a bydd y cael ei ddarparu drwy gyfrwng y *Government Gateway* sy'n cael ei ddefnyddio ar draws y llywodraeth i ddarparu gwasanaethau ar-lein.

6.88 Mae'r system yn cynnig mynediad syml a diogel at ddogfennau allweddol ac yn galluogi rhannu gwybodaeth ar draws holl swyddfeydd WEFO mewn dull effeithlon a chost-effeithiol. Yn PPIMS bydd yr holl ddata yn cael ei gadw mewn un lle fel y bydd mynediad at wybodaeth ynglŷn â phob prosiect yn haws i gael ato nag y mae drwy gyfrwng y systemau presennol.

6.89 Bydd y noddwyr eu hunain yn gallu rhyngweithio gyda WEFO ar-lein ar sawl cam yn ystod bywyd y prosiect. Bydd angen i bob noddwr gofrestru â Phorth y Lywodraeth a byddant yn cael rhif adnabod defnyddiwr unigryw fydd yn cael ei ddefnyddio pan fyddant angen mynd ar-lein. Gall noddwyr wedyn rhyngweithio â WEFO ar-lein i ymgymryd â nifer o weithredoedd, er enghraifft:

- llenwi ffurflenni Datganiad o Ddiddordeb;
- cwblhau ffurflenni hawliadau â manylion arnynt yn barod;
- mynediad at Gynllun Busnes diweddaraf eu prosiect;
- cyflwyno dogfennau ategol; a
- gweld unrhyw adroddiadau Erthygl¹⁷⁰ 13 neu 17.

6.90 Mae manteision i noddwyr prosiectau yn cynnwys:

- defnyddio ffurflenni/dogfennau safonol ar gyfer pob Rhaglen;
- ffurflen hawlio ar-lein fydd eisoes wedi ei llenwi â data;
- cael gwybod drwy e-bost pan mae gwybodaeth ar y wefan er eu sylw ac iddynt weithredu arno;
- yr holl wybodaeth am y prosiect yn cael ei ddal mewn un lle; a
- cael gwneud defnydd o Borth y Llywodraeth, sy'n cynnig lefel uchel o ddiogelwch; bydd pob noddwr yn cael ei wirio yn erbyn ffeithiau hysbys sy'n cael eu dal gan WEFO.

¹⁷⁰ Yn cyfeirio at y Rheoliad Gweithredu (CE) 1828/2006

6.91 Bydd data monitro'n cael ei gasglu pan gyflwynir y ffurflenni hawlio â manylion arnynt y barod. Mae cyflwyno'r data hwn yn faes gorfodol wrth gyflwyno'r hawliad. Bydd yn rhaid felly cyflwyno data monitro fel rhan o'r hawliad os yw am gael ei dderbyn gan PPIMS fel hawliad dilys. Mae'r gallu hefyd gan yr Awdurdod Rheoli i ddal taliadau'n ôl oddi wrth y buddiolwyr hynny nad ydynt yn darparu data monitro.

6.92 Yn ychwanegol, bydd WEFO yn gallu cael mynediad at wybodaeth rheoli er mwyn riportio'n rhwyddach i'r PMRh a'r Comisiwn gyda thrywydd archwilio clir yn cael ei gadw mewn un lle. Bydd prosesau sy'n cael eu dylunio yn cydymffurfio â gofynion yr UE ac yn cael eu hategu gan system TG fydd hefyd yn cydymffurfio â'r un gofynion.

Cyfnewid Data'n Gyfrifiadurol

6.93 Bydd y Comisiwn yn sefydlu system gyfrifiadurol i alluogi cyfnewid data diogel rhwng y Comisiwn a WEFO. Bydd WEFO'n rhan o ddatblygiad y system gyfrifiadurol honno ac yn rhan o unrhyw ailddatblygu sylweddol. Bydd y system gyfrifiadurol yn cael ei ddefnyddio i gyfnewid gwybodaeth ynglŷn â'r Rhaglen Weithredol fel y'i pennwyd yn Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn a'i nodi yn Erthygl 37(1)(g)(vi).

6.94 Bydd y Comisiwn a WEFO yn sicrhau y cydymffurfir â'r darpariaethau Cymunedol a chenedlaethol ar amddiffyn data personol. Bydd gwybodaeth a gyfnewidir yn destun cyfrinachedd proffesiynol ac yn cael ei amddiffyn yn yr un modd ag y caiff gwybodaeth debyg ei hamddiffyn gan ddeddfwriaeth genedlaethol y Deyrnas Unedig.

6.95 Yn ychwanegol, ni cheir defnyddio gwybodaeth i unrhyw ddiben heblaw'r hyn y cytunwyd arno rhwng WEFO a'r Comisiwn, oni bai fod WEFO wedi rhoi eu caniatâd penodol, a chyn belled nad yw'r darpariaethau sydd mewn grym yng Nghymru yn gwahardd y fath ddefnydd.

6.96 Bydd y system gyfrifiaduron yn cynnwys gwybodaeth o ddiddordeb cyffredin i'r Comisiwn a WEFO. Mae manylion ynghylch cynnwys y system cyfnewid data gyfrifiadurol i'w gweld yn Erthygl 40 o Reoliad Gweithredu (EC) 1828/2006 a bydd yn cael ei drosglwyddo yn y fformat a roddir yn atodiadau'r Rheoliad Gweithredu. Bydd hyn yn hwyluso trafodion ariannol ac yn galluogi monitro.

6.97 Bydd cyfnewid data a thrafodion yn cael ei arwyddo'n electronig yn unol ag Erthygl 37(1)(g)(vi) a'r Rheoliad Gweithredu. Bydd y Comisiwn yn pennu'r trefniadau ar gyfer y defnydd o lofnodion electronig.

6.98 Ystyrir bod dogfen wedi cael ei hanfon at y comisiwn unwaith y bydd wedi cael ei harwyddo gan WEFO yn y system gyfrifiadurol. Mae'r Comisiwn yn cydnabod mai dyddiad derbyn y ddogfen gan y Comisiwn fydd y dyddiad y mae WEFO'n anfon y dogfennau.

6.99 Mewn achosion o *force majeure*, yn arbennig camweithio yn y system gyfrifiadurol neu fethiant o ran cael cysylltiad parhaol, gall WEFO anfon gwybodaeth a dogfennau ymlaen at y comisiwn ar ffurf copïau caled.

6.100 Bydd y Comisiwn yn darparu'r manylebau technegol ar gyfer cyfnewid data a bydd WEFO yn datblygu ei systemau cyfrifiadurol i gwrdd â'r manylebau hyn.

6.101 Bydd WEFO yn datblygu ei systemau cyfrifiadurol i gadw'r data fydd ei angen i archwilio ei gyfrifon. Bydd WEFO yn sefydlu systemau cyfrifiadurol cyfrifo, monitro a riportio ariannol dibynadwy yn unol ag egwyddorion cyffredinol y systemau goruchwylio a rheoli yn Erthygl 58.

6.102 Mae WEFO wedi datblygu system gyfrifiadurol newydd – PPIMS (System Rheoli Gwybodaeth Rhaglenni a Phrosiectau) a bydd hon yn cynnwys yr holl ddata'n ymwneud â thrafodion ariannol a monitro gwybodaeth.

6.103 Bydd tynnu data o'r system PPIMS yn galluogi WEFO i gyfnewid data gyda'r Comisiwn a thrwy hynny fodloni Erthygl 66(3) ac Erthygl 37(1)(g)vi. Bydd WEFO yn gwneud defnydd o'r gwe-gymhwysiad a ddarperir gan system SFC2007 newydd y comisiwn. Ceir mynediad at wefan y Comisiwn drwy'r rhyngwrdd (<https>) drwy gyfrwng Internet Explorer a mewnbynnu'r data drwy'r opsiynau ar y bwydlenni a'r sgriniau.

Monitro A Gwerthuso

Cynllun Monitro a Gwerthuso

6.104 Bydd cynlluniau manwl ar gyfer monitro a gwerthuso yn cael eu hamlinellu mewn Cynllun Monitro a Gwerthuso fel y'i manylir yn Erthygl 48(1). Bydd y cynllun yn cael ei gyhoeddi ar wefan WEFO ac yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd. Mae crynodeb o'r Cynllun Monitro a Gwerthuso i'w weld ym mharagraffau 6.105 - 6.129, ac Atodiad J - Crynodeb o'r cynllun monitro a gwerthuso.

Monitro

6.105 Mae Erthygl 66 yn datgan mai'r Awdurdod Rheoli a'r Pwyllgor Monitro fydd yn ymgymryd â'r monitro drwy gyfeirio at y dangosyddion ariannol y sonnir amdanynt yn Erthygl 37(1)(c), ac a bennir yn y RhW dan y Blaenoriaethau (Pennod 4).

6.106 Mae'r Rhaglen Weithredol yn cynnwys dangosyddion tracio lefel uchel (y cyfeirir atynt hefyd fel dangosyddion cyd-destun) a dangosyddion rhaglen (ar lefel Blaenoriaeth ac wedi eu cydgrynhoi ar lefel rhaglen).

6.107 Mae'r dangosyddion tracio lefel uchel yn deillio o ddangosyddion rhestr fer strwythurol Lisboa a strategaeth datblygiad economaidd Llywodraeth Cynulliad Cymru: *Cymru: Economi yn Ffynnu* (gweler Strategaeth - Pennod 3). Fe'u defnyddir i fonitro newidiadau yng nghyd-destun cymdeithasol-economaidd y rhaglen a byddant yn cael eu diweddarau lle bo hynny'n briodol yn yr Adroddiad Gweithredu Blynnyddol.

6.108 Mae dangosyddion y rhaglen yn gysylltiedig ag effeithiau'r ymyriad. Maent yn disgyn i dri chategori: allbwn (gweithgaredd); canlyniad; ac effaith, ac maent wedi'u cysylltu â'i gilydd mewn cadwyn resymegol. Gosodir y dangosyddion hyn ar lefel Blaenoriaeth ac fe'u detholwyd yn ofalus i adlewyrchu ehangder y blaenoriaethau unigol, tra'n canolbwyntio ar yr amcanion blaenoriaeth allweddol a'r themâu trawsbynciol. Bydd monitro yn erbyn y dangosyddion hyn yn caniatáu asesu cynnydd y Rhaglen a thrwy hynny gynorthwyo â'i rheolaeth. Gosodwyd targedau yn erbyn y dangosyddion lefel Blaenoriaeth ble mae modd gosod targedau ystyrlon. Pe bai unrhyw ddangosyddion ESF DU cyfan yn cael eu datblygu cyn, neu yn ystod gweithrediad y Rhaglen Weithredol, mae WEFO wedi ymgymryd i gynnwys y dangosyddion hyn yn Rhaglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol yr ESF.

6.109 Bydd angen i brosiectau riportio yn erbyn yr holl ddangosyddion perthnasol, a lle bo hynny'n berthnasol ddarparu'r wybodaeth lefel cyfranogwr sydd ei hangen dan Erthygl 66(2) o Reoliad Cyffredinol [1083/2006] ac Atodiad XXIII o Reoliad Gweithredu [1082/2006]. Bydd prosiectau'n cytuno ar y cyfraddau amser ar gyfer riportio a monitro gyda'r Awdurdod Rheoli pan fydd y prosiect yn cael ei ddatblygu.

Cyflwyno Adroddiadau

6.110 Bydd data allbwn a chanlyniadau'n cael ei gasglu'n rheolaidd gan reolwyr y prosiect gan yr Awdurdod Rheoli drwy ei system gweinyddu grantiau, PPIMS, i roi darlun cyfredol o gyraeddiadau rhagamcannol a gwir gyraeddiadau. Bydd y data hwn yn cael ei ddadansoddi gan yr Awdurdod rheoli'n rheolaidd ac yn cael ei riportio, fel sy'n briodol i'r PMRh. Bydd y dadansoddiadau hyn yn cynnal yr angen, pe bai hynny'n digwydd, i ymgymryd â gwerthusiad dan Erthygl 48(3) – gweler paragraff 6.120. Bydd cynnydd ar gyfer y dangosyddion effaith yn cael ei asesu drwy werthuso a thrwy wneud defnydd o'r data allbwn a chanlyniadau.

6.111 Mae Erthygl 9(3) yn gosod targedau ar gyfer gwariant ar gyfer blaenoriaethau penodol. Mae Atodiad IV Rheoliad Cyffredinol (CE) [1083/2006], yn cynnwys categorïau o wariant i helpu i sicrhau gwariant tuag at y targedau hynny. Defnyddir y categorïau hyn i riportio ar sut y mae'r rhaglen yn targedu cymorth at flaenoriaethau creu swyddi'r UE, yn cynnwys cwrdd ag amcanion y *Canllawiau Integredig ar gyfer Twf a Swyddi (2005 - 2008)*.

6.112 Bydd yr Awdurdod Rheoli'n cyflwyno adroddiadau i'r PMRh fel y gall fodloni ei hun ynghylch effeithiolrwydd ac ansawdd gweithrediad yr holl Raglenni Gweithredol.

Adroddiadau Gweithredu Blynyddol

6.113 Yn unol ag Erthygl 67, bydd yr Awdurdod Rheoli'n cyflwyno Adroddiad Gweithredu Blynyddol yn electronig i'r Comisiwn o fewn chwe mis o ddiwedd pob blwyddyn galendr lawn o weithrediad. Bydd yr Adroddiad yn cael ei ystyried a'i gymeradwyo gan y PMRh a'i is-bwyllgorau lle bo hynny'n briodol, yn unol ag Erthygl 65(d). Bydd angen cyflwyno'r adroddiad cyntaf erbyn Mehefin 30ain 2008.

6.114 Mae'r Adroddiad Gweithredu Blynyddol yn hanfodol o ran adolygu cynnydd Rhaglen. Yn unol ag Erthygl 67 bydd yn cynnwys manylion ynghylch:

- cynnydd o ran gweithredu'r Rhaglen Weithredol a'i Blaenoriaethau ynghyd â meintoliad o'r dangosyddion y cyfeiriwyd atynt yn Erthygl 37(1)(c) ar lefel Blaenoriaeth;
- gweithrediad ariannol y Rhaglen Weithredol, yn rhoi manylion ar gyfer bob Blaenoriaeth ynghylch:
 - y gwariant a dalwyd allan gan y buddiolwyr yn cynnwys mewn ceisiadau am daliad a anfonwyd at yr Awdurdod Rheoli a'r cyfraniad cyhoeddus cyfatebol;
 - cyfanswm y taliadau a dderbyniwyd gan y Comisiwn a meintoliad o'r dangosyddion ariannol y cyfeirir atynt yn Erthygl 66(2); a
 - y gwariant a dalwyd allan gan y cyrff sy'n gyfrifol am wneud taliadau i'r buddiolwyr;
- i ddibenion gwybodaeth yn unig, dadansoddiad dangosol o ddyraniad Cronfeydd fesul categori, yn unol â'r rheolau gweithredu y cyfeirir atynt yn Erthygl 103(3) a fabwysiadwyd gan y Comisiwn.
- Y camau a gymerwyd gan yr Awdurdod Rheoli a'r PMRh i sicrhau ansawdd ac effeithiolrwydd gweithrediad. Mae hyn yn cynnwys monitro a gwerthuso a threfniadau casglu data, manylion am unrhyw broblemau mawr a gafwyd wrth weithredu'r Rhaglen Weithredol a'r camau a gymerwyd mewn ymateb i hynny, ynghyd â'r defnydd a wnaed o Gymorth Technegol;
- y camau a gymerwyd i ddarparu gwybodaeth ynglŷn â'r Rhaglen Weithredol ac i'w hysbysebu;
- manylion ynglŷn ag unrhyw broblemau perthnasol i gydymffurfiaid â chyfraith Gymunedol a gafwyd wrth weithredu'r Rhaglen weithredol a'r camau a gymerwyd i ymdrin â hwy;
- gwybodaeth am y cyfraniad i'r Fenter Rhanbarthau o Newid Economaidd
- y defnydd a wnaed o gymorth Technegol;
- y defnydd a wnaed o gymorth a ryddhawyd yn dilyn cywiriadau ariannol angenrheidiol mewn perthynas ag afreoleidd-dra unigol neu systematig yng ngweithrediad y Rhaglen, yn unol ag Erthygl 98(2); ac
- achosion lle datgelwyd addasiadau sylweddol dan Erthygl 57.

Adolygiad Blynyddol

6.115 Pan fydd yn derbyn Adroddiad Gweithredu Blynyddol fel y manylir uchod, bydd y Comisiwn a'r Awdurdod Rheoli yn archwilio'r cynnydd a wnaed mewn

gweithredu'r Rhaglen Weithredol, yn cynnwys y prif ganlyniadau a gafwyd dros y flwyddyn flaenorol, gweithrediad ariannol ac unrhyw faterion eraill.

6.116 Efallai y bydd y Comisiwn yn dymuno gwneud sylwadau ar weithrediad y Rhaglen i'r Awdurdod Rheoli a fydd ynni riportio'r sylwadau i'r PMRh a'i is-bwyllgorau lle bo hynny'n briodol, ac yn darparu ymateb i gynnwys camau a gymerwyd mewn ymateb.

Adroddiad Gweithredu Terfynol

6.117 Bydd yr Adroddiad Gweithredu Terfynol, fel sy'n ofynnol dan Erthygl 67(1), yn cael ei gyflwyno i'r Comisiwn erbyn Mawrth 3, 2017. Bydd y cynnwys a'r gweithdrefnau sy'n angenrheidiol ar gyfer yr Adroddiadau Gweithredu Blynnyddol (sef cyflwyniad i'r Comisiwn gan yr Awdurdod Rheoli ar ôl archwiliad a chymeradwyaeth y Pwyllgor Monitro Rhaglenni) yn berthnasol i'r adroddiad terfynol hwn hefyd. Fodd bynnag, ar gyfer Adroddiad Gweithredu Terfynol ar Raglen Weithredol, bydd cyfyngiad amser o uchafswm o bum mis o ddyddiad derbyn adroddiad derbyniadwy. Os nad yw'r Comisiwn yn ymateb o fewn y terfyn amser, ystyrir fod yr adroddiad i gael ei dderbyn.

Gwerthuso

6.118 Mae tri phrif faes ar gyfer gwerthuso Rhaglen Weithredol. Y rhain yw lefel Rhaglen, fframwaith strategol a lefel prosiect.

Gwerthusiad ar lefel Rhaglenni

6.119 Bydd yr Awdurdod Rheoli yn sicrhau (Erthyglau 47 a 48) yr ymgwymerir â gwerthusiadau o'r Rhaglen Weithredol drwy gyfres o 'werthusiadau cyfredol', sy'n ymateb i anghenion polisi a rhaglennu. Bydd y gwerthusiadau hyn yn cael eu cysylltu â monitro rhaglenni, yn arbennig lle mae monitro rhaglenni'n dangos cryn wyriad oddi wrth y nodau gwreiddiol. Ymgwymerir â gwerthusiad hefyd lle bwriedir newid dyluniad cynllun yn arwyddocaol neu lle mae newidiadau nodedig i'r amgylchedd allanol.

6.120 Bydd gwerthusiadau lefel rhaglen yn ystyried y materion canlynol: perthnasedd; Effeithiolrwydd; Effeithlonrwydd, Programme level evaluations will consider the following issues: Relevance; Effectiveness; Efficiency; defnyddioldeb; Cynaliadwyedd a Synergedd. Yn unol ag Erthygl 48(3) bydd canlyniadau'r gwerthusiadau hyn yn cael eu hanfon at y PMRh a'r Comisiwn. Mae Atodiad G yn cynnwys crynodeb o'r gwerthusiadau lefel Rhaglen dangosol.

6.121 Ymgwymerwyd â'r Gwerthusiadau *Ex-Ante* (Erthygl 48) ar gyfer y Rhaglenni Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol (ERDF and ESF) i sicrhau'r dyraniad adnoddau gorau bosibl ac i wneud y mwyaf o ansawdd y cynlluniau ar gyfer gweithredu'r rhaglen. Roedd hon yn broses ryngweithiol, gyda'r ymgynghorwyr (a benodwyd yn unol â gofynion caffael y sector cyhoeddus) yn gwneud sylwadau ar fersiynau drafft cynnar y dogfennau rhaglen a diwygiadau'n cael eu gwneud yng ngoleuni'r sylwadau hyn.

6.122 Ymgwymerir â'r gwerthusiad *Ex-Post*, Erthygl 49(3), gan y Comisiwn Ewropeaidd mewn cydweithrediad agos â'r Awdurdod Rheoli.

Fframwaith Strategol a Gwerthusiad Lefel Prosiect

6.123 Ategir gweithgaredd gwerthuso lefel rhaglen gan werthusiad Fframwaith Strategol a gwerthusiad lefel prosiect. Mae riportio yn erbyn y dangosyddion monitro yn darparu rhan o'r asesiad o gynnydd ac effaith prosiect. Am y rheswm hwn, bydd yn angenrheidiol i bob noddwr prosiect ymgymryd â neu gomisiynu gwerthusiad o'u rhaglenni. Bydd dwyster y gwerthusiad yn gymesur â maint neu risg y prosiect a chaiff ei gytuno gyda'r prosiect ar y cam datblygu. Bydd y costau cysylltiedig â chynnal gwerthusiad yn cael eu hystyried yn gostau cymwys. Bydd yn ofynnol i bob noddwr prosiect a phob prosiect sy'n chwarae rhan mewn gweithredu gweithgareddau arloesol, fel y'i diffinnir yn Erthygl 6 o Reoliad (CE) 1081/2006, sicrhau fod y prosiect yn cael ei werthuso'n allanol gan contractwyr annibynnol.

6.124 Bydd gwerthusiad o effeithiolrwydd strategaethau Fframwaith Strategol yn hanfodol o ran cynnig gwybodaeth ar gyfer unrhyw adolygiadau fframwaith yr ymgwymerir â hwy yn ystod bywyd y rhaglen.

6.125 O ganlyniad i'r gofynion ychwanegol hyn bydd canllawiau'n cael eu datblygu i gynorthwyo â datblygiad cynlluniau gwerthuso ac i ddethol dulliau gwerthuso priodol ar y cam datblygu prosiect. Drwy gydol y cyfnod rhaglennu bydd yr Awdurdod Rheoli yn gofalu fod ansawdd sampl o werthusiadau lefel prosiect yn cael ei asesu i sicrhau fod y gwerthusiadau o ansawdd digon cadarn.

Rheoli Dulliau Monitro a Gwerthuso

6.126 Ymgwymerir â gwerthusiadau allanol gan arbenigwyr neu gyrrff, mewnol (er enghraifft Swyddfa'r Prif Swyddog Ymchwil Cymdeithasol, yr Adran Cyngor Economaidd neu'r Gyfarwyddiaeth Ystadegol) neu allanol, sy'n swyddogaethol annibynnol ar yr Awdurdodau Rheoli, Ardystio neu Archwilio.

6.127 Yr Awdurdod Rheoli fydd â chyfrifoldeb hollgynhswysfawr am fonitro a gwerthuso lefel rhaglen ac am sicrhau fod cyngor ac arweiniad ar fonitro a gwerthuso Fframweithiau Strategol a phrosiectau yn cael ei ddarparu.

6.128 Ymgwymerir â gwerthusiadau mewn ysbryd o bartneriaeth felly bydd y gwaith yn cael ei oruchwylio gan Grŵp Ymgynghorol (gweler 6.32 - 6.33 - Gwerthuso'r Rhaglen Weithredol).

6.129 Bydd y Cynllun Monitro a Gwerthuso'n cael ei gyflwyni i'r pwyllgor Monitro Rhaglenni er eu hystyriaeth. Bydd adroddiadau terfynol o'r holl ymchwil yr ymgwymerwyd ag ef ac a gomisiynwyd i gyflawni gofynion y rhaglen yn cael eu cyflwyno i'r BMRh a'i is-bwyllgorau lle bo hynny'n briodo, ac i'r Comisiwn.

Cyhoeddusrwydd a Gwybodaeth

6.130 Bydd y mesurau gwybodaeth a chyhoeddusrwydd y bydd yr Aelod Wladwriaethau a'r Awdurdodau Rheoli yn ymgymryd â hwy mewn perthynas â chymorth o'r Cronfeydd Strwythurol yn cydymffurfio â darpariaethau Erthygl 69 ac unrhyw reolau a fabwysiadwyd dan yr Erthygl honno, a Phennod II o'r Rheoliadau.

6.131 Mae'r Rheoliadau Gweithredu'n cyflwyno methodoleg a dull cyffredin ar gyfer y rhai hynny sy'n gyfrifol am ymgymryd â mesurau gwybodaeth a chyhoeddusrwydd, sy'n ystyried sefyllfa benodol pob Aelod Wladwriaeth. Bydd yr Awdurdod Rheoli sy'n gyfrifol am weithredu'r rhaglen yn gyfrifol am gyhoeddusrwydd yn fan a'r lle. Ymgymerir â chyhoeddusrwydd mewn cydweithrediad â'r Comisiwn Ewropeaidd, a fydd yn cael ei hysbysu o'r camau a gymerwyd i'r diben hwn.

6.132 Bydd y mesurau gwybodaeth a chyhoeddusrwydd a sefydlwyd yn cael eu cyflwyno ar ffurf strwythuredig ('Cynllun Cyfathrebu') fydd yn pennu'n glir yr amcanion hollgynhwysfawr a'r grwpiau targed; rhaglen o wybodaeth a gweithgaredd cyhoeddusrwydd; cyllideb ddangosol a dulliau o ddarparu; y cyfrifoldeb dros ddarparu'r gweithgaredd a sut y bydd y gweithgaredd yn cael ei fonitro a'i werthuso. Bydd y Cynllun Cyfathrebu'n cael ei gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod Rheoli (WEFO) yn dilyn asesiad y Comisiwn Ewropeaidd o'r Cynllun. Bydd y Cynllun Cyfathrebu'n cael ei gyflwyno i'r comisiwn i'w archwilio o fewn pedwar mis o fabwysiadu'r Rhaglen Weithredol.

6.133 Bydd gweithgaredd cyfathrebu'n egluro'r cyfleoedd nawdd a gyngir gan y Rhaglen Weithredol, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o sut y byddant yn cynnig manteision a gwerth ychwanegol i Ddwyrain Cymru a rôl yr UE mewn datblygiad rhanbarthol yng Nghymru. Bydd yr Awdurdod Rheoli'n sicrhau tryloywder o ran y cymorth a ddarperir gan y cronfeydd yn ei weithgareddau cyfathrebu.

6.134 Bydd yr Awdurdod Rheoli'n sicrhau fod canllawiau cyhoeddusrwydd digonol ar gael i noddwyr prosiectau a bod noddwyr prosiectau'n cwrdd â'r angen dan Reolau'r Comisiwn (Erthygl 69(1) a'r Rheoliadau Gweithredu) am iddynt roi cyhoeddusrwydd i'r nawdd a dderbynnir o raglenni Cronfeydd Strwythurol.

6.135 Mae'r symiau a neilltuir i gefnogi'r Awdurdod Rheoli yn ei waith o ledaenu gwybodaeth, cyhoeddusrwydd a chyfathrebiadau er gwybodaeth a chyhoeddusrwydd wedi eu pennu yn y Flaenoriaeth Cymorth Technegol.

6.136 Bydd yr Awdurdod Rheoli'n dynodi un neu fwy o unigolion i fod yn gyfrifol am weithredu mesurau gwybodaeth a chyhoeddusrwydd ac yn rhoi gwybod i'r Comisiwn pwy yw'r unigolyn/unigolion a ddynodwyd.

PENNOD 7: DYRANIADAU ARIANNOL

Cyflwyniad

7.1 Mae'r adran hon yn egluro sut y dyrennir adnoddau i weithredu'r strategaeth a'r Blaenoriaethau a ddynodir ym Mhennod 4. Yn ychwanegol at gynnig rhesymeg ar gyfer dyraniadau ariannol lefel blaenoriaeth a chyfraddau ymyrryd arfaethedig, mae hefyd yn cynnwys y tablau ariannol manwl sy'n angenrheidiol dan Erthygl 37(e) o Reoliad Cyffredinol [1083/2006] yr UE. Mae'r tablau'n darparu dadansoddiad o gyfanswm y neilltuad ariannol fesul blwyddyn a dadansoddiad o'r cyfraniad Cymunedol a chenedlaethol fesul Blaenoriaeth.

Ariannu Rhaglenni

7.2 Mae'r Canllawiau Strategol Cymunedol yn pwysleisio pwysigrwydd canolbwyntio adnoddau'n thematig ac yn ddaearyddol ar fuddsoddiadau sy'n sylfaenol ar gyfer cynyddu cystadleurwydd a chyflogaeth ranbarthol hirdymor, cread swyddi a datblygiad cynaliadwy. Wrth benderfynu sut orau i ddyrannu adnoddau i ategu'r rhaglenni cystadleurwydd a chyflogaeth ranbarthol, ystyriwyd amrediad o faterion. Yn eu plith mae:

- blaenoriaethau'r rhaglenni a sut y gall y Cronfeydd Strwythurol gyfrannu orau at fynd i'r afael â'r rhain mewn ffyrdd sy'n rhyngwynebu â rhaglenni domestig, sut y gall y rhaglenni Cronfeydd Strwythurol cymharol fychan ychwanegu gwerth at ymyriadau domestig, a sut y gall blaenoriaethau polisi ychwanegu gwerth at strategaethau a gweithredoedd cyfredol;
- yr angen am 'glustnodi' adnoddau yn erbyn blaenoriaethau sy'n ategu strategaeth Lisboa; Mae polisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer datblygiad economaidd a ddisgrifir yn Cymru: Economi yn Ffynnu, yn cyd-fynd ag agenda Lisboa. Mae hyn yn gofyn am gynyddu adnoddau mewn meysydd megis sgiliau a chyflogaeth. Bydd 98% o adnoddau ESF dan y Rhaglen yn cyfrannu at dargedau clustnodi Lisboa;
- gwersi a ddysgwyd o brofiad effeithiolrwydd Cynllun Amcan 3 2000 – 2006, yn cynnwys yr angen am strwythurau a threfniadau gweithredu symlach i'r rhaglen er mwyn hyrwyddo cyflwyniad cydlynol;
- yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y rhaglen ddrafft;
- y gallu i amsugno adnoddau sydd ar gael o fewn y fframwaith amser N+2 sy'n ofynnol dan y rheoliadau;
- argaeledd nawdd cyfatebol;
- anghenion nawdd gwladwriaethol; a
- y rhyngwyneb gyda rhaglenni Ewropeaidd eraill megis y Gronfa Datblygiad Amaethyddiaeth Ewropeaidd a'r Gronfa Pysgodfeydd Ewropeaidd.

7.3 Mae'r Tablau Ariannol yn dangos sut y bydd gwariant rhaglenni'n cael ei ddyrannu ar draws dwy flaenoriaeth y Rhaglen. Wrth baratoi'r tablau hyn, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ystyried y Canllawiau Integredig ar gyfer Twf a Swyddi yn ogystal â'r Canllawiau Strategol Cymunedol sy'n pwysleisio pwysigrwydd canolbwyntio gwariant ar feysydd fydd yn hyrwyddo economi cystadleuol a yrrir gan wybodaeth gyda phwyslais drwy'r rhaglen ar wthio lefelau cyflogaeth i fyny a chodi lefelau sgiliau ymysg y gweithlu.

7.4 Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi cymryd i ystyriaeth asesiad y Comisiwn Ewropeaidd o Raglenni Diwygio cenedlaethol y Du fel y'i pennir yn Adroddiad Cynnydd Blynnyddol 2006 ar Dwf a Swyddi "*Time to Move Up a Gear*" ac argymhelliad dilynol y Cyngor Ewropeaidd i'r DU ym Mawrth 2007 y dylai "*gynyddu sgiliau sylfaenol a chanolraddol, er mwyn cynyddu cynhyrchiant a gwella rhagolygon cyflogaeth y rhai mwyaf difantais*".

Ariannau Blaenoriaethau

Blaenoriaeth 1

7.5 Nod y flaenoriaeth hon yw codi lefel cyflogaeth ar draws rhanbarth Dwyrain Cymru drwy ostwng lefelau o anweithgarwch economaidd. Tra gwelwyd gwelliant cyflym yn y farchnad lafur yn ystod y blynnyddoedd diwethaf gyda chynnydd mewn cyflogaeth a gostyngiad mewn anweithgarwch economaidd, mae llawer i'w wneud o hyd i fynd i'r afael a'r gwahaniaethau economaidd yn yr isranbarth. Mae dros un rhan o bump o boblogaeth oed gweithio'r isranbarth yn parhau i fod yn economaidd anweithredol gyda rhai grwpiau'n dioddef mwy o anfantais nag eraill o ran cael mynediad i'r farchnad lafur. Mae cyfraddau anweithgarwch economaidd yn parhau'n uchel ymysg pobl gyda chyflyrau sy'n cyfyngu eu gallu i wneud rhai mathau o waith, pobl ag anableddau, pobl a ddosberthir fel NEET, rhieni unigol, pobl o gymunedau Du ac Ethnig Lleiafrifol a phobl hŷn - yn arbennig y rhai â lefel isel o sgiliau. Bydd y rhaglen yn dyrannu oddeutu 46% o'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer helpu pobl i gyflogaeth gynaliadwy, gydag oddeutu 85% o'r nawdd ar gyfer y Flaenoriaeth yn ategu ymyriadau ar gyfer y rhai a ddynodwyd yn economaidd anweithredol.

Blaenoriaeth 2

7.6 Mae cefnogi twf economaidd yn dibynnu nid yn unig ar sicrhau lefelau uwch o gyflogaeth a gweithgarwch economaidd ond hefyd ar sicrhau gweithlu gyda lefel uchel o sgiliau a chynyddu cynhyrchiant. Fel yr amlinellir yn y Dadansoddiad a'r Strategaeth, mae proffil sgiliau'r isranbarth hwn eisoes yn ffafriol gyda chyfran uwch o'i sgiliau ar begwn uchaf y sbectrwm sgiliau, ond serch hynny mae niferoedd arwyddocaol o weithwyr ar draws y rhanbarth â lefelau isel o sgiliau. Yr her allweddol i'r isranbarth o ran codi cynhyrchiant fydd sicrhau fod lefelau sgiliau'r gweithlu'n cael eu datblygu i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau neu brinder yn y sgiliau sydd eu hangen i gefnogi'r sectorau hynny sy'n ychwanegu'r mwyaf o werth. Bydd yn canolbwyntio ar daclo'r lefel isel o sgiliau sylfaenol yn y rhanbarth drwy ariannu darpariaeth hyfforddiant sgiliau sylfaenol, ac yn cefnogi datblygiad sgiliau rheoli ac arwain lefel uwch ar gyfer rheolwyr a gweithwyr mewn mentrau

bychan (hyd at 50 o weithwyr). Bydd hefyd yn cefnogi ymyriadau fydd yn gwella systemau i ddynodi a mynd i'r afael ag anghenion sgiliau'r gweithlu yn y dyfodol.

Graddfeydd ymyriad

7.7 Y gyfradd ymyriad gyfartalog ar gyfer y Rhaglen yw 40%. Mae'r gyfradd hon yn bennaf seiliedig ar brofiad hanesyddol gyda'r Rhaglen Amcan 3 cyfredol ac yn ystyried ffactorau megis cyfyngiadau cymorth gwladwriaethol ac argaeledd cyllid cyfatebol. Byddai unrhyw newid yn y cyfraddau hyn yn digwydd yn unol â'r amodau a nodwyd yn Rheoliad yr UE [1083/2006] Erthygl 52.

Cyfradd Ad-dalu

7.8 Yn unol ag Erthygl 53(1) Rheoliad yr UE [1083/2006] cyfrifir y cyfraniad o'r ESF gan gyfeirio at yr holl wariant cymwys, yn cynnwys gwariant cyhoeddus a phreifat.

Tabl 31 – Rhaglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol ESF Dwyrain Cymru 2007-2013
Cyfeirnod Rhaglen Weithredol (Rhif CCI Number): 2007UK052PO001
Echelinau Blaenoriaeth fesul ffynhonnell ar gyfer y rhaglen (mewn miliynau ewro)

Er gwybodaeth								
	Nawdd Cymunedol	Cyfatebydd Cenedlaethol	Dadansoddiad dangosol o'r cyfatebydd cenedlaethol		Cyfanswm Nawdd	Cyfradd Cyd-ariannu	Cyfraniadau EIB	Nawdd arall
	(a)	(b) = (c) + (d)	Nawdd Cyhoeddus Cenedlaethol (c)	Nawdd Cenedlaethol Preifat (d)	(e) = (a) + (d)	(f) = (a) / (e)		
B1	Blaenoriaeth 1 Cynyddu cyflogaeth a mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd	29,785,196	44,677,797	37,610,921	7,066,876	74,462,993	40.000000%	
B2	Blaenoriaeth 2 Gwella lefelau sgiliau a hyblygrwydd y gweithlu	32,512,256	48,768,374	39,590,043	9,178,331	81,280,630	40.000000%	
B5	Cymorth Technegol	1,300,000	1,300,000	1,300,000	0	2,600,000	50.000000%	
	CYFANSWM	63,597,452	94,746,171	78,500,964	16,245,207	158,343,623	40.16420%	

**Tabl 32 - Rhaglen weithredol Cystadleurwydd a Chyflogaeth Dwyrain Cymru
Cyfeirnod Rhaglen (Rhif CCI): 2007UK052PO001
Blynnyddoedd fesul ffynonellau ar gyfer y rhaglen (mewn miliynau ewro)**

	Nawdd Cymunedol	Cyfatebydd Cenedlaethol	Dadansoddiad dangosol o'r cyfatebydd cenedlaethol		Cyfanswm Nawdd	Cyfradd Cyd-ariannu
			Arian cyhoeddus cenedlaethol(c)	Arian cyhoeddus preifat (d)		
	(a)	(b) = (c) + (d)			(e) = (a) + (d)	(f) = (a) / (e)
2007	8,554,618	12,744,494	10,559,319	2,185,175	21,299,112	40.16%
2008	8,725,710	12,999,383	10,770,505	2,228,878	21,725,093	40.16%
2009	8,900,224	13,259,370	10,985,914	2,273,456	22,159,594	40.16%
2010	9,078,229	13,524,558	11,205,633	2,318,925	22,602,787	40.16%
2011	9,259,793	13,795,048	11,429,745	2,365,303	23,054,841	40.16%
2012	9,444,989	14,070,949	11,658,340	2,412,609	23,515,938	40.16%
2013	9,633,889	14,352,369	11,891,508	2,460,861	23,986,258	40.16%
Cyfanswm 2007-2013	63,597,452	94,746,171	78,500,964	16,245,207	253,089,794	25.13%

Tabl 33 - Dyraniadau dangosol yn ôl y categori o ymyrraeth¹⁷¹

TABL 1	CODAU AR GYFER Y DIMENSIWN THEMÂU BLAENORIAETH	
Cod	Disgrifiad	Cyfansum y Gymuned (€)
66	Gweithredu mesurau gweithredol ac ataliol ar y farchnad lafur	11,532,853
71	Llwybrau i integreiddio mewn cyflogaeth ac ail-gymryd a chyflogaeth ar gyfer pobl ddifreintiedig ...	18,252,343
72	Cynllunio, cyflwyno a gweithredu diwygiadau mewn systemau addysg a hyfforddiant ...	11,624,930
73	Mesurau i gynyddu cyfranogiad mewn addysg a hyfforddiant drwy gydol y cylch oes ...	20,887,326
85	Paratoi, gweithredu, monitro ac archwilio	650,000
86	Gwerthusiadau ac astudiaethau; gwybodaeth a chyfathrebu	650,000
Cyfanswm		63,597,452
TABL 2	CODAU AR GYFER Y DIMENSIWN MATH O GYLLID	
01	Cymorth nad yw'n ad-daladwy	63,597,452
Cyfanswm		63,597,452
TABL 3	CODAU AR GYFER DIMENSIWN TIRIOGAETHOL	
00	Ddim yn berthnasol	63,597,452
Cyfanswm		63,597,452
TABL 4	CODAU AR GYFER Y DIMENSIWN GWEITHGARWCH ECONOMAIDD	
00	Ddim yn berthnasol	63,597,452
Cyfanswm		63,597,452
TABL 5	CODAU AR GYFER Y DIMENSIWN LLEOLIAD	
UKL1	Dwyrain Cymru	

¹⁷¹ Mae'r categorïau hyn o wariant yn rhai dangosol ac maent er gwybodaeth yn unig

Ar gyfer ymholiadau cysylltwch â WEFO ar:

Rhif Ffôn: 0845 010 3355

WEFO Cangen Polisi
Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

<http://www.wefo.cymru.gov.uk>

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

0845 010 3355

www.wefo.cymru.gov.uk